# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2012**
**Wednesday, 4 July 2012**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

25 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions to the Minister for Local Government and Communities

52 Cynnig o dan Adran 19(5)(a) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011
Motion under Section 19(5)(a) of the Public Bodies Act 2011

64 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog Rhif 11.21(iv): Oedran Pleidleisio
Debate by Individual Members under Standing Order No. 11.21(iv): Voting Age

85 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cymunedau Gwledig
Welsh Conservatives Debate: Rural Communities

114 Dadl Plaid Cymru: Trident
Plaid Cymru Debate: Trident

141 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

151 Dadl Fer: Clefydau Anghyffredin
Short Debate: Rare Diseases

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi. Yn y golofn dde, cynhwysir trawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken. The right-hand column contains a transcription of the simultaneous interpretation.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Order. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Trefn. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
## Questions to the Minister for Education and Skills

### Addysg Brifysgol

### University Education

***1. Elin Jones:*** *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad addysg brifysgol yng Nghymru. OAQ(4)0150(ESK)*

***1. Elin Jones:*** *How does the Welsh Government support the development of university education in Wales. OAQ(4)0150(ESK)*

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Dechreuaf drwy groesawu Gweinidog Addysg Gogledd Iwerddon, John O'Dowd, sy'n eistedd yn oriel y cyhoedd.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I start by welcoming Northern Ireland's Minister for Education, John O'Dowd, who is sitting in the public gallery.

Yn ystod oes y pedwerydd Cynulliad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi tua £3.6 biliwn i gefnogi myfyrwyr. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i roi arian sylweddol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a bydd hwnnw ar gael i'r sefydliadau. Rydym yn credu bod addysg yn cynrychioli budd i'r cyhoedd, un sydd o les i'r unigolyn ac i'r gymuned.

The Welsh Government will provide approximately £3.6 billion to support students during the lifetime of this fourth Assembly. In addition, we will continue to provide substantial funding to the Higher Education Funding Council for Wales, and that will be available to institutions. We believe that education represents a public good, one that benefits both the individual and society.

**Elin Jones:** Fe wnaeth etholwr gysylltu â mi yn ddiweddar i ddweud ei fod yn bwriadu gwneud cwrs gradd pedair blynedd mewn peirianneg ond ei fod eisiau gwneud blwyddyn o waith mewn diwydiant yn gyntaf cyn cychwyn y cwrs. Yr oedd yn becso na fyddai'ch cynllun ariannu myfyrwyr chi ar gael pe bai'n gohirio cychwyn ei gwrs. A fedrwch roi cadarnhad iddo fe, ac i fi hefyd, y bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r ffïoedd yn llawn—dros y £3,000 cyntaf, wrth gwrs—pryd bynnag y bydd yn cychwyn ar ei gwrs rhwng nawr a 2015?

**Elin Jones:** A constituent contacted me recently to say that he intended to undertake a four-year degree course in engineering but that he wanted to do a year in industry first before starting the course. He was worried that your student finance plans would no longer be available if he deferred the start of his course. Could you give him, and me, confirmation that the Welsh Government will pay the fees in full—over the first £3,000, of course—whenever he decides to start his course between now and 2015?

**Leighton Andrews:** Rydym yn cefnogi'r cynllun hyd at 2016. Anogaf yr Aelod i ysgrifennu ataf o ran y pwynt hwn.

**Leighton Andrews:** We will be supporting the scheme up to 2016. I encourage the Member to write to me on that point.

**William Graham:** The announcement of the merger between Newport and Glamorgan universities will greatly help higher education

**William Graham:** Bydd y cyhoeddiad am uno prifysgolion Casnewydd a Morgannwg yn gymorth mawr i addysg uwch yn Nwyrain

in South Wales East. You will know that both those universities have a long tradition of attracting overseas students. How do you hope to be able to balance the need to accept overseas students with our own student acceptances for those universities?

De Cymru. Gwyddoch fod gan y ddwy brifysgol hynny draddodiad hir o ddenu myfyrwyr tramor. Sut yr ydych yn gobeithio gallu sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i dderbyn myfyrwyr tramor a derbyn ein myfyrwyr ein hunain i'r prifysgolion hynny?

**Leighton Andrews:** I do not see any difficulty in reconciling the opportunities for overseas students coming to study in the new merged institution that is being discussed by the leadership of both the University of Glamorgan and the University of Newport. They both have excellent track records on attracting students from overseas, and they understand well the challenges and the balances that they have to maintain. There should be no change in that following any merger that may take place. I will say today that I very much welcome the moves by the leadership of both institutions to begin those conversations. I think that it sends a strong message to higher education throughout Wales.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn gweld unrhyw anhawster o ran darparu cyfleoedd i fyfyrwyr tramor sy'n dod i astudio yn y sefydliad cyfun newydd sy'n cael ei drafod gan arweinwyr Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Casnewydd. Mae gan y ddwy hanes rhagorol o ddenu myfyrwyr o dramor, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r heriau a'r cydbwysedd y mae'n rhaid iddynt ei gynnal. Ni ddylai fod unrhyw newid yn hynny yn dilyn unrhyw uno a allai ddigwydd. Dywedaf heddiw fy mod yn croesawu'n fawr y camau gan arweinwyr y ddau sefydliad i ddechrau'r trafodaethau hynny. Credaf fod hyn yn anfon neges gref i addysg uwch ledled Cymru.

**Y Gymraeg yn Ail Iaith**

**Welsh as a Second Language**

***2. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiadau addysgol mewn ysgolion uwchradd lle mae'r iaith Gymraeg yn ail iaith. OAQ(4)0153(ESK)*

***2. Bethan Jenkins:*** *Will the Minister make a statement on educational developments in secondary schools where the Welsh language is a second language. OAQ(4)0153(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnwys amcan penodol i wella addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith, ac rwyf yn bwriadu cyhoeddi cynllun i fwrw ymlaen â hyn.

**Leighton Andrews:** The Welsh-medium education strategy includes a specific objective to improve teaching and learning in Welsh as a second language, and I intend to publish a plan to take this forward.

**Bethan Jenkins:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw. Mae nifer o bobl wedi dod i fy swyddfa yn poeni am y ffaith bod nifer o athrawon mewn ysgolion ail iaith yn cael eu tynnu o'u pynciau arbenigol, megis chwaraeon, i ddysgu Cymraeg ail iaith gan nad oes digon o hyfforddiant yn cael ei roi i'r athrawon penodol hynny, ac nad oes digon o gyllid i gefnogi'r athrawon hynny sydd ddim yn arbenigo mewn dysgu'r Gymraeg. A wnewch chi edrych i mewn i hyn fel rhan o'ch cynllun?

**Bethan Jenkins:** Thank you for that response. Many people have been coming to my office with concerns about the fact that many teachers in second-language Welsh schools are being taken away from their specialist subjects, such as sports, to teach Welsh as a second language as not enough training is being given to those specific teachers, and there is not enough funding to support those teachers who do not specialise in teaching Welsh. Will you look into that as part of your plan?

**Leighton Andrews:** Byddwn yn hapus i edrych i mewn i'r sefyllfa. Mae'n amlwg ein bod yn cefnogi'r cynllun sabothol. Rydym yn buddsoddi yn y cynllun hwnnw i sicrhau bod

**Leighton Andrews:** I would be happy to look into the position. Obviously, we support the sabbatical scheme. We invest in that scheme to ensure that more teachers are able

mwy o athrawon yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond rwy'n meddwl bod rhaid inni edrych ar y sefyllfa ar hyn o bryd o ran y Gymraeg fel ail iaith, a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol agos.

to teach through the medium of Welsh, but I think that we have to look at the situation with Welsh as a second language currently, and we will do that in the near future.

**Suzy Davies:** Clywais yr ymateb a roesoch i Bethan Jenkins am ddatblygiadau'r sector uwchradd, ond mae perswadio teuluoedd ac athrawon am effaith gadarnhaol dwyieithrwydd yn dechrau llawer ynghynt. Sut y byddwch yn cefnogi athrawon mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd di-Gymraeg o ran hynny?

**Suzy Davies:** I heard the response that you gave to Bethan Jenkins about developments in the secondary sector, but convincing families and teachers of the positive effects of bilingualism starts far earlier. How will you support teachers in non-Welsh-speaking nurseries and primary schools in that regard?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi cyflwyno Bil newydd i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, a byddwn yn trafod y Bil newydd yn y dyfodol agos yn y Cynulliad.

**Leighton Andrews:** We have introduced a new Bill to ensure that every local authorities assess the demand for Welsh-medium education, and we will be discussing that new Bill in the Assembly in the near future.

**Blaenoriaethau Addysgol (Aberafan)**

**Education Priorities (Aberavon)**

***3. David Rees:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru ar gyfer Aberafan dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0162(ESK*)

***3. David Rees:*** *Will the Minister outline the Welsh Government's education priorities for Aberavon over the next 12 months. OAQ(4)0162(ESK*)

**Leighton Andrews:** Our priority for Aberavon, as in other parts of Wales, is to implement the aims of the programme for government and help all learners to reach their potential.

**Leighton Andrews:** Ein blaenoriaeth ar gyfer Aberafan, fel mewn rhannau eraill o Gymru, yw gweithredu amcanion y rhaglen lywodraethu a helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial.

**David Rees:** Thank you for that answer, Minister. Every school across Wales and in Aberavon rely on the expertise of supply teachers to provide pupils with high educational standards when permanent staff are ill or are undertaking continuing professional development activities. I have met with teaching unions who have expressed concern about the challenges faced by some of the agencies that provide supply teachers to schools. What is the Welsh Government doing to ensure that highly experienced teachers, some of whom want to work as supply teachers and are excellent at that job, do not leave the profession owing to changes in agencies' rules and conditions? What arrangements are being made by those agencies to ensure that the teachers on their books can continue to update their CPD and keep up with the requirements of their profession?

**David Rees:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae pob ysgol ledled Cymru ac yn Aberafan yn dibynnu ar arbenigedd athrawon cyflenwi i ddarparu addysg o safon uchel i ddisgyblion pan fydd staff parhaol yn sâl neu'n ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus. Rwyf wedi cyfarfod ag undebau athrawon sydd wedi mynegi pryder am yr heriau a wynebir gan rai o'r asiantaethau sy'n darparu athrawon cyflenwi i ysgolion. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau nad yw athrawon hynod brofiadol, y mae rhai ohonynt yn awyddus i weithio fel athrawon cyflenwi ac sy'n gwneud y gwaith hwnnw yn wych, yn gadael y proffesiwn oherwydd newidiadau i reolau ac amodau asiantaethau? Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud gan yr asiantaethau hynny i sicrhau bod yr athrawon sydd ar eu llyfrau yn gallu parhau gyda'u datblygiad proffesiynol parhaus a chadw i

fyny â gofynion eu proffesiwn?

**Leighton Andrews:** My colleague, the Member for Aberavon, is right to raise this issue. There are a significant number of concerns regarding the use of supply teachers and their employment by agencies across Wales. I have discussed this with the teaching unions in the past. Indeed, I have even suggested to the teaching unions that they might like to consider the formation of a teacher-owned co-operative for supply purposes. I have commissioned a review of the use of supply teachers, which will be jointly undertaken by our education inspectorate, Estyn, and by the Wales Audit Office. The review will focus on the arrangements that schools have to ensure continuity of learning during teacher absence, and the relative deployment of supply teachers within the overall provision. It will also explore how supply teachers undertake relevant training and keep up to date with current educational priorities.

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, yn iawn i godi'r mater hwn. Ceir nifer sylweddol o bryderon ynghylch y defnydd o athrawon cyflenwi a'r modd y cânt eu cyflogi gan asiantaethau ledled Cymru. Rwyf wedi trafod hyn â'r undebau athrawon yn y gorffennol. Yn wir, rwyf hyd yn oed wedi awgrymu wrth yr undebau athrawon efallai y byddent yn hoffi ystyried ffurfio asiantaeth gydweithredol dan berchnogaeth athrawon at ddibenion darparu athrawon cyflenwi. Rwyf wedi comisiynu adolygiad o'r defnydd o athrawon cyflenwi, a fydd yn cael ei gynnal ar y cyd gan ein harolygiaeth addysg, Estyn, a Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y trefniadau sydd gan ysgolion i sicrhau dilyniant yn y dysgu pan fydd athrawon yn absennol, a'r defnydd cymharol o athrawon cyflenwi yn y ddarpariaeth yn gyffredinol. Bydd hefyd yn archwilio sut y mae athrawon cyflenwi yn cael hyfforddiant perthnasol ac yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r blaenoriaethau cyfredol ym maes addysg.

**Byron Davies:** Good afternoon, Minister. You have commented frankly that there is a 'systemic failure' in the Welsh education system. Professor David Reynolds described this use of terminology as

'the most damning assessment of an educational system that has ever been uttered in the UK'.

Given the fact that the Welsh education system is failing, to use your words, in the interests of the good people of Aberavon and Wales generally, can you tell us how you will address the worrying statistic that 40% of pupils start secondary school with a reading age of at least six months below their chronological age? Will you outline your target for success for the national literacy programme?

**Byron Davies:** Prynhawn da, Weinidog. Rydych wedi dweud yn blaen bod methiant systemig yn system addysg Cymru. Disgrifiodd yr Athro David Reynolds y defnydd hwn o derminoleg fel

yr asesiad mwyaf damniol o system addysg sydd erioed wedi ei yngan yn y DU.

O ystyried bod system addysg Cymru yn methu, a defnyddio eich geiriau chi, er budd pobl dda Aberafan a Chymru yn gyffredinol, a allwch ddweud wrthym sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r ystadegyn sy'n peri gofid, sef bod 40% o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol uwchradd gydag oedran darllen o leiaf chwe mis yn is na'u hoedran cronolegol? A wnewch chi amlinellu eich targed ar gyfer llwyddiant yng nghyswllt y rhaglen lythrennedd genedlaethol?

**Leighton Andrews:** We launched a consultation on the national literacy and numeracy framework just a few months ago, and it is well under way. I am pleased that all local authorities have ensured that reading

**Leighton Andrews:** Bu inni lansio ymgynghoriad ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ychydig fisoedd yn unig yn ôl, ac mae gwaith wedi hen ddechrau arno. Rwyf yn falch bod pob awdurdod lleol wedi

tests have been undertaken nationally in schools on a voluntary basis this year. There will be national tests in place for years 2 to 9 next year. We have published the national literacy programme, and we will be publishing the national numeracy programme in September. We have taken the action that I believe is necessary.

sicrhau bod profion darllen wedi cael eu cynnal yn genedlaethol mewn ysgolion yn wirfoddol eleni. Bydd profion cenedlaethol ar waith ar gyfer blynyddoedd 2 i 9 y flwyddyn nesaf. Rydym wedi cyhoeddi'r rhaglen lythrennedd genedlaethol, a byddwn yn cyhoeddi'r rhaglen rifedd genedlaethol ym mis Medi. Rydym wedi cymryd y camau sy'n angenrheidiol yn fy marn i.

**Bethan Jenkins:** Minister, as you know, Neath Port Talbot College has confirmed that it has received provisional Welsh Government approval for a £28 million-worth new site in the rejuvenated docks area of the town. Principal Mark Dacey told the *South Wales Evening Post* that there was still work to be done with the Welsh Government, adding that he hoped that the details would become clearer by the end of the year. What work has been done in this area?

**Bethan Jenkins:** Weinidog, fel y gwyddoch, mae Coleg Castell-nedd Port Talbot wedi cadarnhau ei fod wedi cael cymeradwyaeth amodol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer safle newydd gwerth £28 miliwn yn ardal y dociau yn y dref sydd wedi cael ei hadfywio. Dywedodd y Prifathro, Mark Dacey wrth y *South Wales Evening Post* fod gwaith i'w wneud o hyd gyda Llywodraeth Cymru, gan ychwanegu ei fod yn gobeithio y byddai'r manylion yn dod yn gliriach erbyn diwedd y flwyddyn. Pa waith sydd wedi'i wneud yn y maes hwn?

**Leighton Andrews:** There are conversations going on with further education colleges and all local authorities in Wales in respect of capital investments, and I am not going to provide a running commentary in the Chamber on each and every one of those.

**Leighton Andrews:** Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â cholegau addysg bellach a phob awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch buddsoddiadau cyfalaf, ac nid wyf am roi sylwebaeth barhaus yn y Siambr ar bob un o'r rheini.

**Estyn**

*4.* ***Mike Hedges:*** *Pa weithdrefnau craffu y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar waith a swyddogaeth Estyn. OAQ(4)0151(ESK)*

**Estyn**

***4. Mike Hedges***: *What scrutiny procedures does the Welsh Government undertake on the work and role carried out by Estyn. OAQ(4)0151(ESK*)

**Leighton Andrews:** Estyn is an independent organisation, and questions on operational matters such as scrutiny procedures should be referred to Ann Keane, chief inspector of education and training in Wales. I meet the chief inspector on a regular basis, and I publish an annual remit letter.

**Leighton Andrews:** Mae Estyn yn sefydliad annibynnol, a dylid cyfeirio cwestiynau am faterion gweithredol megis gweithdrefnau craffu at Ann Keane, sef prif arolygydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Byddaf yn cyfarfod â'r prif arolygydd yn rheolaidd, ac rwyf yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith bob blwyddyn.

**Mike Hedges:** Would you consider suggesting to her that we need people to inspect the inspectors? Estyn is run on its own and, while it spends a lot of time inspecting other people, I believe that anyone who undertakes inspection should be inspected themselves. I ask the Minister to raise that point with Ann Keane.

**Mike Hedges:** A fyddech yn ystyried awgrymu wrthi bod arnom angen pobl i arolygu'r arolygwyr? Caiff Estyn ei redeg ar ei ben ei hun ac, er ei fod yn treulio llawer o amser yn arolygu pobl eraill, credaf y dylai unrhyw un sy'n ymgymryd â gwaith arolygu gael eu harolygu eu hunain. Gofynnaf i'r Gweinidog godi'r pwynt hwnnw gydag Ann

Keane.

**Leighton Andrews:** Estyn is subject to external audit from the Wales Audit Office and to internal audit, and Estyn's internal audit reports come to the audit committee. It also consults regularly with stakeholders. Let me say that we do not actually get many complaints about Estyn. We got about six formal complaints last year. Each provider that is inspected completes a post-inspection questionnaire, and those are analysed carefully. I invite my colleague, the Member for Swansea East, to write to me if he has any specific issues that he wants me to examine.

**Leighton Andrews:** Mae Estyn yn cael ei archwilio'n allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn cael ei archwilio'n fewnol, ac mae adroddiadau archwiliadau mewnol Estyn yn dod i'r pwyllgor archwilio. Mae hefyd yn ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid. Gadewch imi ddweud nad ydym mewn gwirionedd yn cael llawer o gwynion am Estyn. Cawsom tua chwe chŵyn ffurfiol y llynedd. Bydd pob darparwr sy'n cael ei arolygu yn llenwi holiadur ar ôl yr arolygiad, a chaiff y rheini eu dadansoddi'n ofalus. Rwyf yn gwahodd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, i ysgrifennu ataf os oes ganddo unrhyw faterion penodol y mae am imi eu harchwilio.

**Russell George:** With the chief inspector admitting that the organisation has been complacent and has contributed to the slide of school standards in Wales, does the Minister agree that the current levels of remuneration within Estyn are equal to the standards of the level of performance that it has set itself in its strategic plan?

**Russell George:** Gyda'r prif arolygydd yn cyfaddef bod y sefydliad wedi bod yn hunanfodlon a'i fod wedi cyfrannu at y dirywiad yn safonau ysgolion yng Nghymru, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod lefelau tâl presennol Estyn yn cyfateb i'r safonau o ran lefel perfformiad y mae wedi'u gosod iddo'i hun yn ei gynllun strategol?

**Leighton Andrews:** Yes, I do. The Member needs to be aware that Estyn introduced its new common inspection framework from September 2010, and the current chief inspector was very much involved in the development of that framework. Those who have been through the new inspection process will know precisely how challenging it is, whether they are in schools or in local authorities.

**Leighton Andrews:** Ydw. Mae angen i'r Aelod fod yn ymwybodol bod Estyn wedi cyflwyno ei fframwaith arolygu cyffredin newydd o fis Medi 2010, a bu'r prif arolygydd presennol yn ymwneud llawer iawn â datblygu'r fframwaith hwnnw. Bydd y rhai sydd wedi bod drwy'r broses arolygu newydd yn gwybod yn union pa mor heriol ydyw, p'un a ydynt mewn ysgolion neu mewn awdurdodau lleol.

**Kenneth Skates:** Wrexham County Borough Council spent more than £400,000 on temporary agency staff and teacher cover during the past financial year, mainly through national recruitment firms. It must be pointed out that the figure compares very favourably with that in other LEAs around the UK, but I am sure that you will agree that it is important to monitor such costs to keep budgets manageable. What assessment have you made of the spend across Wales on agency staff, and what work are you doing with local authorities to ensure value for money for local schools and parents?

**Kenneth Skates:** Gwariodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fwy na £400,000 ar staff asiantaeth dros dro ac athrawon cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn bennaf drwy gwmnïau recriwtio cenedlaethol. Rhaid tynnu sylw at y ffaith bod y ffigur hwnnw'n cymharu'n ffafriol iawn â'r ffigur mewn AALlau eraill o amgylch y DU, ond rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig monitro costau o'r fath er mwyn cadw rheolaeth ar gyllidebau. Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r gwariant ar staff asiantaeth ledled Cymru, a pha waith yr ydych yn ei wneud gydag awdurdodau lleol i sicrhau gwerth am arian i ysgolion lleol a rhieni?

**Leighton Andrews:** My colleague, the Member for Clwyd South, will have heard my answer to my colleague, the Member for Aberavon, when I said that we have jointly commissioned a study of the current level of supply teaching and the use of agencies by local authorities across Wales. I look forward to receiving that report in due course.

**Leighton Andrews:** Bydd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Dde Clwyd, wedi clywed fy ateb i'm cydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, pan ddywedais ein bod wedi comisiynu astudiaeth ar y cyd sy'n ystyried lefel yr athrawon cyflenwi a ddefnyddir ar hyn o bryd a'r defnydd o asiantaethau gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Edrychaf ymlaen at gael yr adroddiad hwnnw maes o law.

**Y Cwricwlwm yn Lloegr**

**The Curriculum in England**

***5. Julie Morgan:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ynglyn â'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm yn Lloegr. OAQ(4)0156(ESK)*

***5. Julie Morgan***: *What discussions has the Minister had with the Secretary of State for Education about proposed changes to the curriculum in England. OAQ(4)0156(ESK)*

**Leighton Andrews:** I am fully aware of the proposed changes to the curriculum in England, and my officials have recently had discussions on these matters with officials from the Department for Education. However, as a devolved area, the national curriculum in Wales is entirely a matter for the Welsh Government.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm yn Lloegr, ac mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau yn ddiweddar am y materion hyn gyda swyddogion o'r Adran Addysg. Fodd bynnag, fel maes sydd wedi'i ddatganoli, mater i Lywodraeth Cymru yn unig yw'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for that response. Can the Minister assure the people of Wales that no aspect of the Govine agenda will be followed here, especially not a return to the split system of O-levels and CSEs, and that he will make his choices in the interests of Wales and not in the interests of a would-be Tory leader?

**Julie Morgan:** Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. A all y Gweinidog roi sicrwydd i bobl Cymru na fydd unrhyw agwedd ar agenda Govine yn cael ei dilyn yn y fan hon, yn enwedig dychwelyd i'r system ranedig o gymwysterau lefel O a TAU, ac y bydd yn gwneud ei ddewisiadau er budd Cymru ac nid er budd rhywun a fyddai'n dymuno bod yn arweinydd y Torïaid?

**Leighton Andrews:** I thank my colleague, the Member for Cardiff North, for that question. I reassure her that there will be no return to O-levels in Wales, and my colleague, the Deputy Minister for Skills, is leading on a proper qualifications review that will be deliberate, considered and will reach conclusions that are appropriate to Wales. I look forward to discussing these matters with the Northern Ireland Minister for Education this afternoon.

**Leighton Andrews:** Diolch i'm cydweithiwr, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, am y cwestiwn hwnnw. Gallaf ei sicrhau na fydd unrhyw gamau i ddychwelyd i gymwysterau lefel O yng Nghymru, ac mae fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, yn arwain adolygiad priodol o gymwysterau a fydd yn bwrpasol ac yn ystyriol ac a fydd yn dod i gasgliadau sy'n briodol i Gymru. Edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn â Gweinidog Addysg Gogledd Iwerddon y prynhawn yma.

**Antoinette Sandbach:** Given that we are now at a crossroads for qualification systems,

**Antoinette Sandbach:** O ystyried ein bod bellach ar groesffordd ar gyfer systemau

with both England and Wales consulting on the future of GCSEs, do you recognise that Welsh students need a qualification that is competitive, internationally recognised and has the confidence of the universities and employers to which Welsh students will be applying once they have left school, and will you confirm that it is not your sole intention for Wales to go it alone with new qualifications?

cymwysterau, gyda Chymru a Lloegr yn ymgynghori ar ddyfodol TGAU, a ydych yn cydnabod bod angen cymhwyster ar fyfyrwyr Cymru sy'n gystadleuol, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ac sydd yn ennyn hyder y prifysgolion a'r cyflogwyr y bydd myfyrwyr Cymru yn gwneud cais iddynt unwaith y byddant wedi gadael yr ysgol, ac a wnewch chi gadarnhau nad eich unig fwriad yw i Gymru fwrw ymlaen ar ei phen ei hun gyda chymwysterau newydd?

**Leighton Andrews:** Yes.

**Leighton Andrews:** Gwnaf.

**William Powell:** What discussions have you had with the Secretary of State surrounding the comparative developments of modern, foreign and European languages? This is particularly in the context of the Centre for Information on Language Teaching and Research Cymru's triple literacy action plan at key stages 2 and 3 and Wales's long-standing commitment to its European identity.

**William Powell:** Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y datblygiadau cymharol ym maes ieithoedd tramor modern ac ieithoedd Ewropeaidd? Mae hyn yn benodol yng nghyd-destun cynllun gweithredu llythrennedd triphlyg Canolfan Wybodaeth ac Ymchwil Cymru ar Ddysgu Ieithoedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ac ymrwymiad hirsefydlog Cymru i'w hunaniaeth Ewropeaidd.

**Leighton Andrews:** None.

**Leighton Andrews:** Dim.

1.45 p.m.

### Cynlluniau Gwella Ysgolion

### School Improvement Plans

***6. Peter Black:*** *Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod cynlluniau gwella ar gyfer yr ysgolion hynny ym mandiau 4 a 5 wedi'u rhyddhau i Aelodau'r Cynulliad. OAQ(4)0149(ESK)*

***6. Peter Black:*** *What action has the Minister taken to ensure that improvement plans for those schools in bands 4 and 5 have been made available to Assembly Members. OAQ(4)0149(ESK)*

**Leighton Andrews:** In May, I instructed my officials to ask local authority consortia to make the plans available to Assembly Members as and when requested. Any request for these plans will need to be made to the relevant consortium.

**Leighton Andrews:** Ym mis Mai, rhoddais gyfarwyddyd i'm swyddogion ofyn i gonsortia awdurdodau lleol sicrhau bod y cynlluniau ar gael i Aelodau'r Cynulliad yn ôl y galw. Bydd angen gwneud unrhyw gais am y cynlluniau hyn i'r consortiwm perthnasol.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. I have attempted to get hold of these plans from my local education consortium and have been referred to local education authorities. I would be grateful if you could maybe reinforce your advice to the education consortia and make it clear to them what their obligations are in this regard.

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf wedi ceisio cael gafael ar y cynlluniau hyn gan fy nghonsortiwm addysg lleol ac rwyf wedi cael fy nghyfeirio at yr awdurdodau addysg lleol. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu atgyfnerthu eich cyngor i'r consortia addysg, efallai, ac egluro wrthynt beth yw eu rhwymedigaethau yn hyn o beth.

**Leighton Andrews:** I am very happy to do that.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn fodlon gwneud hynny.

**Kenneth Skates:** Minister, an issue raised recently with me locally is the issue of the shortage of PGCE provision in north-east Wales. In previous years, Glyndŵr University offered PGCE courses, but now the nearest place for my constituents wishing to study the course is Bangor, Aberystwyth or across the border at Keele University. Will you look at the availability of PGCE courses within north Wales and ensure that, when we raise standards, we ensure that the best potential teachers are not put off by having to travel too long a distance in order to complete their courses?

**Kenneth Skates:** Weinidog, mater a godwyd gyda mi yn lleol yn ddiweddar yw prinder y ddarpariaeth TAR yn y gogledd-ddwyrain. Yn y gorffennol, roedd Prifysgol Glyndŵr yn cynnig cyrsiau TAR, ond yn awr y lle agosaf i'm hetholwyr sy'n dymuno astudio'r cwrs yw Bangor, Aberystwyth, neu dros y ffin ym Mhrifysgol Keele. A wnewch chi edrych ar argaeledd cyrsiau TAR yn y gogledd a gwneud yn siŵr, pan fyddwn yn codi safonau, ein bod yn sicrhau nad yw'r darpar athrawon gorau yn penderfynu peidio â dilyn cyrsiau oherwydd bod yn rhaid teithio'n rhy bell i'w cwblhau?

**Leighton Andrews:** We have reviewed the provision of initial teacher training across Wales in recent years, and I have obviously moved to restrict the number of places that are available. We probably need to train fewer teachers, so I cannot give my friend the Member for Clwyd South an assurance that we would look to make changes in the provision of teacher training courses across Wales. We will however be looking at the structure of higher education in north-east Wales, as he is aware, under the chairmanship of Professor Sir Adrian Webb, and we will also be looking at the future of initial teacher training as a whole.

**Leighton Andrews:** Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar draws Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, ac rwyf yn amlwg wedi cymryd camau i gyfyngu ar nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae'n debyg bod angen inni hyfforddi llai o athrawon, felly ni allaf roi sicrwydd i'm cyfaill, yr Aelod dros Dde Clwyd y byddem yn ceisio gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth o ran cyrsiau hyfforddiant athrawon ledled Cymru. Fodd bynnag, fel y mae'n gwybod byddwn yn edrych ar strwythur addysg uwch yn y gogledd-ddwyrain, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Adrian Webb, a byddwn hefyd yn edrych ar ddyfodol hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn ei gyfanrwydd.

**Paul Davies:** I understand that schools in bands 4 and 5 will receive £10,000 as additional financial support. Aside from this funding, can the Minister tell us what specific measures are in place to support the improvements of these particular schools?

**Paul Davies:** Rwyf yn deall y bydd ysgolion ym mandiau 4 a 5 yn cael cymorth ariannol ychwanegol gwerth £10,000. Ar wahân i'r arian hwn, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa gamau penodol sydd yn eu lle i gynorthwyo'r ysgolion penodol hyn i wella?

**Leighton Andrews:** The Member for Preseli is well aware of the additional investment that we are putting into schools through the school effectiveness grant and the pupil deprivation grant, which will total around £65 million. That is very much to be targeted at improving performance in all schools and in addressing the gap in attainment between those who are on free school meals and those who are not. We have set down the guidance that explains that, and there is significant new money in the system.

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod dros Breseli yn ymwybodol iawn o'r buddsoddiad ychwanegol yr ydym yn ei wneud mewn ysgolion drwy'r grant effeithiolrwydd ysgolion a'r grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn dod i gyfanswm o tua £65 miliwn. Bwriedir i hynny gael ei dargedu i raddau helaeth at wella perfformiad ym mhob ysgol a mynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu cael. Rydym wedi gosod y canllawiau sy'n egluro hynny, ac

mae arian newydd sylweddol yn y system.

**Simon Thomas:** Hoffwn innau ategu'r croeso—fáilte—i'r Gweinidog o Ogledd Iweddon. I droi at y cynlluniau gwella, Weinidog, rhan allweddol o'r cynlluniau yw mynd i'r afael ag absenoldeb o'r ysgol—neu 'mitsho', fel roeddem yn arfer ei galw. Gan fod lefel absenoldeb yn Lloegr wedi cynyddu ers cyflwyno dirwyon i rieni yno, sut fydd eich cylluniau i ddirwyo rhieni am absenoldeb yng Nghymru yn gwella'r lefelau yma?

**Simon Thomas:** I echo the welcome—fáilte—that you have given to the Minister from Northern Ireland. Turning to the improvement plans, it is crucial that they get to grips with absence from school—or 'mitching', as we used to call it. Since the level of truancy in England has increased since introducing fines for parents there, how will your plans to fine parents for truancy in Wales improve the levels here?

**Leighton Andrews:** It is already within the power of local authorities to issue fines in respect of absence. We have made it clear that we take the issue of absence seriously, and that is why it is one of the factors that is considered within our banding of secondary schools. It is understood now across the whole of Wales how serious this issue is. We lose a significant number of school days compared with other constituent nations of the United Kingdom. We have published our behaviour and attendance action plan and we will in due course bring forward further consultation proposals.

**Leighton Andrews:** Mae gan awdurdodau lleol eisoes y pŵer i roi dirwyon am absenoldeb. Rydym wedi egluro ein bod yn cymryd absenoldeb o ddifrif, a dyna pam y mae'n un o'r ffactorau sy'n cael ei ystyried yn ein system ar gyfer bandio ysgolion uwchradd. Mae difrifoldeb y mater hwn bellach wedi'i ddeall ar draws Cymru gyfan. Rydym yn colli nifer sylweddol o ddiwrnodau ysgol o'n cymharu â'r gwledydd eraill sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun gweithredu ar gyfer ymddygiad a phresenoldeb a byddwn yn cyflwyno cynigion ymgynghori pellach maes o law.

**Simon Thomas:** Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ymateb. Rwy'n sylwi nad oes tystiolaeth o sut y mae dirwyon eu hunain yn mynd i'r afael ag absenoldeb. Beth bynnag, i droi yn fwy cyffredinol at ran rhieni yn y broses o wella ysgolion, mae'r rhan fwyaf yn cytuno eu bod yn hollbwysig wrth wella addysg i blant. Sut fyddwch chi'n gwneud yn siŵr fod gan rieni ran yn y cynlluniau gwella ysgolion? Sut fyddwch chi'n gwneud yn siŵr eu bod hwy, yn ogystal ag Aelodau Cynulliad, yn gwybod am y cynlluniau hynny i wella cyrhaeddiad ysgolion bandiau 4 a 5?

**Simon Thomas:** I am grateful for that response from the Minister. I note that there is no evidence as yet of how fines in and of themselves actually get to grips with truancy. However, in turning more generally to the role of parents in the process of improving schools, most people would agree that they are all-important in improving children's education. How will you ensure that parents do have a role in school improvement programmes? How will you ensure that they, as well as Assembly Members, are aware of those schemes for improving attainment in schools in bands 4 and 5?

**Leighton Andrews:** I am pleased to say that parents have in general reacted very positively to the banding of secondary schools that we introduced last December. We issued material information to parents on the performance of schools and what the banding system means, and information is available to them online. We have also ensured that in order to pass a school inspection by Estyn, every school governing

**Leighton Andrews:** Rwyf yn falch o gael dweud bod rhieni, at ei gilydd, wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r drefn o fandio ysgolion uwchradd a gyflwynwyd gennym fis Rhagfyr diwethaf. Bu inni roi gwybodaeth berthnasol i rieni ar berfformiad ysgolion a'r hyn y mae'r system fandio yn ei olygu, ac mae gwybodaeth ar gael iddynt ar-lein. Rydym hefyd wedi sicrhau, er mwyn llwyddo mewn arolygiad ysgol gan Estyn, bod yn

body has to discuss the performance data that are available for the school. We have taken a number of steps to ensure that parents are fully apprised of the performance of the school, and I am sure that we will want to go further in sharing more information in the future.

rhaid i bob corff llywodraethu drafod y data am berfformiad sydd ar gael ar gyfer yr ysgol. Rydym wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n llawn am berfformiad yr ysgol, ac rwyf yn siŵr y byddwn am wneud mwy i rannu rhagor o wybodaeth yn y dyfodol.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(4)0152(ESK), is withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(4)0152(ESK), yn ôl.

**Uno Prifysgolion**

**Merger of Universities**

***8. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran uno Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Casnewydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. OAQ(4)0154(ESK)*

***8. Nick Ramsay:*** *Will the Minister provide an update on the progress of the merger of Glamorgan, Newport and Cardiff Metropolitan Universities. OAQ(4)0154(ESK)*

I think I know the answer to this one already, Minister, but if you can answer—

Rwyf yn credu fy mod yn gwybod yr ateb i hyn yn barod, Weinidog, ond os gallwch ateb—

**Leighton Andrews:** I have held positive discussions with senior representatives of all three institutions, as well as with staff and student representatives. I intend to make a further statement on higher education reconfiguration very shortly.

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi cael trafodaethau cadarnhaol ag uwch-gynrychiolwyr pob un o'r tri sefydliad, yn ogystal ag â chynrychiolwyr y staff a'r myfyrwyr. Rwyf yn bwriadu gwneud datganiad pellach ar aildrefnu addysg uwch yn fuan iawn.

**Nick Ramsay:** Thank you, Minister. I think that events have overtaken my question. I am sure that you will agree that in the light of today's news, there are potential advantages to a merger, as you have said in the past, but there are also potential pitfalls that we would want to avoid. I am sure that you are aware that the acting vice-chancellor has said they would not countenance anything that would weaken the university's current mission to support people and communities within Gwent. What reassurances can you provide to the people of Newport, Gwent and the wider south-east Wales area that the hard and distinctive work undertaken by the university over the years since its formation will not be lost?

**Nick Ramsay:** Diolch, Weinidog. Credaf fod digwyddiadau wedi achub y blaen ar fy nghwestiwn. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, yng ngoleuni newyddion heddiw, bod manteision posibl i uno, fel yr ydych wedi'i ddweud yn y gorffennol, ond ceir peryglon posibl hefyd y byddem am eu hosgoi. Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod yr is-ganghellor dros dro wedi dweud na fyddent yn caniatáu unrhyw beth a fyddai'n gwanhau cenhadaeth bresennol y brifysgol i gefnogi pobl a chymunedau yng Ngwent. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i bobl Casnewydd, Gwent ac ardal ehangach y de-ddwyrain na fydd y gwaith caled a nodedig a wnaed gan y brifysgol dros y blynyddoedd ers ei sefydlu yn cael ei golli?

**Leighton Andrews:** I have made it clear all along that it is important that, in the merger process, we ensure that we maintain opportunities for students and maintain the campuses that are available. In respect of Newport, I would want to see the civic life of

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi egluro o'r dechrau ei bod yn bwysig, yn y broses uno, inni sicrhau ein bod yn cynnal cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn cadw'r campysau sydd ar gael. O ran Casnewydd, byddwn yn awyddus i weld bywyd dinesig Casnewydd yn cael ei

Newport reinforced within any development that goes forward, and I am sure that this will be at the heart of the discussions that we now know are under way between Glamorgan and Newport.

atgyfnerthu mewn unrhyw ddatblygiad sy'n mynd yn ei flaen, ac rwyf yn siŵr y bydd hynny'n ganolog i'r trafodaethau yr ydym yn gwybod bellach eu bod yn mynd rhagddynt rhwng Morgannwg a Chasnewydd.

There may well be further developments in due course and, as I say, I will make a further statement in due course.

Efallai'n wir y bydd datblygiadau pellach maes o law ac, fel y dywedais, byddaf yn gwneud datganiad arall maes o law.

**Simon Thomas:** Minister, I also welcome the voluntary merger of Newport and Glamorgan, and I hope that it will create an institution that is capable of attracting investment and being internationally recognised. I note in the White Paper, Minister, that you are looking to take powers to directly fund universities. Can you confirm that, going forward, any future funding for universities and HE institutions, whether through HEFCW or directly through your department, would be fair and equitable for all, whether part of a major merger process or not?

**Simon Thomas:** Weinidog, rwyf innau'n croesawu'r uno gwirfoddol rhwng Casnewydd a Morgannwg, a gobeithiaf y bydd yn creu sefydliad sy'n gallu denu buddsoddiad a chael ei gydnabod yn rhyngwladol. Nodaf yn y Papur Gwyn, Weinidog, eich bod yn awyddus i gael pwerau i ariannu prifysgolion yn uniongyrchol. A allwch gadarnhau, wrth symud ymlaen, y byddai unrhyw gyllid yn y dyfodol ar gyfer prifysgolion a sefydliadau AU, boed drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu'n uniongyrchol drwy eich adran chi, yn deg ac yn gyfiawn i bawb, p'un a ydynt yn rhan o broses uno fawr ai peidio?

**Leighton Andrews:** Yes.

**Leighton Andrews:** Gallaf.

**Aled Roberts:** Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn croesawu datganiad heddiw ynglŷn â'r uno gwirfoddol rhwng y ddau sefydliad. A ydych yn deall o'r datganiad mai creu sefydliad o'r newydd y bydd y cyrff hyn, ac a ydych chi, fel Llywodraeth, yn barod i gefnogi'r sefydliadau wrth iddynt drosglwyddo o'u sefyllfa bresennol i'w statws newydd?

**Aled Roberts:** I am sure that we all welcome today's statement about the voluntary merger of these two institutions. Do you understand from today's statement that it is a brand new institution that will be formed, and are you as a Government prepared to support these institutions as they transfer from their current position to their new status?

**Leighton Andrews:** At the moment, these are conversations between the universities of Glamorgan and Newport. I very much welcome the conversations that they have started and their approach to a merger. Certainly, we would be ready to support in a positive way any developments that may take place. As I have said, I will make a further statement in due course.

**Leighton Andrews:** Ar hyn o bryd, mae hon yn drafodaeth rhwng prifysgolion Morgannwg a Chasnewydd. Rwyf yn croesawu'n fawr y trafodaethau y maent wedi eu dechrau a'u hagwedd o ran uno. Yn sicr, byddem yn barod i gefnogi unrhyw ddatblygiadau a allai ddigwydd a hynny mewn ffordd gadarnhaol. Fel y dywedais, byddaf yn gwneud datganiad arall maes o law.

**Aled Roberts:** Deallaf fod rhai awgrymiadau wedi cael eu gwneud ynglŷn â math newydd o sefydliad yng Nghymru, gan edrych ar rai esiamplau o'r Almaen, lle mae cysylltiad llawer cryfach rhwng cyflogwyr, diwydiant a phrifysgolion. A fyddech yn barod i gefnogi'r

**Aled Roberts:** I understand that some suggestions have already been made about a new kind of institution in Wales, with consideration given to some examples in Germany, where there are stronger links between employers, industry and universities.

math hwnnw o drafodaeth rhwng y ddau sefydliad yn y pen draw?

Would you be prepared to support that kind of negotiation between the two institutions?

**Leighton Andrews:** Interesting proposals have been put forward by potential partners to this merger, and I hope that they will be reflected in the outcome. However, lets me say, there are a number of models across the world to look at. The German model may be one, and there are models in California. There may be others. There is a whole series of models worth considering when discussing the future of higher education in Wales.

**Leighton Andrews:** Mae cynigion diddorol wedi'u cyflwyno gan bartneriaid posibl i'r uno hwn, a gobeithiaf y byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y canlyniad. Fodd bynnag, gadewch imi ddweud bod nifer o fodelau ar draws y byd i edrych arnynt. Efallai fod model yr Almaen yn un, a cheir modelau yng Nghaliffornia. Efallai fod modelau eraill hefyd. Ceir cyfres gyfan o fodelau y mae'n werth eu hystyried wrth drafod dyfodol addysg uwch yng Nghymru.

**Consortia Rhanbarthol**

**Regional Consortia**

***9. Russell George:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y consortia rhanbarthol. OAQ(4)0165(ESK)*

***9. Russell George***: *Will the Minister give an update on regional consortia. OAQ(4)0165(ESK*)

**Leighton Andrews:** I have outlined my expectations of the development of four regional single school improvement services by September 2012 and have been assured by all local authorities that they are on course to meet this commitment. I intend to review their progress in the autumn term.

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi amlinellu fy nisgwyliadau o ran datblygu pedwar gwasanaeth gwella ysgolion unigol rhanbarthol erbyn mis Medi 2012 ac rwyf wedi cael sicrwydd gan bob un o'r awdurdodau lleol eu bod ar y trywydd iawn i fodloni'r ymrwymiad hwn. Rwyf yn bwriadu adolygu eu cynnydd yn nhymor yr hydref.

**Russell George:** Thank you, Minister, for your answer. The four regional consortia are due to be on stream this September. I have spoken to a number of schools in my area where there is much concern that they are not going to be ready in time to meet the expectations. Can you guarantee that all four consortia will be up and running by September, and how do you envisage the new arrangements driving up standards and performance in the next four years?

**Russell George:** Diolch, Weinidog, am eich ateb. Mae disgwyl i'r pedwar consortiwm rhanbarthol fod yn weithredol ym mis Medi eleni. Rwyf wedi siarad â nifer o ysgolion yn fy ardal lle y ceir llawer o bryder nad ydynt yn mynd i fod yn barod mewn pryd i gwrdd â'r disgwyliadau. A allwch roi sicrwydd y bydd pob un o'r pedwar consortiwm yn weithredol erbyn mis Medi, ac allwch egluro sut yr ydych yn rhagweld y bydd y trefniadau newydd yn codi safonau a pherfformiad yn y pedair blynedd nesaf?

**Leighton Andrews:** I do not run the consortia, as it happens; they are consortia of local authorities. They have given me commitments that they will be up and running by September of this year, just as they have given me commitments that they will have in place the delegation of 80% of budgets to schools by September. I look forward to them following through on their commitments. I would encourage the Member to write to me if he has any evidence of any local authority dragging its feet on this

**Leighton Andrews:** Nid fi sy'n rhedeg y consortia, fel y mae'n digwydd, consortia o awdurdodau lleol ydynt. Maent wedi addo y byddant yn weithredol erbyn mis Medi eleni, yn yr un modd ag y maent wedi addo y bydd 80% o gyllidebau wedi'u dirprwyo i ysgolion erbyn mis Medi. Edrychaf ymlaen at eu gweld yn gwireddu eu haddewidion. Byddwn yn annog yr Aelod i ysgrifennu ataf os oes ganddo unrhyw dystiolaeth bod unrhyw awdurdod lleol yn llusgo'i draed ar y mater hwn.

issue.

**Alun Ffred Jones:** Sefydlwyd Cynnal, y corff sy'n cefnogi ysgolion yn Ynys Môn a Gwynedd, yn dilyn ad-drefnu, ac roedd yn enghraifft gynnar o gydweithio ar draws ffiniau, yn yr un modd ag oedd y gwasanaeth cerdd i ysgolion o dan ofal Canolfan Gerdd William Mathias. O gofio record dda Cynnal, sut bydd y Gweinidog yn sicrhau bod y consortiwm newydd yn cyflenwi yr un fath o gefnogaeth a gwasanaeth i ysgolion Cymraeg a dwyieithog ag y mae Cynnal wedi ei roi?

**Alun Ffred Jones:** Cynnal, the body supporting schools in Anglesey and Gwynedd, was established following reorganisation, and it was an early example of collaboration across boundaries, with the school music service delivered by Canolfan Gerdd William Mathias being another example. Bearing in mind the good record of Cynnal, how will the Minister ensure that the new consortium delivers the same kind of support and service to Welsh-medium and bilingual schools as provided by Cynnal in the past?

**Leighton Andrews:** The support that Cynnal has provided for Welsh-medium and bilingual schools is not confined to Gwynedd and Anglesey; I know of other schools across Wales that have drawn on its materials, and we would want to encourage it in the excellent work that it has done. Ultimately, it is a matter for the local authorities and the regional consortia to ensure that the services that they put in place are of an equivalent standard.

**Leighton Andrews:** Nid yw'r gefnogaeth y mae Cynnal wedi'i darparu i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog wedi'i chyfyngu i Wynedd ac Ynys Môn; gwn am ysgolion eraill ledled Cymru sydd wedi defnyddio ei ddeunyddiau, a byddem yn dymuno ei annog yn y gwaith rhagorol y mae wedi'i wneud. Yn y pen draw, mater i'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yw sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu rhoi ar waith o safon gyfatebol.

### Yr Undeb Ewropeaidd

### The European Union

***10. Christine Chapman:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae ymwybyddiaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei hintegreiddio i'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru. OAQ(4)0157(ESK)*

***10. Christine Chapman:*** *Will the Minister make a statement on how an awareness of the European Union is integrated into the school curriculum for Wales. OAQ(4)0157(ESK)*

**Leighton Andrews:** Learners are made aware of the European Union as part of personal and social education, which is delivered in all maintained schools in Wales and, through this, learners are given opportunities to understand the workings of the EU, its institutions and what it means for them.

**Leighton Andrews:** Daw dysgwyr yn ymwybodol o'r Undeb Ewropeaidd yn rhan o addysg bersonol a chymdeithasol, a gaiff ei chyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, a thrwy hynny rhoddir cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall systemau'r Undeb Ewropeaidd, ei sefydliadau a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt hwy.

**Christine Chapman:** Thank you, Minister. I welcome the strong commitment in the European strategy to promote engagement and I would particularly like to mention the mock council of the European Union, which I was privileged to chair last year, and which I am looking forward to doing again in September. Some research, while disagreeing about the cause, suggests that Welsh and British young people do not know as much

**Christine Chapman:** Diolch, Weinidog. Rwyf yn croesawu'r ymrwymiad cryf yn y strategaeth Ewropeaidd i hybu ymgysylltiad, ac yn benodol hoffwn sôn am ffug-gyngor yr Undeb Ewropeaidd, y cefais y fraint o'i gadeirio y llynedd ac yr wyf yn edrych ymlaen at ei gadeirio eto ym mis Medi. Mae rhywfaint o ymchwil, er ei fod yn anghytuno ynghylch y rheswm dros hynny, yn awgrymu nad yw Cymry a Phrydeinwyr ifanc yn gwybod

about Europe as our neighbours, and measures such as the mock council therefore have a role to play. Minister, what else can we do to tackle this and improve awareness not only of Europe, but of the timeless values such as peace and stability, which underpin European integration but are sometimes lost in discussions about structural funds?

cymaint am Ewrop â'n cymdogion, felly mae gan fesurau megis y ffug-gyngor rôl i'w chwarae. Weinidog, beth arall y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â hyn a gwella ymwybyddiaeth nid yn unig o Ewrop ond hefyd o'r gwerthoedd oesol, megis heddwch a sefydlogrwydd, sy'n sail i integreiddio Ewropeaidd ond sydd weithiau'n cael eu colli mewn trafodaethau ynghylch cronfeydd strwythurol?

**Leighton Andrews:** Many things are often lost in discussions on structural funds [*Laughter.*] I enjoyed the mock council of the European Union that my colleague, the Member for Cynon Valley, chaired in September. It is a valuable way of developing an exchange between students on all of these issues. Throughout the curriculum, whether it is the 14-19 learning pathways, the Welsh baccalaureate or other ways, we are giving opportunities to young people, and engaging with the issue of active citizenship, to learn about Wales and its relationships, both within Europe and in the wider world. We want to continue to do that.

**Leighton Andrews:** Caiff llawer o bethau eu colli'n aml mewn trafodaethau ynghylch cronfeydd strwythurol. [*Chwerthin.*] Bu imi fwynhau ffug-gyngor yr Undeb Ewropeaidd, y bu fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gwm Cynon, yn ei gadeirio ym mis Medi. Mae'n ffordd werthfawr o ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr gyfnewid barn am yr holl faterion hyn. Trwy'r cwricwlwm, boed trwy lwybrau dysgu 14-19, bagloriaeth Cymru neu ddulliau eraill, rydym yn ymgysylltu â dinasyddiaeth weithgar ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am Gymru a'i chydberthnasau, yn Ewrop a'r byd ehangach. Rydym am barhau i wneud hynny.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, today is an appropriate day to realise how familiar American schools are with the practice of teaching and taking pride in their constitution and governance, whereas here in Wales, while visiting schools in Aberconwy, I have encountered widespread confusion about what an AM, a councillor, an MP or an MEP is or does. In modern Wales, there are five levels of government, all of which have an impact on the lives of the Welsh people. Minister, what plans do you have to include more teaching in the curriculum on the workings of the European Union and other levels of government in Wales?

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, mae heddiw'n ddiwrnod priodol i sylweddoli mor gyfarwydd y mae ysgolion America â'r arfer o gyflwyno addysg am gyfansoddiad a dulliau llywodraethu'r wlad ac â'r arfer o ymfalchïo ynddynt, tra yma yng Nghymru, wrth ymweld ag ysgolion yn Aberconwy, rwyf wedi dod ar draws dryswch cyffredinol ynghylch beth yw Aelod Cynulliad, cynghorydd, Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop, a beth y mae pob un o'r rhain yn ei wneud. Ceir pum lefel o lywodraeth yn y Gymru fodern, ac mae pob un ohonynt yn cael effaith ar fywydau pobl Cymru. Weinidog, pa gynlluniau sydd gennych i gynnwys mwy o addysg yn y cwricwlwm am systemau'r Undeb Ewropeaidd a lefelau eraill o lywodraeth yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** The Member is quite right to say that today is a significant day, and I am sure that we would all like to congratulate the Minister for Local Government and Communities on his wedding anniversary. When the Member said that there were five levels of government in Wales, I wondered whether she was going to tell us that she wanted to abolish one of

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod yn llygad ei lle bod heddiw'n ddiwrnod arwyddocaol, ac rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn dymuno llongyfarch y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n dathlu pen-blwydd ei briodas. Pan ddywedodd yr Aelod bod pum lefel o lywodraeth yng Nghymru, roeddwn yn meddwl tybed a fyddai'n mynd yn ei blaen i ddweud wrthym ei bod am ddileu un

them—I thought that might be coming next. We have set out in previous answers the work that is going on in Wales to encourage an understanding of the European Union and I would be happy to send examples of that to the Member, if she would like to see them.

ohonynt—roeddwn yn meddwl mai dyna fyddai'n dod nesaf. Mewn atebion blaenorol, rydym wedi nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i annog dealltwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, a byddwn yn fodlon anfon enghreifftiau o'r gwaith hwnnw at yr Aelod, pe bai'n dymuno eu gweld.

2.00 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr iawn yr hyn rydych wedi ei ddweud mewn ymateb i gwestiwn Christine Chapman y prynhawn yma. Mae'n eithriadol o bwysig bod disgyblion ysgol yn cael gwybodaeth am yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys pwysigrwydd yr undeb honno, cyfraniad y Deyrnas Unedig a Chymru i'r Undeb Ewropeaidd, a'r hyn yr ydym yn ei dderbyn—nid y lleiaf o'r pethau hynny yw'r sefydlogrwydd a wnaeth Christine Chapman cyfeirio ato yn ein byd ni y dyddiau hyn. Mae'n bwysig bod disgyblion yn derbyn y wybodaeth honno trwy ysgolion yn hytrach na'u bod yn dibynnu ar benawdau mewn papurau newydd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I very much welcome what you said in response to Christine Chapman's question this afternoon. It is exceptionally important that school pupils receive information about the European Union, including the importance of that union, the contribution of the United Kingdome and Wales to the European Union, and what we receive—not least of those things is the stability that Christine Chapman referred to in our world these days. It is important that pupils receive that information through schools rather than relying on headlines in newspapers.

**Leighton Andrews:** Wrth gwrs fy mod i'n cytuno â hynny.

**Leighton Andrews:** Of course I agree with that.

**Lles Plant Ysgol**

**The Wellbeing of Schoolchildren**

***11. Jenny Rathbone:*** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella lles plant ysgol. OAQ(4)0163(ESK)*

***11. Jenny Rathbone:*** *What are the Welsh Government's priorities for improving the wellbeing of schoolchildren. OAQ(4)0163(ESK)*

**Leighton Andrews:** Helping children to do as well as they can in terms of educational attainment is fundamental to wellbeing. Success at school and making a good transition to other forms of learning are strongly associated with positive outcomes in life—health, self-confidence, good relationships and economic wellbeing.

**Leighton Andrews:** Mae helpu plant i wneud gystal ag y gallant o ran cyrhaeddiad addysgol yn hanfodol i sicrhau lles. Ceir cysylltiad cryf rhwng llwyddo yn yr ysgol a phontio'n dda i ddulliau eraill o ddysgu, a sicrhau canlyniadau cadarnhaol mewn bywyd—iechyd, hunan-hyder, cydberthnasau da a lles economaidd.

**Jenny Rathbone:** One of the most important aspects of wellbeing is, of course, good health. It has now been three years since the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 received Royal Approval. It is going to be introduced in our primary schools in September, and that is very welcome, but it is not going to be introduced in our secondary

**Jenny Rathbone:** Mae iechyd da, wrth gwrs, yn un o agweddau pwysicaf lles. Mae tair blynedd bellach ers i Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Bydd yn cael ei gyflwyno yn ein hysgolion cynradd ym mis Medi, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr, ond ni fydd yn cael ei gyflwyno yn ein

schools until September 2013. Meanwhile, we still have many secondary schools in which junk food is being sold in vending machines. This seems to me to be the sort of issue that we, the wider public, could do something about. It is not about the quality of the teaching or the learning; it is about the general wellbeing of children while they are in our schools. Could the Minister tell us a bit more about what could be done to get more progress in this area?

hysgolion uwchradd nes mis Medi 2013. Yn y cyfamser, mae llawer o'n hysgolion uwchradd yn dal i werthu bwyd sothach mewn peiriannau gwerthu. Ymddengys i mi mai dyma'r math o broblem y gallem ni, y cyhoedd ehangach, wneud rhywbeth yn ei chylch. Nid oes a wnelo hyn ag ansawdd yr addysgu neu'r dysgu; mae a wnelo â lles cyffredinol plant tra byddant yn ein hysgolion. A allai'r Gweinidog roi ychydig yn rhagor o wybodaeth inni am yr hyn y gellid ei wneud i sicrhau mwy o gynnydd yn y maes hwn?

**Leighton Andrews:** I agree with my colleague the Member for Cardiff Central that vending machines full of junk food are not acceptable. There has been sufficient time for schools to get rid of such items as confectionery, savoury snacks and fizzy drinks. No school or local authority should be making extra cash by providing junk food to pupils. Of course, we have made available a total of £11.9 million in grant funding to local authorities since 2008-09 to help them to make progress on the 'Appetite for Life' agenda. I am pleased to say that many schools have done excellent work and some local authorities have also used this time wisely to get ready for the introduction of statutory standards. Those standards will come in.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn cytuno â'm cydweithiwr, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, nad yw peiriannau gwerthu sy'n llawn bwyd sothach yn dderbyniol. Mae ysgolion wedi cael digon o amser i gael gwared ar eitemau megis melysion, byrbrydau sawrus a diodydd pop. Ni ddylai'r un ysgol na'r un awdurdod lleol fod yn gwneud arian ychwanegol trwy ddarparu bwyd sothach i ddisgyblion. Wrth gwrs, er 2008-09 rydym wedi sicrhau bod cyllid grant gwerth cyfanswm o £11.9 miliwn ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i wneud cynnydd o ran yr agenda 'Blas am Oes'. Rwyf yn falch o ddweud bod llawer o ysgolion wedi gwneud gwaith ardderchog, a bod rhai awdurdodau lleol hefyd wedi defnyddio'r amser hwn yn ddoeth i baratoi ar gyfer cyflwyno safonau statudol. Bydd y safonau hynny'n cael eu cyflwyno.

**Darren Millar:** Minister, you will be aware of the children's rights agenda in Wales and the recognition that there has been across the Chamber of the need to reflect on the wellbeing of children when Ministers make decisions. What recognition do you give to the rights of children, and indeed their wellbeing, when you make decisions on school closures? How does their mental health and wellbeing inform your decisions?

**Darren Millar:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r agenda ynghylch hawliau plant yng Nghymru a'r gydnabyddiaeth a gafwyd ar draws y Siambr o'r angen i ystyried lles plant pan fydd Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau. Sut yr ydych yn cydnabod hawliau plant, ac yn wir eu lles, pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch cau ysgolion? Sut y mae eu hiechyd a'u lles meddyliol yn llywio eich penderfyniadau?

**Leighton Andrews:** Of course, these issues are very important and have to be weighed in the balance when we make decisions on school organisation.

**Leighton Andrews:** Mae'r materion hyn yn bwysig iawn, wrth gwrs, a rhaid eu pwyso a'u mesur pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion.

**Lindsay Whittle:** Minister, do you accept that some children become regular truants in

**Lindsay Whittle:** Weinidog, a ydych yn derbyn y bydd rhai plant yn dechrau

an effort to escape bullying and to cope with mental health problems such as depression, and that the best way to deal with this issue is to support home-school liaison officers and to increase their numbers, rather than the criminalising approach recently announced? Will you issue guidelines to local authorities to ensure that these matters are taken into account prior to any parent being summonsed?

chwarae triwant yn rheolaidd er mwyn osgoi cael eu bwlio ac er mwyn ymdopi â phroblemau iechyd meddwl megis iselder ysbryd, ac mai'r ffordd orau o ymdrin â'r mater hwn yw trwy gefnogi swyddogion cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref a chynyddu eu nifer, yn hytrach na'r dull gweithredu a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n ymwneud â thrin rhieni fel troseddwyr? A wnewch chi roi canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried cyn i unrhyw riant gael ei wysio?

**Leighton Andrews:** No criminalising approach has been announced.

**Leighton Andrews:** Nid oes yr un dull gweithredu wedi'i gyhoeddi a fyddai'n trin rhieni fel troseddwyr.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, when did the Government last review its guidance to local authorities on what constitutes a safe walking route to school? Is the Minister convinced that the guidance is right if it allows a local authority to say that an 11-year-old can walk along a busy trunk road that has no pavement and no street lighting?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, pryd oedd y tro diwethaf i'r Llywodraeth adolygu ei chanllawiau i awdurdodau lleol ynghylch yr hyn a gaiff ei ystyried yn llwybr cerdded diogel i'r ysgol? A yw'r Gweinidog wedi'i argyhoeddi bod y canllawiau'n gywir os ydynt yn caniatáu i awdurdod lleol ddweud y gall plentyn 11 oed gerdded ar hyd cefnffordd brysur nad oes ganddi balmant na goleuadau stryd?

**Leighton Andrews:** These matters are taken into account, of course, in the guidance governing school organisation. If the Member has a specific example that she feels is unreasonable and would like to write to me about it, I would be happy to look at it.

**Leighton Andrews:** Caiff y materion hyn eu hystyried yn y canllawiau sy'n llywodraethu trefniadaeth ysgolion, wrth gwrs. Os oes gan yr Aelod enghraifft benodol sy'n afresymol yn ei barn hi, ac os hoffai ysgrifennu ataf yn ei chylch, byddwn yn ddigon bodlon edrych arni.

**Rebecca Evans:** Minister, one in 10 children and young people aged five to 16 suffer from a diagnosable mental health disorder; that is around three in every class. How is the Welsh Government promoting emotional and mental health and wellbeing in schools?

**Rebecca Evans:** Weinidog, mae un o bob 10 plentyn a pherson ifanc rhwng pump ac 16 oed yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl y gellir ei ddiagnosio; mae hynny'n cyfateb i oddeutu tri ym mhob dosbarth. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hybu iechyd a lles meddyliol ac emosiynol mewn ysgolion?

**Leighton Andrews:** Wellbeing is an integral part of the learning in the foundation phase and the personal and social education framework for those aged seven to 19 in Wales. It is important that pupils are at ease with themselves and their surroundings. My colleague the Member for Mid and West Wales will be aware that our School

**Leighton Andrews:** Mae lles yn rhan annatod o'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a'r fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr saith i 19 oed yng Nghymru. Mae'n bwysig bod disgyblion yn gysurus o safbwynt eu hunain a'u hamgylchedd. Bydd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin

Standards and Organisation (Wales) Bill includes provisions for school-based counselling for 11 to 18-year-olds to be put on a statutory basis. Many local authorities are enabling a service for children who are younger than 10 years old on an identified-need basis and offering training for teachers and school staff. The Welsh network of healthy schools schemes national quality award includes mental and emotional health and wellbeing as one of the seven health topics that should be covered throughout a school's involvement in the scheme.

Cymru, yn ymwybodol bod ein Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sicrhau bod gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn rhywbeth statudol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant iau na 10 oed ar sail angen a nodwyd, ac maent yn cynnig hyfforddiant i athrawon a staff ysgolion. Mae gwobr ansawdd genedlaethol rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach yn cynnwys iechyd a lles meddyliol ac emosiynol fel un o'r saith pwnc iechyd y dylid ymdrin â hwy trwy gydol y cyfnod y bydd ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun.

**Ysgolion Cynradd**

**Primary Schools**

***12. Gwyn R. Price:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ysgolion cynradd yn Islwyn. OAQ(4)0158(ESK)*

***12. Gwyn R. Price***: *What action is the Welsh Government taking to improve primary schools in Islwyn. OAQ(4)0158(ESK)*

**Leighton Andrews:** My priorities are improving literacy and numeracy levels and tackling the link between poverty and educational underachievement. To support schools in taking forward these priorities, I have made available over £65 million via the school effectiveness and pupil deprivation grants, and £10,000 is also available to support each secondary school in bands 4 and 5.

**Leighton Andrews:** Fy mlaenoriaethau yw gwella lefelau llythrennedd a rhifedd a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol. Er mwyn cefnogi ysgolion wrth iddynt fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau hyn, rwyf wedi sicrhau bod dros £65 miliwn ar gael drwy'r grant effeithiolrwydd ysgolion a'r grant amddifadedd disgyblion, ac mae £10,000 ar gael hefyd i gefnogi pob ysgol uwchradd ym mand 4 a band 5.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. Do you agree that parents can play a role in improving the schools that their children attend? With that in mind, will you join me in congratulating Mrs Andrea Gregory and Mr Robert Price whose children attend primary school at Crumlin? They have spent weeks volunteering at the school, painting the walls with the amazing stories from the Harry Potter books. Not only are the paintings brilliant, but they have clearly inspired the children at the school, which is currently celebrating its hundredth birthday.

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb hwnnw. A ydych yn cytuno y gall rhieni chwarae rhan mewn gwella'r ysgolion y mae eu plant yn eu mynychu? Gyda hynny mewn golwg, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Mrs Andrea Gregory a Mr Robert Price, y mae eu plant yn mynychu'r ysgol gynradd yng Nghrymlyn? Maent wedi treulio wythnosau'n gwirfoddoli yn yr ysgol, yn paentio'r waliau â lluniau o straeon anhygoel o lyfrau Harry Potter. Nid yn unig y mae'r lluniau'n wych, ond mae'n amlwg eu bod wedi ysbrydoli'r plant yn yr ysgol, sydd ar hyn o bryd yn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed.

**Leighton Andrews:** I congratulate the Member for Islwyn on drawing attention to the excellent work by the parents in that school and also congratulate the school on its

**Leighton Andrews:** Rwyf yn llongyfarch yr Aelod dros Islwyn am dynnu sylw at y gwaith ardderchog a wnaed gan y rhieni yn yr ysgol honno, ac rwyf hefyd am

centenary. We know that many parents are involved in a number of roles with local schools, and we welcome the contribution that they make.

longyfarch yr ysgol ar ei chanmlwyddiant. Gwyddom fod llawer o rieni'n ymwneud â nifer o rolau gydag ysgolion lleol, ac rydym yn croesawu'r cyfraniad y maent yn ei wneud.

**Mohammad Asghar:** One way to improve primary schools in Islwyn and elsewhere is to tackle the problem of unauthorised absences. Improving attendance at primary schools will lead to a reduction in persistent absences at secondary school level. Will the Minister confirm that his policy of issuing fixed penalties for parents of persistent truants will be used as a last resort and only after other methods of tackling truancy have been exhausted?

**Mohammad Asghar:** Un ffordd o wella ysgolion cynradd yn Islwyn ac mewn mannau eraill yw mynd i'r afael ag absenoldebau anawdurdodedig. Bydd gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn arwain at ostyngiad yn nifer yr absenoldebau parhaus a geir mewn ysgolion uwchradd. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau na fydd ei bolisi o gyflwyno cosbau penodedig i rieni plant sy'n chwarae triwant yn barhaus ond yn cael ei ddefnyddio yn niffyg dim arall, ac ar ôl gweithredu pob dull arall o fynd i'r afael â thriwantiaeth?

**Leighton Andrews:** We will move to a consultation on this matter, but the intention is that any such system would only operate as a last resort.

**Leighton Andrews:** Byddwn yn mynd ymlaen i ymgynghori ynghylch y mater hwn, ond y bwriad yw mai dim ond yn niffyg dim arall y byddai unrhyw system o'r fath yn gweithredu.

**Jocelyn Davies:** Minister, you will be aware of the damning verdict of the report into child development assessment profiles published earlier this week with regard to the burden on teachers in undertaking the assessments, which have been deemed as lacking a core purpose. Some argue that the process has brought teachers to the verge of resigning. Can you assure us that the development of the assessments will involve the profession and will have a clear, core purpose?

**Jocelyn Davies:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o farn ddamniol yr adroddiad ynghylch proffiliau asesu datblygiad plentyn, a gyhoeddwyd yn gynharach yr wythnos hon, o safbwynt y baich y maent yn ei roi ar athrawon sy'n ymgymryd â'r asesiadau, y barnwyd nad oes ganddynt ddiben craidd. Mae rhai'n dadlau bod y broses wedi peri i rai athrawon ymddiswyddo, bron iawn. A allwch roi sicrwydd inni y bydd y proffesiwn yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r asesiadau, ac y bydd ganddynt ddiben craidd clir?

**Leighton Andrews:** Yes, I can. I took the decision to suspend the profile many months ago. I think that I am right in saying that I announced it at the turn of the year. We did, in fact, involve professionals in the development of the original profile, but I think that everybody would agree now that too many factors were brought into that profile. However, there are still headteachers who will say to me that they regard the child development assessment profile as a valuable tool and, in the absence of anything else, are continuing to use it.

**Leighton Andrews:** Gallaf. Gwneuthum y penderfyniad i atal y proffil fisoedd lawer yn ôl. Credaf fy mod yn iawn wrth ddweud imi gyhoeddi hynny ar droad y flwyddyn. A dweud y gwir, bu inni gynnwys gweithwyr proffesiynol wrth ddatblygu'r proffil gwreiddiol, ond credaf y byddai pawb yn cytuno bellach bod gormod o ffactorau wedi'u cynnwys yn y proffil hwnnw. Fodd bynnag, mae rhai penaethiaid yn dal i ddweud wrthyf eu bod yn ystyried y proffil asesu datblygiad plentyn yn adnodd gwerthfawr ac, yn absenoldeb unrhyw beth arall, maent yn dal i'w ddefnyddio.

**The Presiding Officer:** Question 13, OAQ(4)0155(ESK), has been transferred for written answer.

**Y Llywydd:** Mae cwestiwn 13, OAQ(4)0155(ESK), wedi'i drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig.

**Blaenoriaethau Addysg**

**Education Priorities**

***14. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau presennol ar gyfer addysg yn rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0160(ESK)*

***14. Andrew R.T. Davies:*** *Will the Minister outline his current priorities for education in the South Wales Central region. OAQ(4)0160(ESK)*

**Leighton Andrews:** My priorities for education are outlined in the programme for government and will help everyone to reach their potential, reduce inequality and improve economic and social wellbeing.

**Leighton Andrews:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer addysg wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu, a byddant yn helpu pawb i gyrraedd eu potensial, yn lleihau anghydraddoldeb ac yn gwella lles economaidd a chymdeithasol.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, Minister. Last week, you announced a consultation on truancy in schools and some of the measures that you might take, in particular fining the parents of regularly truanting pupils. This contradicts previous policies by previous Welsh Governments. Are you in a position to outline what evidence makes you believe that that specific policy will help to reduce truancy levels, given that such a different position was taken by a previous Welsh Government?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wythnos diwethaf, bu ichi gyhoeddi ymgynghoriad ynghylch triwantiaeth mewn ysgolion a rhai o'r mesurau y gallech eu cymryd, yn enwedig dirwyo rhieni disgyblion sy'n chwarae triwant yn rheolaidd. Mae hynny'n mynd yn groes i bolisïau blaenorol gan Lywodraethau blaenorol Cymru. A ydych mewn sefyllfa i amlinellu pa dystiolaeth sy'n eich arwain i gredu y bydd y polisi penodol hwnnw'n helpu i leihau lefelau triwantiaeth, o gofio i un o Lywodraethau blaenorol Cymru gymryd safbwynt mor wahanol?

**Leighton Andrews:** I think that people need to be clear what we are talking about. There will be a consultation on this issue and we will discuss that at the appropriate time.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn credu bod angen i bobl fod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym yn sôn amdano. Cynhelir ymgynghoriad ynghylch y mater hwn, a byddwn yn trafod hynny ar yr adeg briodol.

**Eluned Parrott:** Minister, I am sure—given your answer to the tabled question—that one of your priorities will be to drive up standards in schools. As I understand it, of the 19 comprehensive schools in Rhondda Cynon Taf, 12 have been banded in level 4 or 5 and have received extra funding from the Government as a result. How do you propose to monitor the effectiveness of the way in which that money is spent? Over what kind of timescale can we expect you to take action if you believe that there are issues to be resolved?

**Eluned Parrott:** Weinidog, rwyf yn siŵr—o gofio eich ateb i'r cwestiwn a gyflwynwyd—mai un o'ch blaenoriaethau fydd codi safonau mewn ysgolion. Yn ôl a ddeallaf, mae 12 o'r 19 o ysgolion cyfun yn Rhondda Cynon Taf wedi'u bandio ar lefel 4 neu 5 ac wedi cael arian ychwanegol gan y Llywodraeth o ganlyniad i hynny. Sut yr ydych yn bwriadu monitro pa mor effeithiol y caiff yr arian hwnnw ei wario? Ar ôl faint o amser y gallwn ddisgwyl ichi weithredu os ydych o'r farn bod problemau i'w datrys?

**Leighton Andrews:** We will be monitoring the way in which that money is used. We

**Leighton Andrews:** Byddwn yn monitro'r modd y caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio.

expect it to be used very specifically to target particular routes to improvement. That may well involve, for example, the tracking of pupils or specific support being bought in in particular subject areas. My officials in the school standards unit will be having conversations with representatives of Rhondda Cynon Taf about ways in which those moneys can best be used. I want to point out, of course, that we have excellent schools in Rhondda Cynon Taf, as we do throughout Wales.

Rydym yn disgwyl iddo gael ei ddefnyddio’n benodol iawn i dargedu llwybrau arbennig ar gyfer gwella. Mae’n ddigon posibl y gallai hynny gynnwys, er enghraifft, tracio disgyblion neu gymorth penodol a gaiff ei brynu i mewn ar gyfer meysydd pwnc penodol. Bydd fy swyddogion yn yr uned safonau ysgolion yn cynnal trafodaethau â chynrychiolwyr Rhondda Cynon Taf ynghylch y dulliau gorau o ddefnyddio’r arian hwnnw. Wrth gwrs, hoffwn nodi bod gennym ysgolion ardderchog yn Rhondda Cynon Taf, fel sydd gennym ledled Cymru.

**Canfyddiadau UNESCO**

**UNESCO Findings**

***15. William Graham:*** *A yw’r Gweinidog wedi gwneud asesiad o ganfyddiadau UNESCO mai’r prif ddynodydd ynghylch a yw plentyn yn mynd i ffynnu yn yr ysgol ac mewn gwaith yw p’un ai a yw’n darllen am bleser ai peidio. OAQ(4)0166(ESK)*

***15. William Graham:*** *Has the Minister made an assessment of the UNESCO findings that the biggest single indicator of whether a child is going to thrive at school and in work is whether or not they read for pleasure. OAQ(4)0166(ESK)*

**Leighton Andrews:** I want all learners to become fluent, proficient readers and to enjoy reading. The national literacy programme will ensure that learners gain the skills necessary to become confident readers. To help motivate and engage reluctant readers, such as underachieving boys, we are developing specific strategies to address the causes of underperformance.

**Leighton Andrews:** Rwyf am i bob dysgwr ddod yn ddarllenwr rhugl a hyfedr a mwynhau darllen. Bydd y rhaglen lythrennedd genedlaethol yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu’r sgiliau angenrheidiol i ddod yn ddarllenwyr hyderus. Er mwyn helpu i ysgogi darllenwyr anfoddog, megis bechgyn sy’n tangyflawni, ac ennyn eu diddordeb, rydym yn datblygu strategaethau penodol i fynd i’r afael â’r ffactorau sy’n peri iddynt danberfformio.

**William Graham:** I thank the Minister for his reply. I note that the National Literacy Trust has highlighted that boys are put off reading a book before they even open it if they see that it has more than 200 pages. I listened to what the Minister said, but will he have targets for improving literacy and will he ensure that they are actioned?

**William Graham:** Diolch i’r Gweinidog am ei ateb. Nodaf fod yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol wedi tynnu sylw at y ffaith bod bechgyn yn colli’r awydd i ddarllen llyfr cyn iddynt ei agor hyd yn oed os ydynt yn gweld bod mwy na 200 o dudalennau ynddo. Gwrandewais ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, ond a fydd ganddo dargedau ar gyfer gwella llythrennedd ac a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu?

**Leighton Andrews:** I thought for a minute that the Member was going to ask me whether I had targets to reduce the number of pages that boys have to read. [*Laughter.*] I think that there are some excellent schemes under way throughout Wales to encourage boys to read; there is the Only Boys Allowed scheme in my own constituency, whereby

**Leighton Andrews:** Roeddwn yn meddwl am funud bod yr Aelod yn mynd i ofyn imi a oedd gennyf dargedau i leihau nifer y tudalennau y mae’n rhaid i fechgyn eu darllen. [*Chwerthin.*] Credaf fod rhai cynlluniau ardderchog ar waith ledled Cymru i annog bechgyn i ddarllen; ceir y cynllun *Only Boys Allowed* yn fy etholaeth i, lle y

volunteers work with boys on reading materials that appeal to them, whether football or rugby magazines or programmes or whatever. There is a whole series of initiatives, and I am delighted with the support that we have had from both the Welsh Rugby Union and the Football Association of Wales and some of their leading players in taking part with us in schemes that promote reading among boys in particular. We will certainly learn from best practice in this field from wherever it comes.

mae gwirfoddolwyr yn gweithio gyda bechgyn ar ddeunyddiau darllen sy'n apelio atynt, boed yn gylchgronau neu'n rhaglenni pêl-droed neu rygbi neu'n rhywbeth arall. Ceir cyfres gyfan o fentrau, ac rwyf wrth fy modd â'r gefnogaeth yr ydym wedi'i chael gan Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru a rhai o'u chwaraewyr amlycaf wrth gymryd rhan gyda ni mewn cynlluniau sy'n hybu darllen ymhlith bechgyn yn benodol. Byddwn yn sicr yn dysgu o arfer gorau yn y maes hwn o ble bynnag y daw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
## Questions to the Minister for Local Government and Communities

### Blaenoriaethau Portffolio

*1. **Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau portffolio presennol ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0170(LGC)*

### Portfolio Priorities

*1. **Andrew R.T. Davies:** Will the Minister outline his current portfolio priorities for the South Wales Central region. OAQ(4)0170(LGC)*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I thank the Member for South Wales Central for his question. My priorities for all parts of Wales were published in May in the programme for government annual report. They include reducing poverty, making our communities safer and supporting the delivery of effective and efficient public services that meet the needs of people in Wales.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i'r Aelod dros Ganol De Cymru am ei gwestiwn. Cyhoeddwyd fy mlaenoriaethau ar gyfer pob rhan o Gymru ym mis Mai yn adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu. Maent yn cynnwys lleihau tlodi, gwneud ein cymunedau'n fwy diogel a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl yng Nghymru.

**Andrew R.T. Davies:** I see that there is a proliferation of red binders on the front bench today. [*Interruption*.] Could the Minister outline what discussions he has had with Cardiff Council in relation to the new central bus terminal, given that, as I understand it, the local authority has withdrawn the original plans? There has been considerable delay with this project and I presume that Welsh Government money is at stake, given that a significant grant was given to Cardiff Council under the sustainable travel towns initiative. It is imperative that these plans are taken forward.

**Andrew R.T. Davies:** Gwelaf fod yna doreth o ffeiliau coch ar y fainc flaen heddiw. [*Torri ar draws*.] A allai'r Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cael â Chyngor Caerdydd mewn perthynas â'r orsaf fysiau ganolog newydd, o gofio bod yr awdurdod lleol, yn ôl a ddeallaf, wedi tynnu'r cynlluniau gwreiddiol yn ôl? Cafwyd cryn oedi gyda'r prosiect hwn, a thybiaf fod arian Llywodraeth Cymru yn y fantol, o gofio bod grant sylweddol wedi'i roi i Gyngor Caerdydd dan y fenter trefi teithio cynaliadwy. Mae'n hanfodol bod y cynlluniau hyn yn symud yn eu blaen.

**Carl Sargeant:** I have had correspondence with the local authority over the planning of the bus station and its appropriateness. Discussions are continuing between my

**Carl Sargeant:** Rwyf wedi bod yn gohebu â'r awdurdod lleol ynghylch cynllunio'r orsaf fysiau a pha mor briodol ydyw. Mae trafodaethau'n parhau rhwng fy swyddogion

officials and Cardiff Council officials and I am hopeful for a conclusion soon.

a swyddogion Cyngor Caerdydd, ac rwyf yn gobeithio y byddant yn dod i ben yn fuan.

**Grŵp Polisi Cyflog Byw**

**Living Wage Policy Group**.

***2. Vaughan Gething:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am grwp polisi Cyflog Byw Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0164(LGC)*

***2. Vaughan Gething:** Will the Minister make a statement on the Welsh Government's Living Wage policy group. OAQ(4)0164(LGC)*

**Carl Sargeant:** I will convene the living wage policy group as outlined in my statement of 30 May at the end of July.

**Carl Sargeant:** Byddaf yn cynnull y grŵp polisi cyflog byw ddiwedd mis Gorffennaf, fel yr amlinellwyd yn fy natganiad ar 30 Mai.

**Vaughan Gething:** Thank you for that response, Minister. I welcome the task group that is being set up; it includes businesses, trade unions and third sector campaigners. I also welcome the confirmation that Welsh Government employees already receive a living wage. I am sure that you will join with me in commending Cardiff Council on its announcement that it will be the first council in Wales to pay its staff a living wage from September. That council is Labour-run of course. I was impressed when I met the Save the Children ambassadors from Willows High School, when they came to lobby me on the subject of a living wage and its impact on families and children. Could you confirm how the task group will take evidence in its deliberations, including whether there will be any provision to receive direct evidence from families already living below the living wage?

**Vaughan Gething:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf y grŵp gorchwyl sy'n cael ei sefydlu; mae'n cynnwys busnesau, undebau llafur ac ymgyrchwyr y trydydd sector. Croesawaf hefyd y cadarnhad bod gweithwyr Llywodraeth Cymru eisoes yn cael cyflog byw. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i gymeradwyo Cyngor Caerdydd am gyhoeddi mai ef fydd y cyngor cyntaf yng Nghymru i dalu cyflog byw i'w staff o fis Medi. Y Blaid Lafur sy'n rhedeg y cyngor hwnnw wrth gwrs. Cefais gyfle i gyfarfod â llysgenhadon Achub y Plant o Ysgol Uwchradd Willows pan ddaethant i'm lobïo ynghylch cyflog byw a'i heffaith ar deuluoedd a phlant, ac roeddent wedi gwneud argraff arnaf. A allech gadarnhau sut y bydd y grŵp gorchwyl yn cymryd tystiolaeth yn ei drafodaethau, gan nodi a fydd unrhyw ddarpariaeth i gael tystiolaeth uniongyrchol gan deuluoedd sydd eisoes yn byw ar gyflog sy'n is na'r cyflog byw?

2.15 p.m.

**Carl Sargeant:** I am grateful to the Member for Cardiff South and Penarth for his question. I also place on record my congratulations to the authority for confirming its intention to pay a living wage in Cardiff. The policy group will provide the opportunity for stakeholders and policy groups to feed into the review. I will write to Members in the next few weeks and place a record in the library of the membership of the group and how it will operate when its delivery model is further established.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth am ei gwestiwn. Rwyf i hefyd am gofnodi fy llongyfarchiadau i'r awdurdod am gadarnhau ei fwriad i dalu cyflog byw yng Nghaerdydd. Bydd y grŵp polisi yn rhoi'r cyfle i randdeiliaid a grwpiau polisi gyfrannu at yr adolygiad. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf ac yn rhoi cofnod yn y llyfrgell ynghylch aelodaeth y grŵp a'r modd y bydd yn gweithredu pan fyddwn yn gwybod mwy am ei fodel cyflawni.

**Mark Isherwood:** I note that the Welsh

**Mark Isherwood:** Rwyf yn nodi bod

Government is providing a living wage for directly employed staff and that the stakeholder group will look at contracted-out staff. Six years after the Assembly introduced a living wage as a condition of contract in respect of contracted-out catering and cleaning staff, why is the Welsh Government still only talking about doing it?

Llywodraeth Cymru yn darparu cyflog byw ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol ac y bydd y grŵp rhanddeiliaid yn edrych ar staff sy’n gweithio i gontractwyr. Chwe mlynedd ar ôl i’r Cynulliad gyflwyno cyflog byw fel amod contract ar gyfer staff arlwyo a glanhau sy’n gweithio i gontractwyr, pam mai dim ond siarad am y peth y mae Llywodraeth Cymru o hyd?

**Carl Sargeant:** I am sure that what the Member forgot to add were his congratulations to the Welsh Government in celebration of the fact that Welsh Government staff are being paid a living wage throughout Wales. This is a huge challenge for organisations in the public and private sectors to deliver. I am sure that the ambitions of this Government are to deliver beyond Government and into the public sector at large, as evidenced by the fine example of the new Labour-led Cardiff authority. Next time the Member wishes to ask me a question, he may also wish to congratulate Cardiff Council.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn siŵr mai’r hyn yr anghofiodd yr Aelod ei ychwanegu oedd ei longyfarchiadau i Lywodraeth Cymru i ddathlu’r ffaith bod staff Llywodraeth Cymru yn cael eu talu cyflog byw ledled Cymru. Mae hon yn her enfawr i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat ei chyflawni. Rwyf yn siŵr bod y Llywodraeth yn awyddus i gyflawni y tu hwnt i’r Llywodraeth ac yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol, fel y gwelwyd gan yr esiampl wych a osodir gan awdurdod newydd Caerdydd a arweinir gan y Blaid Lafur. Y tro nesaf y bydd yr Aelod yn dymuno gofyn cwestiwn imi, efallai y bydd hefyd yn dymuno llongyfarch Cyngor Caerdydd.

**Bethan Jenkins:** Rwy’n siŵr bod pawb yn y Siambr yn cefnogi’r cysyniad o gyflog byw, yn enwedig ymhlith grwpiau difreintiedig, a fydd yn cael budd ymarferol ohono. Fodd bynnag, deallwn fod sefydliadau busnes eisoes yn rhybuddio y gall cyflog byw arwain at fusnesau yn rhoi pobl allan o waith. Rydych hefyd wedi dweud na fydd y Llywodraeth yn ei wneud yn statudol. Felly, a allwch ehangu ar sut y gall hyn lwyddo ar hyd ac ar led Cymru o ystyried y consyrn hwnnw yn y byd busnes?

**Bethan Jenkins:** I am sure that all Members would support the concept of a living wage, especially for deprived groups, which will directly benefit from it. However, we understand that business organisations are already warning that a living wage could lead to businesses making people redundant. You have also said that the Government is not going to make this a statutory requirement. Therefore, can you expand on how this can succeed across Wales, given the concern that exists in the world of business?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her question. I recognise the issues that businesses raise on this important matter. However, you will also remember that businesses warned that it was the end of the world when the minimum wage was introduced, and that was not the case. I accept the fact that the introduction of a living wage has to be measured in terms of affordability and the relationship between the private and public sectors, but surely the Member supports our aspiration to deliver a living wage for the people of Wales. We will pursue that with vigour in our policy group.

**Carl Sargeant:** Diolch i’r Aelod am ei chwestiwn. Rwyf yn cydnabod y materion y mae busnesau’n eu codi ynghylch y mater pwysig hwn. Fodd bynnag, byddwch hefyd yn cofio i fusnesau rybuddio ei bod yn ddiwedd y byd pan gyflwynwyd yr isafswm cyflog, ond nid felly yr oedd hi. Rwyf yn derbyn bod yn rhaid mesur y broses o gyflwyno cyflog byw yn nhermau’r hyn sy’n fforddiadwy a’r berthynas rhwng y sector preifat a’r sector cyhoeddus, ond does bosibl nad yw’r Aelod yn cefnogi ein dyhead i ddarparu cyflog byw i bobl Cymru. Byddwn yn bwrw ymlaen â hynny yn egnïol yn ein grŵp polisi.

**Adeiladu Cymunedau Cryfach**

*3. **Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer cefnogi adeiladu cymunedau cryfach. OAQ(4)0157(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for North Wales for his question. The new Communities First programme is a community-focused programme that will empower individuals and communities to come together to support development in their areas.

**Mark Isherwood:** Thank you for that reply, Minister. The findings of several pieces of research have shown that local area co-ordination—a model first developed in Australia—delivers savings, increases the number of people receiving support and reduces reliance on often expensive services by forming relationships with individuals and engaging directly in communities. A number of local authority areas in Wales are now having discussions on introducing this. Will the Welsh Government therefore keep an eye on the four pilot schemes for this, which have been launched in England—in Cumbria, Derby, Middlesbrough and Stroud—and will you report back on your consideration of how, if at all, this might be adapted to the needs of Wales?

**Carl Sargeant:** There are many versions of community regeneration and support throughout the UK and beyond. Some of the influences of the new Communities First programme were brought back from Ireland, following my recent visit there. I have an open-door and open-mind policy in terms of opportunities that can enhance people's lives. The Member raises these new-style partnerships, and I will certainly ask my department to look at those.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, mae llawer iawn o'n cymunedau yn ddibynnol ar gysylltiadau trafnidiaeth. Mae llefarydd y Blaid Lafur yn San Steffan, Maria Eagle, wedi dweud ei bod yn ystyried edrych ar ddod â rheilffyrdd o fewn perchenogaeth y

**Building Stronger Communities**

*3. **Mark Isherwood:** Will the Minister outline his policies for supporting the building of stronger communities. OAQ(4)0157(LGC)*

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am ei gwestiwn. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd yn canolbwyntio ar y gymuned a bydd yn grymuso unigolion a chymunedau i ddod ynghyd i gefnogi gwaith datblygu yn eu hardaloedd.

**Mark Isherwood:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Mae canfyddiadau amryw ddarnau o ymchwil wedi dangos bod gwaith cydgysylltu mewn ardal leol—sef model a ddatblygwyd yn wreiddiol yn Awstralia—yn sicrhau arbedion, yn cynyddu nifer y bobl sy'n cael cymorth ac yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau sy'n aml yn ddrud trwy ffurfio cysylltiadau ag unigolion ac ymgysylltu'n uniongyrchol mewn cymunedau. Erbyn hyn mae nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal trafodaethau ynghylch cyflwyno hyn. Felly, a wnaiff Llywodraeth Cymru gadw golwg ar y pedwar cynllun peilot yn y maes hwn, sydd wedi'u lansio yn Lloegr—yng Nghymbria, Derby, Middlesbrough a Stroud—ac a wnewch chi adrodd yn ôl ar ôl ichi ystyried sut y gellid addasu hyn i ddiwallu anghenion Cymru, os gellid gwneud hynny o gwbl?

**Carl Sargeant:** Ceir llawer o wahanol fathau o waith adfywio cymunedol a chefnogi cymunedau ledled y DU a thu hwnt. Mae rhai o'r elfennau sydd wedi dylanwadu ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd yn deillio o Iwerddon, yn dilyn fy ymweliad â'r wlad honno'n ddiweddar. Mae gennyf bolisi drws agored a meddwl agored o ran y cyfleoedd sy'n gallu gwella bywydau pobl. Mae'r Aelod wedi cyfeirio at y partneriaethau newydd hyn, a byddaf yn sicr yn gofyn i'm hadran edrych arnynt.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, very many of our communities are dependent on transport links. The Labour Party spokesperson at Westminster, Maria Eagle, has stated that she is considering looking at bringing railways into public ownership and

cyhoedd a'i bod yn edrych ar y posibilrwydd o greu cwmnïau nad ydynt am ddifidend, fel y model a gyflwynwyd ym maniffesto Plaid Cymru, i reoleiddio'r rheilffyrdd. Deallaf fod y Blaid Lafur yng Nghymru hefyd yn cytuno â hynny. A ydych yn bwriadu edrych ar hynny yng nghyd-destun y rheilffyrdd yng Nghymru?

that she is considering the possibility of creating not-for-dividend companies, as with the model given in Plaid Cymru's manifesto, for rail regulation. I understand that the Labour Party in Wales also agrees with that approach. Do you intend to look at that in the context of the railways in Wales?

**Carl Sargeant:** The Member raises an important question. I have met Maria Eagle on many occasions to discuss issues, particularly relating to transport. On the not-for-dividend, not-for-profit rail franchise that the Member raises, he will be aware of the refranchising of the Welsh franchise in 2018. I am pursuing that with interested stakeholders, trade unions and other agencies to look at the opportunities. As the Member quite rightly raises today, the Labour Party manifesto, which he has clearly read, makes reference to the not-for-profit, not-for-dividend rail franchise as one of our commitments.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi cwestiwn pwysig. Rwyf wedi cyfarfod â Maria Eagle droeon i drafod materion, yn enwedig materion yn ymwneud â thrafnidiaeth. O ran y fasnachfraint rheilffyrdd ddiddifidend a di-elw y mae'r Aelod yn sôn amdani, bydd yn ymwybodol bod masnachfraint Cymru yn cael ei hailddyfarnu yn 2018. Rwyf yn mynd ar drywydd hynny gyda rhanddeiliaid, undebau llafur ac asiantaethau eraill sydd â diddordeb i edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael. Fel y soniodd yr Aelod heddiw yn gywir ddigon, mae maniffesto'r Blaid Lafur, y mae ef yn amlwg wedi'i ddarllen, yn cyfeirio at y fasnachfraint rheilffyrdd ddi-elw a diddifidend fel un o'n hymrwymiadau.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rwy'n falch bod tir cyffredin rhyngom ar y mater hwnnw. A gaf eich cyfeirio hefyd at ddibyniaeth cymunedau yng Nghymru ar drafnidiaeth gyhoeddus o ran bysiau? Rydych wedi cyhoeddi yn ddiweddar na fyddwch yn torri'r grantiau i'r cwmnïau bysiau i'r graddau a ragwelwyd gennych yn y gwanwyn. A ydych yn credu y bydd hynny'n arwain at ostwng prisiau teithio ar fysiau, ac at ailsefydlu rhai gwasanaethau a oedd wedi'u torri oherwydd bod y perchnogion yn poeni y byddech yn cyflwyno toriadau mwy nag y dywedwch yn awr y byddwch?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I am glad that we have some common ground on that issue. May I refer you also to the dependence of our communities in Wales on public transport in the form of buses? You have recently announced that you will not be cutting the grants to bus operators to the extent that you had predicted back in the spring. Do you think that that will lead to a reduction in fares for bus travel, and at restoring some services that had been cut because the owners were concerned and had anticipated greater cuts than you now say you will introduce?

**Carl Sargeant:** That is an important point to place on the record. We have not made any reduction in funding to bus operators or to the local transport grants for local authorities. The decision by bus operators to increase fares and reduce services in anticipation of cuts was a commercial one, and I share the Member's concern. The fact of the matter is that, for the past six months, they have not had any reduction in funding, and yet their ticket prices on many routes have increased. They have not fully

**Carl Sargeant:** Mae hwnnw'n bwynt pwysig i'w gofnodi. Nid ydym wedi gostwng y cyllid a roddir i gwmnïau bysiau nac wedi gostwng y grantiau gwasanaethau trafnidiaeth lleol sydd ar gael i awdurdodau lleol o gwbl. Roedd y penderfyniad a wnaed gan gwmnïau bysiau i gynyddu prisiau a chwtogi gwasanaethau am eu bod yn disgwyl toriadau yn benderfyniad masnachol, ac rwyf innau, fel yr Aelod, yn pryderu am hynny. Y gwir amdani yw nad yw'r cyllid a roddir iddynt wedi gostwng dim yn ystod y chwe mis

explained the real facts to the general public, I do not believe, but I hope that they will reflect on their pricing structures and reduce some of their ticket prices in line with the additional funding that they have received from the Welsh Government.

diwethaf, ac eto i gyd mae prisiau eu tocynnau ar lawer o lwybrau wedi codi. Nid wyf o'r farn eu bod wedi egluro'r ffeithiau go iawn yn llawn i'r cyhoedd, ond gobeithiaf y byddant yn ailystyried eu strwythurau prisio ac yn gostwng prisiau rhai o'u tocynnau yn unol â'r cyllid ychwanegol y maent wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru.

**Swyddogion Cymorth Cymunedol**

**Community Support Officers**

***4. Julie Morgan:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol ledled Cymru. OAQ(4)0163(LGC*)

***4. Julie Morgan***: *Will the Minister provide an update on the planned recruitment of 500 additional community support officers across Wales. OAQ(4)0163(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Cardiff North for her question. More than 200 police community support officers were either deployed or in training by 1 June, which is well ahead of schedule and will result in benefits being delivered to communities across Wales at a much earlier stage. All PCSOs are expected to be deployed, as per our manifesto commitment, by September 2013.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am ei chwestiwn. Erbyn 1 Mehefin roedd dros 200 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu naill ai wrth eu gwaith neu'n cael eu hyfforddi. Mae hynny gryn dipyn yn gynt na'r disgwyl, a bydd yn golygu y bydd cymunedau ledled Cymru yn elwa'n llawer cynt. Mae disgwyl i holl swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu fod wrth eu gwaith, yn unol â'r ymrwymiad yn ein maniffesto, erbyn mis Medi 2013.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for that response. Would he agree that the recent report, 'Policing in Austerity: One Year On', shows the huge value of the additional police community support officers provided by the Welsh Government, with virtually all the English police forces showing a big percentage decrease in the number of PCSOs and Welsh forces showing an increase? That is in the context of an overall cut in the total workforce of every police force in England and Wales.

**Julie Morgan:** Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. A fyddai'n cytuno bod yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, 'Policing in Austerity: One Year On', yn dangos gwerth aruthrol y swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda bron bob un o'r heddluoedd yn Lloegr yn gweld gostyngiad mawr o ran canran yn nifer y swyddogion cymorth cymunedol sydd ganddynt a'r heddluoedd yng Nghymru yn gweld cynnydd? Mae hynny yng nghyd-destun toriadau cyffredinol ym maint gweithlu pob un o'r heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

**Carl Sargeant:** The Member raises an important issue about police and police staff numbers. I place on record my support for the operations that they undertake on a daily basis, protecting and supporting our communities. The Member is quite right that, of the 43 police forces across England and Wales, only seven are seeing an increase in the number of police community support officers and, of those seven, four are Welsh

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi mater pwysig ynghylch yr heddlu a nifer y staff sydd gan yr heddlu. Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i'r gwaith y maent yn ei wneud o ddydd i ddydd, yn diogelu ac yn cefnogi ein cymunedau. Mae'r Aelod yn llygad ei le i ddweud mai dim ond saith o blith y 43 o heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr sy'n gweld cynnydd yn nifer y swyddogion cymorth cymunedol sydd ganddynt ac mae

forces. That is significant and we should celebrate the fact that, in Wales, they are supporting our communities to remain safe and secure. They are by no means a replacement for fully warranted officers, however, and, as that independent report states, more than 610 officers are to go in Wales by 2015 with an additional 1,000 officers and police force staff. I believe that that will have a dramatic impact on the safety of our communities.

pedwar o'r saith hynny'n heddluoedd yng Nghymru. Mae hynny'n arwyddocaol, a dylem ddathlu'r ffaith bod y swyddogion hyn yng Nghymru yn cynorthwyo ein cymunedau i barhau'n ddiogel. Fodd bynnag, ni allant, ar unrhyw gyfrif, gymryd lle swyddogion heddlu â gwarant lawn, ac fel y nodir yn yr adroddiad annibynnol dan sylw, mae disgwyl y bydd dros 610 o swyddogion yn cael eu colli yng Nghymru erbyn 2015 ynghyd â 1,000 yn ychwanegol o swyddogion a staff yr heddlu. Credaf y bydd hynny'n cael effaith sylweddol ar ddiogelwch ein cymunedau.

**Byron Davies:** From a former existence, I am only too aware of the real value of PCSOs. Given the recent comments regarding police budgets and your Government's obvious support for PCSOs, I am interested in knowing how you came to the figure of 500 PCSOs. What consultation did you carry out, and why did you not provide monetary assistance to the forces rather than ring-fence spending in the way that you have?

**Byron Davies:** O brofiad blaenorol, rwyf yn ymwybodol iawn o werth gwirioneddol swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. O gofio'r sylwadau a wnaed yn ddiweddar ynghylch cyllidebau'r heddlu a chefnogaeth amlwg eich Llywodraeth i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, hoffwn wybod sut y cyrhaeddoch y ffigur o 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Pa ymgynghoriad a gynhaliwyd gennych, a pham na wnaethoch ddarparu cymorth ariannol i'r heddluoedd yn hytrach na neilltuo gwariant yn y modd yr ydych wedi'i wneud?

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's comments. I am surprised that he does not already know the answers to some of his questions. The fact of the matter is that we had a monetary envelope that allowed us to deliver 500 officers across Wales. This has been well received by all authorities and communities, including those that the Member represents. As regards the spend in terms of monetary value, rather than it being spent on PCSOs, I think that you are suggesting that we should have given cash to the police forces. You will be aware that this is not a devolved function and that the funding for the police comes from the Home Office, which has had a dramatic reduction in its funding from the UK Government. The Member is fully aware of that point.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei sylwadau. Rwyf yn synnu nad yw eisoes yn gwybod yr atebion i rai o'i gwestiynau. Y gwir amdani yw inni gael amlen ariannol a oedd yn caniatáu inni ddarparu 500 o swyddogion ar draws Cymru. Cafwyd croeso mawr i hynny gan bob awdurdod a chymuned, gan gynnwys y rheini y mae'r Aelod yn eu cynrychioli. O ran gwerth ariannol y gwariant, credaf eich bod yn awgrymu y dylem fod wedi rhoi arian i'r heddluoedd yn hytrach na'i wario ar swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Gwyddoch nad yw hon yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli ac mai'r Swyddfa Gartref sy'n darparu cyllid i'r heddlu, a gwyddoch fod y Swyddfa Gartref wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y cyllid a roddir iddi gan Lywodraeth y DU. Mae'r Aelod yn gwbl ymwybodol o hynny.

**Jocelyn Davies:** Of course, the UK Government has chosen to cut the police budget by 20%, which, as you pointed out, will have a real impact on front-line community policing. So, do you support the devolution of responsibility for policing and

**Jocelyn Davies:** Wrth gwrs, mae Llywodraeth y DU wedi dewis torri cyllideb yr heddlu 20%, ac fel y nodwyd gennych bydd hynny'n cael effaith wirioneddol ar blismona cymunedol rheng flaen. Felly, a ydych yn cefnogi datganoli cyfrifoldeb am

criminal justice or do you believe that Theresa May is best placed to oversee policing in Wales?

blismona a chyfiawnder troseddol neu a ydych o'r farn mai Theresa May sydd yn y sefyllfa orau i oruchwylio plismona yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** Thank you for your question. Where powers are appropriately delivered, or should be delivered, by the Welsh Government and Assembly then I would welcome them. However, I would certainly not want to take any function from Westminster without the appropriate funding. I believe that, at the moment, policing is in that bracket.

**Carl Sargeant:** Diolch am eich cwestiwn. Os yw'n briodol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad arfer pwerau neu os dylent gael eu harfer gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad, byddwn yn eu croesawu. Fodd bynnag, yn sicr ni fyddwn am fynd â'r un swyddogaeth wrth San Steffan heb y cyllid priodol. Rwyf o'r farn bod plismona yn perthyn i'r dosbarth hwnnw ar hyn o bryd.

**Keith Davies:** Weinidog, yn dilyn problemau lleol, cadeiriais gyfarfod cyntaf fforwm Station Road wythnos diwethaf. Daeth nifer o randdeiliaid at ei gilydd i fynd i'r afael â phroblemau drwy siarad yn bositif am yr ardal a'r gwaith cyfredol. Fel Julie Morgan, rwyf i hefyd yn croesawu'r 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Bydd y rhain yn helpu i roi'r ffocws cymunedol cryf rydym yn ei werthfawrogi gymaint yng Nghymru. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod y toriadau o 20% gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n effeithio ar ryw 1,300 o swyddogion, yn bygwth tanseilio ffocws diogelwch cymunedol ac y gallai hyn ail-greu'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae'r heddlu mewn tair ardal wedi cwestiynu eu gallu i ddarparu gwasanaeth effeithiol a phriodol?

**Keith Davies:** Minister, following local problems, I chaired the first meeting of the Station Road forum last week. Many stakeholders came together to get to grips with problems by speaking positively about the area and the work that is ongoing. Like Julie Morgan, I also welcome the 500 additional police community support officers. These officers will help to provide the strong community focus that we appreciate so much in Wales. Does the Minister agree that the cut of 20% imposed by the UK Government, which will affect some 1,300 officers, threatens to undermine the focus of community safety and that this could recreate the situation that exists in England whereby three police forces have questioned their ability to provide an effective and appropriate service?

**Carl Sargeant:** I think that a police community support officer and a police officer have very different functions. We have never pretended that PCSOs are replacements for police officers. This is about building capacity in community safety, which the Welsh Government can support through the financial window and opportunities that it has. I regret the naivety of the opposition parties and the Home Office in suggesting that a reduction of 600 officers in front-line services in Wales will have no effect on service capability. I do not agree with that and I think that our communities will suffer as a consequence.

**Carl Sargeant:** Mae gan swyddog cymorth cymunedol yr heddlu a swyddog heddlu swyddogaethau gwahanol iawn yn fy marn i. Nid ydym erioed wedi honni bod swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cymryd lle swyddogion heddlu. Mae a wnelo hyn ag adeiladu gallu o safbwynt diogelwch cymunedol, ac mae modd i Lywodraeth Cymru gefnogi hynny gan ddefnyddio'r cyfleoedd a'r ffenestr ariannol a roddir iddi. Rwyf yn gresynu at naïfrwydd y gwrthbleidiau a'r Swyddfa Gartref wrth awgrymu na fydd cael 600 yn llai o swyddogion yng ngwasanaethau rheng flaen Cymru yn cael dim effaith ar allu'r gwasanaeth. Nid wyf yn cytuno â hynny, a chredaf y bydd ein cymunedau'n dioddef o ganlyniad.

**Cynghorau Lleol**

***5. Julie James***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei berthynas weithio gyda chynghorau lleol. OAQ(4)0165(LGC)*

**Carl Sargeant:** Our relationship with councils is one of engagement. I recently held a series of regional seminars, where I listened to the views of councillors regarding my programme of public service reform. Building the right relationship with Welsh Government and local government is crucial for improving service delivery.

**Julie James:** Thank you for that answer, Minister. I very much welcome your 'Shared Purpose—Shared Delivery' document, which promotes integrated planning and service delivery. Do you believe that there is a new appetite among local councils for partnership working and a focus on outcomes rather than outputs?

**Carl Sargeant:** I am certainly encouraged, after meeting all of the leaders across Wales, that there is a renewed focus on delivering outcomes. Wherever we can help to do that, by removing bureaucracy around some of the measurement frameworks, which can be unduly burdensome in the way they can and do deliver, I am hopeful that, through 'Shared Purpose—Shared Delivery', we will be able to see a swifter response and deal with the reduction of £1.7 billion in Welsh Government funding, which will have a consequence for public services.

2.30 p.m.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, during the first two Assembly terms, the partnership council for Wales was described as an open cross-party body, which draw its membership initially from Assembly Members and local government representatives. However, in 2006, there was a substantial shift in focus to a more restricted dialogue between local government representatives and the Welsh Government—that is, you and your officials. I understand that 10 of your officials were

**Local Councils**

***5. Julie James:*** *Will the Minister make a statement on his working relationship with local councils. OAQ(4)0165(LGC)*

**Carl Sargeant:** Mae ein perthynas â chynghorau yn berthynas o ymgysylltu. Cynhaliais gyfres o seminarau rhanbarthol yn ddiweddar, lle y bûm yn gwrando ar farn cynghorwyr am fy rhaglen ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Mae creu'r berthynas iawn rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn hollbwysig wrth wella'r modd yr ydym yn darparu gwasanaethau.

**Julie James:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn croesawu'n fawr eich dogfen 'Cydamcanu—Cydymdrechu', sy'n hybu cynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd integredig. A ydych o'r farn bod awydd newydd ymysg cynghorau lleol i weithio mewn partneriaeth a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag ar allbynnau?

**Carl Sargeant:** Ar ôl cyfarfod â phob un o'r arweinwyr ar draws Cymru, rwyf yn sicr wedi fy nghalonogi bod ffocws o'r newydd ar sicrhau canlyniadau. Ble bynnag y gallwn helpu i wneud hynny, trwy gael gwared ar y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â rhai o'r fframweithiau mesur, sy'n gallu bod yn feichus iawn o ran y modd y maent yn darparu a'r modd y gallant ddarparu, rwyf yn obeithiol y byddwn, trwy'r ddogfen 'Cydamcanu—Cydymdrechu', yn gallu gweld ymateb cynt ac yn gallu ymdrin â'r gostyngiad o £1.7 biliwn yng nghyllid Llywodraeth Cymru, a fydd â goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus.

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, yn ystod dau dymor cyntaf y Cynulliad disgrifiwyd Cyngor Partneriaeth Cymru fel corff trawsbleidiol agored, yr oedd ei aelodau'n cynnwys Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr llywodraeth leol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, yn 2006 cafwyd newid sylweddol yn y ffocws i drafodaethau mwy cyfyngedig rhwng cynrychiolwyr llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru—hynny yw, chi a'ch swyddogion. Deallaf fod 10 o'ch swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod

present at the last meeting. Given the importance that you place on the role of this particular body in taking local government forward in Wales, do you really think that that is the best way forward, having removed the cross-body emphasis? Is it really in the spirit of open and true accountability and democratic working?

diwethaf. O gofio'r pwys yr ydych yn ei roi ar rôl y corff arbennig hwn wrth ddatblygu llywodraeth leol yng Nghymru, a ydych wir yn credu mai dyna'r ffordd orau ymlaen, ar ôl cael gwared ar y pwyslais ar gael cynrychiolaeth o wahanol gyrff? A yw hynny mewn gwirionedd yn ysbryd atebolrwydd agored a gwirioneddol a gweithio mewn modd democrataidd?

**Carl Sargeant:** The Member raises an issue that was six years ago. In 2012, and living now, is the refreshed partnership council, which I will be delivering with my public service leadership group, working in collaboration to make the very changes through our communities that we need to effect. You are the first person who has raised any issue with me around the partnership council and the way that it functions—of course, you would, would you not? A reduction of £1.7 billion to Welsh Government funding will have an impact on the communities that you claim to represent.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi mater sy'n dyddio'n ôl chwe mlynedd. Heddiw, yn 2012, ceir y cyngor partneriaeth ar ei newydd wedd, y byddaf yn ei gynnal yn ogystal â'm Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, gan weithio ar y cyd i wneud yr union newidiadau y mae angen inni eu gwneud yn ein cymunedau. Chi yw'r unigolyn cyntaf i godi unrhyw fater gyda mi ynghylch y cyngor partneriaeth a'r modd y mae'n gweithredu—ond wrth gwrs byddech chi'n gwneud hynny, oni fyddech? Bydd gostyngiad o £1.7 biliwn yn y cyllid a roddir i Lywodraeth Cymru yn cael effaith ar y cymunedau yr ydych yn honni eich bod yn eu cynrychioli.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, in July 2011, your Government announced details, saying that a collaborative measures Bill would be brought forward that would facilitate the process of local authorities making joint appointments, especially for senior posts. How many shared senior posts have you encouraged, supported or implemented in the past 12 months?

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, ym mis Gorffennaf 2011 cyhoeddodd eich Llywodraeth fanylion a oedd yn nodi y byddai Bil mesurau cydlafurio yn cael ei gyflwyno a fyddai'n hwyluso'r modd y mae awdurdodau lleol yn gwneud penodiadau ar y cyd, yn enwedig ar gyfer swyddi uwch. Faint o swyddi uwch a rennir yr ydych wedi'u hannog, eu cefnogi neu eu gweithredu yn ystod y 12 mis diwethaf?

**Carl Sargeant:** I do not have the numbers to hand with regard to the detail around that. However, I am encouraged by the way in which local authorities have adopted their approach to joint leadership across authorities. It is interesting, again, that the Member for Aberconwy asks that question because she is also aware of a joint post between Conwy and Denbighshire, which has been effective in her constituency.

**Carl Sargeant:** Nid oes gennyf wybodaeth am y niferoedd wrth law. Fodd bynnag, rwyf wedi fy nghalonogi gan y modd y mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu eu dull gweithredu mewn perthynas ag arweinyddiaeth ar y cyd ar draws awdurdodau. Unwaith eto, mae'n ddiddorol mai'r Aelod dros Aberconwy sy'n gofyn y cwestiwn hwnnw, oherwydd mae hefyd yn ymwybodol o swydd ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych sydd wedi bod yn effeithiol yn ei hetholaeth.

**Elin Jones:** Minister, my working relationship with my local authority has improved immensely since May when it became a Plaid-Cymru-led council. However, do you agree that, whichever

**Elin Jones:** Weinidog, mae fy mherthynas waith â'm hawdurdod lleol wedi gwella'n aruthrol ers mis Mai pan ddaeth yn gyngor a gaiff ei arwain gan Blaid Cymru. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno ni waeth pa blaid

political party leads a council, it should deal with all elected members, especially Assembly Members, of whichever political party, equally?

wleidyddol sy'n arwain cyngor y dylai ymdrin yn gyfartal â phob aelod etholedig, yn enwedig Aelodau Cynulliad, ni waeth i ba blaid wleidyddol y maent yn perthyn?

**Carl Sargeant:** Yes.

**Carl Sargeant:** Ydw.

**Peter Black:** Minister, how is your working relationship with open councils improving the quality of scrutiny?

**Peter Black:** Weinidog, sut y mae eich perthynas waith â chynghorau agored yn gwella ansawdd gwaith craffu?

**Carl Sargeant:** The Member may be aware of some of the detailed discussions that I have had at some of the seminars across Wales. I have conducted three seminars so far, and I have one tomorrow in north Wales. We have had seminars in Llanelli, Newport and Cardiff, where we have had great attendance from many members. The theme of change in public service delivery has been to do with collaboration, scrutiny and accountability. Strengthening that end bit is important for buy-in by elected members. We are producing a training package for the academy, which will give members an opportunity to enhance their scrutiny skills. Through the Local Government (Wales) Measure 2011, we brought in the opportunity to create joint scrutiny committees across public sector boundaries. This is all about transition from the old style of government to a new style of government. I believe that these changes are not just about ideology and the fact that we want to do this; I refer the Member back to the reduction of £1.7 billion in funding. We have to do something different. We do not want service failure.

**Carl Sargeant:** Efallai fod yr Aelod yn ymwybodol o rai o'r trafodaethau manwl yr wyf wedi'u cael mewn rhai o'r seminarau ar draws Cymru. Rwyf wedi cynnal tair seminar hyd yn hyn, a chynhelir un yfory yn y gogledd. Rydym wedi cynnal seminarau yn Llanelli, Casnewydd a Chaerdydd, ac rydym wedi cael presenoldeb ardderchog gan nifer o aelodau. Mae'r thema o newid wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus wedi ymwneud â chydweithredu, craffu ac atebolrwydd. Mae cryfhau atebolrwydd yn bwysig er mwyn sicrhau cefnogaeth aelodau etholedig. Rydym yn cynhyrchu pecyn hyfforddi ar gyfer yr academi a fydd yn rhoi cyfle i aelodau wella eu sgiliau craffu. Drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, bu inni gyflwyno'r cyfle i greu pwyllgorau craffu ar y cyd ar draws ffiniau'r sector cyhoeddus. Mae a wnelo hyn â newid o'r hen fath o lywodraeth i fath newydd o lywodraeth. Yn fy marn i, nid oes a wnelo'r newidiadau hyn ag ideoleg a'r ffaith ein bod yn dymuno gwneud hyn; cyfeiriaf yr Aelod unwaith yn rhagor at y gostyngiad o £1.7 biliwn yn ein cyllid. Mae'n rhaid inni wneud rhywbeth gwahanol. Nid ydym am i wasanaethau fethu.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. I do not believe that I have been invited to any of these seminars, so I am not aware of the details. Clearly, local government is far better off with the cut of £1.7 billion than the cut that Alistair Darling had planned for the Welsh Government's budget. Coming back to the issue of scrutiny, there is an issue in terms of partnership working, in that the bodies that local councils work with to deliver services across their area, such as local health boards, police authorities, universities and so on, do not feel obliged and often refuse to come in to give evidence to council scrutiny committees. Are you considering doing

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Nid wyf yn credu imi gael gwahoddiad i'r un o'r seminarau hyn, felly nid wyf yn ymwybodol o'r manylion. Yn amlwg, mae llywodraeth leol mewn sefyllfa lawer gwell gyda'r toriad o £1.7 biliwn yn hytrach na'r toriad yr oedd Alistair Darling wedi'i gynllunio ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru. Gan ddod yn ôl at waith craffu, ceir problem mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth am nad yw'r cyrff y mae cynghorau lleol yn gweithio gyda hwy i ddarparu gwasanaethau yn eu hardal, megis byrddau iechyd lleol, awdurdodau heddlu, prifysgolion ac yn y blaen, yn teimlo rheidrwydd i ddod i roi tystiolaeth i

anything in your local government Bill to put that right?

bwyllgorau craffu'r cyngor, ac yn aml maent yn gwrthod gwneud hynny. A ydych yn ystyried cynnwys unrhyw beth yn eich Bil llywodraeth leol i ddatrys y broblem honno?

**Carl Sargeant:** I am surprised that Councillor Black did not receive an invitation to the seminars. I will look into that in particular, as I was in Llanelli and I know that your colleague was in the meeting in Llanelli, and I know that he thoroughly enjoyed my contribution. Therefore, it is a shame that you were not there to listen too. I will look into that. However, the Member raises an important issue about scrutiny beyond the public sector and the natural delivery bodies as they have been seen in the past. We have put in provision, as I said, to make public bodies accountable. I will make sure that the Member is aware of the full list of organisations where scrutiny can hold them to account.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn synnu na dderbyniodd y Cynghorydd Black wahoddiad i'r seminarau. Byddaf yn edrych i mewn i hynny'n benodol, oherwydd rwyf wedi bod yn Llanelli a gwn fod eich cydweithiwr yn bresennol yn y cyfarfod yn Llanelli, a gwn iddo fwynhau fy nghyfraniad yn fawr. Felly, mae'n drueni nad oeddech chi yno i wrando hefyd. Edrychaf i mewn i hynny. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn codi mater pwysig ynghylch craffu y tu hwnt i'r sector cyhoeddus a'r cyrff yr ystyriwyd yn y gorffennol eu bod yn gyrff darparu naturiol. Fel y soniais, rydym wedi sefydlu darpariaeth i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn atebol. Byddaf yn sicrhau bod yr Aelod yn ymwybodol o'r rhestr lawn o sefydliadau y gellir eu dwyn i gyfrif drwy'r broses graffu.

**Ffordd Osgoi yr A487**

**The A487 Bypass Scheme**

***6. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun ffordd osgoi yr A487 ar gyfer Caernarfon a Bontnewydd. OAQ(4)0168(LGC)*

***6. Alun Ffred Jones:*** *Will the Minister make a statement regarding the A487 by-pass scheme for Caernarfon and Bontnewydd. OAQ(4)0168(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Arfon for that. I am pleased to say that the Member will now know that I have made announcements on the proposed and preferred route for the bypass. This is obviously a significant step in the original plans for the Bontnewydd bypass, which is highlighted in the national transport plan.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Arfon am hynny. Rwyf yn falch o gael dweud y bydd yr Aelod yn gwybod erbyn hyn fy mod wedi gwneud cyhoeddiadau ynghylch y llwybr arfaethedig a ffefrir ar gyfer y ffordd osgoi. Mae hwn yn amlwg yn gam sylweddol ymlaen yng nghyswllt y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer ffordd osgoi y Bontnewydd, a gaiff eu hamlygu yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am wneud y cyhoeddiad hwnnw. Bydd y llwybr hwn—unrhyw lwybr, a dweud y gwir—yn sicr o greu problemau i rai perchnogion tir a pherchnogion tai. Sut a phryd bydd y perchnogion hynny yn gallu trafod eu pryderon gyda swyddogion neu'r ymgynghorwyr er mwyn ceisio dod i ddealltwriaeth?

**Alun Ffred Jones:** Thank you for making that announcement. This route—any route, in all honesty—will be sure to create problems for some landowners and homeowners. How and when can those owners discuss their concerns with officials or the consultants in order to try to come to an understanding?

**Carl Sargeant:** As the Member will be aware, this has been a long and ongoing issue in terms of the public consultation. The

**Carl Sargeant:** Fel y gŵyr yr Aelod, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y mater hwn wedi bod yn un hir a pharhaus.

final public consultation was in November 2010 to January 2011. The next stage will be to develop a design and prepare for publication draft orders and an environmental statement. Through that process, I would say, if the Member has any specific issues with regard to the route, he or his constituents may contact my department to have an early discussion about what the implications may or may not be. There will be a full proposal published at the draft order stage, and consultation and discussions with the communities affected is a statutory process that we will have to undertake.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus terfynol rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Ionawr 2011. Y cam nesaf fydd datblygu cynllun a pharatoi ar gyfer cyhoeddi gorchmynion drafft a datganiad amgylcheddol. Drwy'r broses honno, hoffwn nodi os bydd gan yr Aelod unrhyw faterion penodol y mae am eu codi ynghylch y llwybr, gall ef neu ei etholwyr gysylltu â'm hadran i gael trafodaeth gynnar am y goblygiadau posibl. Cyhoeddir cynnig llawn yn ystod cyfnod y gorchymyn drafft, ac mae ymgynghori a thrafod â'r cymunedau yr effeithir arnynt yn broses statudol y bydd yn rhaid inni ymgymryd â hi.

**Mark Isherwood:** I know that it is a complete co-incidence that we got your email this morning announcing the preferred route. To develop on Alun Ffred's question, what, if any, direct engagement will there be with the homeowners or landowners whose premises are likely to be affected to ensure that the effect on them is minimised, given the lessons of the past? I think that the last time that there was a major road scheme, it was from Caernarfon heading towards Pen Llŷn.

**Mark Isherwood:** Gwn mai cyd-ddigwyddiad llwyr ydyw i'ch e-bost ddod i law y bore yma yn cyhoeddi'r llwybr a ffefrir. I ymhelaethu ar gwestiwn Alun Ffred, pa waith ymgysylltu uniongyrchol, os o gwbl, y bwriedir ei wneud gyda'r perchnogion tai neu'r tirfeddianwyr y mae'r cynllun yn debygol o effeithio ar eu heiddo i sicrhau y ceir cyn lleied o effaith ag sy'n bosibl arnynt, o gofio'r gwersi a ddysgwyd o'r gorffennol? Credaf mai'r tro diwethaf inni gael cynllun ffyrdd mawr oedd ar gyfer y ffordd o Gaernarfon i gyfeiriad Pen Llŷn.

**Carl Sargeant:** I believe that we as a Welsh Government should make sure that we are open and transparent in this process. We are making available my team to have discussions with persons affected along the proposed route. There is a statutory process that we must follow. I would encourage, as I said to the Member for Arfon, those potentially affected by this route to contact my department if they have an immediate inquiry around this. However, through the statutory process of the publication of draft orders, they will have the opportunity to respond with regard to any effects or perceived effects that a new design scheme for a road network may have on their property or persons.

**Carl Sargeant:** Credaf y dylem ni fel Llywodraeth Cymru sicrhau ein bod yn ymddwyn yn agored ac yn dryloyw mewn perthynas â'r broses hon. Rydym yn sicrhau bod fy nhîm ar gael i gynnal trafodaethau â phobl yr effeithir arnynt ar hyd y llwybr arfaethedig. Ceir proses statudol y mae'n rhaid inni ei dilyn. Fel y dywedais wrth yr Aelod dros Arfon, byddwn yn annog y sawl y gallai'r llwybr hwn effeithio arnynt i gysylltu â'm hadran os bydd ganddynt ymholiad uniongyrchol am y mater hwn. Fodd bynnag, trwy'r broses statudol o gyhoeddi'r gorchmynion drafft, byddant yn cael cyfle i ymateb mewn perthynas ag unrhyw effeithiau neu effeithiau ymddangosiadol y gallai cynllun newydd ar gyfer rhwydwaith ffyrdd eu cael ar eu heiddo neu arnynt hwy'n bersonol.

**Blaenoriaethau ar gyfer Tor-faen**

**Priorities for Torfaen**

***7. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei brif flaenoriaethau ar gyfer Tor-faen dros y chwe mis nesaf.*

***7. Lynne Neagle***: *Will the Minister outline his main priorities for Torfaen for the next six months. OAQ(4)0171(LGC)*

*OAQ(4)0171(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Torfaen for her question. My priorities for all parts of Wales were published in May in the annual report on the programme for government.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Dorfaen am ei chwestiwn. Cyhoeddwyd fy mlaenoriaethau ar gyfer pob rhan o Gymru ym mis Mai yn yr adroddiad blynyddol ar y rhaglen lywodraethu.

**Lynne Neagle:** I am really delighted that you have agreed to officially open the Chrysalis Centre hub in Fairwater in my constituency next week. The opening of the hub means that there is now a three-strong network of drop-in centres in Torfaen for women who have experienced domestic violence. With Torfaen Women's Aid, Hafan Cymru, Victim Support and the local community safety partnership all working together to deliver this project, would you agree, Minister, that this is a fantastic example of third sector collaboration that will make a huge difference to the lives of those affected by domestic violence in Torfaen?

**Lynne Neagle:** Rwyf wrth fy modd eich bod wedi cytuno i agor yn swyddogol Ganolfan Chrysalis yn Fairwater yn fy etholaeth yr wythnos nesaf. Mae agor y ganolfan yn golygu y ceir rhwydwaith o dair canolfan galw heibio yn Nhorfaen erbyn hyn ar gyfer menywod sydd wedi dioddef trais domestig. Gan fod Cymorth i Fenywod Torfaen, Hafan Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr a'r bartneriaeth diogelwch cymunedol leol i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r prosiect hwn, a fyddech yn cytuno, Weinidog, bod hon yn enghraifft wych o gydweithio yn y trydydd sector a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau'r sawl y mae trais domestig yn effeithio arnynt yn Nhorfaen?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her very important question. I place on record my thanks to her for the tireless work that she does in this area, along with many other Members in this Chamber, who support me in bringing an end to violence against women and domestic abuse. The centre that I will, hopefully, be opening on 12 July will have an important place in our communities. It is very sad that we still have to invest significant amounts of funding into service provision for this, but it is essential that we do so in order to give people the opportunity to provide help where it is most needed. The Member raises the issue of third sector collaboration. Torfaen Women's Aid, Hafan Cymru, Victim Support, the Torfaen community safety partnership and an array of other organisations providing support for the most vulnerable in our communities, including support for men affected by domestic abuse, will be welcome in that area and in many areas beyond Torfaen also.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn pwysig iawn. Hoffwn gofnodi fy niolch iddi am y gwaith diflino y mae'n ei wneud yn y maes hwn, ynghyd â nifer o Aelodau eraill yn y Siambr hon, sydd yn fy nghefnogi wrth geisio rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Bydd y ganolfan y byddaf yn ei hagor, gobeithio, ar 12 Gorffennaf yn chwarae rhan bwysig yn ein cymunedau. Mae'n drist iawn bod yn rhaid inni fuddsoddi llawer iawn o arian o hyd mewn darparu gwasanaeth o'r fath, ond mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hynny er mwyn rhoi'r cyfle i bobl roi cymorth lle y mae ei angen fwyaf. Mae'r Aelod yn codi'r mater ynghylch cydweithio â'r trydydd sector. Bydd croeso mawr yn yr ardal hon ac mewn llawer o ardaloedd y tu hwnt i Dorfaen i'r cydweithio rhwng Cymorth i Fenywod Torfaen, Hafan Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, partneriaeth diogelwch cymunedol Torfaen ac amrywiaeth o sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys cymorth i ddynion y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

**William Graham:** Minister, in reply to a previous question on your priorities for

**William Graham:** Weinidog, mewn ymateb i gwestiwn blaenorol ynghylch eich

Torfaen, you indicated an aim to promote safe communities. A cause for concern in many communities in Torfaen arises from the reduced provision of street lighting. What does your Government have in terms of data on reduced street lighting and its effect on communities?

blaenoriaethau ar gyfer Torfaen, bu ichi sôn am y nod o hybu cymunedau diogel. Mae'r ffaith bod llai o oleuadau stryd ar gael yn peri pryder mewn llawer o gymunedau yn Nhorfaen. Pa ddata sydd gan eich Llywodraeth yn ymwneud â llai o oleuadau stryd a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gymunedau?

**Carl Sargeant:** We know that community councils and unitary authorities are responsible for the majority of lighting in the areas that we all represent and that the implications for their budget streams have an impact on whether they have full or half lighting during twilight hours. There are little data to support the evidence of unsafe communities, but I do accept that it is certainly a perception that a darker street or a darker community could cause concern in the local community. This is a matter for the local authority and I would ask the Member to take that up with the authority directly.

**Carl Sargeant:** Gwyddom mai cynghorau cymuned ac awdurdodau unedol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r goleuadau yn yr ardaloedd yr ydym yn eu cynrychioli, a gwyddom fod y goblygiadau ar gyfer ffrydiau eu cyllideb yn cael effaith ar eu penderfyniad i gael goleuadau llawn neu hanner oleuadau fin nos. Ychydig o ddata sydd ar gael i gefnogi'r dystiolaeth bod hynny'n gysylltiedig â chymunedau anniogel, ond rwyf yn derbyn ei fod yn sicr yn ganfyddiad y gallai stryd dywyllach neu gymuned dywyllach beri pryder yn y gymuned leol. Mae hwn yn fater i'r awdurdod lleol, a byddwn yn gofyn i'r Aelod godi'r mater yn uniongyrchol gyda'r awdurdod.

**Menywod mewn Swyddi Uwch-arweinwyr**

**Women in Senior Leadership Roles**

***8. Kenneth Skates:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i annog rhagor o fenywod i ymgymryd â swyddi uwch-arweinwyr mewn llywodraeth leol. OAQ(4)0159(LGC)*

***8. Kenneth Skates***: *Will the Minister outline the Welsh Government's plans to encourage more women into senior leadership roles within local government. OAQ(4)0159(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Clwyd South for his question. Although the recent elections have resulted in only two female leaders of county councils, the Welsh Government strategic equality plan, published on 2 April, contains key actions to further our commitment to ensure that we increase the number of females appointed to public roles in Wales.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Dde Clwyd am ei gwestiwn. Er mai dim ond dwy fenyw sy'n arweinwyr ar gynghorau sir yn dilyn yr etholiadau diweddar, mae cynllun cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill, yn cynnwys camau gweithredu allweddol i wella ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn cynyddu nifer y menywod a gaiff eu penodi i swyddi cyhoeddus yng Nghymru.

**Kenneth Skates:** Minister, despite women making up more than 50% of the population, they make up only one in five Members of Parliament and there are currently more millionaires than women in the Cabinet. Indeed, figures recently obtained by my fine colleague Julie Morgan show that, following the May 2012 local elections, only 325 out of 1,223 councillors in Wales are female, representing just 27% of the total. What

**Kenneth Skates:** Weinidog, er gwaethaf y ffaith bod dros 50% o'r boblogaeth yn fenywod, dim ond un o bob pum Aelod Seneddol sy'n fenywod, ac ar hyn o bryd ceir mwy o filiwnyddion nag o fenywod yn y Cabinet. Yn wir, mae'r ffigurau a gasglwyd gan fy nghydweithiwr medrus Julie Morgan yn ddiweddar yn dangos mai dim ond 325 o'r 1,223 o gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod ers yr etholiadau lleol a gynhaliwyd

work are you doing to tackle the unacceptably slow increase in the number of women being elected in Wales? What efforts are you making to ensure that more women play a leadership role within local government and wider political life?

ym mis Mai 2012, sy'n 27% o'r cyfanswm. Pa waith yr ydych yn ei wneud i fynd i'r afael â'r cynnydd annerbyniol o araf yn nifer y menywod sy'n cael eu hethol yng Nghymru? Pa ymdrechion yr ydych yn eu gwneud i sicrhau bod mwy o fenywod yn chwarae rôl arweiniol mewn llywodraeth leol ac mewn bywyd gwleidyddol yn ehangach?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his question. There is much that I would like to do to tackle the millionaires in the UK Cabinet, but that is beyond my responsibility. On raising expectations and opportunities for women in public office, in terms of Welsh local government the Member is right to say that the figure is 27%. I believe that that is an improvement on where we have been, but I will be waiting for further data that are being gathered on the latest election results. There is much more work to be done and there are many great examples of fine leadership from women right across the public and private sectors in Wales and across the UK. We must encourage that and give everyone the opportunity to contribute.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Hoffwn wneud llawer o bethau i fynd i'r afael â'r miliwnyddion yng Nghabinet y DU, ond mae hynny y tu hwnt i'm cyfrifoldeb. O ran codi disgwyliadau a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i fenywod gael swyddi cyhoeddus, mae'r Aelod yn gywir i ddweud mai'r ffigur ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yw 27%. Credaf fod hynny'n well nag a fu yn y gorffennol, ond byddaf yn aros i gael mwy o ddata sydd wrthi'n cael ei gasglu ar ganlyniadau'r etholiad diweddaraf. Mae llawer mwy o waith i'w wneud, a cheir llawer iawn o enghreifftiau ardderchog o fenywod sy'n arweinwyr da ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru a'r DU. Rhaid inni annog hynny a rhoi'r cyfle i bawb gyfrannu.

**Antoinette Sandbach:** Minister, I notice that your fine words do not extend to the Labour councillors in Conwy County Borough Council. They are in coalition with Plaid and there is not a single female member of the Cabinet there. In fact, I wrote to the Minister, Jane Hutt, and she is yet to give me the courtesy of a reply. Can you confirm how examples of best practice in local government influence other parts of the public sector to achieve a balance that better reflects the Welsh public? Can you confirm what discussions you are having with your Cabinet colleagues to discuss how this best practice can help the Welsh Government to lead by example in organisations such as the natural resources body and in Conwy council?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, sylwaf nad yw eich geiriau teg yn ymestyn i'r cynghorwyr Llafur yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Maent mewn clymblaid gyda Phlaid Cymru, ac nid oes yr un fenyw yn aelod o'r Cabinet yno. A dweud y gwir, ysgrifennais at y Gweinidog, Jane Hutt, ac nid yw wedi bod yn ddigon cwrtais i ymateb eto. A allwch gadarnhau sut y mae enghreifftiau o arfer gorau mewn llywodraeth leol yn dylanwadu ar rannau eraill o'r sector cyhoeddus i sicrhau cydbwysedd sy'n adlewyrchu'r cyhoedd yng Nghymru yn well? A allwch gadarnhau pa drafodaethau yr ydych yn eu cael â'ch cydweithwyr yn y Cabinet i drafod sut y gall yr arfer gorau hwn helpu Llywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl mewn sefydliadau megis y corff adnoddau naturiol a Chyngor Conwy?

**Carl Sargeant:** I am quite sure that, despite her backhanded comments, the Member would support me in trying to encourage more women to take senior positions right across Wales. You have one female constituency Member in the Conservative

**Carl Sargeant:** Rwyf yn eithaf siŵr y byddai'r Aelod, er gwaethaf ei sylwadau amwys, yn fy nghefnogi wrth geisio annog mwy o fenywod i gymryd swyddi uwch ar draws Cymru gyfan. Yn y Blaid Geidwadol un fenyw sydd gennych yn Aelod sy'n

Party, so I will not take any lessons from you on engagement. [*Interruption.*] One and one makes two—I am sorry; I withdraw that remark, Presiding Officer. There are two lots of one. However, that is not the really important issue. The important thing is how we can encourage more people to take a senior role. Indeed, like the Member who is leading this Assembly today—a senior lady in terms of her position as Presiding Officer—[*Interruption.*] This buys me a little time.

cynrychioli etholaeth, felly nid wyf am gael yr un wers gennych chi ynghylch ymgysylltu. [*Torri ar draws.*] Mae un ac un yn gwneud dau—mae'n ddrwg gennyf; tynnaf y sylw hwnnw yn ôl, Lywydd. Ceir dwy lot o un. Fodd bynnag, nid dyna'r peth pwysig mewn gwirionedd. Y peth pwysig yw sut y gallwn annog rhagor o bobl i gymryd rôl uwch. Yn wir, megis yr Aelod sy'n arwain y Cynulliad hwn heddiw—sy'n wraig sydd â swydd uwch o ran ei rôl fel Llywydd—[*Torri ar draws.*] Mae hyn yn prynu ychydig o amser imi.

2.45 p.m.

**The Presiding Officer:** Order. I think that you had better stop digging, Minister.

**Y Llywydd:** Trefn. Rwyf yn credu y byddai'n well ichi roi'r gorau i gloddio twll, Weinidog.

**Carl Sargeant:** Of course, I must congratulate our new female Labour leader on her effective leadership of Cardiff Council, as I am sure the Member does, as well.

**Carl Sargeant:** Wrth gwrs, rhaid imi longyfarch ein harweinyddes newydd o'r Blaid Lafur am arwain Cyngor Caerdydd yn effeithiol, ac rwyf yn siŵr bod yr Aelod yn ei llongyfarch hefyd.

**The Presiding Officer:** Order. I am not sure about the term 'senior lady', but we will pass that by. [*Laughter*.]

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf yn siŵr am y term 'senior lady' a ddefnyddiwyd yn Saesneg, ond fe wnawn ni anwybyddu hynny. [*Chwerthin*.]

**Bethan Jenkins:** Weinidog, wrth gwrs y mae'n dda bod mwy o fenywod yn mynd i mewn i wleidyddiaeth, ond efallai mai un o'r rhesymau pam nad yw menywod yn gwneud hynny yw am eu bod yn gorfod dioddef sylwadau rhywiaethol a sylwadau am eu bywydau personol. Rwy'n trefnu cynhadledd gyda'r Undeb Prifysgol a Choleg ym mis Hydref i drafod rhai o'r beirniadaethau y mae menywod mewn gwleidyddiaeth yn gorfod eu dioddef bob wythnos. A fyddech, fel Gweinidog, yn hoffi siarad yn y gynhadledd hon?

**Bethan Jenkins:** Minister, of course it is good news that more women are going into politics, but perhaps one reason why women do not do so is because they have to put up with sexist comments and remarks about their personal lives. I am arranging a conference with the UPC in October to discuss some of the criticisms that women in politics have to put up with every week. Would you, as Minister, like to speak at that conference?

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's invitation. The Member would have to drop me a line with the dates and details to see whether my diary is free, enabling me to attend. However, I support the Member in what she says about the difficulties that all politicians, men and women, face, such as attacks on their personal lives, but also more particularly the issue that the Member rightly raises, which is that female representatives appear to be under constant attack. I would welcome an

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am y gwahoddiad. Byddai'n rhaid i'r Aelod gysylltu â mi gan nodi'r dyddiadau a'r manylion i weld a yw fy nyddiadur yn wag, a fyddai'n golygu bod modd imi fynychu. Fodd bynnag, rwyf yn cefnogi'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud am yr anawsterau y mae pob gwleidydd, yn ddynion ac yn fenywod, yn eu hwynebu, megis ymosodiadau ar eu bywyd personol, ond yn fwy penodol hefyd ynghylch y mater y mae'r Aelod yn ei godi yn gywir ddigon, sef yr ymddengys fod cynrychiolwyr

invitation from the Member.

sy'n fenywod yn cael eu beirniadu'n barhaus. Byddwn yn croesawu gwahoddiad gan yr Aelod.

**Blaenoriaethau Trafnidiaeth**

**Transport Priorities**

***9. Darren Millar***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau o ran trafnidiaeth ar gyfer gogledd Cymru. OAQ(4)0161(LGC)*

***9. Darren Millar***: *Will the Minister make a statement on his transport priorities for north Wales. OAQ(4)0161(LGC*)

**Carl Sargeant:** The prioritised national transport plan sets out my priorities for north Wales.

**Carl Sargeant:** Mae blaenoriaethau'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn egluro fy mlaenoriaethau ar gyfer y gogledd.

**Darren Millar:** Thank you, Minister, for that answer. One thing that was missing from the national transport plan was any indication of whether you support the re-establishment of a direct rail link between north Wales and Liverpool. You will be aware that, as recently as the 1970s, there was a direct link between the city of Liverpool and the north Wales coast, which was extremely beneficial given the commercial links for jobs and for the promotion of the tourism industry. Would you be prepared to work closely with the UK Government to see whether a direct link can be re-established in future?

**Darren Millar:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Un peth a oedd ar goll o'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol oedd unrhyw arwydd ynghylch p'un a ydych yn cefnogi ailsefydlu cyswllt rheilffordd uniongyrchol rhwng y gogledd a Lerpwl. Byddwch yn gwybod bod cyswllt uniongyrchol wedi bodoli rhwng dinas Lerpwl ac arfordir y gogledd mor ddiweddar â'r 1970au, ac roedd yn fuddiol tu hwnt o gofio'r cysylltiadau masnachol ar gyfer swyddi ac ar gyfer hybu'r diwydiant twristiaeth. A fyddech yn barod i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i weld a ellir ailsefydlu cyswllt uniongyrchol yn y dyfodol?

**Carl Sargeant:** I am certainly sympathetic to the issue of relationships between the north-west and north Wales corridors, for the effectiveness of the commercial and social activity that takes place there. If we can make that easier for commuters in any way, we should encourage that. You are right to say that this was not in the national transport plan. We did not add anything or take anything way; it was a procedure for reprioritisation. However, that does not exclude the issue from further investment or from further viability studies.

**Carl Sargeant:** Heb os, rwyf yn gefnogol o'r berthynas rhwng coridorau gogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru, o safbwynt effeithiolrwydd y gweithgarwch masnachol a chymdeithasol sy'n digwydd yno. Os gallwn hwyluso hynny i gymudwyr mewn unrhyw fodd, dylem annog hynny. Rydych yn gywir i ddweud nad oedd hynny'n rhan o'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Nid oeddem wedi ychwanegu dim na thynnu dim allan; roedd yn weithdrefn ar gyfer ailflaenoriaethu. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na fydd modd buddsoddi ymhellach yn y mater hwn neu gynnal astudiaethau dichonoldeb pellach yn ei gylch.

**Alun Ffred Jones:** I fynd yn ôl at gynllun ffordd osgoi Bontnewydd-Caernarfon, yn anochel, bydd y broses yr ydych wedi'i disgrifio yn cymryd rhai blynyddoedd. Fodd bynnag, pan ddaw'r amser i osod cytundebau ar gyfer y ffordd hon, a wnewch chi sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod cwmnïau cymharol leol yn gallu cynnig am y gwaith hwnnw, a hefyd sicrhau bod y

**Alun Ffred Jones:** To return to the Bontnewydd-Caernarfon bypass scheme, it is inevitable for the process that you outlined to take quite a few years. However, when the time comes to award the contracts for the bypass, will you ensure that every attempt is made to ensure that relatively local companies are able to bid for that work, and also to ensure that the area, as well as the wider area

budd mwyaf yn dod i'r ardal, a'r ardal ehangach yn y gogledd orllewin, o safbwynt cyflogaeth?

of the north west, gets the maximum benefit possible in respect of employment?

**Carl Sargeant:** Yes, I have instructed my officials on all my schemes to ensure that we have the best procurement policy so that we enhance the opportunity for community benefit and training for as many local people as possible. I am sympathetic to the Member's call regarding this scheme, and I will look at it closely.

**Carl Sargeant:** Gwnaf, ac rwyf wedi dweud wrth fy swyddogion ar bob un o'm cynlluniau i sicrhau bod gennym y polisi caffael gorau fel y gallwn wella'r cyfle i sicrhau bod y gymuned yn elwa a bod cynifer o bobl leol ag sy'n bosibl yn cael hyfforddiant. Rwyf yn gefnogol o gais yr Aelod ynghylch y cynllun hwn, a byddaf yn edrych arno'n ofalus.

**Aled Roberts:** Minister, I welcome the investment in the rail system in north-east Wales that the Government announced as part of its national transport plan. However, you may be aware of problems with bank holiday rail services, where four services were recently withdrawn. The response from Arriva Trains Wales was that the services that I mentioned, specifically early-morning and late-evening services, are not contractually required on bank holidays. Are you satisfied with that position, and if that is the case contractually, will you ensure that the position is not reflected in the new franchise arrangements? There was a situation where there were no trains for two hours on the rail line on that particular Monday.

**Aled Roberts:** Weinidog, rwyf yn croesawu'r buddsoddiad yn y system reilffyrdd yn y gogledd-ddwyrain a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn rhan o'i chynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol o broblemau gyda gwasanaethau rheilffyrdd dros wyliau banc, lle y cafodd pedwar gwasanaeth eu tynnu'n ôl yn ddiweddar. Yr ymateb a gafwyd gan Drenau Arriva Cymru oedd nad yw eu contract yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu'r gwasanaethau y soniais amdanynt ar wyliau banc, sef yn benodol y gwasanaethau yn gynnar yn y bore ac yn hwyr yn y nos. A ydych yn fodlon â'r sefyllfa honno, ac os dyna'r sefyllfa yn ôl y contract, a wnewch chi sicrhau na fydd y sefyllfa honno'n cael ei hadlewyrchu yn y trefniadau ar gyfer y fasnachfraint newydd? Cafwyd sefyllfa lle nad oedd unrhyw drenau ar gael ar y rheilffordd am ddwy awr ar y dydd Llun penodol hwnnw.

**Carl Sargeant:** The Member is right to raise the issue of the way in which the franchise agreement is written. Unfortunately, the franchise is the franchise. However, 2018 will give us a new opportunity to pursue the not-for-dividend, not-for-profit rail scheme in Wales, as I mentioned earlier. That might give us new opportunities. I believe that the Member quoted the letter from Arriva, which is accurate, but it does not mean that I agree with the principle of the letter.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn gywir i godi'r mater ynghylch geiriad y cytundeb ar gyfer y fasnachfraint. Yn anffodus, dyna yw'r fasnachfraint. Fodd bynnag, bydd 2018 yn rhoi cyfle newydd inni fynd ar drywydd y cynllun rheilffyrdd diddifidend a di-elw yng Nghymru, fel y soniais yn gynharach. Efallai y bydd hynny'n rhoi cyfleoedd newydd inni. Credaf i'r Aelod ddyfynnu'r llythyr gan Arriva, sy'n gywir, ond nid yw hynny'n golygu fy mod yn cytuno ag egwyddor y llythyr.

**The Presiding Officer:** Question 10, OAQ(4)0162(LGC), has been transferred for written answer.

**Y Llywydd:** Mae cwestiwn 10, OAQ(4)0162(LGC), wedi'i drosglwyddo i gael ateb ysgrifenedig yn ei gylch.

**Gwasanaethau Cludo Teithwyr**

*11. **Russell George:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0173(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Montgomeryshire. I am committed to improving national rail services in Wales, as set out in the national transport plan for Wales. Our future priorities include the electrification of the Great Western main line to Swansea and the Cardiff Valleys lines, and enhanced station accessibility.

**Russell George:** I hope that the Minister will take the time to read the most recent newsletter of the Shrewsbury-Aberystwyth Rail Passenger Association as it contained an excellent article on how an hourly service is in the process of being introduced in rural east Suffolk. The rail press has been particularly gushing about the project on the east Suffolk line, which was first presented in 2010. It shows that, even in hard times, projects can go ahead. My question, Minister, is this: why can a project proposed just two years ago be on track to deliver an hourly service by this winter when the Cambrian line project, the infrastructure for which was first introduced in 2008, cannot be delivered on time?

**Carl Sargeant:** I think that there are several reasons relating to priorities and financial planning affecting the ability to deliver schemes. There is no point entering into a new negotiated position of delivering a scheme if it is not feasible in the longer term. I want to ensure, with my team, that when we create this scheme, it is sustainable for the passengers who use it. I am sure that the Member would support that. We have been working with Network Rail and Arriva Trains Wales on the introduction of the additional services, and we will continue to do so. There have been issues with the new European rail traffic management system, which Network Rail is resolving. However, of course, these have added to the complications, the affordability and the

**Passenger Rail Services**

***11. Russell George**: Will the Minister make a statement about the delivery of passenger rail services in Wales. OAQ(4)0173(LGC)*

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Sir Drefaldwyn. Rwyf wedi ymrwymo i wella gwasanaethau rheilffyrdd cenedlaethol yng Nghymru, fel y nodir yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol i Gymru. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys trydaneiddio prif reilffordd y Great Western i Abertawe a rheilffyrdd Cymoedd Caerdydd, a gwneud gorsafoedd yn fwy hygyrch.

**Russell George:** Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn rhoi o'i amser i ddarllen cylchlythyr diweddaraf Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd yr Amwythig-Aberystwyth, gan ei fod yn cynnwys erthygl ragorol ar y ffaith bod gwasanaeth bob awr yn cael ei gyflwyno yng nghefn gwlad dwyrain Suffolk. Mae'r wasg sy'n ymwneud â rheilffyrdd wedi bod yn arbennig o frwd ynghylch y prosiect ar reilffordd dwyrain Suffolk, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2010. Mae'n dangos y gall prosiectau fynd yn eu blaen, hyd yn oed mewn cyfnodau anodd. Dyma fy nghwestiwn, Weinidog: sut y gall prosiect a gynigwyd ddwy flynedd yn unig yn ôl fod yn barod i ddarparu gwasanaeth bob awr erbyn y gaeaf hwn, pan na ellir cwblhau ar amser brosiect rheilffordd y Cambrian, y cyflwynwyd y seilwaith ar ei gyfer yn wreiddiol yn 2008?

**Carl Sargeant:** Credaf fod nifer o resymau'n ymwneud â blaenoriaethau a chynllunio ariannol sy'n effeithio ar y gallu i gwblhau cynlluniau. Nid oes diben ymrwymo i sefyllfa newydd a gytunwyd ar gyfer cyflawni cynllun os nad yw'r cynllun hwnnw'n ymarferol yn y tymor hir. Rwyf am weithio gyda fy nhîm i sicrhau y bydd y cynllun hwn yn gynaliadwy ar gyfer y teithwyr sy'n ei ddefnyddio ar ôl inni ei greu. Rwyf yn siŵr y byddai'r Aelod yn cefnogi hynny. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Network Rail a Threnau Arriva Cymru ar gyflwyno'r gwasanaethau ychwanegol, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Cafwyd problemau â system reoli traffig rheilffyrdd Ewrop, sy'n system newydd, ac mae Network Rail wrthi'n datrys y problemau hynny. Fodd bynnag, mae'r

effectiveness of this service. However, we are pursuing this and I look forward to the new services commencing in 2014-15.

problemau hyn wrth gwrs wedi ychwanegu at y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn, ac wedi effeithio ar ei fforddiadwyedd a'i effeithiolrwydd. Serch hynny, rydym yn mynd i'r afael â hyn ac edrychaf ymlaen at weld y gwasanaethau newydd yn dod i rym yn 2014-15.

**Elin Jones:** Weinidog, byddai agor gorsaf drenau yn Bow Street yn gyfraniad pwysig iawn at deithio cynaliadwy yn ardal Aberystwyth. Pan ddaw cyllid ar gael, a fydd agor gorsaf drenau yn Bow Street yn flaenoriaeth i chi?

**Elin Jones:** Minister, opening a new train station in Bow Street would be an important contribution to sustainable travel in the Aberystwyth area. When finance becomes available, will opening a new train station in Bow Street be a priority for you?

**Carl Sargeant:** This is not a decision for me. Bow Street and Carno stations do not appear in the national transport plan. As I said in response to an earlier question, it was not about reintroducing new schemes, but about reprioritisation. If this is a scheme that TraCC, as the regional transport consortium, believes is one of its priorities, it should apply to me for the appropriate funding and we will consider that alongside allocations against other regional priorities.

**Carl Sargeant:** Nid fi sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn. Nid yw gorsafoedd Bow Street a Charno yn ymddangos yn rhan o'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Fel y dywedais wrth ymateb i gwestiwn cynharach, nid oedd a wnelo ag ailgyflwyno cynlluniau newydd; yn hytrach roedd a wnelo ag ailflaenoriaethu. Os yw hwn yn gynllun y mae TraCC, y consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol, o'r farn y dylai fod yn un o'i flaenoriaethau, dylai gyflwyno cais imi am y cyllid priodol a byddwn yn ystyried hynny ochr yn ochr â dyraniadau ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol eraill.

**Eluned Parrott:** Minister, capacity issues on the Valleys lines continue to be a cause for concern. I understand that the Welsh Government has extended platforms on lines such as that to Treherbert to allow them to accommodate longer trains and ease overcrowding. Will you confirm how much this investment cost and how many additional pieces of rolling stock have been bought or leased by the Welsh Government to take advantage of this additional platform space?

**Eluned Parrott:** Weinidog, mae problemau capasiti ar reilffyrdd y Cymoedd yn parhau i beri pryder. Deallaf fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn platfformau ar reilffyrdd megis y rheilffordd i Dreherbert i'w caniatáu i dderbyn trenau hwy a lleihau achosion o orlenwi. A wnewch chi gadarnhau faint yr oedd y buddsoddiad hwn wedi ei gostio a faint o gerbydau ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u prynu neu eu cael ar brydles i fanteisio ar y platfformau hwy hyn?

**Carl Sargeant:** I am not able to furnish the Member with that detail today, but I will write to the Member with that detail.

**Carl Sargeant:** Ni allaf roi'r manylion hynny i'r Aelod heddiw, ond byddaf yn ysgrifennu ati yn nodi'r manylion hyn.

### Blaenoriaethau

*12.* ***Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(4)0158(LGC)*

### Priorities

*12.* ***Paul Davies***: *Will the Minister make a statement on his priorities for the next 12 months. OAQ(4)0158(LGC)*

**Carl Sargeant:** My priorities for the next 12 months were published in May in the

**Carl Sargeant:** Cyhoeddwyd fy mlaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf yn

programme for government annual report.

adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu ym mis Mai.

**Paul Davies:** I am grateful to the Minister for that answer. One of the main priorities for my constituents in Fishguard is to improve its town centre. The Minister is well aware that calls have been made for a town centre improvement scheme for Fishguard. When I asked the Minister a couple of months ago whether he would reconsider approving a funding application for this purpose, he said that my comments had been noted. Will the Minister tell us what further progress has been made, since noting my comments, with supporting improvements to Fishguard and its transport infrastructure?

**Paul Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Un o brif flaenoriaethau fy etholwyr yn Abergwaun yw gwella canol y dref. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol iawn bod galwadau wedi'u gwneud i gael cynllun gwella canol y dref ar gyfer Abergwaun. Pan ofynnais i'r Gweinidog rai misoedd yn ôl a fyddai'n ailystyried cymeradwyo cais am gyllid at y diben hwn, dywedodd ei fod wedi nodi fy sylwadau. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa gynnydd pellach sydd wedi'i wneud ers iddo nodi fy sylwadau mewn perthynas â chefnogi gwelliannau i Abergwaun a'i seilwaith trafnidiaeth?

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's question today. I have made myself aware of the submission once again, and I am still deciding whether it would be appropriate for me to support that or not.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod heddiw. Rwyf wedi fy atgoffa fy hun o'r cais unwaith eto, ac rwyf yn dal heb benderfynu a fyddai'n briodol imi ei gefnogi ai peidio.

**Joyce Watson:** Minister, will you update Members on the progress that has been made on appointing a new anti-human trafficking co-ordinator for Wales? You know, Minister, that I have worked closely with Bob Tooby since he took up that position 15 months ago. I want to put on record my admiration and appreciation for the job that he has done in raising the profile of the issue of trafficking in Wales.

**Joyce Watson:** Weinidog, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed i benodi Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl newydd i Gymru? Gwyddoch, Weinidog, fy mod wedi gweithio'n agos gyda Bob Tooby ers iddo ddechrau yn y swydd honno 15 mis yn ôl. Hoffwn gofnodi fy edmygedd a'm gwerthfawrogiad o'r gwaith y mae wedi'i wneud i godi proffil problemau masnachu yng Nghymru.

**Carl Sargeant:** I share the Member's support for the work that Bob Tooby has done and the appointment of the first anti-human trafficking co-ordinator in Wales and, I believe, in the UK. We are leading the way on this, and I do not want to lose ground in that regard. There will be a recruitment process. We are hoping to reappoint to that position within the next three months, at the very latest, and we want the new co-ordinator to hit the ground running, building on the fine work that Bob and his team did with Gwent Police, in that position funded by Welsh Government.

**Carl Sargeant:** Rwyf finnau, fel yr Aelod, yn cefnogi'r gwaith y mae Bob Tooby wedi'i wneud ac yn cefnogi penodi'r Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl cyntaf yng Nghymru, ac yn y DU mi gredaf. Rydym yn arwain y ffordd mewn perthynas â'r mater hwn, ac nid wyf am golli tir yn hynny o beth. Byddwn yn cynnal proses recriwtio. Rydym yn gobeithio ailbenodi unigolyn i'r swydd honno yn ystod y tri mis nesaf fan bellaf, ac rydym am i'r cydlynydd newydd fwrw at ei waith ar unwaith, gan adeiladu ar y gwaith da a wnaed gan Bob a'i dîm gyda Heddlu Gwent yn y swydd honno a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, ymysg eich blaenoriaethau, a wnewch chi hefyd

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, among your priorities, will you also hold urgent talks with

gynnal trafodaethau ar frys gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau nad yw'r diffyg o rhwng 10% a 14% mewn budd-daliadau'r dreth gyngor yn effeithio ar y bobl mwyaf bregus yn ein cymdeithas, nac ar y gwasanaethau a gyflwynir gan awdurdodau lleol yng Nghymru? Sut yn union y byddwch yn diogelu'r bobl a'r gwasanaethau hynny?

local authorities in Wales to ensure that the shortage of between 10% and 14% in council tax benefits does not have an impact on the most vulnerable in our society, nor on the services provided by local authorities in Wales? How exactly do you intend to safeguard those people and services?

**Carl Sargeant:** I would like to say that a reduction of 10% to 14% in council tax benefit for your constituents and mine will not have an effect, but it certainly will. When this reduction in council tax benefit is introduced next April, we will see families in our communities struggling to make ends meet. We are working extremely hard with the local government finance team and the Welsh Local Government Association to develop and deliver a new scheme based on the still-unknown resources available to us. We are still not aware of the final core funding or the final administration costs that will be allocated for the delivery of this scheme, which is a concern of mine. I am concerned that we will not be in a position to deliver a scheme in April, but you can rest assured that my team and the local government family will take every opportunity to ensure that we can deliver something.

**Carl Sargeant:** Hoffwn ddweud na fydd gostyngiad o 10% i 14% ym mudd-dal y dreth gyngor yn cael effaith ar eich etholwyr chi a'm hetholwyr i, ond nid yw hynny'n wir. Pan fydd y gostyngiad hwn ym mudd-dal y dreth gyngor yn cael ei gyflwyno fis Ebrill nesaf, byddwn yn gweld teuluoedd yn ein cymunedau'n ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Rydym yn gweithio'n eithriadol o galed gyda'r tîm cyllid llywodraeth leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu a chyflwyno cynllun newydd yn seiliedig ar yr adnoddau a fydd ar gael inni nad ydym eto'n gwybod beth fydd eu hyd a'u lled. Ni wyddom o hyd beth fydd y cyllid craidd terfynol neu'r costau gweinyddol terfynol a fydd yn cael eu dyrannu ar gyfer cyflwyno'r cynllun hwn, ac mae hynny'n peri pryder imi. Rwyf yn pryderu na fyddwn mewn sefyllfa i gyflwyno cynllun ym mis Ebrill, ond gallwch fod yn hollol sicr y bydd fy nhîm a llywodraeth leol yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau y byddwn yn gallu cyflawni rhywbeth.

**William Powell:** Will the Minister please make a statement on any progress made in developing the framework for direct grant funding to town and community councils, as provided for in the Local Government (Wales) Measure 2011, which would facilitate their vital work across Wales?

**William Powell:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw gynnydd a wnaed o ran datblygu'r fframwaith ar gyfer rhoi cyllid grant uniongyrchol i gynghorau tref a chymuned, fel y nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, a fyddai'n hwyluso'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud ar draws Cymru?

**Carl Sargeant:** Local government town and community councils are able to precept, which gives them more borrowing powers than the National Assembly has—that is slightly embarrassing, as we should have at least equal, if not more, powers. As the Member is aware, I am supportive of town and community councils through its member organisation, One Voice Wales, with which we have regular discussions about how we can support them better. The element within

**Carl Sargeant:** Mae gan gynghorau tref a chymuned llywodraeth leol y gallu i godi praesept, ac mae hynny'n golygu bod ganddynt fwy o bwerau benthyca na'r Cynulliad Cenedlaethol—mae hynny'n codi cywilydd braidd, oherwydd dylai fod gennym yr un faint o bwerau o leiaf, os nad mwy. Fel y gŵyr yr Aelod, rwyf yn cefnogi cynghorau tref a chymuned drwy'r sefydliad sy'n eu cynrychioli, Un Llais Cymru, ac rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r sefydliad hwnnw

the Measure gives the opportunity for town and community councils to access framework funding through local authorities, should they so wish. I do not believe that we have had any applications yet to do that.

ynghylch sut y gallwn gefnogi'r cynghorau'n well. Mae'r elfen yn y Mesur yn rhoi'r cyfle i gynghorau tref a chymuned gael mynediad i gyllid fframwaith trwy awdurdodau lleol, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Nid wyf yn credu inni gael yr un cais i wneud hynny hyd yn hyn.

**Cydweithio ym Maes Llywodraeth Leol**

**Collaboration in Local Government**

***13. Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i gael rhagor o gydweithio ym maes llywodraeth leol. OAQ(4)0169(LGC)*

***13. The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):*** *Will the Minister provide an update on what actions the Welsh Government has taken to improve collaboration in local government. OAQ(4)0169(LGC)*

**Carl Sargeant:** Our achievements include setting out consistent areas for public service collaboration, supporting and establishing the public services leadership group to drive the reform, and signing the compact for change with the 22 local authorities.

**Carl Sargeant:** Mae ein cyflawniadau'n cynnwys nodi meysydd cyson ar gyfer cydweithio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi a sefydlu grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus i sbarduno'r broses ddiwygio, a llofnodi'r compact ar gyfer newid gyda'r 22 awdurdod lleol.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, Minister, for that answer. Collaboration from within Government and partner organisations is a critical way to provide service delivery. In hospitals, for example, there has been a 26% increase in the number of days lost because of delayed transfers of care. Social services come within the remit of local government. Are you in a position to indicate how you work with Ministers across Government to make sure that there is good collaboration from social care and healthcare, to lower these figures so that days do not continue to be lost in the hospital service, and so that patients can have their operations?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae cydweithio yn y Llywodraeth a chyda sefydliadau partner yn ffordd hollbwysig o ddarparu gwasanaethau. Mewn ysbytai, er enghraifft, cafwyd cynnydd o 26% yn nifer y diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o gylch gwaith llywodraeth leol. A ydych mewn sefyllfa i nodi sut yr ydych yn gweithio gyda Gweinidogion ar draws y Llywodraeth i sicrhau y ceir cydweithio da ym maes gofal cymdeithasol a gofal iechyd er mwyn gostwng y ffigurau hyn i sicrhau nad ydym yn parhau i golli diwrnodau yn y gwasanaeth ysbytai, ac i sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu llawdriniaethau?

**Carl Sargeant:** I share the Member's concern about working together and how can we get the best effect for public service delivery. I have said regularly that I am not too worried about the structures of organisations; it is about the outcomes that we get from them. I work closely with the Minister for health and the Deputy Minister for Social Services and, indeed, all the Ministers across the portfolios where there is an interaction between local government and the services that they may or may not

**Carl Sargeant:** Rwyf finnau, fel yr Aelod, yn pryderu ynghylch gweithio gyda'n gilydd a sut y gallwn gael yr effaith orau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf wedi dweud yn gyson nad wyf yn poeni gormod am strwythur sefydliadau; mae a wnelo â'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni. Rwyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Iechyd a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn wir gyda phob Gweinidog ar draws y portffolios lle y ceir rhyngweithio rhwng llywodraeth leol a'r

procure through local government.

gwasanaethau y byddant neu na fyddant yn eu caffael drwy lywodraeth leol.

We have to get away from the blame game of saying that it is local government's fault or the health board's fault, and work instead through partnership agreements. I met with the Cardiff partnership board this morning, and its members showed me the work that enables them to support each other by transferring people in the system. It is about ownership and responsibility, and when we get beyond those silos, we will start to see real delivery. I am pleased to work closely with my colleagues to deliver that.

Rhaid inni roi'r gorau i bwyntio bys trwy ddweud mai llywodraeth leol neu'r bwrdd iechyd sydd ar fai, gan weithio, yn hytrach, trwy gytundebau partneriaeth. Cyfarfûm â Bwrdd Partneriaeth Caerdydd y bore yma, a dangosodd aelodau'r Bwrdd imi y gwaith sy'n eu galluogi i gefnogi ei gilydd trwy drosglwyddo pobl yn y system. Mae a wnelo â pherchnogaeth a chyfrifoldeb, a phan fyddwn yn symud y tu hwnt i weithio mewn modd ynysig fel hyn, byddwn yn dechrau gweld gwasanaethau'n cael eu darparu go iawn. Rwyf yn falch o fod yn gweithio'n agos gyda'm cydweithwyr i gyflawni hynny.

3.00 p.m.

**Joyce Watson:** There are examples of good practice, as you say, Minister. Would you agree that one such example is the excellent work done through the south-west Wales regional learning partnership, which is a collaboration between Carmarthenshire, Ceredigion, Neath Port Talbot, Pembrokeshire and Swansea, bringing together an umbrella of training and skills providers and partners? Not only is it more efficient and cost-effective, but it provides learners in west Wales with more opportunities, and it is being extended to 2013. How can the Welsh Government encourage good practices such as this more widely?

**Joyce Watson:** Fel yr oeddech yn dweud, Weinidog, ceir rhai enghreifftiau o arfer da. A fyddech yn cytuno mai un enghraifft o'r fath yw'r gwaith rhagorol a gaiff ei wneud trwy bartneriaeth ddysgu ranbarthol y de-orllewin, sy'n bartneriaeth gydweithredol rhwng Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, sy'n tynnu ynghyd ystod o ddarparwyr hyfforddiant a sgiliau a'u partneriaid? Nid yn unig y mae'n fwy effeithlon a chost-effeithiol, ond mae'n rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr yn y gorllewin, ac mae'n cael ei hymestyn i 2013. Sut y gall Llywodraeth Cymru annog y defnydd o arferion da tebyg i'r rhain yn fwy eang?

**Carl Sargeant:** I also place on record the excellent work of the regional learning partnership. That is another example of working across portfolios with the Minister for Education and Skills on how we can develop better structures for delivery for the service user. The public service leadership group has membership right across the public sector, including local government, the police, health boards and the fire service, along with other interested parties that sit on the fringes of this, looking at how we can develop and share best practice across Wales. We can become 'that clever country, Wales', despite the financial cuts from the UK Government that mean that we have to do things differently. What you alluded to is

**Carl Sargeant:** Rwyf hefyd am gofnodi'r gwaith rhagorol y mae'r bartneriaeth ddysgu ranbarthol yn ei wneud. Dyna enghraifft arall o weithio ar draws portffolios gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar sut y gallwn ddatblygu gwell strwythurau darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Mae gan grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus aelodau ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, yr heddlu, byrddau iechyd a'r gwasanaeth tân, ynghyd â phartïon eraill â diddordeb sydd ar ymylon y gwasanaethau hyn, yn edrych ar sut y gallwn ddatblygu a rhannu arfer gorau ledled Cymru. Gallwn gael ein hadnabod fel 'Cymru, y genedl glyfar honno', er gwaethaf y toriadau ariannol y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud sy'n golygu

certainly an example of best practice, and we need to push that beyond where the normal boundaries lie.

bod yn rhaid inni wneud pethau’n wahanol. Mae’r hyn yr oeddech yn cyfeirio ato yn sicr yn enghraifft o arfer gorau, ac mae angen inni wthio hynny y tu hwnt i’r ffiniau arferol.

**Lindsay Whittle:** In your statement on a compact for change, which is a programme of action based on regional collaboration, you state that

**Lindsay Whittle:** Yn eich datganiad ar Gompact ar gyfer Newid, sy’n rhaglen weithredu sy’n seiliedig ar gydweithredu ar lefel ranbarthol, rydych yn dweud

‘it is essential that this collaboration does not add complexity.’

‘mae’n bwysig nad yw’r cydweithredu hwn yn ychwanegu cymhlethdod’.

With local, national and now regional levels of service delivery between all sorts of statutory bodies, how will you ensure that the ordinary citizen is able to find out exactly who should be held to account if they are not satisfied with the services that they are receiving?

Gyda gwasanaethau’n cael eu darparu ar lefel leol a chenedlaethol, ac ar lefel ranbarthol erbyn hyn, gan bob math o gyrff statudol, sut y byddwch yn sicrhau bod y dinesydd cyffredin yn gallu darganfod pwy yn union y dylid ei ddwyn i gyfrif os nad yw’n fodlon â’r gwasanaethau y mae’n eu cael?

**Carl Sargeant:** The importance of service delivery is not to let the structures get in the way, and not to use that as an excuse to not do things differently. You will be aware—the Member is a former local government leader—of the pressures within the system following a reduction of £1.7 billion in Welsh Government funding. The opposition might get bored with that number, but, as a responsible Government, we have to make sure that we give local authorities and the public sector the tools to do the job for the consumer, the very people that the Member raises concern about.

**Carl Sargeant:** Yr hyn sy’n bwysig am ddarparu gwasanaethau yw sicrhau na fydd strwythurau’n dod yn rhwystr, a sicrhau na chaiff hynny ei ddefnyddio fel esgus i beidio â gwneud pethau’n wahanol. Byddwch yn ymwybodol—gan fod yr Aelod yn gyn-arweinydd llywodraeth leol—o’r pwysau yn y system yn dilyn gostyngiad o £1.7 biliwn yn y cyllid a roddir i Lywodraeth Cymru. Mae’n bosibl y bydd yr wrthblaid yn diflasu ar y ffigur hwnnw, ond fel Llywodraeth gyfrifol rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn rhoi’r adnoddau i awdurdodau lleol a’r sector cyhoeddus wneud y gwaith ar ran y defnyddiwr, sef yr union bobl y mae’r Aelod yn codi pryder yn eu cylch.

Peter Black raised an issue earlier about the scrutiny of this element. Local authorities and the broader public sector need to be able to demonstrate who delivers what service where and how. Therefore, I would hope that, regardless of who is delivering that, the public should see a seamless transition between services in terms of the delivery model. However, let us not beat around the bush, the fact of the matter is that we are having a reduction in funding and it will have an impact on public service delivery. I would like to say that it will not, but it will.

Cododd Peter Black fater yn gynharach ynghylch craffu ar yr elfen hon. Mae angen i awdurdodau lleol a’r sector cyhoeddus ehangach allu dangos pwy sy’n darparu pa wasanaethau, sut y cânt eu darparu ac ym mhle. Felly, ni waeth pwy sy’n darparu’r gwasanaeth hwnnw, byddwn yn gobeithio y byddai’r cyhoedd yn gweld proses bontio ddi-dor rhwng gwasanaethau o ran y model darparu. Fodd bynnag, gadewch inni siarad yn blaen, y gwir amdani yw ein bod yn wynebu gostyngiad yn ein cyllid, a bydd hynny’n cael effaith ar y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Hoffwn ddweud na fydd hynny’n digwydd, ond fe fydd.

**Diogelwch ar y Ffyrdd**

***14. Christine Chapman:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0160(LGC)*

**Carl Sargeant:** The Welsh Government works closely with our partners to improve safety across the Welsh road network.

**Christine Chapman:** The Welsh Government’s Safe Routes to School initiative, which persuades parents to allow their children to walk to school, is very welcome. Residents of Penderyn in my constituency have long been campaigning to reduce the speed limit outside Penderyn Primary School. The current speed limit, at 40 mph, is too high and poses real safety risks. Will you continue to work with local authorities, including Rhondda Cynon Taf, on increasing the use of 20 mph limits outside schools?

**Carl Sargeant:** The Member raises a very important issue of the safety of children, in that they should be able to walk to school in safe conditions. I certainly recognise the impact that 20 mph zones have on road safety. I am a supporter of that, and I would work with all authorities to ensure that they make the best possible impact with the small amount of funding available for the transition in their road network. I will continue to do that.

**Swyddogion Cymorth Cymunedol**

***15. Gwyn Price:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol a’r cymunedau a wasanaethant. OAQ(4)0167(LGC)*

**Carl Sargeant:** While the development of CSOs is an operational matter for the police, we have worked closely with all forces to ensure that these officers have a key role within their neighbourhood policing teams, protecting the communities, as the Member

**Road Safety**

***14. Christine Chapman***: *What is the Welsh Government doing to improve road safety in Wales. OAQ(4)0160(LGC)*

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda’n partneriaid i wella diogelwch ar draws y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru.

**Christine Chapman:** Rwyf yn croesawu’n fawr menter Llywodraeth Cymru, sef Llwybrau Diogel i’r Ysgol, sy’n darbwyllo rhieni i ganiatáu i’w plant gerdded i’r ysgol. Mae trigolion Penderyn yn fy etholaeth wedi bod yn ymgyrchu ers amser maith i ostwng y terfyn cyflymder y tu allan i Ysgol Gynradd Penderyn. Mae’r terfyn cyflymder presennol, sef 40 milltir yr awr, yn rhy uchel ac mae iddo risgiau gwirioneddol o ran diogelwch. A fyddwch yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, ar gynyddu’r defnydd a wneir o derfynau cyflymder 20 milltir yr awr y tu allan i ysgolion?

**Carl Sargeant:** Mae’r Aelod yn codi mater pwysig iawn ynghylch diogelwch plant, sef y dylai fod modd iddynt gerdded i’r ysgol yn ddiogel. Rwyf yn sicr yn cydnabod yr effaith y mae parthau 20 milltir yr awr yn ei chael ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Rwyf yn cefnogi hynny, a byddwn yn gweithio gyda phob awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn cael yr effaith orau posibl gyda’r swm bychan o arian sydd ar gael i newid eu rhwydwaith ffyrdd. Byddaf yn parhau i wneud hynny.

**Community Support Officers**

***15. Gwyn Price:*** *Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is helping forge stronger links between Community Support Officers and the communities they serve. OAQ(4)0167(LGC)*

**Carl Sargeant:** Er bod datblygu Swyddogion Cymorth Cymunedol yn fater gweithredol i’r heddlu, rydym wedi gweithio’n agos gyda’r holl heddluoedd i sicrhau bod y swyddogion hyn yn chwarae rhan allweddol yn eu timau plismona yn y gymdogaeth, yn gwarchod y

raises with me today.

cymunedau, fel y mae'r Aelod yn ei godi gyda mi heddiw.

**Gwyn Price:** Thank you for that answer. Relationships between community support officers and local communities are essential. What further steps can we take to avoid unnecessary transfers of CSOs between communities, enabling us to reap the full benefit of the extra CSOs that you are providing?

**Gwyn Price:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Mae'r berthynas rhwng swyddogion cymorth cymunedol a chymunedau lleol yn hanfodol. Pa gamau pellach y gallwn eu cymryd i osgoi achosion diangen o drosglwyddo Swyddogion Cymorth Cymunedol o'r naill gymuned i'r llall, gan ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yr ydych yn eu darparu?

**Carl Sargeant:** I am grateful for the recognition by the Member that the Welsh Government will be providing an additional 500 CSOs across Wales, which is different to what the UK Government is doing to support police services across the UK. The micromanagement of the operation is certainly one for police forces and I would not want a CSO stuck in one area being prohibited from moving to other areas in times of need. I recognise the value of CSOs in their own community and how they can be part of it. The information and support that they can gather within the community is an important part of community safety and the whole aspect of policing in Wales today.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am gydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol ar draws Cymru, sy'n wahanol i'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud i gefnogi gwasanaethau heddlu ar draws y DU. Yn sicr, yr heddluoedd fydd yn micro-reoli'r gwaith, ac ni fyddwn am weld Swyddog Cymorth Cymunedol yn gorfod aros mewn un ardal heb fod modd ei symud i ardaloedd eraill pan fydd angen. Rwyf yn cydnabod gwerth Swyddogion Cymorth Cymunedol yn eu cymuned eu hunain a'r modd y gallant fod yn rhan o'r gymuned honno. Mae'r wybodaeth a'r gefnogaeth y gallant eu casglu yn y gymuned yn rhan bwysig o ddiogelwch cymunedol a'r holl fater sy'n ymwneud â phlismona yng Nghymru heddiw.

## Cynnig o dan Adran 19(5)(a) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011
## Motion under Section 19(5)(a) of the Public Bodies Act 2011

*Cynnig NNDM5028 Antoinette Sandbach a Russell George*

*Motion NNDM5028 Antoinette Sanbach and Russell George*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 19(5)(a) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with section 19(5)(a) of the Public Bodies Act 2011:*

*Yn cytuno bod y weithdrefn a nodir yn adrannau 19(6) i 19(9) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn berthnasol i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.*

*Resolves that the procedure set out in sections 19(6) to 19(9) of the Public Bodies Act 2011 shall apply to the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012.*

**Antoinette Sandbach:** I move the motion in my name and the name of Russell George.

**Antoinette Sandbach:** Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac yn enw Russell George.

We have tabled this motion because we believe that the Order to establish a natural

Rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn gan ein bod yn credu y dylai'r Gorchymyn i sefydlu

resources body should be subject to an appropriate level of scrutiny by Assembly Members. For members of the public watching this debate, they will be concerned about a body that will have the power to regulate the water we drink, the air we breathe and the environment we live and work in. It will also have the power to charge fees, and to prosecute people, possibly leading to their imprisonment. It will have powers to consent to energy projects and to look at almost every aspect of our modern lives, yet the Assembly has not made appropriate provision in our rules, called the Standing Orders, to deal with Orders of this type which set up this body.

corff adnoddau naturiol fod yn destun lefel briodol o waith craffu gan Aelodau'r Cynulliad. Bydd aelodau'r cyhoedd sy'n gwylio'r ddadl hon yn pryderu am gorff a fydd â'r pŵer i reoleiddio'r dŵr a yfwn, yr aer a anadlwn a'r amgylchedd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddo. Bydd ganddo'r pŵer hefyd i godi ffïoedd, ac erlyn pobl, a allai arwain at eu carcharu. Bydd ganddo bwerau i roi caniatâd i brosiectau ynni ac edrych ar bron pob agwedd ar ein bywydau modern, ond eto i gyd, nid yw'r Cynulliad wedi gwneud darpariaeth briodol yn ein rheolau, a elwir yn Rheolau Sefydlog, i ymdrin â Gorchmynion fel hyn a fydd yn sefydlu'r corff hwn.

My particular concerns arise out of the fact that the Environment and Sustainability Committee had no powers to amend the Order, was given very limited time in which to scrutinise it, and was told that, if it was to give the Order greater scrutiny through the superaffirmative procedure, it would delay the establishment of the body until September. This emerged as a result of backroom chats behind the scenes. The content of these conversations will, in due course, be seen in the records of the Environment and Sustainability Committee, and are now in the public domain. I know that the Chair of the Environment and Sustainability Committee acted quickly to contact the Minister and raise our concerns, and the Minister replied on 26 June. However, the risk is that the public might perceive that conducting the business of this Assembly in this way is of great concern. I know that I, and several members of the committee, have received correspondence from constituents about the Order, which many may perceive as something dry and constitutional. The very fact that there is concern among members of the public should be a warning signal to the Assembly that this is not an appropriate way to proceed.

Mae fy mhryderon penodol yn deillio o'r ffaith nad oedd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd unrhyw bwerau i ddiwygio'r Gorchymyn, mai ychydig iawn o amser a gafodd i graffu arno, ac iddo gael gwybod, pe bai'n craffu'n fwy manwl ar y Gorchymyn drwy'r weithdrefn uwchgadarnhaol, na fyddai'r corff yn cael ei sefydlu tan fis Medi. Daeth hynny i'r amlwg o ganlyniad i sgyrsiau ystafell gefn y tu ôl i'r llenni. Wrth gwrs, bydd cynnwys y sgyrsiau hynny i'w weld, maes o law, yng nghofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sydd bellach yn eiddo i'r cyhoedd. Gwn fod Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi gweithredu'n gyflym i gysylltu â'r Gweinidog a mynegi ein pryderon, ac atebodd y Gweinidog ar 26 Mehefin. Fodd bynnag, y perygl yw y gallai'r cyhoedd feddwl bod cynnal busnes y Cynulliad hwn yn y modd hwn yn destun pryder mawr. Gwn fy mod i, a sawl aelod o'r pwyllgor, wedi cael gohebiaeth gan etholwyr am y Gorchymyn, y mae llawer o bobl yn ei ystyried yn rhywbeth sych a chyfansoddiadol, efallai. Dylai'r ffaith bod pryder ymysg aelodau'r cyhoedd fod yn rhybudd i'r Cynulliad nad yw hon yn ffordd briodol o symud ymlaen.

I recognise that the Minister has indicated that there will be an opportunity to amend the subsequent Order, but it was not possible to amend the Order before the Environment and Sustainability Committee. This Assembly should have proper scrutiny and oversight of all legislative matters laid before it. This

Rwyf yn cydnabod bod y Gweinidog wedi nodi y bydd cyfle i ddiwygio'r Gorchymyn dilynol, ond nid oedd yn bosibl diwygio'r Gorchymyn a ddaeth gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Dylai fod gan y Cynulliad hwn drefniadau priodol ar gyfer craffu ar yr holl faterion deddfwriaethol

motion is therefore designed to ignite debate here in the Assembly, among the wider public and in the academic community. I am grateful that the Minister has made concessions. However, it is clear as day that the Standing Orders do not make appropriate provision, which was outlined by the Constitutional and Legislative Affairs Committee report launched last week. In the debate on that report, I urged the Constitutional and Legislative Affairs Committee to address this urgently, and I repeat that call here. I want any future person who is affected or may be affected by the executive powers drafted in this first Order to know, and to have it on the Plenary record, that this Assembly had no proper provision in its Standing Orders to deal with the scrutiny of this Order. There may be those in future who wish to take action against the Welsh Government in relation to the powers of this Order. It is important that the Minister makes absolutely clear why he has accepted that the concessions in the letter of 26 June are so important, and that he adopts those concessions formally on the record.

a osodir ger ei fron a'u goruchwylio. Bwriad y cynnig hwn, felly, yw dechrau dadl yma yn y Cynulliad, ymhlith y cyhoedd yn ehangach ac yn y gymuned academaidd. Rwyf yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi gwneud consesiynau. Fodd bynnag, mae'n gwbl amlwg nad yw'r Rheolau Sefydlog yn gwneud darpariaeth briodol, ac amlinellwyd hynny gan adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a lansiwyd yr wythnos diwethaf. Yn y ddadl ar yr adroddiad hwnnw, anogais y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i fynd i'r afael â hyn ar frys, ac ailadroddaf yr alwad honno yn y fan hon. Rwyf am i unrhyw unigolyn yn y dyfodol, y bydd neu y gallai'r pwerau gweithredol a ddrafftiwyd yn y Gorchymyn cyntaf hwn effeithio arno, wybod, ac rwyf am i hynny gael ei gofnodi yng nghofnod y Cyfarfod Llawn, nad oedd gan y Cynulliad hwn ddarpariaeth briodol yn ei Reolau Sefydlog i ymdrin â'r gwaith o graffu ar y Gorchymyn hwn. Mae'n bosibl y bydd rhywrai yn y dyfodol yn dymuno cymryd camau yn erbyn Llywodraeth Cymru yng nghyswllt pwerau'r Gorchymyn hwn. Mae'n bwysig bod y Gweinidog yn nodi'n gwbl glir pam y mae wedi derbyn bod y consesiynau yn y llythyr dyddiedig 26 Mehefin mor bwysig, a'i fod yn cofnodi'n ffurfiol ei fod yn mabwysiadu'r consesiynau hynny.

I fail to understand why the Order was not laid by the Welsh Government in time for the committee to make a recommendation for the superaffirmative procedure. We have received assurances, which I accept, that the Minister was not acting in bad faith. Nonetheless, the Assembly deserves an explanation.

Ni allaf ddeall pam na chafodd y Gorchymyn ei osod gan Lywodraeth Cymru mewn pryd i'r pwyllgor argymell y weithdrefn uwchgadarnhaol. Rydym wedi cael sicrwydd nad oedd y Gweinidog yn gweithredu'n annidwyll, ac rwyf yn derbyn hynny. Eto i gyd, mae'r Cynulliad yn haeddu esboniad.

I have a further concern: why has there been no consultation by the Assembly on the form that these executive Orders can take under the Public Bodies Act 2011? Why is it that, over a year since the Assembly started sitting again, no draft Standing Orders have been brought forward to deal with Orders of this type. It is a matter of constitutional concern. In my view, this body, shadow or not, should be established by a Bill, rather than in the way it has been. That is why Russell George and I have tabled this motion. I ask the Minister to provide an explanation as to why

Mae gennyf bryder arall: pam na chafwyd unrhyw ymgynghori gan y Cynulliad ynghylch ffurf bosibl y Gorchmynion gweithredol hyn dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011? Pam nad oes unrhyw Reolau Sefydlog drafft wedi eu cyflwyno i ymdrin â Gorchmynion tebyg i hwn, flwyddyn a mwy ers i'r Cynulliad ailymgynnull? Mae'n destun pryder cyfansoddiadol. Yn fy marn i, dylai'r corff hwn, boed yn gorff cysgodol ai peidio, gael ei sefydlu gan Fil, yn hytrach nag yn y modd y mae wedi'i sefydlu. Dyna pam y mae Russell

the Order was not tabled in time and to accept that bringing forward a Bill that can be subject to the concessions of the letter of 26 June is the appropriate way to proceed. I urge the members of the party opposite to support the motion.

George a minnau wedi cyflwyno'r cynnig hwn. Gofynnaf i'r Gweinidog egluro pam na chafodd y Gorchymyn ei gyflwyno mewn pryd a derbyn mai cyflwyno Bil, y bydd y consesiynau yn y llythyr dyddiedig 26 Mehefin yn berthnasol iddo, yw'r ffordd briodol o symud ymlaen. Rwyf yn annog aelodau'r blaid gyferbyn i gefnogi'r cynnig.

**Alun Ffred Jones:** Yn syml iawn, mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig hwn. Mae trafodaethau wedi bod yn digwydd yn gyson, ac nid ers misoedd yn unig; rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau anffurfiol ar y pwnc hwn ers imi fod yn Aelod yn y Cynulliad, oherwydd mae wedi bod yn wybodaeth gyffredinol bod cael tri chorff fel hyn yng Nghymru yn wastraffus. Yn wir, rhywbeth y dylem ni yn y Cynulliad fod yn edrych arno yw symleiddio prosesau a chael llai o gyrff fel bod y gwaith y mae angen ei wneud yn cael ei wneud yn y modd mwyaf uniongyrchol. Mae'r synergedd rhwng y cyrff hyn mor amlwg i bawb fel y dylem fod wedi mynd i lawr y llwybr hwn ers blynyddoedd.

**Alun Ffred Jones:** Quite simply, Plaid Cymru opposes this motion. Negotiations have taken place consistently, and not just for a few months; I have participated in informal discussions on this subject since becoming an Assembly Member, because it is widely known that having three such bodies in Wales is wasteful. Indeed, something that we as Assembly should be looking at is the simplifying of processes and the need to have fewer bodies so that the work that needs to be done can be done in the most streamlined way possible. The synergy between these bodies is so apparent to everyone that we should have gone down this route many years ago.

Mae'r sôn bod y broses hon wedi digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig yn annheg ac yn anghyfrifol. Dyna pam yr ydym ni'n credu y byddai oedi yn y broses hon—i ba bwrpas, ni wn—yn beth drwg. Credaf fod hynny'n cael ei gefnogi gan y cyrff dan sylw. Roeddwn mewn cyfarfod ag un o'r cyrff hyn yr wythnos yma, a'r hyn y mae'n ei ddweud yw y byddai oedi yn creu mwy o ansicrwydd ymhlith y staff a mwy o ofnau. Mae unrhyw newid yn peri pryder i staff unrhyw gorff, a bydd oedi yn creu mwy o ansicrwydd ymysg aelodau staff y corff hwnnw.

Arguing that this process has taken place behind closed doors is unfair and irresponsible. That is why we believe that delaying this process—I do not know to what end you would do that—would not be positive. I think that that is supported by the bodies in question. I attended a meeting with one of the bodies just this week and was told that any delay would create more uncertainty and greater fear among the staff. Change can be a cause of concern for the staff of any organisation, and delaying this process will lead to greater uncertainty among the workforce.

Hefyd, buasai oedi yn amharu ar y trafodaethau sydd wedi mynd ymhell o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn gwahanu'r swyddogaethau yn Lloegr ac yma yng Nghymru, a hefyd y drafodaeth sy'n digwydd i sicrhau bod trefniadau trawsffiniol ar waith ar gyfer yr adeg y bydd y corff yn weithredol. Felly, ni fedraf ddeall y dadleuon hyn dros oedi. Beth bynnag am wendidau'r broses, nid wyf yn siŵr beth fyddai oedi yn ei gyflawni.

Furthermore, delays would have an impact on the well-developed discussions within the Environment Agency on separating the functions in England and Wales, and on the discussions taking place to ensure that cross-border arrangements will be in place when the new body is established. Therefore, I cannot understand the arguments in favour of delaying matters. Regardless of the deficiencies of the process, I am not sure what delaying things would achieve.

**Nick Ramsay:** I am very grateful to you for giving way, Alun Ffred. This motion is not

**Nick Ramsay:** Rwyf yn ddiolchgar iawn ichi am ildio, Alun Ffred. Nid oes a wnelo'r

about creating a delay; it is about the mechanism by which the new body—which I understand you support—comes into existence. If it were done by a Bill with a stronger mandate at the start, that would make the resultant body, which you clearly want, much stronger.

cynnig hwn ag achosi oedi; mae a wnelo â'r drefn a ddefnyddir i greu'r corff newydd—y deallaf eich bod yn ei gefnogi. Pe bai hynny'n cael ei wneud gan Fil gyda mandad cryfach ar y dechrau, byddai'n gwneud y corff a gaiff ei greu, yr ydych yn amlwg yn awyddus i'w gael, yn llawer cryfach.

**Alun Ffred Jones:** Byddai mynd ati i greu Bil ar hyn o bryd yn sicr o oedi'r broses. Rwy'n cymryd yn ganiataol mai dyna yw eich bwriad chi. Rwy'n gwybod ac yn derbyn bod dadleuon wedi bod ynglŷn â rôl y Comisiwn Coedwigaeth yn hyn ac a ddylai gael ei gynnwys i peidio, ond gwnaed penderfyniad. Felly, nid wyf yn credu mai mynd yn ôl i fireinio'r broses, a hynny'n arwain at oedi a mwy o ansefydlogrwydd yn y cyrff hynny, yw'r ffordd ymlaen. Rydym wedi cael ein hargyhoeddi bod un corff ar draws Cymru yn syniad da. Felly, dylem fynd ati yn awr i wynebu'r pethau ymarferol a sicrhau y gall corff newydd hwn wneud ei waith yn effeithiol.

**Alun Ffred Jones:** Creating a Bill at this precise moment would certainly lead to delays. I assume that that is your intention. I know that there have been arguments about the role of the Forestry Commission in all of this and whether it should be included or not, but a decision has been taken. Therefore, I do not believe that going back to refine the process, which could lead to delays and greater instability within those bodies, is the way ahead. We have been convinced that a single body for Wales is a good idea Therefore, we should now face the practicalities and ensure that this new body is able to undertake its work effectively.

Mae cwestiynau i'w gofyn ynglŷn â rôl rheoleiddio a rôl ymarferol y cyrff hyn. Mae dadleuon yn eu cylch, ond mae penderfyniad wedi cael ei wneud a dylem fynd ymlaen heb oedi, achos byddai'r oedi a geid drwy chwilio am broses arall yn niweidiol iawn i staff y cyrff hyn ac i'r broses sydd wedi cychwyn.

There are questions to be asked about the regulatory and practical functions carried out by these bodies. There are arguments to be had in that regard, but a decision has been made and we should now proceed without delay, because the delays that would come about as a result of seeking a different process would be very damaging to the workforces concerned and to the process that has commenced.

3.15 p.m.

**Russell George:** My colleague Antoinette Sandbach has already alluded to the principal reason why we have brought this motion before the Chamber today. It is about ensuring that we, as Assembly Members, properly fulfil our functions as legislative scrutinisers. The very untimely way that this Order has been brought forward to the Assembly by the Welsh Government has made it difficult for those charged with examining this Order to fully exercise our legitimate right to subject this piece of legislation to the appropriate level of scrutiny—which, in this case, would be the enhancement of the superaffirmative procedure designated under the Public Bodies Act 2011. I do not believe that we should be

**Russell George:** Mae fy nghydweithiwr, Antoinette Sandbach, eisoes wedi cyfeirio at y prif reswm dros ddod â'r cynnig hwn gerbron y Siambr heddiw. Mae a wnelo â sicrhau ein bod ni, fel Aelodau'r Cynulliad, yn cyflawni ein swyddogaethau'n briodol fel pobl sy'n craffu ar ddeddfwriaeth. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dwyn y Gorchymyn hwn gerbron y Cynulliad mewn modd anamserol iawn wedi ei gwneud yn anodd i'r sawl sy'n gyfrifol am archwilio'r Gorchymyn arfer yn llawn ein hawl ddilys i sicrhau bod y darn hwn o ddeddfwriaeth yn destun y lefel briodol o waith craffu—yn yr achos hwn, byddai'n ymwneud â datblygu'r weithdrefn uwchgadarnhaol a ddynodwyd dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Nid wyf

forced by the Government into a position in which we have to sacrifice our scrutiny functions to ensure that the timetable for Government business remains unhampered. That is unacceptable and, as Antoinette Sandbach rightly pointed out, this could and should have been brought to us sooner.

yn credu y dylem gael ein gwthio gan y Llywodraeth i sefyllfa lle y mae'n rhaid inni aberthu ein swyddogaethau craffu er mwyn sicrhau bod yr amserlen ar gyfer busnes y Llywodraeth yn mynd rhagddi'n ddilyffethair. Mae hynny'n annerbyniol ac, fel y dywedodd Antoinette Sandbach yn gywir ddigon, gallai hwn a dylai hwn fod wedi dod ger ein bron ynghynt.

While I appreciate that the Minister has given the Environment and Sustainability Committee assurances that Members will have the opportunity to amend subsequent Orders in future, I and others outside this place have real concerns about some of the powers proposed within the Order before us. That is on top of the concerns about how the process of establishing the single environmental body is being conducted, especially since we have not seen the results of the Government's consultation, which provides the full policy context for why this body is being established. I raised some of my concerns about the legislation with the Minister last week, during questions—particularly regarding article 5, on ministerial directions for the new body, and article 13, in relation to general financial duties. These are significant powers, and ones that should not be sanctioned lightly. The response of the Minister was:

Er fy mod yn sylweddoli bod y Gweinidog wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y caiff yr Aelodau gyfle i ddiwygio Gorchmynion dilynol yn y dyfodol, rwyf fi a phobl eraill y tu allan i'r lle hwn yn pryderu'n wirioneddol am rai o'r pwerau a gynigir yn y Gorchymyn sydd ger ein bron. Mae hynny ar ben y pryderon ynghylch y modd y mae'r broses o sefydlu'r un corff amgylcheddol yn cael ei chynnal, yn enwedig gan nad ydym wedi gweld canlyniadau ymgynghoriad y Llywodraeth, sy'n rhoi'r cyd-destun polisi llawn ar gyfer pam y mae'r corff hwn yn cael ei sefydlu. Codais rai o'm pryderon am y ddeddfwriaeth gyda'r Gweinidog yr wythnos diwethaf, yn ystod cwestiynau—yn enwedig o ran erthygl 5, ar ganllawiau gweinidogion i'r corff newydd, ac erthygl 13, ynghylch dyletswyddau ariannol cyffredinol. Mae'r rhain yn bwerau sylweddol, ac yn rhai na ddylid eu hawdurdodi ar chwarae bach. Ymateb y Gweinidog oedd:

'I am sure that the scrutiny processes of the Assembly can address these matters'.

'rwyf yn siŵr y gall prosesau craffu'r Cynulliad fynd i'r afael â'r materion hyn'.

The fact is that, if this Order goes ahead as scheduled, I do not believe that we will be in a favourable position to do that.

Y ffaith yw, os bydd y Gorchymyn hwn yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen, nid wyf yn credu y byddwn mewn sefyllfa ffafriol i wneud hynny.

To conclude, I echo Antoinette Sandbach's call for all-party support on this issue. I note Alun Ffred Jones's comments, but we are not doing this to be deliberately obstructive or to frustrate the Government from delivering policies to which it is committed. However, if you do not support this motion I believe that we run the risk of not just neglecting key parliamentary process, but, more importantly, fundamentally failing the people and communities who have elected us.

I gloi, hoffwn adleisio galwad Antoinette Sandbach am gefnogaeth pob plaid i'r mater hwn. Nodaf sylwadau Alun Ffred Jones, ond nid ydym yn gwneud hyn i rwystro'r Llywodraeth yn fwriadol neu lesteirio ei hymdrechion i wireddu polisïau y mae wedi ymrwymo iddynt. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cefnogi'r cynnig hwn, credaf fod perygl inni esgeuluso proses seneddol allweddol, ond yn bwysicach na hynny, bod perygl inni wneud cam sylfaenol â'r bobl a'r cymunedau sydd wedi ein hethol.

**William Powell:** I am grateful to Antoinette Sandbach and Russell George for bringing forward this motion. While the Welsh Liberal Democrats are not minded to support it, we do feel that the specifics of the case highlight a series of shortcomings on the part of the Welsh Government, and it is imperative that we learn lessons from this experience.

**William Powell:** Rwyf yn ddiolchgar i Antoinette Sandbach a Russell George am gyflwyno'r cynnig hwn. Er nad yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn bwriadu ei gefnogi, rydym yn teimlo bod manylion yr achos yn tynnu sylw at gyfres o ddiffygion ar ran Llywodraeth Cymru, ac mae'n hollbwysig ein bod yn dysgu gwersi o'r profiad hwn.

When the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012 was first scrutinised by our committee it was obvious to all parties that it was badly worded in parts and left far too many loopholes unaddressed. The response that we received subsequently from the Minister, thanks to the timely intervention of our Chair, Dafydd Elis-Thomas, who is unable to be present today, eventually reached committee members at 10.44 p.m. on the night before the committee was due to meet. It went a long way towards addressing many of our concerns, guaranteeing us a further opportunity to scrutinise in the autumn in the context of the second Order. However, it should be noted that, were the committee to use the full scrutiny period made available to it, as the Conservatives are seeking, that would take us well past the summer recess and, as Alun Ffred Jones has correctly said, would delay the establishment of the new body until next year, with all the drift and uncertainty that that would bring. While that would be unfortunate, it is worth stressing that it would be the result of the Welsh Government's inability to allocate sufficient time for the scrutiny process, and is not to be laid at the door of committee members who are seeking to do their jobs.

Pan graffodd ein pwyllgor am y tro cyntaf ar Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, roedd yn amlwg i bawb ei fod wedi ei eirio'n wael mewn ambell fan ac nad oedd yn mynd i'r afael â llawer gormod o fylchau. Yn y diwedd, daeth yr ymateb a gawsom wedi hynny gan y Gweinidog, diolch i ymyrraeth amserol gan ein Cadeirydd, Dafydd Elis-Thomas, nad yw'n gallu bod yn bresennol heddiw, i law aelodau'r pwyllgor am 10:44 p.m. ar y noson cyn yr oedd disgwyl i'r pwyllgor gyfarfod. Gwnaeth yr ymateb lawer i fynd i'r afael â nifer o'n pryderon, gan roi sicrwydd y byddai cyfle arall inni graffu yn yr hydref yng nghyd-destun yr ail Orchymyn. Fodd bynnag, dylid nodi, pe bai'r pwyllgor yn defnyddio'r cyfnod craffu llawn sydd ar gael iddo, y mae'r Ceidwadwyr yn ei geisio, y byddai hynny'n mynd â ni ymhell y tu hwnt i doriad yr haf ac, fel y mae Alun Ffred Jones wedi dweud yn gywir ddigon, yn golygu na fyddai'r corff newydd yn cael ei sefydlu tan y flwyddyn nesaf, gyda'r holl golli amser a'r holl ansicrwydd a fyddai'n dod yn sgîl hynny. Er y byddai hynny'n anffodus, mae'n werth pwysleisio mai anallu Llywodraeth Cymru i neilltuo digon o amser ar gyfer y broses graffu fyddai'n gyfrifol am hynny, ac na ddylid bwrw'r bai ar aelodau'r pwyllgor sy'n ceisio gwneud eu gwaith.

If the Minister is able to restate today in the Chamber the key assurances that he has given to our committee via our Chair, then the Welsh Liberal Democrats do not think that it would be expedient to support the motion. I would, however, call on the Welsh Government to move to address the wider concerns that have been identified. It is clear that processes for the allocation of time have not been followed appropriately. This has fallen well short of good practice and I think that that is accepted by the majority of Members on our committee, which includes a

Os yw'r Gweinidog yn gallu ailddatgan heddiw yn y Siambr y sicrwydd allweddol a roddodd i'n pwyllgor drwy ein Cadeirydd, yna nid yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y byddai'n fuddiol cefnogi'r cynnig. Byddwn, fodd bynnag, yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu i fynd i'r afael â'r pryderon ehangach sydd wedi eu nodi. Mae'n amlwg nad yw'r prosesau ar gyfer neilltuo amser wedi cael eu dilyn yn briodol. Mae hynny ymhell o fod yn arfer da, ac rwyf yn credu bod hynny'n cael ei dderbyn gan y rhan fwyaf o Aelodau ein

number of well-established legal minds. This falls well short of good practice and we must learn from this for the future.

pwyllgor, sy'n cynnwys nifer o bobl hyddysg ym myd y gyfraith. Mae hynny ymhell o fod yn arfer da, ac mae'n rhaid inni ddysgu o hyn ar gyfer y dyfodol.

**Suzy Davies:** I am grateful for the opportunity to take part in this debate. I am putting forward my arguments on the back of last week's compelling debate on the legislative consent motion on the Local Government Finance Bill, when much was made by all parties of the need for effective scrutiny and our right to insist on it. The point was made that, while certain secondary legislation could proceed without exercising this Chamber unduly, other secondary legislation needed thorough scrutiny from this Assembly. I would hope that Members would agree that the creation of this new body would definitely fall into that latter category.

**Suzy Davies:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Rwyf yn cyflwyno fy nadleuon yn dilyn y ddadl rymus a gawsom yr wythnos diwethaf ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynghylch y Bil Cyllid Llywodraeth Leol, pan bwysleisiodd pob plaid yr angen am waith craffu effeithiol a'n hawl i fynnu hynny. Er y gallai rhai darnau o is-ddeddfwriaeth fynd rhagddynt heb beri gormod o bryder i'r Siambr hon, gwnaed y pwynt y byddai angen i'r Cynulliad hwn graffu'n fanwl ar ddarnau eraill o is-ddeddfwriaeth. Byddwn yn gobeithio y byddai'r Aelodau yn cytuno bod creu'r corff newydd hwn yn bendant yn perthyn i'r categori olaf hwnnw.

**Simon Thomas:** The debate last week and my words were so compelling, of course, that you did not support them.

**Simon Thomas:** Roedd y ddadl yr wythnos diwethaf a'm geiriau i mor rymus, wrth gwrs, fel na fu ichi eu cefnogi.

**Suzy Davies:** Well, I note that you are not supporting this motion, so let us see if you can remember what you said last week.

**Suzy Davies:** Wel, rwyf yn nodi nad ydych chi'n cefnogi'r cynnig hwn, felly gadewch inni weld a allwch gofio'r hyn y bu ichi ei ddweud yr wythnos diwethaf.

The First Minister is also on record as saying that, where this place has primary legislative competence, this should be our preferred route, unless there are specific reasons why not. I say to Alun Ffred and William Powell that their concerns about delay should have been addressed by the Welsh Government bringing forward this Order a lot sooner, if that problem was anticipated. This cannot be allowed to set a precedent for Welsh Government behaviour in the future. I would like to know from the Welsh Government why, while it is prepared to consider introducing Bills on bye-laws, allotments and cycle routes, it did not consider bringing forward a Bill for the natural resources body. There is no doubt that this body could have been set up through a Government Bill. Instead of which, we are proceeding by way of two Orders, which is in direct contrast to the Counsel General's call for new legislation to appear in one consolidated legal instrument. One clear, properly scrutinised Bill would surely have been the better option

Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi dweud ar goedd mai dyna'r llwybr y dylem ei ffafrio, os oes gan y lle hwn gymhwysedd deddfwriaethol sylfaenol, oni bai bod rhesymau penodol dros beidio â gwneud hynny. Dywedaf wrth Alun Ffred a William Powell y dylai eu pryderon ynghylch oedi fod wedi eu tawelu wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Gorchymyn hwn lawer ynghynt, os oedd y broblem honno wedi'i rhagweld. Ni ellir caniatáu i hyn osod cynsail ar gyfer ymddygiad Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Er ei bod yn barod i ystyried cyflwyno Biliau ar is-ddeddfau, rhandiroedd a llwybrau beicio, hoffwn wybod gan Lywodraeth Cymru pam nad ystyriodd gyflwyno Bil ar gyfer y corff adnoddau naturiol. Nid oes amheuaeth na allai'r corff hwn fod wedi ei sefydlu drwy Fil Llywodraeth. Yn lle hynny, rydym yn symud ymlaen gyda dau Orchymyn, sy'n gwbl groes i'r cais a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol am i ddeddfwriaeth newydd ymddangos mewn un offeryn cyfreithiol cyfunol. Byddai

for this.

un Bil clir, y craffwyd yn briodol arno, wedi bod yn well opsiwn yn sicr yn yr achos hwn.

This Order was referred to the Environment and Sustainability Committee before substantial scrutiny was carried out by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. The Environment and Sustainability Committee met and identified areas of concern in terms of policy, of course, but also, by way of aside, in terms of technical matters of drafting, which I, as a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, would have liked a chance to investigate further. Judging by the comments made by some members of the Environment and Sustainability Committee, it seemed that they anticipated further scrutiny by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. However, the Environment and Sustainability Committee did not then recommend giving extra time to this Assembly to carry out that scrutiny, which seems totally inconsistent with its stated position during the course of that meeting. Instead, the committee decided to proceed by way of seeking clarification from the Minister for Environment and Sustainable Development, who, to be fair, provided a response very quickly. However, I disagree with William Powell's view, because that response created as many questions as it answered.

Cafodd y Gorchymyn hwn ei gyfeirio at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd cyn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol graffu'n helaeth arno. Cyfarfu'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a nododd feysydd a oedd yn peri pryder o ran polisi, wrth gwrs, a meysydd hefyd, wrth fynd heibio, a oedd yn peri pryder o ran materion drafftio technegol, y byddwn i, fel aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, wedi hoffi cael cyfle i ymchwilio iddynt ymhellach. A barnu yn ôl y sylwadau a wnaed gan rai o aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, roedd yn ymddangos eu bod yn rhagweld y byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gwneud gwaith craffu pellach. Fodd bynnag, nid argymhellodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedyn y dylid rhoi amser ychwanegol i'r Cynulliad hwn gyflawni'r gwaith craffu hwnnw, sy'n ymddangos yn gwbl anghyson â'r safbwynt a fynegwyd ganddo yn ystod y cyfarfod dan sylw. Yn hytrach, penderfynodd y pwyllgor symud ymlaen trwy geisio eglurhad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ac er tegwch i'r Gweinidog, darparodd ymateb yn gyflym iawn. Fodd bynnag, rwyf yn anghytuno â barn William Powell, oherwydd cododd yr ymateb hwnnw gynifer o gwestiynau ag a atebodd.

The letter that the Chair of the Environment and Sustainability Committee sent to the Constitutional and Legislative Affairs Committee stated that, in arriving at the decision not to request a 60-day scrutiny period,

Roedd y llythyr a anfonodd Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn dweud bod y Pwyllgor, wrth benderfynu peidio â gofyn am gyfnod craffu 60 niwrnod,

'the Committee remained concerned about several issues that arose'.

yn dal i bryderu am nifer o'r materion a gododd.

I have to ask, if issues arose that left the committee with concerns, why on earth it did not press for a 60-day scrutiny period.

Mae'n rhaid imi ofyn, os cododd materion a oedd yn peri pryder i'r pwyllgor, pam ar wyneb y ddaear na phwysodd am gyfnod craffu 60 niwrnod.

I appreciate that we are in new territory here, but it cannot be right for this Assembly to tolerate scrutiny by ministerial assurance. An extra 20 days would certainly allow us to take

Rwyf yn sylweddoli ein bod ar dir newydd yn awr, ond rhaid nad yw'n iawn i'r Cynulliad hwn oddef gwaith craffu sy'n dibynnu ar gael sicrwydd gan weinidog. Mae'n sicr y byddai

a closer look at the draft Order, which appears to goes further than its purported creation of a framework, which appears to negate the arm's-length principle, and which appears to allow Government clawing-back powers on finance. Questions about some or all of these issues could have been addressed by scrutinising initially defective drafting. If Members of all parties were concerned about the council tax LCM last week, they should all be concerned about this natural resources body Order this week; I recommend supporting the motion.

20 niwrnod ychwanegol yn caniatáu inni edrych yn fwy manwl ar y Gorchymyn drafft, yr ymddengys ei fod yn mynd ymhellach na'i fwriad honedig, sef creu fframwaith, yr ymddengys ei fod yn dirymu'r egwyddor hyd braich, ac yr ymddengys ei fod yn rhoi pwerau i'r Llywodraeth hawlio arian yn ôl gan y corff newydd. Byddai craffu ar waith drafftio a oedd yn ddiffygiol yn y lle cyntaf wedi bod yn fodd i fynd i'r afael â chwestiynau am rai neu bob un o'r materion hyn. Os oedd Aelodau o bob plaid yn pryderu am y cynnig cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch y dreth gyngor yr wythnos diwethaf, dylent i gyd bryderu am y Gorchymyn corff adnoddau naturiol hwn yr wythnos hon; rwyf yn argymell y dylid cefnogi'r cynnig.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I thank Members for their contributions. It is right that I deal with those matters in terms of the assurances that William Powell has asked for. At the outset, I direct Members to the different nature of the two Orders that we are taking forward to establish the new body, because that is relevant to the degree of scrutiny that is appropriate and the processes followed. Alun Ffred and others are absolutely right to say that, were the 60-day period to be applied to this first Order, it would delay the process, and, of course, we have considerable cross-party support for the creation of the single body, and that has been the case throughout the process of taking the single body forward.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae'n iawn imi ymdrin â'r materion hynny yn nhermau'r sicrwydd y mae William Powell wedi gofyn amdano. Ar y dechrau, hoffwn gyfeirio'r Aelodau at natur wahanol y ddau Orchymyn yr ydym yn eu cyflwyno i sefydlu'r corff newydd, gan fod hynny'n berthnasol i lefel y gwaith craffu sy'n briodol a'r prosesau a ddilynir. Mae Alun Ffred ac eraill yn hollol iawn wrth ddweud, pe bai'r cyfnod o 60 niwrnod yn cael ei ddefnyddio yng nghyswllt y Gorchymyn cyntaf hwn, y byddai'n arwain at oedi yn y broses, ac, wrth gwrs, mae gennym gefnogaeth drawsbleidiol sylweddol o blaid creu'r un corff amgylcheddol, ac mae hynny wedi bod yn wir drwy gydol y broses o gyflwyno'r corff hwnnw.

I have explained to the Environment and Sustainability Committee and, indeed, the Constitutional and Legal Affairs Committee that the first Order is purely intended to establish the single body and provide it with powers to undertake preparatory work. It cannot enable the body to deliver functions. The second Order, containing all the functional transfers and most of the substantive powers, will need to be drafted for that purpose, and it will also be able to amend anything in the first Order. That is highly significant to the appropriate level of scrutiny and time periods involved.

Rwyf wedi egluro wrth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac, yn wir, wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol mai unig fwriad y Gorchymyn cyntaf yw sefydlu'r corff newydd a rhoi pwerau iddo ymgymryd â gwaith paratoi. Ni all alluogi'r corff i gyflawni swyddogaethau. Bydd angen i'r ail Orchymyn, sy'n cynnwys trosglwyddo'r holl swyddogaethau a'r rhan fwyaf o'r pwerau creiddiol, gael ei ddrafftio i'r diben hwnnw, a bydd hefyd yn gallu diwygio unrhyw beth yn y Gorchymyn cyntaf. Mae hynny'n arwyddocaol iawn i'r lefel briodol o waith craffu a'r amserlenni sydd dan sylw.

I reiterate the assurances that I have already given to the committees to ensure that the process of drafting the second Order results in a high-quality product. My officials have already begun to share the drafting instructions and amendments to UK legislation with relevant UK Government departments and the existing bodies. We anticipate sharing an early draft of the Order with them at the end of July. Alongside that, we will undertake further public consultation on specific aspects of the second Order, including the overarching duties. This additional consultation will take place between July and the end of September. I have also offered to make a draft of the second Order available to the committees in September so that members of the committees are able to consider it and propose amendments in advance of the draft being laid. I have given a commitment to publish the consultation responses to the Green Paper and have offered to hold a debate on them early in the next term. This will take place before the laying of the second Order, which I intend to lay in mid November. This timescale should allow feedback from consultation and initial views from committees to be incorporated into the draft. It also addresses the concerns that the Order will be laid before we have considered the Green Paper responses.

Rwyf yn ailadrodd y sicrwydd yr wyf eisoes wedi'i roi i'r pwyllgorau i wneud yn siŵr bod y broses o ddrafftio'r ail Orchymyn yn arwain at gynnyrch o safon. Mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau rhannu'r cyfarwyddiadau drafftio a'r diwygiadau i ddeddfwriaeth y DU ag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU a'r cyrff sy'n bodoli eisoes. Rydym yn rhagweld y bydd drafft cynnar o'r Gorchymyn yn cael ei rannu â hwy ddiwedd mis Gorffennaf. Ochr yn ochr â hynny, byddwn yn gwneud mwy o waith ymgynghori â'r cyhoedd ar agweddau penodol ar yr ail Orchymyn, gan gynnwys y dyletswyddau cyffredinol. Bydd y gwaith ymgynghori ychwanegol hwn yn digwydd rhwng mis Gorffennaf a diwedd mis Medi. Rwyf hefyd wedi cynnig sicrhau bod drafft o'r ail Orchymyn ar gael i'r pwyllgorau ym mis Medi er mwyn i aelodau'r pwyllgorau allu ei ystyried a chynnig diwygiadau cyn i'r drafft gael ei osod. Rwyf wedi ymrwymo i gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyrdd ac wedi cynnig cynnal dadl yn eu cylch yn gynnar yn ystod y tymor nesaf. Bydd hynny'n digwydd cyn gosod yr ail Orchymyn, yr wyf yn bwriadu ei osod ganol mis Tachwedd. Dylai'r amserlen hon ganiatáu i adborth o'r ymgynghoriad a barn gychwynnol y pwyllgorau gael eu cynnwys yn y drafft. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r pryderon y bydd y Gorchymyn yn cael ei osod cyn inni ystyried yr ymatebion i'r Papur Gwyrdd.

I fully acknowledge that the committees will want to consider the substantive draft Order in more detail, so I will support the use of the 60-day process for the second Order. This timescale will enable a revised version of the Order to be laid in February 2013 if required. This would give us time to reflect Members' amendments, where appropriate, and to take the Order to a final vote in March 2013. Given that, I do not think that it is necessary or proportionate to scrutinise this first Order for 60 days. As I have said, this Order is only to enable the new body to undertake preparatory work and it does not provide Welsh Ministers with new powers. It can be amended, as necessary, by the second Order. I have already set out proposals to maximise the opportunity to debate the second Order and to provide opportunities to amend it. These go well beyond the legal requirements,

Rwyf yn cydnabod yn llwyr y bydd y pwyllgorau am ystyried y Gorchymyn drafft creiddiol yn fwy manwl, felly byddaf yn cefnogi defnyddio'r broses 60 niwrnod ar gyfer yr ail Orchymyn. Bydd yr amserlen hon yn caniatáu i fersiwn ddiwygiedig o'r Gorchymyn gael ei gosod ym mis Chwefror 2013 os bydd angen. Byddai hynny'n rhoi amser inni adlewyrchu diwygiadau'r Aelodau, lle y bo hynny'n briodol, a mynd â'r Gorchymyn i bleidlais derfynol ym mis Mawrth 2013. O ystyried hynny, nid wyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac yn gymesur cael 60 niwrnod i graffu ar y Gorchymyn cyntaf hwn. Fel y dywedais, unig ddiben y Gorchymyn hwn yw galluogi'r corff newydd i wneud gwaith paratoi, ac nid yw'n rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru. Gellir ei ddiwygio, yn ôl yr angen, gan yr ail Orchymyn. Rwyf eisoes wedi cyflwyno

which is clear evidence of this Government's commitment to transparency and accountability and to an inclusive approach. For those reasons, Llywydd, I do not support the motion.

cynigion i sicrhau cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i drafod yr ail Orchymyn a darparu cyfleoedd i'w ddiwygio. Mae'r rheini yn mynd ymhell y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol, sy'n dystiolaeth bendant o ymrwymiad y Llywodraeth i dryloywder ac atebolrwydd, a dull gweithredu cynhwysol. Am y rhesymau hynny, Lywydd, nid wyf yn cefnogi'r cynnig.

**Antoinette Sandbach:** I think that Alun Ffred Jones, having not been involved in the process, was not aware that the Order was not laid within the appropriate time limit to allow the 60-day procedure. Had the Order been laid earlier in the Assembly term, that 60-day procedure could have been undertaken without the consequences referred to in his speech relating to the staff. Furthermore, all parties committed to a single environment body in their manifestos, I believe. How that body was constituted was maybe a different matter, but it is not a fact that there is a dispute—we are not looking at the merits of this Order with regard to the way that it has been drafted.

**Antoinette Sandbach:** Gan na fu'n rhan o'r broses, nid wyf yn credu bod Alun Ffred Jones yn gwybod na chafodd y Gorchymyn ei osod o fewn y terfyn amser priodol i ganiatáu defnyddio'r weithdrefn 60 niwrnod. Pe bai'r Gorchymyn wedi ei osod yn gynharach yn ystod tymor y Cynulliad, gellid bod wedi ymgymryd â'r weithdrefn 60 niwrnod heb y canlyniadau y cyfeiriwyd atynt yn ei araith ynghylch y staff. At hynny, credaf fod pob plaid wedi ymrwymo i un corff amgylcheddol yn eu maniffestos. Hwyrach bod sut y byddai'r corff hwnnw'n cael ei greu yn fater arall, ond nid yw'n ffaith bod gwahaniaeth barn—nid ydym yn edrych ar rinweddau'r Gorchymyn hwn o ran y modd y cafodd ei ddrafftio.

3.30 p.m.

We have asked that this Assembly should consider its constitutional obligations and whether or not there has been appropriate scrutiny. The fact remains that, last week, a report by the Constitutional and Legislative Affairs Committee said that our Standing Orders do not address this issue. As Suzy Davies rightly pointed out in her speech, this Government brought forward a Bill yesterday on local bye-laws. This body is going to exercise substantial powers, and the Minister has not given an assurance that the next process will be in the form of a Bill, nor has he provided an explanation to the Assembly as to why it was not possible for him to lay the Order in time for the Assembly to consider it during this Assembly term, without causing any delay to the establishment of the single body. We have not heard a single word from this Minister as to why that was the case. I appreciate that he has made concessions, and I am glad that they are on the record, but my concern remains that, when establishing a body of this type, the appropriate mechanism is a Bill and

Rydym wedi gofyn i'r Cynulliad hwn ystyried ei rwymedigaethau cyfansoddiadol, ac rydym wedi gofyn a fu lefel briodol o waith craffu ai peidio. Erys y ffaith bod adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yr wythnos diwethaf, wedi dweud nad yw ein Rheolau Sefydlog yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Fel y nododd Suzy Davies yn gywir ddigon yn ei haraith, cyflwynodd y Llywodraeth hon Fil ar is-ddeddfau lleol ddoe. Bydd gan y corff newydd bwerau sylweddol, ac nid yw'r Gweinidog wedi rhoi sicrwydd y bydd y broses nesaf ar ffurf Bil, ac nid yw chwaith wedi egluro wrth y Cynulliad pam nad oedd yn bosibl iddo osod y Gorchymyn mewn pryd i'r Cynulliad ei ystyried yn ystod y tymor hwn, heb achosi unrhyw oedi o ran sefydlu'r corff newydd. Nid ydym wedi clywed gair gan y Gweinidog hwn am hynny. Rwyf yn sylweddoli ei fod wedi gwneud consesiynau, ac rwyf yn falch bod y rheini wedi'u cofnodi, ond rwyf yn pryderu o hyd mai Bil yn hytrach na Gorchymyn yw'r drefn briodol wrth sefydlu

not an Order, whether or not the superaffirmative procedure is followed. This Government has been in power for a year. It has had plenty of opportunity to draft the Bill provisions.

corff tebyg i hwn, ni waeth a yw'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn cael ei dilyn ai peidio. Mae'r Llywodraeth hon wedi bod mewn grym ers blwyddyn. Mae wedi cael digon o gyfle i ddrafftio darpariaethau'r Bil.

Another difficulty that the Environment and Sustainability Committee faced was that the Minister has not yet announced the outcome of the 'Sustaining a Living Wales' consultation. The committee is being asked to scrutinise a piece of legislation that is going to put into being a body when the Minister has failed to tell us what the aims of that body are going to be. He has not announced the outcome of that consultation, and I have requested it in business statements. I do not think that it is an appropriate way to proceed in this Assembly; I do not think that it gives people proper input into the process. I know that Llyr Huws Gruffydd said that it was putting the cart before the horse. A number of other Members of the committee put their concerns on the record, and those concerns will be available to be read when the records are available. This is a question of scrutiny and not merit. That is why this motion has been tabled, and I ask you to support it.

Anhawster arall yr oedd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei wynebu oedd y ffaith nad yw'r Gweinidog eto wedi cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad 'Cynnal Cymru Fyw'. Gofynnir i'r pwyllgor graffu ar ddarn o ddeddfwriaeth a fydd yn creu corff, pan nad yw'r Gweinidog wedi gallu dweud wrthym beth fydd nodau'r corff hwnnw. Nid yw wedi cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, ac rwyf wedi gofyn amdano mewn datganiadau busnes. Nid wyf yn credu bod honno'n ffordd briodol o weithredu yn y Cynulliad hwn; nid wyf yn credu ei bod yn rhoi cyfle i bobl gyfrannu'n briodol i'r broses. Gwn i Llyr Huws Gruffydd ddweud ei bod yn gyfystyr â rhoi'r cart o flaen y ceffyl. Mae nifer o Aelodau eraill y pwyllgor wedi cofnodi eu pryderon, a bydd modd darllen y pryderon hynny pan fydd y cofnodion ar gael. Mae a wnelo hyn â gwaith craffu ac nid â rhinweddau'r Gorchymyn. Dyna pam y mae'r cynnig hwn wedi ei gyflwyno, a gofynnaf ichi ei gefnogi.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are objections, therefore I defer voting on this item until voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog Rhif 11.21(iv)
## Debate by Individual Members under Standing Order No. 11.21(iv)

### Oedran Pleidleisio
### Voting Age

*Cynnig NDM5023 Julie Morgan, Aled Roberts, Bethan Jenkins a Paul Davies*

*Motion NDM5023 Julie Morgan, Aled Roberts, Bethan Jenkins and Paul Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ym mhob etholiad a refferendwm a gynhelir yng Nghymru.*

*Supports lowering the voting age to 16 years in all elections and referendums held in Wales.*

**Julie Morgan:** I move the motion in my name and the names of Aled Roberts, Bethan Jenkins and Paul Davies and with the names of Keith Davies, Christine Chapman, Kirsty Williams, Vaughan Gething, Mark Drakeford, Julie James, Peter Black, Mick Antoniw and Jenny Rathbone in support.

**Julie Morgan:** Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac yn enw Aled Roberts, Bethan Jenkins a Paul Davies, gyda chefnogaeth Keith Davies, Christine Chapman, Kirsty Williams, Vaughan Gething, Mark Drakeford, Julie James, Peter Black, Mick Antoniw a Jenny Rathbone.

I am pleased to be able to open this debate today to express support for lowering the voting age to 16 years of age in all elections and referendums held in Wales. I move the motion along with my three co-sponsors—Paul Davies from the Conservative Party, Bethan Jenkins from Plaid Cymru and Aled Roberts from the Liberal Democrats. I am pleased that there are sponsors from all four parties in this Assembly. I also thank the nine other Members who have already indicated their support for this motion.

Rwyf yn falch o allu agor y ddadl hon heddiw i gefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ym mhob etholiad a refferendwm a gynhelir yng Nghymru. Cynigiaf y cynnig gyda’m tri chyd-noddwr—Paul Davies o’r Blaid Geidwadol, Bethan Jenkins o Blaid Cymru ac Aled Roberts o’r Democratiaid Rhyddfrydol. Rwyf yn falch bod noddwyr o bob un o’r pedair plaid sydd yn y Cynulliad hwn. Hoffwn ddiolch hefyd i’r naw Aelod arall sydd eisoes wedi nodi eu cefnogaeth i’r cynnig hwn.

It is appropriate that this debate is being held on 4 July, Independence Day in the United States, as this is a chance for us to show support for the idea that young people at 16 should be allowed the chance to exercise a little political independence and self-determination by being able to vote. It should not take a revolution to do this.

Mae’n briodol bod y ddadl hon yn cael ei chynnal ar 4 Gorffennaf, sef Diwrnod Annibyniaeth yn yr Unol Daleithiau, gan fod hwn yn gyfle inni ddangos cefnogaeth i’r syniad y dylai pobl ifanc 16 oed gael y cyfle i arfer ychydig o annibyniaeth wleidyddol a hunanbenderfyniad drwy allu pleidleisio. Ni ddylai gymryd chwyldro i wneud hynny.

I make it clear at the outset that I am talking about the vote at every level of government and all referendums. I believe that all levels of government are equally important and have a great effect on young people’s lives. I have been involved in this campaign for many years. As a Member of Parliament, I was lucky enough to present a private Member’s Bill in 2007-08, which called for a reduction in the voting age to 16 and which, like this motion, had cross-party support. I am pleased to say that, although my Bill fell, it increased support in all of the political parties and I had a great deal of help from the British Youth Council, the Electoral Reform Society, which is still campaigning on this issue, and Funky Dragon. I thank them for their help then and for their help in passing out the message that this debate was taking place today.

Hoffwn nodi’n glir ar y dechrau fy mod yn sôn am bleidlais ar bob lefel o lywodraeth ac ym mhob refferendwm. Credaf fod pob lefel o lywodraeth yr un mor bwysig â’i gilydd a’u bod yn cael effaith fawr ar fywydau pobl ifanc. Rwyf wedi bod yn ymwneud â’r ymgyrch hon ers blynyddoedd lawer. Fel Aelod Seneddol, bûm yn ddigon ffodus i gyflwyno Mesur Aelod preifat yn 2007-08, a oedd yn galw am ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ac a gafodd, fel y cynnig hwn, gefnogaeth drawsbleidiol. Er bod fy Mesur wedi methu, rwyf yn falch o ddweud iddo sicrhau rhagor o gefnogaeth ym mhob un o’r pleidiau gwleidyddol, a chefais lawer iawn o gymorth gan Gyngor Ieuenctid Prydain, y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, sy’n dal i ymgyrchu ynghylch y mater hwn, a’r Ddraig Ffynci. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cymorth bryd hynny ac am eu cymorth wrth ledaenu’r neges bod y ddadl hon yn digwydd heddiw.

We are not the first to want to have the right

Nid ni yw’r cyntaf i ddymuno cael yr hawl i

to vote at 16; it is an idea that has taken hold in several places already, so we are not going into unchartered territory. Voting rights in all elections have been granted to 16-year-olds in Austria, Brazil, Jersey, Guernsey, the Isle of Man, Ecuador and Nicaragua, and, in Germany, 16-year-olds are allowed to vote in some state elections. Some 16-year-olds are also allowed to vote in some elections in Hungary and Slovenia.

bleidleisio yn 16 oed; mae'n syniad sydd wedi gafael mewn sawl lle yn barod, felly nid ydym yn troedio tir newydd. Mae hawliau pleidleisio ym mhob etholiad wedi eu rhoi i bobl ifanc 16 oed yn Awstria, Brasil, Jersey, Guernsey, Ynys Manaw, Ecwador a Nicaragwa, ac yn yr Almaen mae pobl ifanc 16 oed yn cael pleidleisio mewn rhai o etholiadau taleithiau. Mae rhai pobl ifanc 16 oed hefyd yn cael pleidleisio mewn rhai etholiadau yn Hwngari a Slofenia.

Even though the Assembly does not have the power to change the voting age to 16 in Wales, it is important to move the debate forward here and to send out a clear message about our views. It is important to keep up the pressure on Westminster on this particular issue and, with the additional responsibilities that the Assembly now has in passing primary legislation, our voice has extra weight and we must make it heard.

Er nad oes gan y Cynulliad y pŵer i newid yr oedran pleidleisio i 16 oed yng Nghymru, mae'n bwysig symud y drafodaeth yn ei blaen yma ac anfon neges glir am ein barn. Mae'n bwysig parhau i bwyso ar San Steffan ynghylch y mater penodol hwn, a chyda'r cyfrifoldebau ychwanegol sydd gan y Cynulliad bellach o ran pasio deddfwriaeth sylfaenol, mae gennym lais mwy grymus a rhaid inni sicrhau ei fod yn cael ei glywed.

There have been bodies that have looked at this issue before. For example, when Labour was in Government, it set up the Youth Citizenship Commission. In June 2009, in a report called 'Old enough to make a mark: should the voting age be lowered to 16?' the Youth Citizenship Commission, under the leadership of Professor Jonathan Tonge, felt unable to come to a decision about votes at 16. It thought that it should be a political decision. I believe that it should be a political decision. We can set up commissions and bodies to make recommendations, but, ultimately, it is up to politicians to make the decision. Given that the voting systems are different in each of the devolved bodies in the UK, it recommended that the UK Government could consider whether the right to decide the voting age for elections to devolved bodies should be one for devolved Governments. Personally, I think that we should be considering every level of government and not just devolved Governments.

Mae cyrff wedi edrych ar y mater hwn o'r blaen. Er enghraifft, pan oedd y Blaid Lafur mewn Llywodraeth sefydlodd y Comisiwn Dinasyddiaeth Ieuenctid. Ym mis Mehefin 2009, mewn adroddiad o'r enw 'Old enough to make a mark: should the voting age be lowered to 16?', nid oedd y Comisiwn Dinasyddiaeth Ieuenctid, dan arweiniad yr Athro Jonathan Tonge, yn teimlo y gallai ddod i benderfyniad ynghylch pleidleisio yn 16 oed. Roedd yn credu y dylai fod yn benderfyniad gwleidyddol. Rwyf innau'n credu y dylai fod yn benderfyniad gwleidyddol. Gallwn sefydlu comisiynau a chyrff i wneud argymhellion, ond, yn y pen draw, mater i wleidyddion yw gwneud y penderfyniad. O ystyried bod y systemau pleidleisio yn wahanol ym mhob un o gyrff datganoledig y DU, argymhellir y gallai Llywodraeth y DU ystyried a ddylai'r hawl i benderfynu ar yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau i gyrff datganoledig fod yn hawl i Lywodraethau datganoledig. Yn bersonol, credaf y dylem fod yn ystyried pob lefel o lywodraeth ac nid Llywodraethau datganoledig yn unig.

We will hear many key arguments in the Chamber today about why 16-year-olds should be allowed to vote, and I am sure that this will range from arguments about consistency, because 16-year-olds can join

Byddwn yn clywed llawer o ddadleuon allweddol yn y Siambr heddiw ynghylch pam y dylid caniatáu i bobl ifanc 16 oed bleidleisio, ac rwyf yn siŵr y byddant yn amrywio o ddadleuon am gysondeb,

the army and get married, and arguments about fairness.

oherwydd bod pobl ifanc 16 oed yn gallu ymuno â'r fyddin a phriodi, i ddadleuon am degwch.

A yw'n deg nad yw pobl ifanc 16 oed yn gallu pleidleisio?

Is it fair that 16-year-olds cannot vote?

Sixteen-year-olds can work full time and have to pay taxes, so why should they not have some say about where their taxes go? I know that that point will be covered later. There will also be arguments about highlighting young people's issues. Voting puts young people on a politician's radar. In the first elections in which 16-year-olds voted in the Isle of Man, for example, a third of returned members made a lot of reference to young people's issues in their manifestos. It is very important and, if young people have the vote, more interest will be shown by politicians in the issues that are important to them. However, for me, more than anything, it is really a question of bringing people in and including as many people in our democracy as possible. We pay a lot of lip service to the idea of political engagement, getting people to care more about what happens in chambers such as this one. We want people to be more interested, we want to increase turnout and we want as many people's views as possible to be represented.

Mae pobl ifanc 16 oed yn gallu gweithio'n llawn amser ac yn gorfod talu trethi, felly pam na ddylent gael cyfle i fynegi eu barn am ble y mae eu trethi yn mynd? Gwn y bydd y pwynt hwnnw'n cael sylw yn ddiweddarach. Bydd dadleuon hefyd ynghylch tynnu sylw at faterion pobl ifanc. Mae pleidleisio yn sicrhau bod gwleidydd yn ystyried pobl ifanc. Yn yr etholiadau cyntaf i bobl ifanc 16 oed bleidleisio ynddynt ar Ynys Manaw, er enghraifft, roedd traean yr aelodau a etholwyd wedi cyfeirio llawer at faterion pobl ifanc yn eu maniffestos. Mae'n bwysig iawn, ac os bydd pobl ifanc yn cael pleidlais, bydd mwy o ddiddordeb yn cael ei ddangos gan wleidyddion yn y materion sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, i mi, mae a wnelo mewn gwirionedd, yn fwy na dim byd arall, â thynnu pobl i mewn a chynnwys cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn ein democratiaeth. Rydym yn esgus cefnogi'r syniad o ymgysylltiad gwleidyddol, a chael pobl i boeni mwy am yr hyn sy'n digwydd mewn siambrau megis hon. Rydym am i bobl ymddiddori mwy, rydym am gynyddu'r ganran sy'n pleidleisio ac rydym am i farn cynifer o bobl ag sy'n bosibl gael ei chynrychioli.

**Nick Ramsay:** Thank you for giving way. Regarding the point that you have just made, I would be interested to hear your argument on this: you said that giving the franchise to 16-year-olds would increase interest; obviously, the franchise has been with 18-year-olds for a considerable length of time, yet that age group is notoriously one of the worst age groups in terms of voting. How do you respond to that argument?

**Nick Ramsay:** Diolch am ildio. O ran y pwynt yr ydych newydd ei wneud, byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich dadl ynghylch hyn: bu ichi ddweud y byddai rhoi etholfraint i bobl ifanc 16 oed yn cynyddu diddordeb; yn amlwg, mae pobl ifanc 18 oed wedi cael etholfraint ers cryn amser, ond eto i gyd, gwyddys mai'r grŵp oedran hwnnw yw un o'r grwpiau oedran gwaethaf o ran pleidleisio. Sut yr ydych yn ymateb i'r ddadl honno?

**Julie Morgan:** I am just about to go on to that point. By welcoming 16-year-olds into the political process while they are still at school—which I think is the important point, because at 16, you are much more likely still to be at school or college—they can discuss all of the issues with their peers and teachers

**Julie Morgan:** Rwyf ar fin symud ymlaen at y pwynt hwnnw. Drwy groesawu pobl ifanc 16 oed i'r broses wleidyddol tra maent yn dal yn yr ysgol—sef y pwynt pwysig yn fy marn i, oherwydd yn 16 oed, rydych yn fwy tebygol o lawer o barhau i fod yn yr ysgol neu'r coleg—gallant drafod yr holl faterion

and it is the perfect place to engage. I am sure that we have all been into sixth forms and have taken part in debates and heard young people speak passionately about issues. If you do that at a younger age, they are likely to continue the habit for life. People will get into the habit of voting. Evidence shows that if you do not vote the first time that the vote is available, the likelihood is that you will never vote. Therefore, it is really important to get there early on.

â'u cyfoedion a'u hathrawon, ac mae'n lle perffaith i gymryd rhan yn y broses. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd wedi ymweld â dosbarthiadau chwech ac wedi cymryd rhan mewn dadleuon a chlywed pobl ifanc yn siarad yn angerddol am faterion. O wneud hynny pan fyddant yn iau, maent yn debygol o barhau â'r arfer am oes. Bydd pobl yn mynd i'r arfer o bleidleisio. Mae tystiolaeth yn dangos, os na fyddwch yn pleidleisio'r tro cyntaf y bydd gennych bleidlais, ei bod yn debygol na fyddwch byth yn pleidleisio. Felly, mae'n wirioneddol bwysig dechrau pleidleisio'n gynnar.

I think that we can expect a really good response from 16 and 17-year-olds. In Austria and Germany in the past, for example, the turnout among 16 and 17-year-olds was higher than among other young people. This could provide a real shot in the arm—the shot in the arm that our democracy needs.

Credaf y gallwn ddisgwyl ymateb gwirioneddol dda gan bobl ifanc 16 a 17 oed. Yn Awstria a'r Almaen yn y gorffennol, er enghraifft, roedd y ganran a bleidleisiodd ymhlith pobl ifanc 16 a 17 oed yn uwch na'r ganran ymhlith pobl ifanc eraill. Gallai hynny fod yn hwb go iawn—yr hwb y mae ei angen ar ein democratiaeth.

Over the last few days, we have seen in this building how engaged young people are with this issue. Yesterday, three school groups debated the issue in the old Chamber and, interestingly, two of the three groups voted strongly for votes at 16. The vote in the other group was very close—20 to 18 against. I am also pleased that there have been a lot of young people in the Senedd today; many of them are sitting up in the public gallery. This has been a really good way of engaging people. I thank Funky Dragon again for contacting youth groups across Wales and for raising awareness of the debate.

Dros yr ychydig ddiwrnodau diwethaf, rydym wedi gweld yn yr adeilad hwn gymaint y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â'r mater. Ddoe, bu tri grŵp ysgol yn trafod y mater yn yr hen Siambr ac, yn ddiddorol, pleidleisiodd dau o'r tri grŵp yn gryf dros gael yr hawl i bleidleisio yn 16 oed. Roedd y bleidlais yn y grŵp arall yn agos iawn—20 i 18 yn erbyn. Rwyf hefyd yn falch bod llawer o bobl ifanc wedi bod yn y Senedd heddiw; mae llawer ohonynt yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus. Mae hynny wedi bod yn ffordd wirioneddol dda o ymgysylltu â phobl. Diolchaf unwaith eto i'r Ddraig Ffynci am gysylltu â grwpiau ieuenctid ar draws Cymru ac am godi ymwybyddiaeth o'r ddadl.

I am sure that it has been interesting for people outside the Chamber to watch the video of young people expressing their views on this issue, which was put together by the Assembly's communications team. There has certainly been a buzz around the place today.

Rwyf yn siŵr ei bod wedi bod yn ddiddorol i bobl y tu allan i'r Siambr wylio'r fideo a luniwyd gan dîm cyfathrebu'r Cynulliad o bobl ifanc yn mynegi eu barn am y mater hwn. Yn sicr, bu cyffro o gwmpas y lle heddiw.

Therefore, today, on 4 July, I will end with a quotation from the US President, Barack Obama, who said:

Felly, heddiw, ar 4 Gorffennaf, rwyf am orffen â dyfyniad gan Lywydd yr Unol Daleithiau, Barack Obama, a ddywedodd:

'Do we participate in a politics of cynicism or a politics of hope?'

A ydym yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth sy'n llawn sinigiaeth ynteu gwleidyddiaeth sy'n llawn gobaith?'

I say this: let us put our hope and confidence in young people today, and let us get as many Assembly Members as possible to support votes for 16-years-old.

Dywedaf hyn: gadewch inni roi ein gobaith a'n hyder mewn pobl ifanc heddiw, a gadewch inni gael cynifer o Aelodau'r Cynulliad ag sy'n bosibl i gefnogi pleidleisiau ar gyfer pobl ifanc 16 oed.

**Paul Davies:** I am pleased to add my name to this motion, also abled in the name of Julie Morgan, Bethan Jenkins and Aled Roberts. There are a number of points that I would like to raise in arguing for the voting age to be lowered to 16. One key issue for me is that changing the voting age to 16 is a simple matter of common sense, because it is an issue of consistency.

**Paul Davies:** Rwyf yn falch o ychwanegu fy enw at y cynnig hwn, a gyflwynwyd hefyd yn enw Julie Morgan, Bethan Jenkins ac Aled Roberts. Mae nifer o bwyntiau yr hoffwn eu codi wrth ddadlau dros ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed. Un mater allweddol i mi yw bod newid yr oedran pleidleisio i 16 oed yn fater syml o synnwyr cyffredin, gan ei fod yn fater o gysondeb.

First, let us look at some of the facts. As has already been said, by the age of 16, a person is legally allowed to leave school, enter work or training, pay income tax and national insurance and obtain tax and welfare benefits in their own right. They can also get married or enter a civil partnership, legally consent to sexual relationships, join the armed forces and become a member of a trade union or a co-operative society. However, young people aged 16 and 17 have no say in electing or dismissing the politicians who are making choices about some of the most important aspects of their lives. It is not right that young people are expected to pay taxes but have no influence whatsoever on the politicians who make decisions on those taxes. We are all familiar with the phrase 'no taxation without representation'. I believe that 16 year olds are capable of making political decisions that affect their lives. If they are deemed mature enough to decide whether to join the army or a trade union, surely they are mature enough to cast a vote in elections and referendums. It just makes simple common sense that someone who is able to get married, die for their country or pay their due towards society is also able to indicate their views on electing governments.

Yn gyntaf, gadewch inni edrych ar rai o'r ffeithiau. Fel y dywedwyd eisoes, erbyn cyrraedd 16 oed, mae gan berson hawl gyfreithiol i adael yr ysgol, dechrau gweithio neu gael hyfforddiant, talu treth incwm ac yswiriant gwladol a chael budd-daliadau treth a lles yn eu rhinwedd eu hunain. Gallant hefyd briodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil, cydsynio'n gyfreithlon i berthynas rywiol, ymuno â'r lluoedd arfog a dod yn aelod o undeb llafur neu gymdeithas gydweithredol. Fodd bynnag, nid oes gan bobl ifanc 16 a 17 oed unrhyw lais o ran ethol neu ddiswyddo'r gwleidyddion sy'n gwneud dewisiadau am rai o'r agweddau mwyaf pwysig ar eu bywydau. Nid yw'n iawn disgwyl i bobl ifanc dalu trethi heb fod ganddynt unrhyw ddylanwad o gwbl ar y gwleidyddion sy'n gwneud penderfyniadau am y trethi hynny. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r ymadrodd 'dim trethi heb gynrychiolaeth'. Credaf fod gan bobl ifanc 16 oed y gallu i wneud penderfyniadau gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Os bernir eu bod yn ddigon aeddfed i benderfynu a ydynt am ymuno â'r fyddin neu undeb llafur, siawns nad ydynt yn ddigon aeddfed i fwrw pleidlais mewn etholiadau a refferenda. Synnwyr cyffredin syml yw bod rhywun sy'n gallu priodi, marw dros ei wlad neu dalu ei ddyledion i gymdeithas hefyd yn gallu nodi ei farn am ethol llywodraethau.

I believe that, if there are changes to be made to the voting age, it is only right and proper to give the vote to 16-year-olds rather than take away their current liberties and raise everything to a generic age of 18. I give way

Rwyf yn credu, os oes newidiadau i'w gwneud i'r oedran pleidleisio, nad yw ond yn iawn ac yn briodol rhoi pleidlais i bobl ifanc 16 oed yn hytrach na chymryd eu rhyddid presennol oddi arnynt a chodi oedran popeth i

to the Member for Clwyd West.

oedran generig, sef 18. Ildiaf i'r Aelod dros Orllewin Clwyd.

**Darren Millar:** I can see that there is merit in this argument of having some consistency. However, I feel that 18 ought to be the age of responsibility for these particular matters. Given the consistency argument that you are making, do you think that it would be wise to reduce the age for alcohol consumption to 16, for example? If you are being consistent, surely you would agree with that.

**Darren Millar:** Gallaf weld bod gwerth yn y ddadl dros gael rhywfaint o gysondeb. Fodd bynnag, teimlaf mai 18 ddylai oedran cyfrifoldeb fod ar gyfer y materion penodol hyn. O ystyried y ddadl am gysondeb, yr ydych yn ei chyflwyno, a ydych yn credu y byddai'n ddoeth gostwng yr oedran ar gyfer yfed alcohol i 16 oed, er enghraifft? Os ydych am fod yn gyson, siawns na fyddech yn cytuno â hynny?

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.44 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.44 p.m.*

**Paul Davies:** I accept the point that the Member is making but, for me, this debate is about trusting our young people. We should have confidence in our young people. Given that I sit on this side of the Chamber, like you, Darren, I believe in trusting individuals. I hope that the Member for Clwyd West will trust our young people.

**Paul Davies:** Rwyf yn derbyn y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud ond, i mi, mae'r ddadl hon yn ymwneud ag ymddiried yn ein pobl ifanc. Dylem fod â hyder yn ein pobl ifanc. O ystyried fy mod yn eistedd yr ochr hon i'r Siambr, fel chithau, Darren, rwyf yn credu mewn ymddiried mewn unigolion. Gobeithiaf y bydd yr Aelod dros Orllewin Clwyd yn ymddiried yn ein pobl ifanc.

Sixteen-year-olds will have been educated for over 10 years, and many will have experienced life outside the classroom in some form of workplace. As a result, many young people at this age form coherent and consistent political opinions. I believe that it would be unfair and patronising to try to suggest otherwise. I accept that it is widely recognised that many young people in the UK feel alienated from the political scene and from politicians. However, disillusionment with the political class among young people may be lessened if 16 and 17-year-olds are actively engaged in politics. Even if this only encouraged some involvement in politics, this would be better than young people feeling as if they were not being heard at all. As a result, politicians may well start taking a greater interest in young people's issues and do more to engage with them. In the long-term, these young people may even take a lifelong interest in politics and current affairs if they were introduced to it at a younger age.

Bydd pobl ifanc 16 oed wedi cael eu haddysgu am dros 10 mlynedd, a bydd llawer ohonynt wedi profi bywyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn rhyw fath o weithle. O ganlyniad, bydd llawer o bobl ifanc yn yr oedran hwn yn ffurfio barn wleidyddol gydlynol a chyson. Credaf y byddai'n annheg ac yn nawddoglyd ceisio awgrymu fel arall. Rwyf yn derbyn y cydnabyddir yn eang bod llawer o bobl ifanc yn y DU yn teimlo eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth y byd gwleidyddol a gwleidyddion. Fodd bynnag, gellid lleihau dadrithiad â'r dosbarth gwleidyddol ymysg pobl ifanc pe bai pobl ifanc 16 a 17 oed yn ymgysylltu'n weithredol â gwleidyddiaeth. Hyd yn oed pe na bai hynny ond yn annog rhywfaint o ymwneud â gwleidyddiaeth, byddai'n well na bod pobl ifanc yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed o gwbl. O ganlyniad, gallai gwleidyddion ddechrau cymryd mwy o ddiddordeb mewn materion pobl ifanc a gwneud mwy i ymgysylltu â hwy. Yn y tymor hir, gallai'r bobl ifanc hyn hyd yn oed gymryd diddordeb gydol oes mewn gwleidyddiaeth a materion cyfoes, pe baent yn cael eu cyflwyno iddynt yn iau.

3.45 p.m.

Secondly, it could even be argued that, currently, the right to vote is granted at perhaps one of the most difficult times in a person's life—at the age of 18, many young people leave their home and the community in which they have lived for most of their lives, either to go away to college or to move away from home in search of work. It is at this age that they are granted the eligibility to vote. At this point, many young people have either relocated to a new community that they are unfamiliar with or they must attempt to vote absentee back home—a process that does nothing to engage new voters.

Yn ail, gellid hyd yn oed dadlau bod yr hawl i bleidleisio'n cael ei rhoi ar hyn o bryd ar un o'r adegau mwyaf anodd efallai ym mywyd unigolyn—yn 18 oed, bydd llawer o bobl ifanc yn gadael eu cartref a'r gymuned y maent wedi byw ynddi am y rhan fwyaf o'u bywydau, naill ai er mwyn mynd i ffwrdd i'r coleg neu er mwyn symud oddi cartref i chwilio am waith. Dyna'r oedran y byddant yn dod yn gymwys i bleidleisio. Dyna pryd y bydd llawer o bobl ifanc naill ai wedi symud i gymuned newydd nad ydynt yn gyfarwydd â hi neu'n gorfod ceisio pleidleisio fel unigolyn absennol yn ôl adref—proses nad yw'n gwneud dim i ymgysylltu â phleidleiswyr newydd.

**Mohammad Asghar:** Paul, will you take an intervention?

**Mohammad Asghar:** Paul, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Paul Davies:** I am not taking any more interventions. Lowering the voting age to 16 will give the vote to young people who have roots in a community and an appreciation for local issues that has been strengthened over years in the local education system. Giving young people a vote whilst still living in stable conditions may set good voting habits that may then continue throughout their lives.

**Paul Davies:** Nid wyf am dderbyn rhagor o ymyriadau. Bydd gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn rhoi pleidlais i bobl ifanc sydd â gwreiddiau mewn cymuned ac sydd wedi meithrin gwerthfawrogiad o faterion lleol, a gryfhawyd dros flynyddoedd yn y system addysg leol. Gallai rhoi pleidlais i bobl ifanc tra maent yn dal i fyw mewn amodau sefydlog ddechrau arferion pleidleisio da a allai barhau wedyn drwy gydol eu bywydau.

There are many who will argue, and we have heard this today, that there will be a higher number of 16-year-olds who will not bother to cast a vote at all, given that there are many young people already who have the vote who currently disengage with the political process. That is no coherent argument; that can be said for members of the electorate of all ages. There are people in their 30s, 40s, 50s and so on who choose not to vote in elections and referendums. Should we deny those people the right to vote—of course we should not. As a society, let us be consistent and let us have confidence in our young people by giving them the right to vote. After all, we give them other rights; let us now give them the responsibility to vote. With rights come responsibilities, and I urge Members to vote for this motion.

Ceir llawer a fydd yn dadlau, ac rydym wedi clywed hynny heddiw, y bydd nifer uwch o bobl ifanc 16 oed na fyddant yn trafferthu bwrw pleidlais o gwbl, o gofio bod gennym lawer o bobl ifanc eisoes sydd â hawl i bleidleisio ond nad ydynt ar hyn o bryd yn ymgysylltu â'r broses wleidyddol. Nid yw honno'n ddadl gydlynol; gellir dweud hynny am etholwyr o bob oed. Ceir pobl yn eu 30au, 40au, 50au ac yn y blaen sy'n dewis peidio â phleidleisio mewn etholiadau a refferenda. A ddylem wrthod rhoi hawl i'r bobl hynny bleidleisio—wrth gwrs na ddylem. Fel cymdeithas, gadewch inni fod yn gyson a gadewch inni fod â hyder yn ein pobl ifanc drwy roi'r hawl iddynt bleidleisio. Wedi'r cyfan, rydym yn rhoi hawliau eraill iddynt; gadewch inni'n awr roi'r cyfrifoldeb iddynt bleidleisio. Gyda hawliau daw cyfrifoldebau, ac rwyf yn annog Aelodau i bleidleisio o blaid y cynnig hwn.

**Aled Roberts:** I also welcome what Julie Morgan said and the fact that we have cross-party support for this motion today. It is quite clearly the case that, as a signatory to the UN Convention on the Rights of the Child, the UK Government has successively acknowledged under article 12, the right for every young person to express their views freely, and more importantly, that due weight should be given to those views in matters affecting them. It is also the case that the Council of Europe's Parliamentary Assembly has urged the Committee of Ministers to encourage member states to reconsider the age-related restrictions placed on voting rights in order to encourage young people to participate in political life. We have to accept that voter turnout is declining in all elections. Turnout for the 2011 Welsh Assembly elections was a mere 41%—2% down on the previous elections. The situation for the European elections was even worse, with 31% voting in 2009. It is a sad state of affairs that, since the Assembly referendum in 1997, turnout has never exceeded 65%, evidencing, as Paul Davies has just alluded to, that one third of the population currently feels very little connectivity with the political situation in this country.

**Aled Roberts:** Rwyf innau'n croesawu'r hyn a ddywedodd Julie Morgan a'r ffaith bod gennym gefnogaeth drawsbleidiol i'r cynnig hwn heddiw. Mae'n eithaf amlwg ei bod yn wir, fel un o lofnodwyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, bod y naill Lywodraeth ar ôl y llall yn y DU wedi cydnabod, dan erthygl 12, yr hawl i bob person ifanc fynegi ei farn yn rhydd, ac yn bwysicach na hynny, wedi cydnabod y dylid rhoi pwys dyledus i'r farn honno mewn materion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae hefyd yn wir bod Cynulliad Seneddol Cyngor Ewrop wedi pwyso ar Bwyllgor y Gweinidogion i annog aelod-wladwriaethau i ailystyried y cyfyngiadau'n gysylltiedig ag oedran a roddir ar hawliau pleidleisio, er mwyn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol. Mae'n rhaid inni dderbyn bod y ganran sy'n pleidleisio yn gostwng ym mhob etholiad. 41% yn unig a bleidleisiodd yn etholiadau Cynulliad Cymru yn 2011—2% yn is na'r etholiadau blaenorol. Roedd y sefyllfa ar gyfer yr etholiadau Ewropeaidd hyd yn oed yn waeth, gyda 31% yn pleidleisio yn 2009. Mae'n sefyllfa drist nad yw'r ganran, ers y refferendwm ynghylch y Cynulliad yn 1997, erioed wedi bod yn uwch na 65%, sy'n dangos, fel y mae Paul Davies newydd sôn, bod traean y boblogaeth ar hyn o bryd yn teimlo mai bach iawn o gysylltiad sydd ganddynt â'r sefyllfa wleidyddol yn y wlad hon.

One way to boost electoral turnout would be to increase suffrage to those at 16 and 17 years of age. In Wales, there are currently more than 75,000 16 and 17-year-olds. I have to accept that, in the 2005 general election, statistics showed that only 37% of 18 to 24-year-olds voted—

Un ffordd o roi hwb i'r ganran sy'n pleidleisio mewn etholiadau fyddai ymestyn yr hawl i bleidleisio i'r sawl sy'n 16 ac yn 17 oed. Mae dros 75,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru ar hyn o bryd. Rhaid imi dderbyn, yn etholiad cyffredinol 2005, bod ystadegau wedi dangos mai dim ond 37% o bobl ifanc 18 i 24 oed a bleidleisiodd—

**Suzy Davies:** I thank you for giving way. You are talking about getting younger people to take more interest in elections. The lowest turnout is in local authority elections. Would you agree that perhaps one of the easiest ways to engage 16 and 17-year-olds to take an interest in politics would be to allow them to come into council chambers and film what goes on there? That is a matter that is devolved to this Assembly and perhaps we could have been debating that today instead

**Suzy Davies:** Diolch am ildio. Rydych yn sôn am gael pobl iau i gymryd mwy o ddiddordeb mewn etholiadau. Gwelir y ganran isaf o bleidleiswyr mewn etholiadau awdurdodau lleol. A fyddech yn cytuno mai un o'r ffyrdd hawsaf efallai o gael pobl ifanc 16 a 17 oed i gymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth fyddai gadael iddynt ddod i mewn i siambrau cynghorau a ffilmio'r hyn sy'n digwydd yno? Mae hwnnw'n fater sydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad hwn, ac

of a matter that is not devolved.

efallai y gallem fod wedi bod yn trafod hynny heddiw yn hytrach na mater nad yw wedi'i ddatganoli.

**Aled Roberts:** That may be the case, but to put that statement forward and then suggest that you still do not support the extension of voting rights to 16 and 17-year-olds appears to me to be rather a weak argument. It is also the case that, in Germany, as Julie Morgan referred to, six of the Länder have used the powers given to them by the federal government to lower the voting age in local and regional elections. A report into the experiences in Lower Saxony and North Rhein-Westphalia showed that the rate of participation of 16 and 17-year-olds was comparable to those aged between 35 and 45. Rather than reflecting difficulties, even in Germany, among the 18 to 35 age group, it has shown that early awareness of the political process, and early rights as far as elections are concerned, mean that youngsters can acquire the habit of voting and continue voting for years to come. The report in Germany discovered that, in elections in North Rhein-Westphalia, the turnout for 16 to 21-year-olds was between 5% and 8% higher than the turnout for those aged between 18 and 30.

**Aled Roberts:** Gall hynny fod yn wir, ond mae cyflwyno'r datganiad hwnnw ac yna awgrymu nad ydych o hyd yn cefnogi ymestyn hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed yn ymddangos yn ddadl braidd yn wan i mi. Mae hefyd yn wir, yn yr Almaen, fel y soniodd Julie Morgan, bod chwech o'r Länder wedi defnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt gan y llywodraeth ffederal i ostwng yr oedran pleidleisio mewn etholiadau lleol a rhanbarthol. Mae adroddiad ar y profiadau a gafwyd yn Sacsoni Isaf a Gogledd Rhein-Westffalia yn dangos bod cyfradd cyfranogiad pobl ifanc 16 a 17 oed yn debyg i'r cyfraddau ar gyfer y sawl a oedd rhwng 35 a 45 oed. Yn hytrach nag adlewyrchu anawsterau, hyd yn oed yn yr Almaen, ymhlith y grŵp oedran 18 i 35, mae wedi dangos bod ymwybyddiaeth gynnar o'r broses wleidyddol, a hawliau cynnar o safbwynt etholiadau, yn golygu y gall pobl ifanc fynd i'r arfer o bleidleisio a pharhau i bleidleisio am flynyddoedd i ddod. Darganfu'r adroddiad yn yr Almaen fod canran y bobl ifanc rhwng 16 ac 21 oed a bleidleisiodd mewn etholiadau yng Ngogledd Rhein-Westffalia rhwng 5% ac 8% yn uwch na'r ganran a bleidleisiodd o blith y sawl a oedd rhwng 18 a 30 oed.

Paul Davies mentioned that it seems absurd that in this country, at the age of 16, a young person can decide to fight and die for their country—a decision that no-one should take lightly—yet, we do not give youngsters the right to select the very politicians who decide whether they go into active service. [*Interruption*.] I am not going to take any more interventions. In exceptional circumstances, a 16-year-old has the right to receive state benefits. However, a 16-year-old should not be allowed, as far as some people are concerned, to vote in relation to those people who make the decisions regarding their benefits.

Soniodd Paul Davies ei bod yn ymddangos yn hurt y gall person ifanc 16 oed yn y wlad hon benderfynu ymladd a marw dros ei wlad—sy'n benderfyniad na ddylai neb ei wneud yn ysgafn—ond nad ydym yn rhoi'r hawl i bobl ifanc ddewis yr union wleidyddion sy'n penderfynu a fyddant yn mynd i frwydro. [*Torri ar draws.*] Nid wyf yn bwriadu derbyn rhagor o ymyriadau. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae gan berson 16 oed yr hawl i gael budd-daliadau'r wladwriaeth. Fodd bynnag, ni ddylai person ifanc 16 oed, ym marn rhai pobl, gael pleidleisio yng nghyswllt y bobl hynny sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch eu budd-daliadau.

Many of our youngsters in Wales act as local youth councillors, members of their local youth parliaments or members of the students' union, and we have all come across

Mae llawer o'n pobl ifanc yng Nghymru yn gynghorwyr ieuenctid lleol, yn aelodau o'u seneddau ieuenctid lleol neu'n aelodau o undeb y myfyrwyr, ac rydym i gyd wedi dod

youngsters who have, probably from primary school age by now, sat on school councils. The cause for voting at 16 has a large amount of support, as Julie Morgan referred to, from Assembly Members, in the House of Commons, and more importantly, from youngsters themselves. A poll conducted by Funky Dragon two years ago, involving 10,000 16 and 17-year-olds in Wales showed that more than 80% were in support of the matter that we are discussing today. As the father of a 15-year-old, I believe that my son should have the right to express his political opinions, even when they may not, at all times, coincide with my own—as Mr Sargeant probably knows as well.

ar draws pobl ifanc sydd wedi bod yn aelodau o gynghorau ysgol, o oedran ysgol gynradd erbyn hyn, yn ôl pob tebyg. Fel y soniodd Julie Morgan, ceir llawer o gefnogaeth i'r achos dros bleidleisio yn 16 oed ymhlith Aelodau'r Cynulliad, yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yn bwysicach na hynny, ymhlith pobl ifanc eu hunain. Dangosodd arolwg barn a gynhaliwyd gan y Ddraig Ffynci ddwy flynedd yn ôl, a oedd yn cynnwys 10,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru, fod dros 80% o blaid y mater yr ydym yn ei drafod heddiw. Fel tad i berson ifanc 15 oed, credaf y dylai fy mab gael yr hawl i fynegi ei farn wleidyddol, hyd yn oed pan nad yw, bob amser, yn cyd-fynd â'm barn i—fel y gŵyr Mr Sargeant hefyd, mae'n debyg.

Many of the student-led councils are now involved in the selection of their teaching staff. It seems ironic, therefore, that some of us believe that the right should not be extended to 16 and 17-year-olds to choose the Government that serves them.

Mae llawer o'r cynghorau a arweinir gan fyfyrwyr bellach yn cymryd rhan yn y gwaith o benodi eu staff addysgu. Mae'n ymddangos yn eironig, felly, bod rhai ohonom yn credu na ddylai'r hawl gael ei hymestyn i bobl ifanc 16 a 17 oed ddewis y Llywodraeth sy'n eu gwasanaethu.

**Julie James:** I wanted to add my voice to the motion. I agree with everything that has been said so far, and I also wanted to make the point that engaging our young people is absolutely crucial if we want them to continue to be interested in politics. We had some good answers to earlier questions from the Minister for Education and Skills on the engagement of young people. The points made by others about whether you vote the first time that you are able to, and whether you get into the habit, are very important.

**Julie James:** Roeddwn am ychwanegu fy nghefnogaeth i'r cynnig. Rwyf yn cytuno â phopeth sydd wedi ei ddweud hyd yma, ac roeddwn hefyd am wneud y pwynt bod ymgysylltu â'n pobl ifanc yn gwbl hanfodol os ydym am iddynt barhau i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth. Cawsom rai atebion da i gwestiynau cynharach gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ymgysylltiad pobl ifanc. Mae'r pwyntiau a wnaed gan eraill ynghylch a fyddwch yn pleidleisio'r tro cyntaf y gallwch wneud hynny, ac a fyddwch yn mynd i'r arfer o bleidleisio, yn bwysig iawn.

In Swansea, we have a great young person—who is 21, so quite considerably older than 16—who has been made a cabinet member in Swansea. The reaction of young people to his presence in a meeting to discuss some of the issues that are important to young people in Swansea has been amazing. Watching their engagement and the dawning realisation on their faces that here is somebody who has a clear memory of being 16, and not somebody who thinks that a 16-year-old is more or less equivalent to an eight-year-old—which happens to you once you are over about 30, I think—was great to behold. His ability to

Yn Abertawe, mae gennym berson ifanc gwych—sy'n 21 oed, ac sydd felly gryn dipyn yn hŷn nag 16 oed—sydd wedi cael ei benodi'n aelod o'r cabinet yn Abertawe. Mae ymateb pobl ifanc i'w bresenoldeb mewn cyfarfod i drafod rhai o'r materion sy'n bwysig i bobl ifanc yn Abertawe wedi bod yn anhygoel. Roedd yn wych eu gwylio'n ymgysylltu ac yn sylweddoli'n raddol bod yma rywun sydd â chof clir o fod yn 16 oed, yn hytrach na rhywun sy'n credu bod person ifanc 16 oed fwy neu lai yr un fath â phlentyn wyth oed—sy'n digwydd pan fyddwch dros oddeutu 30 oed, rwyf yn credu. Mae ei allu i

empathise with people about their real concerns, such as the curfews that we have seen in some areas of Wales for those aged 16 and under, which is the exact opposite of engagement in the political process, has been a joy.

gydymdeimlo â phobl ynghylch eu pryderon go iawn, megis y cyrffywiau yr ydym wedi'u gweld mewn rhai ardaloedd yng Nghymru i rai 16 oed ac iau, sy'n hollol groes i ymgysylltu â'r broses wleidyddol, wedi bod yn bleser.

The engagement of a number of people aged between 16 and 19 in the local government elections in Swansea was inspirational in the campaign. Those people, who would all have liked to have voted before they were 18—and who certainly did vote when they were 18—got those habits early in life. I wanted to add my voice by making those few observations about the energy and hope, and not the cynicism and depression, that young people can bring. I will end with a quote from the founder of the Eden project. When asked how he had got such a—[*Interruption.*]

Roedd ymgysylltiad nifer o bobl rhwng 16 a 19 oed â'r etholiadau llywodraeth leol yn Abertawe yn ysbrydoledig yn ystod yr ymgyrch. Mabwysiadodd y bobl hynny, y byddai pob un ohonynt wedi hoffi pleidleisio cyn eu bod yn 18—ac a bleidleisiodd yn sicr pan oeddent yn 18—yr arferion hynny'n gynnar mewn bywyd. Roeddwn am ychwanegu fy nghefnogaeth drwy wneud yr ychydig sylwadau hynny am yr egni a'r gobaith, ac nid y sinigiaeth a'r digalondid, y gall pobl ifanc eu cyfrannu. Rwyf am orffen â dyfyniad gan sylfaenydd prosiect Eden. Pan ofynnwyd iddo sut yr oedd wedi llwyddo i ddechrau prosiect mor— [*Torri ar draws.*]

**The Deputy Providing Officer:** Order. Are you giving way?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A ydych am ildio?

**Julie James:** I am not taking an intervention, I am sorry, because I just wanted to make these quick points. When asked how he had managed to get such a complex project off the ground so quickly, he said it was because he employed a whole series of young people who did not know that it was not possible and so they made it happen.

**Julie James:** Nid wyf am dderbyn ymyriad, mae'n ddrwg gennyf, gan fy mod am wneud y pwyntiau cyflym hyn. Pan ofynnwyd iddo sut yr oedd wedi llwyddo i ddechrau prosiect mor gymhleth mor gyflym, dywedodd ei fod wedi llwyddo am iddo gyflogi cyfres o bobl ifanc na wyddent nad oedd hynny'n bosibl ac a oedd, felly, wedi sicrhau ei fod yn digwydd.

**Darren Millar:** I did not intend to participate in this debate, but I feel the need to, and I will keep my contribution short. Like many people—[*Interruption.*]

**Darren Millar:** Nid oeddwn yn bwriadu cymryd rhan yn y ddadl hon, ond rwyf yn teimlo bod angen imi, a byddaf yn cadw fy nghyfraniad yn fyr. Fel llawer o bobl—[*Torri ar draws.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I do not know why Members are grumbling. Debates are meant to change people's minds and to encourage people who, perhaps, would not have made a contribution to listen to the argument and then to make one. Therefore, it is quite proper for Darren Millar to speak.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid wyf yn gwybod pam y mae Aelodau yn grwgnach. Bwriad dadleuon yw newid meddyliau pobl ac annog pobl na fyddent, efallai, wedi gwneud cyfraniad i wrando ar y ddadl ac yna cyfrannu. Felly, mae'n eithaf priodol i Darren Millar siarad.

**Darren Millar:** Like many Members in the Chamber, I began my involvement in politics as a young person, before I was aged 16 and before I had an opportunity vote aged 18, but I did not feel powerless or unable to

**Darren Millar:** Fel llawer o Aelodau yn y Siambr, dechreuais ymwneud â gwleidyddiaeth fel person ifanc, cyn cyrraedd 16 oed a chyn imi gael cyfle i bleidleisio yn 18 oed, ond nid oeddwn yn teimlo'n ddi-rym

influence the outcome of elections, because I felt confident in my ability to persuade other people who had a vote to cast their vote in the direction of the Welsh Conservatives. Many Members in the Chamber will recognise that it is possible to have young people impact your view of life and policy and the way that you vote in the Chamber on different issues. Like many, I also engage regularly with young people by paying visits to schools and I have two young children of my own as well. However, people have to be careful when they think about what the age of responsibility ought to be in our country.

neu'n teimlo nad oeddwn yn gallu dylanwadu ar ganlyniad etholiadau, oherwydd roeddwn yn hyderus yn fy ngallu i berswadio pobl eraill a oedd â phleidlais i fwrw eu pleidlais i gyfeiriad y Ceidwadwyr Cymreig. Bydd llawer o Aelodau yn y Siambr yn cydnabod ei bod yn bosibl i bobl ifanc effeithio ar eich barn am fywyd a pholisi ac effeithio ar y modd yr ydych yn pleidleisio yn y Siambr ar wahanol faterion. Fel llawer, rwyf innau'n ymgysylltu'n rheolaidd â phobl ifanc trwy ymweld ag ysgolion, ac mae gennyf ddau o blant ifanc fy hun hefyd. Fodd bynnag, rhaid i bobl fod yn ofalus pan fyddant yn ystyried beth ddylai oedran cyfrifoldeb fod yn ein gwlad.

Last year, the National Assembly for Wales moved forward with its Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which, quite rightly, extended the provisions of the United Nations Convention on the Rights of the Child to young people up to the age of 25, because we felt that there needed to be extra protection even for young people who are beyond the age of 18. I do not think that we are being that consistent if we are saying that 16-year-olds are fully fledged adults. Also, those people who are making an argument for consistency at the age of 16 overlook the fact—

Y llynedd, symudodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymlaen â'i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a oedd, yn gwbl briodol, yn ymestyn darpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i bobl ifanc hyd at 25 oed, gan ein bod yn teimlo bod angen trefniadau amddiffyn ychwanegol hyd yn oed ar bobl ifanc sy'n hŷn nag 18 oed. Nid wyf yn credu ein bod mor gyson â hynny os ydym yn dweud bod pobl ifanc 16 oed yn oedolion cyflawn. Hefyd, mae'r bobl hynny sy'n dadlau dros gysondeb i bobl ifanc 16 oed yn anwybyddu'r ffaith—

**Eluned Parrott** *rose*—

**Eluned Parrott** *a gododd*—

**Darren Millar:** I will give way in a few moments. They are not making an argument for consistency in terms of reducing the age for gambling or for alcohol consumption. If you are going to make an argument for consistency at the age of 16, those two issues have to be included as well.

**Darren Millar:** Ildiaf yn y man. Nid ydynt yn dadlau dros gysondeb o ran gostwng yr oedran ar gyfer hapchwarae neu yfed alcohol. Os ydych yn bwriadu dadlau dros gysondeb i bobl ifanc 16 oed, rhaid i'r ddau fater hynny gael eu cynnwys hefyd.

**Eluned Parrott:** Darren, you talk about the age of responsibility, but surely the greatest responsibility that any human being can take on is that of having a child and raising it responsibly. They are able to do that at the age of 16, why not be able to vote and to make a contribution to the political life of this country as well?

**Eluned Parrott:** Darren, rydych yn sôn am oedran cyfrifoldeb, ond siawns nad y cyfrifoldeb mwyaf y gall unrhyw fod dynol ymgymryd ag ef yw'r cyfrifoldeb o gael plentyn a'i fagu'n gyfrifol. Mae pobl ifanc yn gallu gwneud hynny yn 16 oed, felly pam na allant bleidleisio a gwneud cyfraniad i fywyd gwleidyddol y wlad hon hefyd?

**Darren Millar:** They cannot drink, they cannot smoke and they cannot gamble at that age. They can reproduce at any age at which their body is physically able to reproduce,

**Darren Millar:** Ni allant yfed, ni allant ysmygu ac ni allant hapchwarae yn yr oedran hwnnw. Gallant atgynhyrchu pan fyddant wedi cyrraedd unrhyw oedran lle y gall eu

and people often do so before the age of 16. Does that mean, therefore, that they ought to be entitled to vote as soon as their reproductive organs are fully functioning? It is an absurd argument.

corff atgynhyrchu, a bydd pobl yn aml yn gwneud hynny cyn cyrraedd 16 oed. A yw hynny'n golygu, felly, y dylent fod â hawl i bleidleisio cyn gynted ag y bydd eu horganau atgynhyrchu yn gweithredu'n llawn? Mae'n ddadl hurt.

I noted, Deputy Presiding Officer, that there was a request for an intervention from Paul Davies.

Sylwais, Ddirprwy Lywydd, bod cais am ymyriad gan Paul Davies.

**The Deputy Presiding Officer:** I call on Paul Davies on a non-biological subject, I hope. [*Laughter.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Paul Davies a fydd yn sôn am bwnc nad yw'n bwnc biolegol, gobeithio. [*Chwerthin.*]

**Paul Davies:** I am grateful to the Member for Clwyd West for giving way. He mentioned the rights of the child and the age of 25. Is he therefore suggesting that the voting age should be raised to 25? [*Laughter.*]

**Paul Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod dros Orllewin Clwyd am ildio. Soniodd am hawliau'r plentyn ac am 25 oed. A yw, felly, yn awgrymu y dylai'r oedran pleidleisio gael ei godi i 25 oed? [*Chwerthin.*]

**Darren Millar:** I am certainly not. I am simply making the point that those who are advocating a reduction in the voting age to 16 are being inconsistent when it comes to alcohol consumption, gambling and the rights that we have extended to children and young people. There needs to be some clarity on this issue. I believe that the age for all responsibility, including whether you join the army and go out to combat, ought to be 18. It is worth noting the fact that you cannot participate in combat until you are 18 even when you join the armed forces.

**Darren Millar:** Nac ydw, yn sicr. Fy mwriad, yn syml, yw gwneud y pwynt bod y sawl sydd o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn anghyson o safbwynt yfed alcohol, hapchwarae a'r hawliau yr ydym wedi'u hymestyn i blant a phobl ifanc. Mae angen rhywfaint o eglurder ar y mater hwn. Credaf mai 18 ddylai'r oedran fod ar gyfer pob cyfrifoldeb, gan gynnwys o safbwynt ymuno â'r fyddin a mynd i ymladd. Mae'n werth nodi'r ffaith na allwch fynd i ymladd nes byddwch yn 18 oed, hyd yn oed pan fyddwch yn ymuno â'r lluoedd arfog.

**Mohammad Asghar:** Thank you very much, Darren, for taking my intervention. One or two things are very clear here. Fewer than three countries in the world allow voting under the age of 16. We should remember that. The second is that politics is an intricate subject. Most of us here, and probably more so on one side, do not understand politics now. You would think that a child going to war—

**Mohammad Asghar:** Diolch yn fawr iawn, Darren, am dderbyn fy ymyriad. Mae un neu ddau beth yn glir iawn yma. Mae llai na thair gwlad yn y byd yn caniatáu i bobl ifanc dan 16 oed bleidleisio. Dylem gofio hynny. Yr ail beth yw bod gwleidyddiaeth yn bwnc cymhleth. Nid yw'r rhan fwyaf ohonom yma, a mwy felly ar un ochr, mae'n debyg, yn deall gwleidyddiaeth yn awr. Byddech yn meddwl y byddai plentyn sy'n mynd i ryfel—

4.00 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I will call the Member if he wants to make a speech. He should just be making an intervention now.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Galwaf ar yr Aelod os yw'n dymuno gwneud araith. Dylai fod yn gwneud ymyriad yn unig yn awr.

**Mohammad Asghar:** Finally, is the Minister

**Mohammad Asghar:** Yn olaf, a yw'r

going to introduce politics as a subject for under-16s to learn at school? The children are—

Gweinidog yn bwriadu cyflwyno gwleidyddiaeth fel pwnc i blant dan 16 oed ei ddysgu yn yr ysgol? Mae'r plant yn—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I call Darren Millar.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Galwaf ar Darren Millar.

**Darren Millar:** Thank you for the interesting intervention. The main point that I am making is that, although many 16-year-olds are very mature and, I am sure, would be mature enough to articulate their political views and want to cast a vote at the ballot box, others are less mature. Therefore, I would advocate maintaining 18 as the age for voting in elections in Wales.

**Darren Millar:** Diolch am yr ymyriad diddorol. Y prif bwynt yr wyf yn ei wneud yw, er bod llawer o bobl ifanc 16 oed yn aeddfed iawn ac y byddent, rwyf yn siŵr, yn ddigon aeddfed i fynegi eu barn wleidyddol ac yn awyddus i fwrw pleidlais yn y blwch pleidleisio, mae eraill yn llai aeddfed. Felly, byddwn yn argymell cadw 18 oed fel yr oedran ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** It is clear from the debate today that there is strong support in the Chamber for lowering the voting age to 16 for all elections and referenda held in Wales. I thank Julie Morgan, the Member for Cardiff North, for initiating and opening this debate. I also thank her co-sponsors, Aled Roberts, Bethan Jenkins and Paul Davies, as well as all the Members who put their names down in support and those who have contributed to this lively debate today. There is an extremely important principle at stake here, namely our commitment to effective democracy. We all want high turnout at elections and a high level of engagement in politics, and we need to encourage our young people to get involved. We need to show that we are taking them seriously by allowing them to exercise their democratic right to vote. The Welsh Government supports and values strong and effective democracy, and recognises that the involvement of young people in the democratic process is essential in achieving this.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae'n glir o'r ddadl heddiw bod cefnogaeth gref yn y Siambr dros ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ar gyfer pob etholiad a refferendwm a gynhelir yng Nghymru. Diolchaf i Julie Morgan, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, am ddechrau ac agor y ddadl hon. Diolchaf hefyd i'w chyd-noddwyr, Aled Roberts, Bethan Jenkins a Paul Davies, yn ogystal â'r holl Aelodau a nododd eu henwau i gefnogi'r cynnig, a'r sawl sydd wedi cyfrannu i'r ddadl fywiog hon heddiw. Mae egwyddor eithriadol o bwysig yn y fantol yma, sef ein hymrwymiad i ddemocratiaeth effeithiol. Rydym oll am weld canran uchel yn pleidleisio mewn etholiadau a lefel uchel o ymgysylltu â gwleidyddiaeth, ac mae angen inni annog ein pobl ifanc i gymryd rhan. Mae angen inni ddangos ein bod yn eu cymryd o ddifrif drwy ganiatáu iddynt arfer eu hawl ddemocrataidd i bleidleisio. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi democratiaeth gref ac effeithiol, ac mae'n cydnabod bod cynnwys pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yn hanfodol i gyflawni hynny.

As Paul Davies reminded us, at present, 16 and 17-year-olds are deemed old enough to pay taxes, leave school, marry and join the armed forces, alongside a wide range of other responsibilities. Therefore, the Welsh Government supports the lowering of the voting age to 16. We do not have powers to legislate on this for elections held in Wales, as the UK Government retains responsibility for the conduct of elections and for the

Fel y cawsom ein hatgoffa gan Paul Davies, ar hyn o bryd bernir bod pobl ifanc 16 a 17 oed yn ddigon hen i dalu trethi, gadael yr ysgol, priodi ac ymuno â'r lluoedd arfog, ac yn ddigon hen i gael ystod eang o gyfrifoldebau eraill. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed. Nid oes gennym y pwerau i ddeddfu ynghylch hyn ar gyfer etholiadau a gynhelir yng Nghymru, gan fod

franchise. However, we have used the powers that we do have to encourage young people to engage in the democratic process, and I think that all Members share that objective. An example is the Local Government (Wales) Measure 2011. It provides for the appointment of up to two community youth representatives to a community council.

Llywodraeth y DU wedi cadw'r cyfrifoldeb am y modd y caiff etholiadau eu cynnal a'r cyfrifoldeb am yr etholfraint. Fodd bynnag, rydym wedi defnyddio'r pwerau sydd gennym i annog pobl ifanc i ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd, a chredaf fod hynny'n un o amcanion pob Aelod. Un enghraifft yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'n darparu ar gyfer penodi hyd at ddau gynrychiolydd ieuenctid cymunedol i gyngor cymuned.

Lowering the voting age has been the subject of several debates in the National Assembly for Wales and has been considered by several bodies examining electoral matters, as Julie Morgan outlined. The issue has been considered at all levels of government. In 2002, the Welsh Assembly Government, as it was then, established the Sunderland commission on electoral arrangements. It looked at local government electoral arrangements and recommended a reduction in the voting age to 16. The Power commission established by the Joseph Rowntree Charitable Trust reported in 2006 on how participation in British politics could be increased. One of the recommendations in its report, 'Power to the People', the consultation on which I know Members were engaged in, was that the voting age be lowered to 16.

Mae gostwng yr oedran pleidleisio wedi bod yn destun sawl dadl yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae wedi cael ei ystyried gan nifer o gyrff sy'n archwilio materion etholiadol, fel yr amlinellodd Julie Morgan. Mae'r mater wedi cael ei ystyried ar bob lefel o lywodraeth. Yn 2002, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel yr oedd ar y pryd, gomisiwn Sunderland ar drefniadau etholiadol. Bu'n edrych ar drefniadau etholiadol llywodraeth leol, ac argymhellodd ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed. Yn 2006, adroddodd y comisiwn ar Bwerau, a sefydlwyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree, ar sut y gellid cynyddu cyfranogiad yng ngwleidyddiaeth Prydain. Un o'r argymhellion yn ei adroddiad, 'Power to the People', y gwn fod Aelodau wedi ymwneud â'r ymgynghoriad yn ei gylch, oedd gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed.

We are proud of our record on encouraging youth and pupil participation.

Rydym yn falch o'n hanes o annog cyfranogiad ieuenctid a disgyblion.

**Andrew R.T. Davies:** You gave a very long list of organisations, but you did not mention the Electoral Commission. It looked at the issue and said that there was no evidence for lowering the voting age from 18 to 16. I would suggest that that needs to be put on the record.

**Andrew R.T. Davies:** Rhoesoch restr hir iawn o sefydliadau, ond ni fu ichi sôn am y Comisiwn Etholiadol. Edrychodd ar y mater, a dywedodd nad oedd unrhyw dystiolaeth dros ostwng yr oedran pleidleisio o 18 i 16 oed. Byddwn yn awgrymu bod angen cofnodi hynny.

**Jane Hutt:** As you said, Andrew R.T. Davies, the Electoral Commission looked at this issue in 2004. It recommended that the voting age be kept at 18, but I think that it is time for the Electoral Commission to look at this issue again. I am sure that the result of this debate will have an influence on that. I was talking about the importance of our encouraging youth and pupil participation. I recall that all parties in the Chamber were proud to pass regulations in 2005 for school

**Jane Hutt:** Fel y bu ichi ddweud, Andrew R.T. Davies, edrychodd y Comisiwn Etholiadol ar y mater hwn yn 2004. Argymhellodd y dylai'r oedran pleidleisio gael ei gadw'n 18 oed, ond credaf ei bod yn bryd i'r Comisiwn Etholiadol edrych ar y mater hwn eto. Rwyf yn siŵr y bydd canlyniad y ddadl hon yn dylanwadu ar hynny. Roeddwn yn sôn am bwysigrwydd y ffaith ein bod yn annog cyfranogiad ieuenctid a disgyblion. Rwyf yn cofio bod pob plaid yn

councils to be set up in our maintained schools in Wales. Many Members will have met their local school councils' representatives at primary and secondary level and will recognise the understanding, intelligence and wisdom of young people. Many school councils play their part in making key appointments as well as implementing budget decisions and representing the views of their peers, which is part of learning about the democratic process. In secondary schools, the school council may elect two council members from years 11 to 13 to serve on the governing body as associate pupil governors.

y Siambr yn falch o basio rheoliadau yn 2005 ar gyfer sefydlu cynghorau ysgol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Bydd llawer o Aelodau wedi cwrdd â chynrychiolwyr eu cynghorau ysgol lleol ar lefel gynradd ac uwchradd, a byddant yn cydnabod dealltwriaeth, deallusrwydd a doethineb pobl ifanc. Mae llawer o gynghorau ysgol yn chwarae eu rhan wrth wneud penodiadau allweddol, gweithredu penderfyniadau ynghylch cyllidebau a chynrychioli barn eu cyfoedion, sy'n rhan o ddysgu am y broses ddemocrataidd. Mewn ysgolion uwchradd, gall y cyngor ysgol ethol dau aelod o'r cyngor o flynyddoedd 11 i 13 i wasanaethu ar y corff llywodraethu fel disgybl-lywodraethwyr cyswllt.

We now have duties to promote youth participation in our democratic process and youth fora, and it is now a duty on local authorities to promote and facilitate participation by children and young people in decisions that might affect them locally.

Bellach, mae gennym ddyletswyddau i hyrwyddo cyfranogiad ieuenctid yn ein proses ddemocrataidd a hyrwyddo fforymau ieuenctid, ac mae dyletswydd ar awdurdodau lleol bellach i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt yn lleol.

Julie James highlighted the beneficial impact of the role of the young Swansea citizen in the cabinet of Swansea council, and there are many other examples of that kind across Wales. Aled Roberts drew attention to article 12 of the UN Convention on the Rights of the Child. That is expressed in the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which placed a duty on the Welsh Ministers to have due regard to the rights and obligations within the UN convention. That Measure made children's rights an integral part of the framework for ministerial decision making in Wales.

Tynnodd Julie James sylw at effaith fuddiol rôl y dinesydd ifanc yn Abertawe yng nghabinet cyngor Abertawe, a cheir llawer o enghreifftiau eraill o'r fath ar draws Cymru. Tynnodd Aled Roberts sylw at erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Caiff hwnnw ei fynegi ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a oedd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Roedd y Mesur hwnnw yn gwneud hawliau plant yn rhan annatod o'r fframwaith ar gyfer y broses a ddefnyddir gan weinidogion i wneud penderfyniadau yng Nghymru.

**Darren Millar:** Thank you for drawing attention to the children and young people's rights Measure, which I supported, along with most people in the Senedd who were here at the time. However, why the inconsistency? Why, on the one hand, do we need to afford greater protection, as far as the Welsh Government is concerned, to people up to the age of 25, thereby regarding them as not being fully competent to take care of themselves, while, on the other, we want to reduce the age of voting responsibility to 16.

**Darren Millar:** Diolch am dynnu sylw at y Mesur hawliau plant a phobl ifanc, y bu imi ei gefnogi ynghyd â'r rhan fwyaf o'r rheini yn y Senedd a oedd yma ar y pryd. Fodd bynnag, pam yr anghysondeb? Pam, ar y naill law, y mae angen inni gynnig rhagor o drefniadau amddiffyn, o safbwynt Llywodraeth Cymru, i bobl hyd at 25 oed, a thrwy hynny ystyried nad ydynt yn gwbl gymwys i ofalu amdanynt eu hunain, tra, ar y llaw arall, rydym am ostwng oedran cyfrifoldeb o safbwynt pleidleisio i 16 oed.

That is inconsistent, Minister.

Mae hynny'n anghyson, Weinidog.

**Jane Hutt:** Darren Millar has decided this afternoon to display rather contradictory views in respect of young people's rights. However, it is for the record and those who are listening and watching this debate this afternoon to hear those contradictory views. I am sure that young people will be very glad that you were in support of the rights of children and young persons Measure, because it gave us those duties, as Ministers, to ensure that we safeguard the rights of children, particularly reflecting, as Aled Roberts said, the UN convention and participation in article 12.

**Jane Hutt:** Y prynhawn yma, mae Darren Millar wedi penderfynu mynegi safbwyntiau croes i'w gilydd braidd o ran hawliau pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r safbwyntiau croes hynny wedi eu cofnodi, a gall y sawl sy'n gwrando ar y ddadl hon ac sy'n ei gwylio y prynhawn yma eu clywed. Rwyf yn siŵr y bydd pobl ifanc yn falch iawn eich bod yn cefnogi'r Mesur hawliau plant a phobl ifanc, oherwydd rhoddodd y Mesur y dyletswyddau i ni, fel Gweinidogion, i sicrhau ein bod yn diogelu hawliau plant, gan adlewyrchu'n enwedig, fel y dywedodd Aled Roberts, gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a chyfranogiad yn erthygl 12.

That goes back to looking at what we can do at this stage, before we can have that power to lower the voting age to 16, and at how we can pave the way for this. I would say that youth fora provide a way for Ministers to deliver on their duties, by supporting them. Local authorities also support youth fora across Wales, represented on Funky Dragon, our children and young people's assembly for Wales. Funky Dragon meets regularly with Welsh Ministers and officials. We can pay tribute to Funky Dragon, which has campaigned for a number of years for votes for young people at age 16.

Mae hynny'n golygu mynd yn ôl i edrych ar beth y gallwn ei wneud ar hyn o bryd, cyn y gallwn gael y pŵer hwnnw i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed, ac edrych ar sut y gallwn baratoi'r ffordd ar gyfer hyn. Byddwn yn dweud bod fforymau ieuenctid yn darparu ffordd i Weinidogion gyflawni eu dyletswyddau, drwy eu cefnogi. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cefnogi fforymau ieuenctid ar draws Cymru, a gynrychiolir ar y Ddraig Ffynci, sef ein cynulliad plant a phobl ifanc i Gymru. Mae'r Ddraig Ffynci yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion Cymru a swyddogion. Gallwn roi teyrnged i'r Ddraig Ffynci sydd wedi ymgyrchu ers nifer o flynyddoedd ynghylch rhoi pleidlais i bobl ifanc yn 16 oed.

Cyn y sesiwn hon, roeddwn i'n siarad â Guto Davies, cadeirydd y Ddraig Ffynci, a Jessica Peters o fforwm ieuenctid Bro Morgannwg. Diolch yn fawr i'r bobl ifanc am ddod i'r Senedd y prynhawn yma.

Before this session, I was speaking to Guto Davies, chair of Funky Dragon, and Jessica Peters from the Vale of Glamorgan youth forum. I thank the young people very much for coming to the Senedd this afternoon.

We have nearly 400 youth fora and councils in Wales. If the voting age were lowered to 16, youth services would help to empower young people to make an informed choice to vote.

Mae gennym bron i 400 o gynghorau a fforymau ieuenctid yng Nghymru. Pe bai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng i 16 oed, byddai gwasanaethau ieuenctid yn helpu i rymuso pobl ifanc i wneud dewis deallus i bleidleisio.

In conclusion, as part 2 of the Silk commission's work approaches, looking at the boundaries of the devolution settlement, this is certainly an area that the Welsh Government will look at in respect of its evidence to the commission.

I gloi, wrth i ran 2 gwaith comisiwn Silk agosáu, a fydd yn edrych ar derfynau'r setliad datganoli, mae hwn yn sicr yn faes y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yng nghyswllt ei thystiolaeth i'r comisiwn.

The Welsh Government fully supports this motion. I thank the Members for enabling the Assembly to debate the issue, and I hope that this will increase the momentum in favour of a move towards lowering the voting age. As Julie Morgan says, it is a key expression of the politics of hope.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn. Diolchaf i'r Aelodau am alluogi'r Cynulliad i drafod y mater, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn cynyddu'r momentwm o blaid symud tuag at ostwng yr oedran pleidleisio. Fel y dywed Julie Morgan, mae'n fynegiant allweddol o wleidyddiaeth sy'n llawn gobaith.

**Bethan Jenkins:** Diolch i bawb am gyfrannu heddiw. Rydym wedi cael dadl fywiog ac wedi clywed dadleuon gwahanol o blaid ac yn erbyn pleidleisio yn 16 oed. Eto, diolch i'r bobl ifanc sydd wedi dod yma heddiw, gan roi o'u hamser i fod yn bresennol. Mae'n amlwg bod diddordeb yn y pwnc hwn.

**Bethan Jenkins:** I thank everyone for contributing today. We have had a lively debate and we have heard the various arguments for and against voting at 16. Again, I thank those young people who have come here today, giving their time to be present. It is clear that there is an interest in this.

Mae rhywun ar brofiad gwaith gyda mi ar hyn o bryd, sy'n 17 mlwydd oed, o'r enw Teagan Hale. Mae wedi helpu i ysgrifennu'r araith hon. Mae hi'n dechrau drwy ddweud, efallai gan fy mod innau'n weddol ifanc, efallai y gallaf gofio sut beth oedd bod yn 16 ac felly'n gallu ceisio deall sut mae pobl ifanc yn meddwl ar hyn o bryd. Rydym wedi clywed, gan Paul Davies ac Aled Roberts, am yr hyn y mae pobl ifanc yn gallu ei wneud yn 16 oed: talu trethi, cael budd-daliadau ac yn y blaen. Byddai'n foesol rhoi'r hawl honno i bobl ifanc i bleidleisio a chymryd rhan gynhenid yn y broses wleidyddol.

I have someone on work experience with me at the moment, who is 17 years old, called Teagan Hale. She has helped me to write this speech. She starts by saying that, perhaps because I myself am still quite young, perhaps I can remember what it was like to be 16, and so can try to understand how young people are thinking at the moment. We have heard from Paul Davies and Aled Roberts about what young people can do aged 16: pay their taxes, get benefits and so on. It would be moral to give that right to young people to vote and take an integral part in the political process.

Y peth pwysig i'w gofio hefyd yw'r cwestiwn ynghylch aeddfedrwydd, a'r cwestiwn a yw pobl 16 oed yn ddigon aeddfed i allu pleidleisio. Byddwn yn rhoi sialens i bobl fel Darren Millar ac Andrew R.T. Davies i ofyn i bobl 16 oed a ydynt yn meddwl eu bod yn ddigon aeddfed i gael barn am faterion gwleidyddol sy'n effeithio arnynt bob dydd.

The important thing to bear in mind, too, is the question about maturity, and of whether 16-year-olds are mature enough to be allowed to vote. I would challenge people such as Darren Millar and Andrew R.T. Davies to ask 16-year-olds whether they think that are mature enough to have an opinion on political issues that have an impact on them every day.

**Andrew R.T. Davies:** I am most grateful to the Member for giving way. I asked that question as recently as this morning to a year 10 group of 50 pupils from Cowbridge Comprehensive School. Only a third of that group was interested in lowering the voting age and two thirds conclusively voted to keep it at 18. It is not a question of someone of 44 telling young people; it is about going out there and listening to young people, and they are telling me that they are not interested.

**Andrew R.T. Davies:** Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Aelod am ildio. Gofynnais y cwestiwn hwnnw mor ddiweddar â'r bore yma i grŵp o 50 o ddisgyblion blwyddyn 10 o Ysgol Gyfun y Bont-faen. Dim ond un o bob tri yn y grŵp hwnnw oedd â diddordeb mewn gostwng yr oedran pleidleisio, a phleidleisiodd dau o bob tri'n bendant dros ei gadw yn 18 oed. Nid yw'n fater o rywun 44 oed yn dweud wrth bobl ifanc; mae a wnelo â mynd allan a gwrando ar bobl ifanc, ac maent yn dweud

wrthyf fi nad oes ganddynt ddiddordeb.

**Bethan Jenkins:** Mae'n dda dy fod wedi siarad â nhw, ond fel y dywedwyd yn gynharach, mae llawer o oedolion nad ydynt yn pleidleisio ychwaith.

**Bethan Jenkins:** It is good that you have spoken to them, but as was said earlier, there are plenty of adults who do not vote, either.

Rwyf hefyd yn deall bod symudiadau o fewn y system addysg i gael mwy o bobl i aros yn yr ysgol nes eu bod yn 18 oed. Y cysyniad y meddyliodd fy swyddfa amdano yw os yw pobl yn gorfod aros yn yr ysgol nes eu bod yn 18 oed, efallai y dylem roi gwersi gwleidyddiaeth i grwpiau oedran iau fel y byddant wedi cael digon o wersi am wleidyddiaeth erbyn iddynt gyrraedd 18 a gadael yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r addysg wleidyddol y mae pobl yn ei derbyn mewn ysgolion yn amrywio o ardal i ardal ac o ran ei safon. Pe baem yn cael pleidleisio yn 16 oed, byddai pobl yn gallu ymgymryd mwy â'r broses wleidyddol.

I am also given to understand that there are movements within the education system to get more people to stay on at school until they are 18 years of age. The concept that my office came up with is that if people have to stay on at school until they are 18, perhaps we should teach political education to younger age groups so that they will have learned enough politics by the time they attain 18 and leave school. At the moment, the political education that people receive at school varies from place to place and in respect of its quality. If we could allow voting at 16, people could engage more with the political process.

**Nick Ramsay:** I am grateful to the Member for giving way. I heard what she was saying about the maturity of 16-year-olds and the fact that she clearly believes that they should be allowed to vote at that age. Does she also believe that 16-year-olds should be allowed to seek election to this institution?

**Nick Ramsay:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ildio. Clywais yr hyn yr oedd yn ei ddweud am aeddfedrwydd pobl ifanc 16 oed, a'r ffaith ei bod yn amlwg yn credu y dylid caniatáu iddynt bleidleisio yn yr oedran hwnnw. A yw hefyd yn credu y dylid caniatáu i bobl ifanc 16 oed gael eu hethol i'r sefydliad hwn?

**Bethan Jenkins:** Ni fyddwn yn erbyn hynny, yn bersonol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod pobl ifanc yn cael y cyfle i sefyll mewn etholiadau, ond mae'r drafodaeth heddiw am ostwng yr oedran pleidleisio ac rwy'n credu bod consensws gweddol yn y Senedd o blaid hynny. Rwy'n deall y pwynt yr ydych yn ceisio ei wneud, ond, yn y pen draw, efallai y byddai barn wahanol gyda phobl 16 oed. Efallai y byddai ffocws ac ongl wahanol ganddynt ar y trafodaethau yr ydym yn eu cael yn y fan hyn. Efallai weithiau y byddent yn fwy cyffrous oherwydd byddent yn dod â safbwynt newydd i'r hyn sy'n cael ei drafod.

**Bethan Jenkins:** I would not be against that, personally. I think that it is important that young people should be given the opportunity to stand for election, but today's debate is about lowering the age of voting and I think that there is a reasonable consensus in the Senedd in favour of that. I understand the point that you are trying to make, but, at the end of the day, perhaps 16-year-olds would have a different view. Perhaps they would have a different focus and angle on our deliberations in this place. Perhaps they would sometimes be more exciting because they would bring a new perspective to what is being discussed.

Mae'n bwysig i ni, Plaid Cymru, fod y pwerau yn dod fan hyn i'r Cynulliad i ni benderfynu a yw pobl ifanc yn gallu pleidleisio. Clywsom gan Julie Morgan yn gynharach ynghylch ei hamcanion hi ar lefel San Steffan, ond mae'n bwysig i'r drafodaeth hon ddigwydd yma yng Nghymru, fel gydag

It is important to us, Plaid Cymru, that these powers come here to the Assembly to decide whether young people should be allowed the vote. We heard from Julie Morgan earlier about her objectives at Westminster, but it is important for this debate to happen here in Wales, as with everything else that has an

unrhyw beth arall sy'n effeithio ar bobl ifanc.

impact on young people.

**Mohammad Asghar:** Thank you, Bethan, for taking the intervention. At the tender age of 16, children are normally living with their parents and families. Do you not think that the vote is precious and is an important point in one's life—you vote for someone, for the future of the community and the country? Also, do you think that a child of that age, under the influence of the family, would really have his or her own opinion? It would be the parents' opinion, not the child's opinion.

**Mohammad Asghar:** Diolch, Bethan, am dderbyn yr ymyriad. Pan fyddant yn 16 oed, sy'n oedran ifanc, bydd plant fel rheol yn byw gyda'u rhieni a'u teuluoedd. Onid ydych yn credu bod y bleidlais yn werthfawr ac yn adeg bwysig ym mywyd rhywun—byddwch yn pleidleisio dros rywun, dros ddyfodol y gymuned a'r wlad? Hefyd, a ydych yn credu y byddai gan blentyn o'r oedran hwnnw, dan ddylanwad y teulu, ei farn ei hun mewn gwirionedd? Barn y rhieni fyddai honno, nid barn y plentyn.

**Bethan Jenkins:** I am not sure whether you are suggesting that, because they are 16, they would be influenced by their parents in how they would vote. Again, it comes down to respect, does it not? We have to give that young person the respect to develop their own political opinion, so that they can debate things, too. They might come from a Labour area, but might be a Tory, or they might come from a Tory area, and might vote Labour. We have to give people the chance to develop their own minds so that they can decide what they want for their future.

**Bethan Jenkins:** Nid wyf yn siŵr a ydych yn awgrymu, oherwydd eu bod yn 16 oed, y byddai eu rhieni'n dylanwadu ar sut y byddent yn pleidleisio. Unwaith eto, onid yw'n fater o barch? Rhaid inni roi i'r person ifanc hwnnw y parch i ddatblygu ei farn wleidyddol ei hun, er mwyn iddo yntau allu trafod pethau. Gallai hanu o ardal Lafur ond ei fod yn Dori, neu gallai hanu o ardal Doriaidd a phleidleisio dros y Blaid Lafur. Rhaid inni roi cyfle i bobl ddatblygu eu meddwl eu hunain er mwyn iddynt allu penderfynu beth y maent am ei gael ar gyfer eu dyfodol.

I want to finish with a saying from the world of football, which is that if you are good enough, you are old enough to play. We have to consider that in this debate on voting at age 16. Give young people respect. What has happened in Swansea council with someone of 21 being in a cabinet position is brilliant to see, regardless of party politics. We should be advocating that more young people come with a positive outlook to take part in politics, and I thank Julie and the others for bringing this debate forward today.

Rwyf am orffen â dywediad o fyd pêl-droed, sef, os ydych yn ddigon da, rydych yn ddigon hen i chwarae. Rhaid inni ystyried hynny yn y ddadl hon ar bleidleisio yn 16 oed. Parchwch bobl ifanc. Mae beth sydd wedi digwydd yng nghyngor Abertawe gyda rhywun 21 oed mewn swydd yn y cabinet yn wych i'w weld, ni waeth beth fo gwleidyddiaeth eich plaid. Dylem fod yn hyrwyddo'r ffaith y dylai rhagor o bobl ifanc ddod gydag agwedd gadarnhaol i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, a diolchaf i Julie a'r lleill am gyflwyno'r ddadl hon heddiw.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is an objection, and so I defer all voting under this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Cymunedau Gwledig
### Rural Communities

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 3 a 4 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 2 a 5 yn enw Aled Roberts.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 3 and 4 in the name of Jane Hutt, and amendments 2 and 5 in the name of Aled Roberts.

*Cynnig NDM5030 William Graham*

*Motion NDM5030 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn credu bod:*

*1. Believes that:*

*a) cymunedau gwledig yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys poblogaethau sy'n heneiddio, mynediad cyfyngedig at wasanaethau yn ogystal ag arwahanrwydd cymdeithasol ac economaidd;*

*a) rural communities face significant challenges including ageing populations, limited access to services as well as social and economic isolation;*

*b) hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig yn cael ei danseilio gan seilwaith cyfathrebu a thrafnidiaeth wael; ac*

*b) the viability of rural communities and businesses is being undermined by poor transport and communication infrastructure; and*

*c) diwydiant ffermio Cymru yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys diogelu'r cyflenwad bwyd, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd anifeiliaid.*

*c) the Welsh farming industry faces considerable challenges including food security, climate change and animal health.*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*2. Calls on the Welsh Government to:*

*a) rhoi rhagor o gydnabyddiaeth i amddifadedd gwledig, gan gynnwys tlodi trafnidiaeth a mynediad cyfyngedig at wasanaethau a thai fforddiadwy;*

*a) give greater recognition to rural deprivation, including transport poverty and limited access to services and affordable housing;*

*b) sicrhau nad oes oedi pellach wrth gyflwyno Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf;*

*b) ensure that there are no further delays in rolling out the Next Generation Broadband Project;*

*c) cydnabod manteision ysgogi'r economi wledig drwy rhyddhad ardrethi busnes a gwell cymorth i fusnesau bach a chanolig gwledig; a*

*c) recognise the benefits of stimulating the rural economy through business rate relief and improved support for rural SMEs; and*

*d) gweithio mewn partneriaeth ag undebau ffermio a rhanddeiliaid gwledig fel bod cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.*

*d) work in partnership with farming unions and rural stakeholders to deliver effective Rural Development Programme funding.*

**Antoinette Sandbach:** I move the motion.

**Antoinette Sandbach:** Cynigiaf y cynnig.

4.15 p.m.

Rural Wales is a fantastic place to live and work and it is fitting that we have the opportunity to hold this debate a few weeks before the start of the Royal Welsh Show. The show is a great celebration of the Welsh countryside, rural life and of the agricultural industry. I particularly encourage Assembly Members and those elsewhere to make the journey to see at first hand the best that rural Wales has to offer.

Mae cefn gwlad Cymru yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo, ac mae'n briodol ein bod yn cael y cyfle i gynnal y ddadl hon ychydig wythnosau cyn i Sioe Frenhinol Cymru ddechrau. Mae'r sioe yn gyfle gwych i ddathlu cefn gwlad Cymru, bywyd gwledig a'r diwydiant amaeth. Hoffwn annog Aelodau'r Cynulliad yn arbennig a phobl eraill hefyd i deithio i'r sioe er mwyn gweld drostynt eu hunain y pethau gorau sydd gan gefn gwlad Cymru i'w cynnig.

However, communities and businesses in rural Wales do also face major challenges. Those have been reflected in point 1 of our motion. The geographic isolation of rural communities can often go hand in hand with social and economic isolation. That trend will only increase in the decades ahead and the proportion of people aged 65 or over will grow by 30% by 2032. To say that rural infrastructure is poor would be an understatement. The lack of good transport links, patchy mobile phone coverage and broadband notspots are a fact of life for many rural communities. The Commissioner for Older People in Wales has said that broadband would help reduce rural isolation and we believe that the Assembly should recognise the reality of poor quality rural infrastructure, which is why we cannot support amendment 1.

Fodd bynnag, mae cymunedau a busnesau yng nghefn gwlad Cymru hefyd yn wynebu heriau mawr. Caiff y rheini eu hadlewyrchu ym mhwynt 1 ein cynnig. Yn aml, mae arwahanrwydd daearyddol cymunedau gwledig yn mynd law yn llaw ag arwahanrwydd cymdeithasol ac economaidd. Bydd y duedd honno'n bendant yn cynyddu yn ystod y degawdau sydd i ddod, a bydd cyfran y bobl sy'n 65 oed neu hŷn yn codi 30% erbyn 2032. Byddai dweud bod seilwaith gwledig yn wael yn rhy garedig. Mae diffyg cysylltiadau da o ran trafnidiaeth, signal anghyson ar gyfer ffonau symudol, a mannau gwan o ran band eang yn ffeithiau bywyd i lawer o gymunedau gwledig. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi dweud y byddai band eang yn helpu i leihau arwahanrwydd gwledig, ac rydym yn credu y dylai'r Cynulliad gydnabod realiti seilwaith gwledig gwael. Dyna pam na allwn gefnogi gwelliant 1.

The agricultural industry makes a huge contribution to the Welsh economy, including over £3 billion in gross value added and provides one of the few opportunities for employment in rural Wales. Climate change, food security and threats to animal health are challenges faced by the industry, which the industry needs to address. However, the question must be asked: will this Government give them the freedom? Will Welsh farmers be able to achieve what Professor Sir John Beddington, chief scientific adviser to the UK Government called the goal of 'sustainable intensification of food production'? Will Wales have any hope of

Mae'r diwydiant amaeth yn gwneud cyfraniad enfawr i economi Cymru, gan gynnwys dros £3 biliwn mewn gwerth ychwanegol crynswth, ac mae'n darparu un o'r cyfleoedd prin o ran cyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r newid yn yr hinsawdd, diogelwch bwyd a bygythiadau i iechyd anifeiliaid yn heriau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu ac yn heriau y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, rhaid gofyn y cwestiwn: a wnaiff y Llywodraeth hon roi'r rhyddid iddynt? A fydd ffermwyr Cymru yn gallu cyflawni'r nod a ddisgrifiwyd gan yr Athro Syr John Beddington, sef prif gynghorydd gwyddonol

being TB-free in the lifetime of the farmers whose livelihoods are slowly being destroyed by this disease? Only yesterday, the British Veterinary Association's president said that it was clear that the recent decision by the Minister for Environment and Sustainable Development was clearly not based on science.

Llywodraeth y DU, fel y nod o ddwysáu'n gynaliadwy y gwaith o gynhyrchu bwyd? A fydd gan Gymru unrhyw obaith o fod yn rhydd rhag TB yn ystod oes y ffermwyr y mae eu bywoliaeth yn cael ei dinistrio'n araf gan y clefyd hwn? Ddoe ddiwethaf, dywedodd llywydd Cymdeithas Milfeddygon Prydain ei bod yn amlwg nad oedd y penderfyniad diweddar gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi'i seilio ar wyddoniaeth.

A regular comment that I hear is that Welsh Ministers appear to value the countryside more for the fresh air and recreation space that it provides, as compared with urban areas, than for the food that it puts on their tables.

Un sylw a glywaf yn rheolaidd yw bod Gweinidogion Cymru, yn ôl pob golwg, yn rhoi mwy o werth ar yr awyr iach a'r mannau hamdden y mae cefn gwlad yn eu darparu, o'i gymharu ag ardaloedd trefol, yn hytrach na'r bwyd y mae'n ei roi ar eu bwrdd.

Point 2 of our motion proposes a number of ways in which the Welsh Conservatives believe that the Welsh Labour Government should better meet the needs of rural Wales. My colleagues Russell George, Janet Finch-Saunders and Andrew R.T. Davies will address those issues in greater detail.

Mae pwynt 2 ein cynnig yn awgrymu nifer o ffyrdd y dylai Llywodraeth Lafur Cymru, ym marn y Ceidwadwyr Cymreig, ddiwallu anghenion ardaloedd gwledig Cymru yn well. Bydd fy nghydweithwyr, Russell George, Janet Finch-Saunders ac Andrew R.T. Davies yn rhoi sylw manylach i'r materion hynny.

I will briefly cover rural broadband. Rural notspots must be addressed as a matter of urgency. The Welsh Government's procurement contract for super-fast broadband must ensure that broadband notspots are given some connectivity as a matter of priority and before other areas get super-fast broadband. The Government needs to ensure that those areas that have been left behind are given access to what others see as a right, namely broadband connection.

Hoffwn ymdrin yn fyr â band eang mewn ardaloedd gwledig. Rhaid mynd i'r afael ar frys â mannau gwan o ran band eang mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i gontract caffael Llywodraeth Cymru ar gyfer band eang cyflym iawn sicrhau bod mannau gwan o ran band eang yn cael rhywfaint o gysylltiad fel mater o flaenoriaeth a chyn i ardaloedd eraill gael band eang cyflym iawn. Mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod yr ardaloedd sydd wedi eu gadael ar ôl yn cael mynediad i'r hyn y mae ardaloedd eraill yn ei ystyried yn hawl, sef cysylltiad â band eang.

The Welsh Conservatives will be happy to support amendments 2 and 5, but we will not support amendments 1, 3 and 4, as that would unfairly downplay the true extent of the challenges facing rural Wales.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn fodlon cefnogi gwelliannau 2 a 5, ond ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau 1, 3 a 4, gan y byddai hynny'n bychanu'n annheg wir faint yr heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig Cymru.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu is-bwynt 1b a newid i:*

*Delete sub-point 1b and replace with:*

*'seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu yn allweddol wrth gynnal hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig; ac'*

*'transport and communication infrastructure play a key role in sustaining the viability of rural communities and businesses; and'*

*Gwelliant 3 Jane Hutt*

*Yn is-bwynt 2a, dileu 'rhoi rhagor o gydnabyddiaeth' a newid i 'parhau i roi cydnabyddiaeth'.*

*Amendment 3 Jane Hutt*

*In sub-point 2a, delete 'give greater' and replace with 'continue to give'.*

*Gwelliant 4 Jane Hutt*

*Dileu is-bwynt 2b a newid i:*

*'sicrhau bod Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yn parhau i gyflawni ymrwymiadau y Rhaglen Lywodraethu ar amser;'*

*Amendment 4 Jane Hutt*

*Delete sub-point 2b and replace with:*

*'ensure the Next Generation Broadband Project remains firmly on track to deliver the Programme for Government commitments on time;'*

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I move amendments 1, 3 and 4 in the name of Jane Hutt.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Cynigiaf welliannau 1, 3 a 4 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Aled Roberts*

*Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*'y £56.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yn hwb i'w groesawu mewn ardal wledig.'*

*Amendment 2 Aled Roberts*

*Add as new sub point at end of point 1:*

*'the £56.9 million funding from the UK government to roll out next generation broadband will be a welcome boost to rural area.'*

*Gwelliant 5 Aled Roberts*

*Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:*

*'adolygu'r Grant Cynnal Refeniw i ystyried gwledigrwydd yn well.'*

*Amendment 5 Aled Roberts*

*Add as new sub point at end of point 2:*

*'review the Revenue Support Grant to take a greater account of rurality.'*

**William Powell:** I move amendments 2 and 5 in the name of Aled Roberts.

I am grateful to the Welsh Conservatives for bringing forward this comprehensive motion today. There is insufficient time to go into many of the details that I wish to develop, so I would like to concentrate my remarks on the issues of rural broadband, the rural development plan advisory group, affordable housing and rural deprivation and how it is sometimes difficult to identify and appropriately monitor.

For Wales to compete in the global market,

**William Powell:** Cynigiaf welliannau 2 a 5 yn enw Aled Roberts.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r cynnig cynhwysfawr hwn heddiw. Nid oes digon o amser i ymhelaethu ar lawer o'r manylion yr hoffwn eu datblygu, felly rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau ar fand eang mewn ardaloedd gwledig, y grŵp cynghori ar y cynllun datblygu gwledig, tai fforddiadwy, ac amddifadedd gwledig a'r modd y mae weithiau'n anodd ei adnabod a'i fonitro'n briodol.

Mae band eang cyflym yn hanfodol er mwyn

high-speed broadband is essential. Much of rural Wales, as we already know, still struggles with dial-up. It is especially important to the agricultural industry, as it is to other industries. The Wales Rural Observatory data demonstrate that 74% of farmers consider broadband to be either very important or important to their business development. This is not surprising when we consider the issues of electronic identification and the online funding applications that are now vital to the industry. There has been chronic underfunding for many years, and this has put farmers at a disadvantage, particularly when compared with their competitors over the border. As such, it is doubly harmful that the Welsh Government is insisting on the use of electronic communications to such an extent when the service is simply not fit for purpose.

i Gymru gystadlu yn y farchnad fyd-eang. Mae rhannau helaeth o gefn gwlad Cymru, fel y gwyddom eisoes, yn dal i ymgodymu â system ddeialu. Mae'n arbennig o bwysig i'r diwydiant amaeth, fel y mae i ddiwydiannau eraill. Mae data Arsyllfa Wledig Cymru yn dangos bod 74% o ffermwyr yn ystyried bod band eang naill ai'n bwysig iawn neu'n bwysig i ddatblygu eu busnes. Nid yw hynny'n syndod o ystyried y materion sy'n ymwneud â thagiau electronig a'r ceisiadau am gyllid ar-lein, sydd bellach yn hanfodol i'r diwydiant. Bu diffyg ariannu difrifol ers blynyddoedd lawer, ac mae hynny wedi rhoi ffermwyr dan anfantais, yn enwedig o'u cymharu â'r sawl sy'n cystadlu â hwy dros y ffin. Felly, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod dulliau cyfathrebu electronig yn cael eu defnyddio i'r fath raddau pan nad yw'r gwasanaeth yn addas at y diben yn arwain at ddwywaith y niwed.

We welcome the £56.9 million of funding that has been provided by the UK Government. While we welcome any support from Welsh Government sources, we have to note that the majority of help in this regard still comes from Westminster. Broadband is essential to global development, and it is something that the rural development advisory panel should be considering.

Rydym yn croesawu'r £56.9 miliwn o gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU. Er ein bod yn croesawu unrhyw gymorth o ffynonellau Llywodraeth Cymru, rhaid inni nodi bod y rhan fwyaf o'r help yn y cyswllt hwn yn parhau i ddod o San Steffan. Mae band eang yn hanfodol i ddatblygiad byd-eang, ac mae'n rhywbeth y dylai'r panel cynghori ar ddatblygu gwledig fod yn ei ystyried.

This brings me to a matter that has caused considerable concern to the farming industry, particularly the farming unions—the exclusion by the Deputy Minister of the Farmers' Union of Wales, the National Farmers Union and key environmental voluntary sector bodies from the body. That is to be regretted. It is very much out of keeping with the spirit of axes 2 and 3 of the plan. In my view, and in the view of many, it shows scant regard for those who live and work in the Welsh countryside to make so much of what we value possible.

Daw hynny â mi at fater sydd wedi achosi pryder sylweddol i'r diwydiant ffermio, yn enwedig yr undebau amaethwyr, sef y ffaith nad yw'r Dirprwy Weinidog wedi sicrhau bod y corff hwnnw'n cynnwys Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a chyrff amgylcheddol allweddol yn y sector gwirfoddol. Mae hynny'n destun gofid. Nid yw'n cyd-fynd o gwbl ag ysbryd echel 2 ac echel 3 y cynllun. Yn fy marn i, ac ym marn llawer o bobl, mae'n dangos diffyg parch at y sawl sy'n byw ac sy'n gweithio yng nghefn gwlad Cymru i wneud cymaint o'r hyn yr ydym yn ei werthfawrogi yn bosibl.

Rural housing and regeneration are essential to supporting our local communities. That is why inconsistencies throughout Wales are so damaging. Within the past week, I have raised issues to do with the difficulties that arise when you have planning powers vested

Mae tai gwledig ac adfywio gwledig yn hanfodol i gynnal ein cymunedau lleol. Dyna pam y mae'r anghysondebau a geir ar draws Cymru mor niweidiol. Yn ystod yr wythnos diwethaf, rwyf wedi codi materion sy'n ymwneud â'r anawsterau sy'n dod i'r amlwg

in one authority and the regeneration priorities in another. That needs to be addressed. In a number of authorities, we have very disappointing figures for the delivery of rural affordable housing. Also, TAN 6 has been taken advantage of in only a small number of cases. This needs to be addressed, and it needs to be done urgently.

pan fydd pwerau cynllunio wedi eu rhoi i un awdurdod a phan fydd blaenoriaethau o ran adfywio wedi eu hymddiried mewn awdurdod arall. Mae angen mynd i'r afael â hynny. Mewn nifer o awdurdodau, mae gennym ffigurau siomedig iawn ar gyfer y gwaith o ddarparu tai gwledig fforddiadwy. Yn ogystal, dim ond mewn nifer fach o achosion y manteisiwyd ar TAN 6. Mae angen mynd i'r afael â hynny, ac mae angen gwneud hynny ar frys.

I mentioned earlier the issue of extreme rural deprivation, which is found in pockets in communities across Wales. This is really difficult to take account of because of its scale. Nevertheless, it is a really important matter that needs our urgent attention. The relatively low populations that will be lost in overall national analysis need attention. We think of communities such as Pencader, Dre-fach Felindre and Llanbadarn Fawr, and we also look across communities such as Knucklas in Powys. These are the kinds of communities that we need to be aware of. They are there and they need our support. The Rural Development Sub-committee in the last Assembly, chaired by the current Deputy Minister, highlighted this point. He recognised it then, and I am sure that he continues to recognise its importance today.

Soniais yn gynharach am amddifadedd gwledig eithafol, sydd i'w gael yma a thraw mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'n anodd iawn ei ystyried oherwydd ei raddfa. Serch hynny, mae'n fater gwirioneddol bwysig y mae angen inni roi sylw iddo ar frys. Mae angen sylw ar y poblogaethau cymharol fach a fydd yn mynd ar goll mewn dadansoddiad cenedlaethol cyffredinol. Rydym yn meddwl am gymunedau megis Pencader, Dre-fach Felindre a Llanbadarn Fawr, ac rydym hefyd yn edrych ar draws cymunedau megis Cnwclas ym Mhowys. Dyma'r math o gymunedau y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt. Maent yno, ac mae arnynt angen ein cefnogaeth. Tynnodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod y Cynulliad diwethaf, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog presennol, sylw at y pwynt hwn. Roedd yn cydnabod y pwynt bryd hynny, ac rwyf yn siŵr ei fod yn parhau i gydnabod ei bwysigrwydd heddiw.

Finally, for far too long the Welsh Government has dealt with rural Wales simply by rural-proofing its policies in the blind hope that what works in south Wales and the Valleys may well be of use in the Llŷn peninsular or the Cambrian mountains. We need a more responsive, customised approach so that our rural communities can thrive.

Yn olaf, ers gormod o amser o lawer, mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin ag ardaloedd gwledig Cymru yn syml iawn drwy brawfesur ei pholisïau o safbwynt anghenion ardaloedd gwledig, yn y gobaith y gallai'r hyn sy'n gweithio yn y de a'r Cymoedd fod yn ddefnyddiol ym mhenrhyn Llŷn neu ym mynyddoedd Cambria. Mae arnom angen dull gweithredu mwy ymatebol sydd wedi'i deilwra, fel y gall ein cymunedau gwledig ffynnu.

**Russell George:** I am pleased to have the opportunity to contribute to this debate. Speaking as a Member who represents a rural constituency, people in rural Wales face sizeable social and economic challenges. What people in my constituency tell me regularly, however, is that the Welsh Government has very little empathy for the

**Russell George:** Rwyf yn falch o gael y cyfle i gyfrannu i'r ddadl hon. A siarad fel Aelod sy'n cynrychioli etholaeth wledig, mae pobl yng nghefn gwlad Cymru yn wynebu heriau cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Fodd bynnag, yr hyn y mae pobl yn fy etholaeth yn ei ddweud wrthyf yn rheolaidd yw nad oes gan Lywodraeth Cymru fawr

challenges they face. There is clearly more than a perception of disconnect that the Government has generated with rural communities, as shown by the conclusions of the report by the Rural Wales Observatory, 'Deep Rural Localities'. According to the report, what angered many respondents was that they perceive many parts of rural Wales to be in decline, but the Welsh Government is not taking the necessary steps to alleviate problems. We know what the problems are—tackling transport and fuel poverty, developing an integrated infrastructure, creating communications networks to strengthen the economy, delivering equality in health and social services, and ensuring that they are delivered as locally as possible. These are issues of real concern to my constituents, and it is vital that Ministers and officials take rurality sufficiently into account in developing policy, and properly rural-proof new service models.

ddim empathi â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'n amlwg bod mwy na chanfyddiad o'r diffyg cysylltiad y mae'r Llywodraeth wedi'i greu â chymunedau gwledig, fel y dangosir gan gasgliadau adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru, 'Ardaloedd Gwledig Anghysbell'. Yn ôl yr adroddiad, yr hyn a oedd yn gwylltio llawer o'r ymatebwyr oedd y ffaith eu bod yn teimlo bod llawer o ardaloedd o gefn gwlad Cymru yn dirywio, ond nad yw Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau angenrheidiol i leddfu problemau. Gwyddom beth yw'r problemau—mynd i'r afael â thlodi tanwydd a thrafnidiaeth, datblygu seilwaith integredig, creu rhwydweithiau cyfathrebu i gryfhau'r economi, sicrhau cydraddoldeb mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a sicrhau bod y rheini'n cael eu darparu mor lleol ag sy'n bosibl. Mae'r rhain yn faterion sy'n peri pryder go iawn i'm hetholwyr, ac mae'n hanfodol bod Gweinidogion a swyddogion yn ystyried natur wledig ardaloedd yn ddigonol wrth ddatblygu polisi, a'u bod yn prawfesur modelau gwasanaeth newydd yn briodol o safbwynt anghenion ardaloedd gwledig.

One area that I would like to mention is access to high-speed broadband. I very much support the points that my colleague William Powell made—it is particularly important in mid Wales, where it impacts on our economy. To be fair to the Minister, she has committed herself to delivering next generation broadband by 2015, and I would like to thank her for all the support that she has given me in the last year, visiting Newtown and discussing the issues with local businesses. However, with the delays in appointing a preferred bidder for the project, there is a real danger of the timetable slipping, and that is something that businesses in my constituency cannot afford to happen, with many already struggling to compete with comparable companies in other parts of Wales and just across the border.

Un maes yr hoffwn sôn amdano yw mynediad i fand eang cyflym. Rwyf yn cefnogi'n frwd y pwyntiau a wnaeth fy nghydweithiwr, William Powell—mae band eang cyflym yn arbennig o bwysig yn y canolbarth, lle y mae'n effeithio ar ein heconomi. A bod yn deg i'r Gweinidog, mae wedi ymrwymo i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2015, a hoffwn ddiolch iddi am yr holl gefnogaeth y mae wedi'i rhoi imi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy ymweld â'r Drenewydd a thrafod y problemau â busnesau lleol. Fodd bynnag, gyda'r oedi o ran penodi'r cynigydd a gaiff ei ffafrio ar gyfer y prosiect, mae perygl gwirioneddol i'r amserlen lithro, ac mae hynny'n rhywbeth na all busnesau yn fy etholaeth i fforddio gadael iddo ddigwydd, oherwydd mae llawer ohonynt eisoes yn ei chael yn anodd cystadlu â chwmnïau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru a'r ochr arall i'r ffin.

Another potential barrier has been identified with the broadband support scheme, which is the two quotes rule. I have had a number of people complain that the Government

Mae rhwystr posibl arall wedi ei nodi o safbwynt y cynllun cymorth band eang, sef y rheol ynghylch dau ddyfynbris. Rwyf wedi cael nifer o bobl yn cwyno am y ffaith bod y

stipulates a need for two quotes from different suppliers but will not accept the quotes from the suppliers' websites. As I understand it, suppliers are not prepared to send individual quotes to people as they are already available on their website, and so they perceive it as a waste of their time. As more people want broadband, they are being contacted more frequently for quotes, and many companies, knowing that they will not get the job, will not put the time in to provide a second quote. That causes the difficulties that I am talking about. I raised this with the Minister yesterday, and I thank her for agreeing to examine this issue when she provides further detail.

Llywodraeth yn nodi'r angen am ddau ddyfynbris gan wahanol gyflenwyr ond nad yw'n fodlon derbyn y dyfynbrisiau o wefannau'r cyflenwyr. Yn ôl a ddeallaf, nid yw cyflenwyr yn fodlon anfon dyfynbrisiau unigol at bobl gan eu bod eisoes ar gael ar eu gwefan, a chan eu bod, felly, yn ei ystyried yn wastraff amser. Wrth i fwy o bobl fod yn awyddus i gael band eang, mae pobl yn cysylltu'n amlach â hwy i ofyn am ddyfynbrisiau, ac nid yw llawer o gwmnïau'n fodlon neilltuo amser i ddarparu ail ddyfynbris gan eu bod yn gwybod na fyddant yn cael y gwaith. Dyna sy'n achosi'r anawsterau yr wyf yn sôn amdanynt. Codais y mater hwn gyda'r Gweinidog ddoe, ac rwyf yn diolch iddi am gytuno i archwilio'r mater pan fydd yn rhoi mwy o fanylion.

To conclude, the Government has to do more to convince the people of rural Wales that it is really listening and is genuinely delivering. We need a focus first on improving broadband in areas where it is poor, or where there is no broadband connection at all. Rural communities have to come first, before provision in urban areas is improved further.

I gloi, mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud mwy i argyhoeddi pobl yng nghefn gwlad Cymru ei bod yn gwrando ac yn cyflawni mewn gwirionedd. Mae arnom angen ffocws yn gyntaf ar wella band eang mewn ardaloedd lle y mae'n wael neu mewn ardaloedd lle nad oes cysylltiad band eang ar gael o gwbl. Mae'n rhaid rhoi cymunedau gwledig yn gyntaf, cyn cymryd camau pellach i wella'r ddarpariaeth a geir mewn ardaloedd trefol.

**Kenneth Skates:** Transforming our rural communities and crafting a brighter future for the people who live there is not an easy task. Vision, foresight, an open mind and cultural change are needed if we are to help communities build a better tomorrow. Regardless of economic factors, rural life continues to suffer in all English-speaking capitalist economies from an unjustly negative image, which is patronised by some and denigrated by others. I believe it is crucial that we talk regularly and in more positive terms about the value of rural community life. In this respect, I want to address one issue here today that I believe can be part of a programme to raise the value of rural life, that of helping communities like those I represent to take a more active role in managing the assets in their areas.

**Kenneth Skates:** Nid yw gweddnewid ein cymunedau gwledig a chreu dyfodol mwy llewyrchus i'r bobl sy'n byw yno yn dasg hawdd. Mae angen gweledigaeth, craffter, meddwl agored a newid mewn diwylliant os ydym am helpu cymunedau i greu yfory gwell. Ni waeth beth fo'r ffactorau economaidd, mae bywyd gwledig yn parhau i ddioddef ym mhob economi gyfalafol Saesneg ei hiaith o ddelwedd negyddol annheg, a gaiff ei nawddogi gan rai a'i difrïo gan eraill. Rwyf o'r farn ei bod yn hollbwysig inni siarad yn rheolaidd ac yn fwy cadarnhaol am werth bywyd mewn cymunedau gwledig. I'r perwyl hwnnw, rwyf am roi sylw i un mater yma heddiw a all, yn fy marn i, fod yn rhan o raglen i hybu gwerth bywyd gwledig. Mae a wnelo'r mater hwnnw â helpu cymunedau megis y rhai yr wyf yn eu cynrychioli i chwarae rôl fwy gweithredol yn y gwaith o reoli'r asedau sydd yn eu hardaloedd.

We are witnessing a change in our rural

Rydym yn gweld newid yn ein polisi

development policy. Going are the days of the old deficit model of rural development, which meant someone simply analysing the problems of rural communities in terms of the things that they do not possess in contrast with more densely populated urban areas. The days of rural development policy being no more sophisticated than propping up a dying rural post office, or directing more subsidy towards a failing farm, are also gone. The Government's role now is to help those communities in rural areas talk themselves up and build the capacity they need to transform their own futures from within, so that they do not just survive, but thrive. This alternative approach lies in developing a new rural challenge model for Wales that examines how and when communities themselves can manage the physical, economic and human capital assets that exist within their communities, and direct investment from the Welsh Government and other sources around those new priorities. Developing this new asset-based approach to rural development will not be easy, but I believe that the Welsh Government has an important role in helping communities explore practical ways in which they can be supported to identify, utilise and get more from the assets they already have on their doorstep.

datblygu gwledig. Mae dyddiau'r hen fodel ar gyfer datblygu gwledig yn dod i ben. Roedd y model hwnnw'n canolbwyntio ar ddiffyg, ac roedd yn golygu bod rhywun yn dadansoddi problemau cymunedau gwledig o safbwynt y pethau nad oedd ganddynt, o'u cyferbynnu ag ardaloedd trefol mwy poblog. Mae'r dyddiau o gael polisi datblygu gwledig ansoffistigedig sy'n ymwneud â chynnal breichiau swyddfa bost wledig sydd ar ddarfod, neu gyfeirio mwy o gymhorthdal at fferm sy'n methu, hefyd wedi dod i ben. Rôl y Llywodraeth yn awr yw helpu'r cymunedau hynny mewn ardaloedd gwledig i fod yn gadarnhaol a meithrin y gallu y mae arnynt ei angen i weddnewid eu dyfodol eu hunain o'r tu mewn, fel eu bod yn ffynnu yn hytrach na dim ond goroesi. Mae a wnelo'r dull gweithredu amgen hwn â datblygu model her wledig newydd i Gymru, sy'n archwilio sut a phryd y gall cymunedau eu hunain reoli'r asedau cyfalaf ffisegol, economaidd a dynol sy'n bodoli ynddynt, a chyfeirio buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill at y blaenoriaethau newydd hynny. Ni fydd yn hawdd datblygu'r agwedd newydd hon at ddatblygu gwledig, sy'n seiliedig ar asedau, ond credaf fod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu cymunedau i archwilio ffyrdd ymarferol o'u cynorthwyo i adnabod yr asedau sydd ganddynt eisoes ar garreg eu drws, defnyddio'r asedau hynny a chael mwy o fudd ohonynt.

4.30 p.m.

One of the most interesting and dynamic ways that this is being done by the Welsh Government is through the community asset transfer programme. Last Wednesday, I was delighted to receive confirmation that the Welsh Government had teamed up with the Big Lottery Fund to earmark more than £600,000 to help renovate a historic Victorian house in Chirk, which had been left derelict for five years. The money will be managed by the local community and will help to turn the site into an enterprise and heritage centre. It is the latest phase in the Government's £13 million CAT programme to help transfer public historic assets back into the hands of the community at rates significantly below market value via freehold or leasehold transfer arrangements. Helping to save a vital piece of local heritage, the

Un o'r ffyrdd mwyaf diddorol a deinamig y mae hynny'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yw drwy'r rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol. Ddydd Mercher diwethaf, roeddwn yn falch iawn o gael cadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi ymuno â'r Gronfa Loteri Fawr i glustnodi dros £600,000 i helpu i adnewyddu tŷ Fictoraidd hanesyddol yn y Waun, a oedd wedi ei adael i fynd â'i ben iddo ers pum mlynedd. Bydd yr arian yn cael ei reoli gan y gymuned leol, a bydd yn helpu i droi'r safle yn ganolfan fenter a threftadaeth. Dyma'r cam diweddaraf yn rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol y Llywodraeth, sy'n werth £13 miliwn, i helpu i drosglwyddo asedau hanesyddol cyhoeddus yn ôl i ddwylo'r gymuned ar sail cyfraddau sy'n sylweddol is na gwerth y farchnad, drwy drefniadau trosglwyddo rhydd-ddaliadol neu

scheme will, hopefully, create a thriving social enterprise that has its roots in what the community itself needs and, in turn, bring a beautiful old building back into use.

brydlesol. Drwy helpu i arbed elfen hanfodol o'r dreftadaeth leol, bydd y cynllun, gobeithio, yn creu menter gymdeithasol lewyrchus sydd â'i gwreiddiau yn yr hyn y mae ar y gymuned ei angen, a bydd yn ei dro yn fodd i ddechrau ailddefnyddio hen adeilad hardd.

The emphasis here is on communities using investment to build on their potential and exploit the things they have rather than continually putting the focus on the things they lack. I believe that this is a model for investment that can pay dividends for our rural communities. In an increasingly fragile environment—economically, environmentally, culturally and socially—rural areas need to be seen as resource-rich places where the decisions on assets and their management should be made by communities themselves. Rural areas such as those in my Clywd South constituency should not simply be seen as hinterlands to large urban areas and city regions or through the prism of economically downtrodden places burdening the taxpayer. Yes, living costs and inflation are higher and wages are often lower, but, crucially, the quality of life and emotional health are higher.

Mae'r pwyslais ar gael cymunedau i ddefnyddio buddsoddiad i adeiladu ar eu potensial a manteisio ar y pethau sydd ganddynt yn hytrach na chanolbwyntio'n barhaus ar y pethau nad oes ganddynt. Credaf fod hwn yn fodel buddsoddi a allai dalu ar ei ganfed i'n cymunedau gwledig. Mewn amgylchedd sy'n fwyfwy bregus—yn economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol—mae angen i ardaloedd gwledig gael eu hystyried yn fannau cyfoethog o ran adnoddau, lle y dylai penderfyniadau ynghylch asedau a'r modd y cânt eu rheoli gael eu gwneud gan y cymunedau eu hunain. Ni ddylai ardaloedd gwledig megis y rhai yn fy etholaeth i yn Ne Clwyd gael eu hystyried yn eilbeth i ardaloedd trefol mawr a rhanbarthau dinesig, neu gael eu hystyried drwy brism yn lleoedd sydd wedi eu sathru dan draed yn economaidd ac sy'n faich ar y trethdalwr. Mae'n wir bod costau byw a chwyddiant yn uwch a bod cyflogau'n aml yn is, ond yr hyn sy'n hollbwysig yw bod ansawdd bywyd ac iechyd emosiynol yn well.

Therefore, rural communities should be viewed as abodes of the good life. These are areas teeming with potential, as culturally diverse, economically viable and deserving of being at the heart of policy making as any other area. The challenge then becomes one of building the investment and support around that new vision. Rural communities can increasingly be supported to develop their own renewable energy projects, run their own village pubs and shops, develop their own local fast broadband satellite service and even manage their own public toilets, woodland or community farms. I can point to places from Llandrillo to Cilcain to Llanarmon yn Ial in north-east Wales where this is already happening. We can map out an alternative future for our rural communities, one that would be a world leader for other nations across the globe. The Welsh Government has a crucial role to play in

Felly, dylai cymunedau gwledig gael eu hystyried yn drigfannau lle ceir bywyd da. Mae'r ardaloedd hyn yn llawn potensial, ac maent mor amrywiol o safbwynt diwylliannol, mor hyfyw o safbwynt economaidd ac mor deilwng o fod wrth wraidd gwaith llunio polisïau ag unrhyw ardal arall. Yr her wedyn yw adeiladu'r buddsoddiad a'r cymorth o gwmpas y weledigaeth newydd honno. Gall cymunedau gwledig gael cymorth cynyddol i ddatblygu eu prosiectau ynni adnewyddadwy eu hunain, rhedeg eu tafarnau a'u siopau pentref eu hunain, datblygu eu gwasanaeth band eang cyflym lleol eu hunain â chymorth lloeren, a hyd yn oed rheoli eu toiledau cyhoeddus, eu coetir neu'u ffermydd cymunedol eu hunain. Gallaf gyfeirio at fannau o Landrillo i Gilcain i Lanarmon-yn-Iâl yn y gogledd-ddwyrain lle y mae hynny eisoes yn digwydd. Gallwn fapio dyfodol amgen ar gyfer ein cymunedau

leading the way, and I look forward to supporting Ministers on this project.

gwledig, un a fyddai'n arwain gwledydd eraill ar draws y byd. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl hollbwysig i'w chwarae o ran arwain y ffordd, ac edrychaf ymlaen at gefnogi Gweinidogion ar y prosiect hwn.

**Janet Finch-Saunders:** I thank Antoinette Sandbach for bringing forward this important debate today. As the Member for Aberconwy, which has a large rural contingent, I certainly feel qualified to speak up for the many there who are suffering as a result of the decisions made by this Welsh Government. In 2009, 'Deep Rural Localities', published by the Wales Rural Observatory, reported on the sense of isolation experienced by many of those living in our rural communities. Unfortunately, this has been compounded recently by the baffling decision to exclude both the Farmers' Union of Wales and the National Farmers Union from the rural development plan task and finish group. This was described by the FUW as being, at best, extremely short-sighted. I think it shows an utter lack of respect and completely undermines any fundamental acknowledgement by this Welsh Government and the Deputy Minister of these crucial organisations, which, after all, represent our hard-working farmers. Those farmers have struggled with Glastir, have faced financial losses as a result of milk price cuts, and have dealt with tight deadlines on the nitrate vulnerable zones designations, the badger cull betrayal, bluetongue disease, electronic identification—the list is endless.

**Janet Finch-Saunders:** Hoffwn ddiolch i Antoinette Sandbach am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw. Fel yr Aelod dros Aberconwy, lle y mae llawer o'r etholwyr yn byw mewn ardaloedd gwledig, rwyf yn sicr yn teimlo fy mod yn gymwys i siarad ar ran y bobl niferus yno sy'n dioddef o ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaed gan y Llywodraeth hon yng Nghymru. Yn 2009, adroddodd 'Ardaloedd Gwledig Anghysbell', a gyhoeddwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru, ynghylch yr ymdeimlad o arwahanrwydd a brofir gan lawer o'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau gwledig. Yn anffodus, mae hynny wedi ei waethygu'n ddiweddar gan y penderfyniad dryslyd i beidio â chynnwys Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng ngrŵp gorchwyl a gorffen y cynllun datblygu gwledig. Cafodd hynny ei ddisgrifio gan Undeb Amaethwyr Cymru fel cam eithriadol o annoeth ar y gorau. Credaf ei fod yn arwydd o ddiffyg parch llwyr a'i fod yn tanseilio'n hollol unrhyw gydnabyddiaeth sylfaenol ar ran y Llywodraeth hon yng Nghymru a'r Dirprwy Weinidog o'r sefydliadau hollbwysig hyn sydd, wedi'r cyfan, yn cynrychioli ein ffermwyr diwyd. Mae'r ffermwyr hynny wedi ei chael yn anodd ymdopi â Glastir, wedi wynebu colledion ariannol o ganlyniad i doriadau mewn pris llaeth, wedi bod yn delio â therfynau amser tynn o safbwynt dynodi parthau perygl nitradau, wedi cael eu bradychu o safbwynt difa moch daear, wedi bod yn delio â chlefyd y tafod glas a thagiau electronig—mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Given the £217 million contribution farming makes to the Welsh economy, it is essential that we listen to our farming communities and those who represent them. The recent stock take of Glastir admitted that there were serious difficulties with the scheme, most notably a lack of communication from the Welsh Government and a lack of project officer support to overcome the unclear attached guidance. It is little wonder then that uptake numbers have been so poor and that

O ystyried y cyfraniad o £217 miliwn y mae ffermio'n ei wneud i economi Cymru, mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar ein cymunedau ffermio a'r sawl sy'n eu cynrychioli. Wrth bwyso a mesur Glastir yn ddiweddar, cyfaddefwyd bod anawsterau difrifol yn perthyn i'r cynllun, ac mai'r anhawster mwyaf nodedig oedd diffyg cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru a diffyg cymorth gan swyddog prosiect i oresgyn y canllawiau cysylltiedig aneglur. Nid yw'n

there is a 40% drop-out rate in applications. The pressure farmers are now under to submit single application forms and VAT returns and to report fallen stock numbers and animal movements online are further serious drawbacks when, in my constituency, there are more notspots than hotspots. To learn just last week that the average basic broadband speed is 7.6 Mbps, when residents in my constituency are lucky to receive 3 Mbps, was shocking. In areas such as Llanrwst, Eglwysbach and Cwm Penmachno, there is no broadband provision, combined with areas of no mobile phone reception. When the procurement process for the roll-out of next generation broadband is finally completed, some areas of Wales will see speeds of 20 Mbps. Where is the thread of equality running through the policies from this Welsh Government? In my constituency, in certain areas, we feel that we have moved on only very slightly from the carrier pigeon.

syndod, felly, bod cyn lleied o bobl wedi ymuno â'r cynllun a bod 40% yn rhoi'r gorau i'w ceisiadau. Mae'r pwysau sydd ar ffermwyr yn awr i gyflwyno ffurflenni cais y taliad sengl a ffurflenni TAW ac adrodd ynghylch symudiadau anifeiliaid a niferoedd stoc trig ar-lein yn anfanteision difrifol pellach pan geir mwy o fannau gwan na mannau cryf o ran band eang yn fy etholaeth i. Cefais fy syfrdanu pan glywais mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf bod cyflymder band eang sylfaenol yn 7.6 megabeit yr eiliad ar gyfartaledd, o ystyried bod trigolion yn fy etholaeth i'n lwcus i gael 3 megabeit yr eiliad. Mewn ardaloedd megis Llanrwst, Eglwys-bach a Chwm Penmachno, nid oes darpariaeth band eang ar gael o gwbl na signal ar gyfer ffonau symudol mewn rhai mannau. Pan fydd y broses gaffael ar gyfer cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yn cael ei chwblhau'n derfynol, bydd rhai ardaloedd o Gymru yn gweld cyflymder o 20 megabeit yr eiliad. Ble mae'r llinyn cydraddoldeb sy'n rhedeg drwy bolisïau'r Llywodraeth hon yng Nghymru? Mewn rhai ardaloedd yn fy etholaeth i, rydym yn teimlo nad yw pethau wedi gwella fawr ddim ers oes y colomennod cludo.

The Country Land and Business Association has described broadband as a basic service, not a luxury, and the older people's commissioner has highlighted its importance in combating the effects of loneliness. Scotland has 41% availability of superfast broadband, Cornwall has 90% and Northern Ireland has 97%, yet, here in Wales, we have less than one third of this—a mere 31% availability.

Yn ôl y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, nid moethusrwydd yw band eang ond gwasanaeth sylfaenol, ac mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi tynnu sylw at ei bwysigrwydd o ran mynd i'r afael ag effeithiau unigrwydd. Mae argaeledd band eang cyflym iawn yn yr Alban yn 41%, mae'n 90% yng Nghernyw ac yn 97% yng Ngogledd Iwerddon, ond yma yng Nghymru, mae'n llai na thraean y lefel honno, sef 31%.

Business rates are another burden on our rural businesses. We have seen so many shops, pubs and post offices simply disappear on the watch of this Labour Welsh Government. I hope to see some of the recommendations of Professor Morgan's recent review being implemented so as to benefit some of our rural businesses, alongside an improved transport infrastructure. Transport poverty affects 1 million people in Wales. With an ageing population, it is important that the Welsh Government recognises the need to address the fact that people in rural areas travel 43% more to access essential services than those

Mae ardrethi busnes yn faich arall ar ein busnesau gwledig. Rydym wedi gweld cynifer o siopau, tafarnau a swyddfeydd post yn diflannu yn ystod tymor y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio gweld rhai o argymhellion adolygiad diweddar yr Athro Morgan yn cael eu gweithredu er budd rhai o'n busnesau gwledig, ochr yn ochr â seilwaith gwell o ran trafnidiaeth. Mae tlodi trafnidiaeth yn effeithio ar 1 filiwn o bobl yng Nghymru. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r ffaith bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn teithio

in towns—around 10,000 miles a year in total. Community transport initiatives offer relief for many, assisting vulnerable people travelling to hospitals, clinics and essential services. Worryingly, the future of these services is now uncertain. I urge the Minister for Local Government and Communities to consider community transport as a successful initiative of the Welsh Government—it would be nice to see one.

43% yn fwy na phobl mewn trefi i gael mynediad i wasanaethau hanfodol—oddeutu 10,000 o filltiroedd y flwyddyn i gyd. Mae mentrau cludiant cymunedol yn cynnig cymorth i lawer, ac yn cynorthwyo pobl agored i niwed sy'n teithio i ysbytai, clinigau a gwasanaethau hanfodol. Mae'n destun pryder bod dyfodol y gwasanaethau hyn yn ansicr yn awr. Anogaf y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried cludiant cymunedol yn un o fentrau llwyddiannus Llywodraeth Cymru—byddai'n braf gweld un.

The Welsh Conservatives have pledged to introduce a rural charter for Wales, so as to respect and protect our rural communities. I call on the Welsh Government to recognise the inequalities facing rural businesses. I also call, once and for all, for it to recognise the rural community in total. By that, I mean that it should appreciate that we need a place at the Cabinet table for a Minister for rural affairs as a full portfolio. Only then will we be able to see substantial action and deeds, rather than the mere lip service that this Government pays to rural communities.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi addo cyflwyno siarter wledig i Gymru, er mwyn parchu a diogelu ein cymunedau gwledig. Galwaf ar Lywodraeth Cymru i gydnabod yr anghydraddoldebau sy'n wynebu busnesau gwledig. Galwaf hefyd, unwaith ac am byth, ar iddi gydnabod y gymuned wledig yn ei chyfanrwydd. Yr hyn a olygaf wrth hynny yw y dylai werthfawrogi bod arnom angen lle wrth fwrdd y Cabinet i Weinidog materion gwledig, ar ffurf portffolio llawn. Dim ond wedyn y bydd modd inni weld camau gweithredu a gweithredoedd o bwys yn cael eu cyflawni, yn hytrach na'r camau y mae'r Llywodraeth hon yn eu cymryd wrth iddi esgus cynorthwyo cymunedau gwledig.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am y cyfle i gael cyfrannu at y ddadl hon. Mae'r cynnig yn swnio braidd fel pob peth rwy'n ei wybod am gefn gwlad Cymru. Yn anffodus, yr hyn rydym wedi ei gael yw rhywbeth rydym wedi ei gael o'r blaen, sef rhestr hir o gwynion, fel petai byw yng nghefn gwlad Cymru yn uffern ar y ddaear. Yr unig beth gallaf ddweud yw mai nid dyna yw fy mhrofiad i o fyw yng nghefn gwlad Cymru am y rhan fwyaf o'm hoes. Wrth gwrs, mae nifer o heriau, ac maent yn cael eu rhestru yn y cynnig. Hofffwn ddweud, cyn fynd ymlaen â'm sylwadau, ein bod wedi rhyfeddu â phenderfyniad y Dirprwy Weinidog i beidio â chael cynrychiolydd o blith yr undebau amaethyddol ar ei grŵp gorchwyl a gorffen. Yn hytrach na hynny, er mwyn cynrychioli'r sector, cafodd rhywun o'r CLA, sydd prin yn cynrychioli trwch y diwydiant yma yng Nghymru.

**Alun Ffred Jones:** I am grateful for the opportunity to contribute to this debate. The motion sounds like almost everything that I know about rural Wales. Unfortunately, what we have had is something that we have had before, which is a long list of complaints, as though living in rural Wales is hell on earth. The only thing that I can say is that that is not my experience of living in rural Wales for the majority of my life. Of course, there are a number of challenges, and they are listed in the motion. I would like to say, before I go on with my remarks, that we are amazed at the decision of the Deputy Minister not to have a representative from among the farming unions on his task and finish group. Instead, to represent the sector he has someone from the CLA, which scarcely represents the majority of the industry here in Wales.

I symud ymlaen, mae nifer o bwyntiau'n cael eu gwneud yn y cynnig hwn. Mae un ohonynt

Moving on, there are a number of points made in the motion. One of them refers to an

yn cyfeirio at boblogaeth sy'n heneiddio. Mae honno'n broblem wirioneddol mewn llawer o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru. Fy marn i yw bod rhai o'n pentrefi'n ymylu ar fod yn anghynaliadwy bellach, oherwydd nad oes ystod eang o oedrannau o fewn y cymunedau hynny. Mae llawer o resymau am hynny. Wrth gwrs, nid yw honno'n broblem sy'n unigryw i gefn gwlad Cymru. Mae llawer o ardaloedd diwydiannol a threfol, yn enwedig y rhai ôl-ddiwydiannol, lle mae'r un broblem yn bodoli. Mae'n berygl, felly, wrth restru'r heriau yn y cynnig, ein bod yn anwybyddu bod rhai o'r heriau hynny'n bodoli mewn lleoedd trefol hefyd.

ageing population. That is a genuine problem in many rural communities in Wales. My view is that some of our villages now border on being unsustainable, because there is not a wide range of ages in those communities. There are many reasons for that. Of course, that is not a problem that is unique to rural Wales. There are many industrial and urban areas, particularly post-industrial areas, where the same problem exists. There is a danger, therefore, in listing the challenges in the motion, that we ignore the fact that some of those challenges also exist in urban areas.

Fodd bynnag, yr hyn yr hoffwn ei wneud y prynhawn yma yw canolbwyntio ar un agwedd, sef pwynt 2(c) o'r cynnig a'r cyfeiriad at yr economi wledig, ardrethi busnes a'r angen am well cymorth i fusnesau bach, er y byddwn yn gofyn y cwestiwn eto ynglŷn â'r dehongliad o 'gwledig'. Wedi'r cwbl, mae llawer o fusnesau bach mewn ardaloedd trefol, yn enwedig trefi ôl-ddiwydiannol, yn wynebu yr un problemau.

However, what I would like to do this afternoon is concentrate on one aspect, namely point 2(c) of the motion and the reference to the rural economy, business rates and the need for better support for small businesses, although we would again ask the question about the interpretation of 'rural'. After all, many small businesses in urban areas, particularly post-industrial areas, face the same problems.

Rydym ni ar yr ochr hon o'r Siambr wedi bod yn dadlau yn gyson bod angen, yn gyntaf, i'r cynllun rhyddhad ardrethi sy'n bodoli ar hyn o bryd gael ei gynnal a'i ymestyn. Hoffem wybod beth yw agwedd y Llywodraeth ar hyn, gan fod y cynllun hwnnw'n dod i ben o fewn naw mis. A ydych yn barod i barhau â'r cynllun hwnnw, sy'n cael ei ariannu o Lundain ar hyn o bryd? Yn ail, rydym wedi bod yn dadlau y dylid ehangu'r cynllun i gynnwys busnesau â gwerth trethiannol o hyd at £18,000. Dyna'r cynllun sydd yn bodoli yn yr Alban, ac mae'r adroddiad diweddar yn cyfeirio at y posibilrwydd o chwilio am ffyrdd o roi cymorth ychwanegol i rai busnesau yng nghefn gwlad Cymru. Unwaith eto, hoffem gael sylwadau'r Dirprwy Weinidog ar hynny, oherwydd mae'r sefyllfa yn un argyfyngus; nid oes ond angen mynd i'n trefi a'n pentrefi mwyaf i weld yr hyn sy'n digwydd i siopau cynhenid. Mae'r patrymau siopa wedi newid ac, yn anffodus, rydym wedi caniatáu datblygiadau y tu allan i'r trefi hyn. Nid mater o roi'r bai ar archfarchnadoedd yw; dyna oedd y drefn gynllunio a dyna'r patrwm sydd wedi datblygu, ond mae er tlodi ein pentrefi mwyaf a'n trefi—mae siopau wedi diflannu o'n

We on this side of the Chamber have consistently argued that there is a need, first, for the rate relief scheme that currently exists to be maintained and extended. We would like to know what the Government's attitude is on this, given that that scheme comes to an end in nine months' time. Are you willing to continue with that scheme, which is funded from London at the moment? Secondly, we have been arguing that the scheme should be extended to include businesses with a rateable value of up to £18,000. That is the scheme that exists in Scotland, and the recent report refers to the possibility of looking for ways to give additional support to some businesses in rural Wales. Once again, we would like the Deputy Minister's comments on that, because the situation is urgent; you only need to go to our towns and largest villages to see what is happening to indigenous shops. The shopping patterns have changed and, unfortunately, we have allowed out-of town developments near these towns. It is not about putting the blame on supermarkets; that was the planning system and that is the pattern that has developed, but it is to the impoverishment of our largest villages and towns—shops have disappeared

pentrefi llai ers nifer o flynyddoedd.

from our smaller villages many years ago.

Mae cynllun tebyg yn yr Alban. Yn anffodus, y gwir amdani yw bod yr Alban, fel mae Gerry Holtham yn ddweud unwaith eto yn glir iawn yn y *Daily Post* heddiw, yn cael dêl dda o fformiwla Barnett, ond nid yw Cymru'n cael dêl dda o fformiwla Barnett. Yn anffodus, nid yw'r Llywodraeth bresennol yn Llundain yn fodlon cydnabod hynny, ac nad oedd y Llywodraeth Lafur flaenorol yn fodlon cyfaddef hynny chwaith. Nes ein bod yn cael well dêl, mae'n anodd diwallu'r holl anghenion yng Nghymru.

There is a similar scheme in Scotland. Unfortunately, the truth is that Scotland, as Gerry Holtham says very clearly once again in the *Daily Post* today, has a very good deal out of the Barnett formula, but Wales does not. Unfortunately, the current Government in London does not recognise that and the previous Labour Government was not willing to recognise that either. Until we get a better deal, it is difficult to meet all the needs in Wales.

**Nick Ramsay:** You must accept that the Chancellor of the Exchequer is on record as having said that he believes that the Barnett formula is coming to the end of its life, so there has been progress compared to the last Labour UK Government.

**Nick Ramsay:** Rhaid ichi dderbyn bod Canghellor y Trysorlys wedi dweud yn swyddogol ei fod o'r farn bod fformiwla Barnett yn cyrraedd diwedd ei hoes, felly gwelwyd cynnydd o gymharu hynny â Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU.

**Alun Ffred Jones:** Rwy'n derbyn bod y Canghellor wedi dweud hynny, ond ni fyddaf i'n curo dwylo nes fydd newid gwirioneddol yn digwydd. Dyna pryd y gallwn ddathlu a meddwl beth y gallwn ei wneud â'r arian. Felly, ple yw hyn i ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi presennol ac, os yw'n bosibl, ychwanegu ato a'i ehangu.

**Alun Ffred Jones:** I accept that the Chancellor has said that, but I will not be applauding until a genuine change happens. That is when we can celebrate and think about what we can do with the money. Therefore, this is a plea to extend the current business rate relief scheme and, if possible, to add to it and expand it.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to take part in the debate. The motion seeks to highlight some of the challenges that rural communities face. It is now a bit of a tradition for Welsh Conservatives to bring forward such a debate before the Royal Welsh Show and before the Chamber breaks for the summer recess. Nearly all Members have some sort of event, such as a summer show, fair or carnival, in their constituencies or regions that celebrates what goes on in the countryside. There is no greater example of that than what goes on up at Builth Wells.

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl. Mae'r cynnig yn ceisio tynnu sylw at rai o'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu. Mae'n dipyn o draddodiad erbyn hyn i'r Ceidwadwyr Cymreig gyflwyno dadl fel hon cyn Sioe Frenhinol Cymru a chyn i'r Siambr gau ar gyfer toriad yr haf. Mae gan bron pob un o'r Aelodau ryw fath o ddigwyddiad, megis sioe haf, ffair neu garnifal, yn eu hetholaethau neu'u rhanbarthau sy'n dathlu'r hyn sy'n digwydd yng nghefn gwlad. Nid oes enghraifft well o hynny na'r digwyddiad yn Llanfair-ym-Muallt.

We must not forget what a diverse offering the Welsh countryside has. It is not just about agriculture; it is host to many successful small and medium-sized businesses. It is critical that issues touched on in this motion are rectified, such as access to broadband and better transport links, and, importantly, that they reflect the older profile of rural communities compared to urban

Rhaid inni beidio ag anghofio'r amrywiaeth a gynigir gan gefn gwlad Cymru. Nid oes a wnelo ag amaethyddiaeth yn unig; mae hefyd yn gartref i lawer o fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n llwyddiannus. Mae'n hanfodol bod y materion a grybwyllir yn y cynnig hwn yn cael eu cywiro, megis mynediad i fand eang a chysylltiadau gwell o ran trafnidiaeth, ac, yn hollbwysig, mae'n hanfodol eu bod yn

communities. Some 11 to 12% of the population in rural communities is aged over 64, as opposed to 6% in urban communities. That creates its own challenges. Rural isolation is a challenging environment for people to live in. Alun Ffred touched on 'hell on earth'. I have not heard any such comments in the Chamber today; in fact the opening remarks from our rural affairs spokesperson were about the positive aspects of living in the countryside. Russell George, the Member for Montgomeryshire, also highlighted the positive engagement that he has enjoyed with the Government and how the Minister for Business and Enterprise has visited Newtown to see how a rural town hosts many rural businesses and some of the challenges that those businesses face if they wish to expand and create employment opportunities. What we must challenge the Minister to do today is to come through with some answers in response to this debate.

adlewyrchu proffil hŷn cymunedau gwledig o'u cymharu â chymunedau trefol. Mae tua 11 i 12% o'r boblogaeth mewn cymunedau gwledig yn hŷn na 64 oed, o gymharu â 6% mewn cymunedau trefol. Mae hynny'n creu ei heriau ei hun. Mae arwahanrwydd gwledig yn amgylchedd heriol i bobl fyw ynddo. Soniodd Alun Ffred am 'uffern ar y ddaear'. Nid wyf wedi clywed unrhyw sylwadau o'r fath yn y Siambr heddiw; yn wir, roedd sylwadau agoriadol ein llefarydd ar faterion gwledig yn sôn am yr agweddau cadarnhaol ar fyw yng nghefn gwlad. Yn ogystal, tynnodd Russell George, yr Aelod dros Sir Drefaldwyn, sylw at ei ymgysylltiad cadarnhaol â'r Llywodraeth ac at ymweliad y Gweinidog Busnes a Menter â'r Drenewydd er mwyn gweld sut y mae tref wledig yn cynnal llawer o fusnesau gwledig a gweld rhai o'r heriau y mae'r busnesau hynny'n eu hwynebu os ydynt am ehangu a chreu cyfleoedd o ran cyflogaeth. Yr hyn y mae'n rhaid inni herio'r Gweinidog i'w wneud heddiw yw cynnig rhai atebion wrth ymateb i'r ddadl hon.

4.45 p.m.

We are at a critical crossroads. European support, which is a critical plank for investment in the countryside, is up for negotiation up to 2014. The rural development plan, which seeks to inject a sum to the tune of £800 million over a seven-year period into rural enterprises and rural projects, is also up for negotiation. It is vital that we, as Members, can liaise with our communities on the Government's direction of travel but, more importantly, on what our communities are asking for when this rural development plan is devised. I regret—and I have heard this from other Members in the Chamber today—that the Deputy Minister has chosen to exclude, at this point, the FUW and the NFU. You can have your own view on certain positions that they may take, but, ultimately, they represent a large constituency that makes up the rural economy and the rural environment. As the rural development plan is modulated money out of common agricultural policy payments, surely, as key participants in shaping the rural development plan, they should be included in the negotiations on the formulation. I hope that the Deputy Minister is able to offer a

Rydym wedi cyrraedd croesffordd hollbwysig. Bydd cymorth Ewropeaidd, sy'n dyngedfennol ar gyfer buddsoddi yng nghefn gwlad, yn cael ei drafod hyd at 2014. Bydd y cynllun datblygu gwledig, sy'n ceisio chwistrellu swm o £800 miliwn dros gyfnod o saith mlynedd i mewn i fentrau gwledig a phrosiectau gwledig, hefyd yn cael ei drafod. Mae'n hanfodol ein bod ni, fel Aelodau, yn gallu cael trafodaeth â'n cymunedau ynghylch y cyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn mynd iddo ond, yn bwysicach na hynny, ynghylch yr hyn y mae ein cymunedau'n gofyn amdano pan gaiff y cynllun datblygu gwledig ei lunio. Rwyf yn gresynu—ac rwyf wedi clywed hynny gan Aelodau eraill yn y Siambr heddiw—bod y Dirprwy Weinidog wedi dewis peidio â chynnwys, ar hyn o bryd, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Gallwch gael eich barn bersonol eich hun am rai o'u safbwyntiau, ond, yn y pen draw, maent yn cynrychioli etholaeth fawr sy'n rhan o'r economi wledig a'r amgylchedd gwledig. Gan fod y cynllun datblygu gwledig yn arian sy'n deillio o daliadau'r polisi amaethyddol cyffredin, a chan eu bod yn gyfranogwyr

sound reason as to why he has excluded them and maybe offer some opportunity to re-engage with the unions so that they can play their part in the discussions that will unfold over the next few years.

allweddol yn y broses o lunio’r cynllun datblygu gwledig, siawns na ddylent gael eu cynnwys yn y trafodaethau ynghylch ei ffurfio. Rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn gallu cynnig rheswm cadarn i egluro pam nad yw wedi eu cynnwys, ac y bydd efallai’n cynnig rhyw gyfle i ailymgysylltu â’r undebau fel y gallant chwarae eu rhan yn y trafodaethau a fydd yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Tourism is a vital plank for sustaining a sound economic model within our rural communities. Some 50% of all visitors to Wales end up experiencing the countryside during their visit. However, broadband connection is very poor. I remember sitting on the Rural Development Sub-committee in the last Assembly, on which the Deputy Minister also sat, listening to many rural businesses highlighting how they were excluded from the marketplace. Many people who choose a short or long weekend break might book it on the Thursday night before they leave, but if the operators cannot get their offering on the internet, how can they be in the market, competing to attract that income to their area? Yet, we have seen, and we have heard from other contributions today, how Wales is really falling to the back of the pack on high-speed broadband connection in the United Kingdom. The figures speak for themselves: in Wales, only 31% of businesses have high-speed broadband, but it is 61% in England, 41% in Scotland and 97% in Northern Ireland. In Cornwall, there is an ambitious project to be connected by 2014. Whether you look at the older profile of rural communities, the exciting opportunities for the diverse nature of businesses that locate in the countryside, or the exciting offering that we have in Wales of attractive countryside farmed by the custodians of that countryside, we really have a positive story to sell. I very much hope that the Deputy Minister engages with us in this debate in a positive manner.

Mae twristiaeth yn hanfodol ar gyfer cynnal model economaidd cadarn yn ein cymunedau gwledig. Mae tua 50% o’r holl ymwelwyr sy’n dod i Gymru yn cael rhyw brofiad o gefn gwlad, yn y pen draw, yn ystod eu hymweliad. Fodd bynnag, mae cysylltiadau band eang yn wael iawn. Rwyf yn cofio bod yn aelod o’r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod y Cynulliad diwethaf, ac roedd y Dirprwy Weinidog yn aelod ohono hefyd, a gwrando ar lawer o fusnesau gwledig yn tynnu sylw at y modd yr oeddent yn cael eu heithrio o’r farchnad. Efallai y bydd llawer o bobl sy’n dewis cael gwyliau byr neu benwythnos hir yn archebu llety ar y nos Iau cyn ymadael, ond os na all gweithredwyr gynnig eu gwasanaeth ar y rhyngrwyd, sut y gallant fod yn y farchnad a chystadlu i ddenu’r incwm hwnnw i’w hardal? Eto i gyd, rydym wedi gweld, ac wedi clywed mewn cyfraniadau eraill heddiw, sut y mae Cymru y tu ôl i bawb arall yn y Deyrnas Unedig o safbwynt cysylltiad band eang cyflym. Mae’r ffigurau’n siarad drostynt eu hunain: yng Nghymru, dim ond 31% o fusnesau sydd â band eang cyflym, ond mae’r gyfradd yn 61% yn Lloegr, yn 41% yn yr Alban ac yn 97% yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghernyw, ceir prosiect uchelgeisiol i sicrhau bod gan bobl gysylltiad erbyn 2014. P’un a ydych yn ystyried proffil hŷn cymunedau gwledig, y cyfleoedd cyffrous ar gyfer y busnesau amrywiol sy’n ymsefydlu yng nghefn gwlad, neu’r cynnyrch cyffrous sydd gennym i’w gynnig yng Nghymru, sef cefn gwlad deniadol a gaiff ei ffermio gan y sawl sy’n ei warchod, mae’n wir bod gennym stori gadarnhaol i’w gwerthu. Rwyf yn gobeithio’n fawr y bydd y Dirprwy Weinidog yn ymgysylltu’n gadarnhaol â ni yn y ddadl hon.

**Joyce Watson:** There have been many initiatives taken by the Assembly, and none has been more popular than the free bus pass

**Joyce Watson:** Mae’r Cynulliad wedi ymgymryd â llawer o fentrau, ac nid oes yr un ohonynt wedi bod yn fwy poblogaidd na’r

for the elderly. We have heard many times in the Chamber the Conservatives complaining that some people are travelling by bus who did not travel by bus before. I think that that is impudence, stupidity or both. The free bus pass was intended to tackle loneliness among the elderly. If more elderly people are travelling, if more older people are mobile and more older people are able to socialise, in my book, that is a success. Therefore, I am very pleased that the Welsh Government's amendment in the name of Jane Hutt acknowledges that transport and communication infrastructure plays a key role in sustaining the viability of rural communities and businesses.

fenter tocynnau bws am ddim i bobl hŷn. Rydym wedi clywed y Ceidwadwyr yn cwyno droeon yn y Siambr bod rhai pobl nad oeddent yn teithio ar fws o'r blaen yn gwneud hynny erbyn hyn. Rwyf o'r farn bod hynny'n arwydd o haerllugrwydd neu dwpdra neu'r ddau beth gyda'i gilydd. Bwriad y fenter tocynnau bws am ddim oedd mynd i'r afael ag unigrwydd ymysg pobl hŷn. Os oes mwy o bobl hŷn yn teithio, os oes mwy o bobl hŷn yn gallu symud o le i le ac os oes mwy o bobl hŷn yn gallu cymdeithasu, mae hynny'n llwyddiant yn fy marn i. Felly, rwyf yn falch iawn bod gwelliant Llywodraeth Cymru yn enw Jane Hutt yn cydnabod bod seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu yn chwarae rôl allweddol o ran cynnal hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig.

I started with buses, but I want to move on to look at broadband. Welsh Labour is committed to better and faster access to broadband in rural areas. In fact, the £59.5 million funding allocated from the UK Government will be used to support the delivery of the next generation broadband for Wales project.

Dechreuais drwy sôn am fysiau, ond hoffwn symud ymlaen i ystyried band eang. Mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i fynediad gwell a chyflymach i fand eang mewn ardaloedd gwledig. Mewn gwirionedd, bydd y £59.5 miliwn o gyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno prosiect band eang y genhedlaeth nesaf ar gyfer Cymru.

**Darren Millar:** Thank you for taking the intervention. You made reference to free bus passes. Of course, free bus passes are only useful in rural areas if there is a bus service. Unfortunately, there are insufficient numbers of buses running in areas of my constituency. What do you say to those people who have free bus passes who are not able to use buses because your Government has failed to develop the bus network sufficiently for them to have access to public transport?

**Darren Millar:** Diolch am dderbyn yr ymyriad. Bu ichi gyfeirio at docynnau bws am ddim. Wrth gwrs, dim ond os oes gwasanaeth bws ar gael mewn ardaloedd gwledig y mae tocynnau bws am ddim yn ddefnyddiol. Yn anffodus, nid oes digon o fysiau'n rhedeg mewn rhai ardaloedd yn fy etholaeth i. Beth yr ydych yn ei ddweud wrth y bobl hynny sydd â thocynnau bws am ddim ond nad ydynt yn gallu defnyddio bysiau oherwydd bod eich Llywodraeth chi wedi methu â datblygu'r rhwydwaith bysiau'n ddigonol er mwyn iddynt gael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus?

**Joyce Watson:** I would tell them to remember who deregulated bus services. That is why we are having to put in, where we can, the amounts of money that we have in order to provide what are, you are quite right, in some cases, insufficient services to allow those people to have free access.

**Joyce Watson:** Byddwn yn dweud wrthynt am gofio pwy fu'n gyfrifol am ddadreoleiddio gwasanaethau bysiau. Dyna pam y mae'n rhaid inni, lle y gallwn, wario'r arian sydd gennym ar ddarparu gwasanaethau sydd mewn rhai achosion, rydych yn llygad eich lle, yn wasanaethau annigonol, er mwyn caniatáu i'r bobl hynny gael mynediad am ddim.

That leads me quite nicely to carry on about

Mae hynny'n fy arwain yn dwt i barhau i sôn

next generation broadband for Wales and the money that is being invested in that regard. We will be intervening and helping to stimulate economic growth by delivering that project in areas where the private sector is not investing. This involves many areas, which have been mentioned by Members on all sides of the Chamber today. In our opinion, that is what Government is for. It is not up to the markets to intervene when there is market failure; it is the Government that does it. You obviously agree with that, because every time, in every single list that you come up with, where you see a shortfall, you ask the Government to intervene, and we are glad to deliver where we can. However, I argue that what is needed is more co-operation, not more competition.

am fand eang y genhedlaeth nesaf ar gyfer Cymru, a’r arian sy’n cael ei fuddsoddi yn y cyswllt hwnnw. Byddwn yn ymyrryd ac yn helpu i ysgogi twf economaidd drwy gyflwyno’r prosiect hwnnw mewn ardaloedd nad yw’r sector preifat yn buddsoddi ynddynt. Mae hynny’n cynnwys llawer o ardaloedd, sydd wedi eu crybwyll gan Aelodau o bob ochr i’r Siambr heddiw. Yn ein barn ni, dyna ddiben Llywodraeth. Nid cyfrifoldeb y marchnadoedd yw ymyrryd pan fydd y farchnad yn methu; cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gwneud hynny. Mae’n amlwg eich bod yn cytuno â hynny, oherwydd bob tro, ym mhob un o’r rhestrau a lunnir gennych, lle y gwelwch ddiffyg, rydych yn gofyn i’r Llywodraeth ymyrryd, ac rydym yn falch o weithredu lle y gallwn. Fodd bynnag, byddwn i’n dadlau mai’r hyn y mae arnom ei angen yw mwy o gydweithio, nid mwy o gystadleuaeth.

We know that much of Wales is both rural and urban. I remind you that colliers in mining villages were often first-generation miners. Their parents and grandparents had worked on farms and were often Welsh-speaking. It was not the pit ponies that enjoyed the above-ground pleasures of the countryside when the miners’ fortnight came around; miners used to help with the hay, and the division between the rural and the urban was not a hard and fast line. For a long time, the political interests of the workers on the land and the workers in the mining industry and the other industries found in this part of Wales were the same.

Gwyddom fod llawer o Gymru yn wledig ac yn drefol. Hoffwn eich atgoffa mai glowyr cenhedlaeth gyntaf oedd glowyr mewn pentrefi glofaol yn aml. Roedd eu rhieni a’u rhieni hwythau wedi bod yn gweithio ar ffermydd, ac roeddent yn aml yn siarad Cymraeg. Nid merlod y pyllau glo’n unig oedd yn mwynhau’r pleser o fod uwchben y ddaear yng nghefn gwlad pan fyddai pythefnos y glowyr yn cyrraedd; arferai’r glowyr helpu gyda’r gwair, ac nid oedd y rhaniad rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol yn llinell bendant. Am gyfnod hir, roedd buddiannau gwleidyddol y gweithwyr a oedd yn trin y tir a’r gweithwyr yn y diwydiant glo a’r diwydiannau eraill a welid yn y rhan hon o Gymru yr un fath.

However, it worries me that, according to academics, Wales has suffered the steepest decline in agricultural output over recent years of all nations and regions in the UK, and Welsh farming is dependent on livestock. When you travel through Carmarthenshire, you do not see the vast barley fields that you see from the M4 on the way into London or from the Carmarthen to Paddington train. In Wales, livestock accounts for over 75% of the total value of agriculture. According to Professor Kevin Morgan of Cardiff University, in the decade to 2007, the value of Welsh agriculture fell from £634 million to £202 million, which is a staggering decline

Fodd bynnag, mae’n fy mhoeni mai Cymru, yn ôl yr academyddion, sydd wedi dioddef y dirywiad gwaethaf mewn allbwn amaethyddol dros y blynyddoedd diwethaf, o blith holl wledydd a rhanbarthau’r DU, ac mae ffermio yng Nghymru yn dibynnu ar dda byw. Wrth deithio drwy Sir Gaerfyrddin, nid ydych yn gweld y caeau haidd mawr a welwch o’r M4 ar y ffordd i Lundain neu o’r trên o Gaerfyrddin i Paddington. Yng Nghymru, mae da byw yn cyfrif am dros 75% o holl werth amaethyddiaeth. Yn ôl yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd, yn ystod y degawd hyd at 2007, gostyngodd gwerth amaethyddiaeth yng Nghymru o £634

of 68.1%, compared with a mild fall of just 7% in the UK in the same period.

miliwn i £202 miliwn, sef gostyngiad syfrdanol o 68.1%, o'i gymharu â gostyngiad bach o 7% yn unig yn y DU yn ystod yr un cyfnod.

It is not just the nationalised concerns like the railway and the coal industry that were broken up and privatised when state control went out of political fashion. Under John Major's Government, the Milk Marketing Board was broken up and privatised, too. Sadly, since then, we have seen the decline of dairy farming in the west of Wales, the area in which I live and which I represent, and we are left with a situation where livestock farming is central to Welsh agriculture, but the ups and downs in the market price for beef, lamb and milk tend to be controlled by the supermarkets.

Nid y busnesau gwladol yn unig, megis y diwydiant rheilffyrdd a'r diwydiant glo, a chwalwyd ac a breifateiddiwyd pan aeth rheolaeth gan y wladwriaeth allan o ffasiwn wleidyddol. Dan Lywodraeth John Major, cafodd y Bwrdd Marchnata Llaeth ei chwalu a'i breifateiddio hefyd. Yn anffodus, ers hynny, rydym wedi gweld y diwydiant llaeth yn dirywio yn y gorllewin, sef yr ardal yr wyf yn byw ynddi ac yr wyf yn ei chynrychioli, ac mae gennym sefyllfa lle y mae ffermio da byw'n ganolog i amaethyddiaeth Cymru ond lle y mae'r amrywiadau ym mhris y farchnad ar gyfer cig eidion, cig oen a llaeth yn tueddu i gael eu rheoli gan yr archfarchnadoedd.

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** It has been another Wednesday afternoon, has it not? I believe that there is more that unites us than divides us on many of these issues. Many of the issues that have been raised are real issues that are being addressed by this Government. There is a real rural agenda that is based upon the delivery of services, on attacking poverty and deprivation, on building a vibrant economic base for our communities across the whole of rural Wales.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Bu'n brynhawn dydd Mercher nodweddiadol arall. Credaf fod llawer mwy sy'n ein huno nag sy'n ein rhannu yng nghyswllt llawer o'r materion hyn. Mae llawer o'r materion a godwyd yn faterion go iawn y mae'r Llywodraeth hon yn mynd i'r afael â hwy. Ceir agenda wledig go iawn sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaethau, brwydro yn erbyn tlodi ac amddifadedd, ac adeiladu sylfaen economaidd fywiog ar gyfer ein cymunedau ledled cefn gwlad Cymru.

Both Bill Powell and Andrew R.T. Davies spoke about my chairing of the Rural Development Sub-committee in the previous Assembly. One of the first aspects that I wanted to discuss when I took the Chair of that sub-committee was an agenda that looked at what poverty and deprivation were in rural Wales. There are clear differences in the nature of poverty and the way in which it exhibits itself in rural Wales in comparison with urban communities. That is clearly true.

Siaradodd Bill Powell ac Andrew R.T. Davies am fy ngwaith fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod y Cynulliad blaenorol. Un o'r agweddau cyntaf yr oeddwn am ei thrafod pan ddeuthum yn Gadeirydd yr is-bwyllgor hwnnw oedd agenda a oedd yn ystyried beth oedd tlodi ac amddifadedd yn ardaloedd gwledig Cymru. Ceir gwahaniaethau amlwg yn natur tlodi a'r modd y mae'n ymddangos yn ardaloedd gwledig Cymru o'u cymharu â chymunedau trefol. Mae hynny'n amlwg yn wir.

We wrote a report on that some three or four years ago. We launched that report and the Government responded to it. Many of the actions being taken by the Government today are responding to the report of that time, and many of its actions today are guided by the

Bu inni ysgrifennu adroddiad ynghylch hynny ryw dair neu bedair blynedd yn ôl. Cafodd yr adroddiad hwnnw ei lansio gennym, ac ymatebodd y Llywodraeth iddo. Mae llawer o'r camau gweithredu a gymerir gan y Llywodraeth heddiw yn ymateb i

knowledge that we have from the rural observatory, which has been referred to by many speakers this afternoon, and by that agenda of attacking deprivation and poverty, and had cross-party support at the time.

adroddiad y cyfnod hwnnw, a chaiff llawer o'i chamau gweithredu heddiw eu llywio gan y wybodaeth sydd gennym o'r arsyllfa wledig, y mae llawer o'r siaradwyr y prynhawn yma wedi cyfeirio ati, a chan yr agenda sy'n ymwneud â brwydro yn erbyn amddifadedd a thlodi, a chawsant gefnogaeth drawsbleidiol ar y pryd.

**Andrew R.T. Davies:** I am most grateful to the Deputy Minister for taking the intervention. He mentioned the rural observatory and, in its report, it stated that many people did not perceive that the Welsh Government was taking steps to alleviate problems and that the policy decisions that it was taking exacerbated the problems that they faced. Perhaps you would care to comment on that.

**Andrew R.T. Davies:** Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn yr ymyriad. Soniodd am yr arsyllfa wledig a ddywedodd, yn ei hadroddiad, nad oedd llawer o bobl yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i leddfu problemau, a bod y penderfyniadau polisi a gymerai yn gwaethygu'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu. Efallai y carech wneud sylwadau ar hynny.

**Alun Davies:** That is not the experience that we had, it is not the experience that we reported upon and it is not the experience that we found. One of the subjects that have been addressed this afternoon in the debate, namely access to broadband, is clearly a central issue. My friend from mid and west Wales Bill Powell raised it in terms of access to agricultural payments. Clearly, we will move in that direction and to an online environment, but we also know that the Welsh Government has a successful broadband support scheme. We know of the 2,600 applicants for that support and we know that 18 community schemes have been approved already, while a further three communities are undergoing assessment for that. However, we also know that the targets are set, that we are delivering on policies that will achieve those targets and that businesses across rural and urban Wales will have access to high-speed broadband by 2015.

**Alun Davies:** Nid dyna'r profiad a gawsom, nid dyna'r profiad y bu inni adrodd yn ei gylch ac nid dyna'r profiad y daethom ar ei draws. Mae'n amlwg bod un o'r pynciau sydd wedi cael sylw y prynhawn yma yn y ddadl, sef mynediad i fand eang, yn fater canolog. Tynnodd fy ffrind o ganolbarth a gorllewin Cymru, Bill Powell, sylw ato o safbwynt mynediad i daliadau amaethyddol. Mae'n amlwg y byddwn yn symud i'r cyfeiriad hwnnw ac i amgylchedd ar-lein, ond gwyddom hefyd fod gan Lywodraeth Cymru gynllun cymorth band eang sy'n llwyddiannus. Gwyddom fod 2,600 o ymgeiswyr wedi gwneud cais am y cymorth hwnnw, a gwyddom fod 18 o gynlluniau cymunedol wedi eu cymeradwyo'n barod, a bod tair cymuned arall yn cael eu hasesu. Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod y targedau wedi eu gosod, ein bod yn gweithredu polisïau a fydd yn cyflawni'r targedau hynny, ac y bydd gan fusnesau ar draws ardaloedd gwledig a threfol Cymru fynediad i fand eang cyflym erbyn 2015.

**Janet Finch-Saunders:** Some £57 million came from the UK Government specifically for broadband. Can you point out to me where the thread of equality is going in that particular bid, so that I know that equality is directed towards my constituency of Aberconwy?

**Janet Finch-Saunders:** Cafwyd tua £57 miliwn gan Lywodraeth y DU yn benodol ar gyfer band eang. A allwch ddangos imi ble y mae'r llinyn cydraddoldeb yn y cynnig penodol hwnnw, er mwyn imi wybod bod cydraddoldeb yn cael ei gyfeirio at fy etholaeth i yn Aberconwy?

**Alun Davies:** You can do that, and we have accepted that that money makes a valuable

**Alun Davies:** Gallwch chi wneud hynny, ac rydym wedi derbyn bod yr arian hwnnw'n

contribution to what we are seeking to achieve. That has been the stance of this Government from the beginning. I listened to your speech with some interest, but I have to say to you, Janet, that you did not paint a picture of a community that I recognise or of a community where people would want to do business. The speeches that you have made this afternoon and other speeches that we have heard from the Conservative benches do rural Wales down, and many people in rural Wales would find many of your remarks at the least not helpful. I listened carefully to what a number of Conservative speakers said and I listened to their words about agriculture and food production, but what I did not hear from them was a commitment to go to the coalition Government in London and to DEFRA and to say to them 'No, we do not want the significant reductions that you are demanding in pillar 1 payments to farmers'. DEFRA, the Treasury and the UK Government have called time and again for significant reductions in pillar 1 payments to farmers that they regard as 'low-value spending'.

gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Dyna fu safbwynt y Llywodraeth hon o'r dechrau. Gwrandewais ar eich araith gyda chryn ddiddordeb, ond rhaid imi ddweud wrthych, Janet, nad oedd y darlun a gyflwynwyd gennych yn ddarlun o gymuned yr wyf yn ei hadnabod neu'n ddarlun o gymuned lle y byddai pobl am gyflawni busnes. Mae eich areithiau y prynhawn yma ac areithiau eraill yr ydym wedi eu clywed o feinciau'r Ceidwadwyr yn cyflwyno darlun negyddol o ardaloedd gwledig Cymru, a byddai nifer o bobl yn yr ardaloedd hynny o'r farn bod llawer o'ch sylwadau, ar y gorau, yn sylwadau nad ydynt yn ddefnyddiol. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd nifer o siaradwyr Ceidwadol, a gwrandewais arnynt yn sôn am amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, ond yr hyn na chlywais ganddynt oedd ymrwymiad i fynd at y Llywodraeth glymblaid yn Llundain ac at DEFRA a dweud wrthynt, 'Na, nid ydym am weld y gostyngiadau sylweddol yr ydych yn eu mynnu mewn taliadau colofn 1 i ffermwyr'. Mae DEFRA, y Trysorlys a Llywodraeth y DU wedi galw dro ar ôl tro am ostyngiadau sylweddol mewn taliadau colofn 1 i ffermwyr, y maent o'r farn eu bod yn wariant â gwerth isel.

**Antoinette Sandbach:** You know perfectly well, Deputy Minister, that they have called time and again for increases in the pillar 2 payments and that they consider that giving away the rebate, over £10 million, with little in return in terms of increasing pillar 2 payments was done under the previous Labour Government. The Conservatives have fought tirelessly—

**Antoinette Sandbach:** Gwyddoch yn iawn, Ddirprwy Weinidog, eu bod wedi galw dro ar ôl tro am gynnydd mewn taliadau colofn 2, a'u bod o'r farn bod cael gwared â'r ad-daliad, sef dros £10 miliwn, heb gael fawr ddim yn gyfnewid amdano o ran cynyddu taliadau colofn 2 wedi digwydd dan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Mae'r Ceidwadwyr wedi brwydro'n ddiflino—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is an intervention, not a speech.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ymyriad yw hwn, nid araith.

**Alun Davies:** I think that you have tried to make your point. However, I did not hear the apology that I was asking for. When I speak to people across rural Wales and when I speak to the farming community, they are aghast at what they hear from Conservative Ministers in London. They are aghast that a Conservative Minister would go to Brussels, Luxembourg or wherever and ask for reductions to a budget that underpins the economic viability of the agriculture industry

**Alun Davies:** Rwyf yn meddwl eich bod wedi ceisio gwneud eich pwynt. Fodd bynnag, ni chlywais yr ymddiheuriad yr oeddwn yn gofyn amdano. Pan fyddaf yn siarad â phobl ar draws cefn gwlad Cymru ac yn siarad â ffermwyr, maent yn arswydo at yr hyn a glywant gan Weinidogion Ceidwadol yn Llundain. Maent yn arswydo o feddwl y byddai Gweinidog Ceidwadol yn mynd i Frwsel, Lwcsembwrg neu ble bynnag ac yn gofyn am ostyngiadau i gyllideb sy'n cynnal

across Wales. I am disappointed that the Welsh Conservatives would seek to support that position.

hyfywedd economaidd y diwydiant amaeth ar draws Cymru. Rwyf yn siomedig y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ceisio cefnogi safbwynt o'r fath.

**Nick Ramsay:** I am sure that you agree that those people in rural Wales are also aghast at your Government's u-turn on tackling bovine TB as seriously as it should have been dealt with; that is not your view, I know.

**Nick Ramsay:** Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno bod y bobl hynny yng nghefn gwlad Cymru hefyd yn arswydo at dro pedol eich Llywodraeth chi o ran mynd i'r afael â TB mewn gwartheg drwy gymryd y camau difrifol y dylid bod wedi eu cymryd; nid dyna yw eich barn chi, mi wn.

**Alun Davies:** I am sure that that is the best that I will get by way of an apology this afternoon. I will move on. I have taken a number of interventions, and I want to develop my argument this afternoon.

**Alun Davies:** Rwyf yn siŵr mai dyna'r gorau yr wyf yn debygol o'i gael y prynhawn yma o ran ymddiheuriad. Hoffwn symud ymlaen. Rwyf wedi derbyn nifer o ymyriadau, ac rwyf am ddatblygu fy nadl y prynhawn yma.

5.00 p.m.

There is a real rural agenda that is based on creating the conditions for a vibrant rural economy in communities up and down Wales. I have mentioned the work that we are doing to support agriculture, and this Government seeks to ensure that the farming community has the support that it needs in order to shape and mould the agricultural industry so that it will be prosperous in the future. The last thing that farmers in Wales need is the pillar 1 cuts to their direct payments that are being proposed by the coalition Government in London.

Ceir agenda wledig go iawn sy'n seiliedig ar greu'r amodau ar gyfer economi wledig fywiog mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Rwyf wedi sôn am y gwaith yr ydym yn ei wneud i gefnogi amaethyddiaeth, ac mae'r Llywodraeth hon yn ceisio sicrhau bod ffermwyr yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i lunio a mowldio'r diwydiant amaeth er mwyn iddo fod yn llewyrchus yn y dyfodol. Y peth olaf y mae ar ffermwyr yng Nghymru ei angen yw'r toriadau colofn 1 i'w taliadau uniongyrchol, a gynigir gan y Llywodraeth glymblaid yn Llundain.

Antoinette Sandbach spoke about the rural development plan and the need to increase payments; I agree with that, actually—she is right on that. However, you do not win that argument, Antoinette, by going to the Council of Ministers and demanding a reduction in the EU budget. You cannot win the argument that way, but that is what your Ministers in London have been doing.

Soniodd Antoinette Sandbach am y cynllun datblygu gwledig a'r angen i gynyddu taliadau; rwyf yn cytuno â hynny, mewn gwirionedd—mae'n iawn ynghylch hynny. Fodd bynnag, ni allwch ennill y ddadl honno, Antoinette, drwy fynd at Gyngor y Gweinidogion a mynnu gostyngiad yng nghyllideb yr UE. Ni allwch ennill y ddadl yn y modd hwnnw, ond dyna y mae eich Gweinidogion yn Llundain wedi bod yn ei wneud.

**Antoinette Sandbach** *rose*—

**Antoinette Sandbach** *a gododd*—

**Alun Davies:** You cannot have another intervention; you had your chance and you blew it. [*Laughter.*] You cannot go into European councils and ask for that, because it is simply not credible. The RDP provides us with a very real opportunity to broaden the

**Alun Davies:** Ni allwch ymyrryd unwaith eto; cawsoch eich cyfle a bu ichi ei wastraffu. [*Chwerthin.*] Ni allwch fynd at gynghorau yn Ewrop a gofyn am hynny, oherwydd, yn syml iawn, nid yw'n gredadwy. Mae'r cynllun datblygu gwledig yn rhoi cyfle gwirioneddol

economic base of our rural communities, and that is why I have called a group of people together to advise me on this. It is meeting for the first time tomorrow and I will be at that meeting and what I want that group to do is to look at how we can strengthen the rural economy, build value in it and add value to produce already created by it, and ensure that there are jobs available in the rural economy, and opportunities for careers for young and old alike. That is what I want to see the RDP doing. We have an opportunity over the next seven years—this was not referred to by any of the opposition speakers—to shape a different sort of economy in rural Wales that will underpin the prosperity that we all want to see. So, tomorrow we start work on that. I will be providing a statement to Members before the end of the year.

inni ehangu sylfaen economaidd ein cymunedau gwledig, a dyna pam yr wyf wedi galw grŵp o bobl ynghyd i roi cyngor imi ynghylch hynny. Bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf yfory, a byddaf yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, a'r hyn yr wyf am i'r grŵp ei wneud yw edrych ar sut y gallwn gryfhau'r economi wledig, meithrin gwerth ynddi, ychwanegu gwerth at y cynnyrch a grëir ynddi eisoes, a sicrhau bod swyddi ar gael yn yr economi wledig ynghyd â chyfleoedd o ran gyrfaoedd ar gyfer yr hen a'r ifanc fel ei gilydd. Dyna'r wyf am weld y cynllun datblygu gwledig yn ei wneud. Mae gennym gyfle yn ystod y saith mlynedd nesaf—ni chyfeiriodd unrhyw un o siaradwyr yr wrthblaid at hynny—i lunio math gwahanol o economi yng nghefn gwlad Cymru, a fydd yn sail i'r ffyniant yr ydym i gyd am ei weld. Yfory, felly, byddwn yn dechrau gweithio ar hynny. Byddaf yn darparu datganiad i'r Aelodau cyn diwedd y flwyddyn.

With your permission, Deputy Presiding Officer, I will just finish with a word on the food sector, and, in particular, the dairy sector. I held a dairy summit in Aberystwyth two weeks ago, and I will be making a written statement on the result of that before summer recess. I have written today to the Department for Business, Innovation and Skills and asked it to strengthen the supermarket adjudicator and the role of regulation in the dairy sector and its supply chain. If the Conservatives here want to play a positive role—they have the opportunity to do so, as do the Welsh Liberal Democrats—in strengthening the rural economy, please support me, and please support the Welsh Government, in arguing for strengthened regulation of that supply chain, because that will make a huge difference to Welsh farmers.

Gyda'ch caniatâd, Ddirprwy Lywydd, hoffwn orffen drwy sôn am y sector bwyd, ac, yn benodol, y sector llaeth. Cynhaliais uwchgynhadledd ar gyfer y diwydiant llaeth yn Aberystwyth bythefnos yn ôl, a byddaf yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig ar ganlyniad hynny cyn toriad yr haf. Rwyf wedi ysgrifennu heddiw at yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i ofyn iddi gryfhau rôl y dyfarnwr archfarchnadoedd a rôl rheoleiddio yn y sector llaeth a'i gadwyn gyflenwi. Os yw'r Ceidwadwyr yn y fan hon am chwarae rôl gadarnhaol—mae ganddynt hwy a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gyfle i wneud hynny—o ran cryfhau'r economi wledig, cefnogwch fi a chefnogwch Lywodraeth Cymru wrth inni ddadlau dros reoleiddio'r gadwyn gyflenwi honno'n fwy llym, oherwydd bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr i ffermwyr Cymru.

**Nick Ramsay:** I always enjoy our Wednesday afternoon tussles with the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, even if he does not appreciate them as much as we do and thinks it is just another Wednesday—I think that he enjoys them really. Actually, I like debates with him because he knows about a lot of issues, particularly when it comes to structural funds. I know how much he has been travelling back and forth to Europe; in

**Nick Ramsay:** Rwyf bob amser yn mwynhau ein hysgarmesoedd ar brynhawn dydd Mercher gyda'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, hyd yn oed os nad yw ef yn eu gwerthfawrogi gymaint ag yr ydym ni, a hyd yn oed os yw'n meddwl mai prynhawn dydd Mercher nodweddiadol arall yw hwn—rwyf yn credu ei fod yn eu mwynhau mewn gwirionedd. A dweud y gwir, rwyf yn hoffi dadleuon gydag ef am fod

fact, in his time in this job he has probably been there far more than Labour agricultural Ministers at UK level ever were over the 13 years that they were in power. Maybe his party at UK level could learn a thing or two from his approach.

ganddo wybodaeth am lawer o faterion, yn enwedig yng nghyswllt cronfeydd strwythurol. Gwn gymaint y mae wedi bod yn teithio'n ôl ac ymlaen i Ewrop; mewn gwirionedd, yn ystod ei gyfnod yn y swydd hon, mae'n debyg iddo fod yno dipyn yn fwy nag unrhyw un o Weinidogion Amaeth Llafur y DU yn ystod y 13 blynedd y buont hwy mewn grym. Efallai y gallai ei blaid ar lefel y DU ddysgu ambell beth o'i ddull gweithredu ef.

He was also the Chair of the infamous Rural Development Sub-committee—it was his vehicle, really, was it not? I know that he had an open mind when he was on that sub-committee, and came to the conclusion that there was serious deprivation in Mid and West Wales, and serious issues that needed to be addressed. I do not really think that he believes his party has addressed that as well as it should.

Bu hefyd yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig enwog—onid ei gerbyd ef oedd hwnnw, mewn gwirionedd? Gwn fod ganddo feddwl agored pan oedd ar yr is-bwyllgor hwnnw, a daeth i'r casgliad bod amddifadedd difrifol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru a bod materion difrifol yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Nid wyf yn meddwl mewn gwirionedd ei fod yn credu bod ei blaid wedi mynd i'r afael â hynny gystal ag y dylai.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am quite prepared to refer to the many good things that my predecessor as Chair of the Rural Development Sub-committee carried out. Indeed, all those reports and recommendations were discussed on a Wednesday afternoon here in the Chamber.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwyf yn ddigon parod i gyfeirio at y pethau da niferus a gyflawnwyd gan fy rhagflaenydd fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Yn wir, cafodd yr holl adroddiadau a'r holl argymhellion hynny eu trafod ar brynhawn dydd Mercher yma yn y Siambr.

**Nick Ramsay:** Thank you for that contribution. The Chamber hears you, and knows of your own contribution as Chair of that sub-committee.

**Nick Ramsay:** Diolch am y cyfraniad hwnnw. Mae'r Siambr yn clywed yr hyn yr ydych yn ei ddweud, ac yn gwybod am eich cyfraniad chi fel Cadeirydd yr is-bwyllgor hwnnw.

To go back to the start of the debate—it seems a long time ago now—my colleague Antoinette Sandbach made an erudite and concise opening that touched on an excellent range of issues, from broadband to rural deprivation to the problems facing the farming community. All those issues were touched on by our motion. My colleague was the first of many Members to talk about broadband, and, as the debate progressed, it became clear how important broadband is in the modern world for dealing with issues in rural Wales. Her train of thought was carried on by Will Powell, who connected the issue of farming and broadband provision very effectively and succinctly, and said that you cannot now, in the current climate, have one

O fynd yn ôl i ddechrau'r ddadl—mae'n ymddangos ymhell yn ôl erbyn hyn—cafwyd araith agoriadol wybodus a chryno gan fy nghydweithiwr, Antoinette Sandbach, a soniodd am ystod ardderchog o faterion, o fand eang i amddifadedd gwledig i'r problemau sy'n wynebu ffermwyr. Cafodd yr holl faterion hynny eu crybwyll gan ein cynnig. Fy nghydweithiwr oedd y cyntaf o blith llawer o Aelodau i siarad am fand eang, ac wrth i'r ddadl fynd yn ei blaen, daeth yn amlwg mor bwysig yw band eang yn y byd modern ar gyfer ymdrin â phroblemau yn ardaloedd gwledig Cymru. Soniodd Will Powell am hynny hefyd. Llwyddodd i gysylltu ffermio â darpariaeth band eang yn effeithiol ac yn gryno iawn, a dywedodd na

without the other. Things have moved on, even in just a few years.

allwch yn awr, yn yr hinsawdd sydd ohoni, gael un heb y llall. Mae pethau wedi symud ymlaen, hyd yn oed mewn cyfnod o ychydig flynyddoedd yn unig.

Russell George spoke of the lack of empathy that the Welsh Government has with his constituents, based on his communications with his rural constituency in Montgomeryshire. You mentioned deep rural areas, which was interesting: it has been a long time since I have heard deep rural areas mentioned in this Chamber. There was a time, under the previous administration, when we had debates—[*Interruption*.] Indeed, we had a policy on them, and it is one of those things, a bit like the Wales spatial plan, that seem to have bitten the dust and disappeared under the Assembly carpet in the new Labour administration. We wonder why we had all of those debates on those things that, after a few years, seem to have been forgotten.

Soniodd Russell George am ddiffyg empathi Llywodraeth Cymru â'i hetholwyr, ar sail ei ymwneud â'i etholaeth wledig yn Sir Drefaldwyn. Bu ichi sôn am ardaloedd gwledig anghysbell, a oedd yn ddiddorol: nid wyf wedi clywed sôn am ardaloedd gwledig anghysbell yn y Siambr hon ers amser maith. Ar un adeg, dan y weinyddiaeth flaenorol, pan oeddem yn cael dadleuon—[*Torri ar draws.*] Yn wir, roedd gennym bolisi arnynt, ac mae'n un o'r pethau hynny, megis cynllun gofodol Cymru i ryw raddau, yr ymddengys eu bod wedi syrthio o'r neilltu ac wedi diflannu dan garped y Cynulliad yn y weinyddiaeth Lafur newydd. Tybed pam y cawsom yr holl ddadleuon ynghylch y pethau hynny yr ymddengys eu bod, ar ôl ychydig flynyddoedd, wedi mynd yn angof?

Nonetheless, those deep rural area issues still exist, whatever you call them and however the Labour Party does, or does not, want to deal with them. I was pleased that Russell George mentioned them. Perhaps it is time that we looked at the specific issues affecting those rural areas. He also spoke about the need for rural proofing, and the need for all parts of Wales to be treated fairly. How often do we hear talk of fairness, justice, equality and all those buzzwords that the Government likes to use? However, when it comes to rural issues, you only have to go to a rural area for a short time to see what it is like. Do those people think that there is equality there? Do they really think that there is justice and fairness there? No. Too often, that is not the case. That is why we brought this debate forward today: to try to focus on these issues.

Serch hynny, mae'r materion sy'n ymwneud ag ardaloedd gwledig anghysbell yn bodoli o hyd, beth bynnag yr ydych am eu galw ac ym mha fodd bynnag y mae'r Blaid Lafur yn barod neu'n amharod i ymdrin â hwy. Roeddwn yn falch bod Russell George wedi sôn amdanynt. Efallai ei bod yn bryd inni edrych ar y materion penodol sy'n effeithio ar yr ardaloedd gwledig hynny. Soniodd hefyd am yr angen i brawfesur polisïau o safbwynt anghenion ardaloedd gwledig, a'r angen i bob rhan o Gymru gael ei thrin yn deg. Pa mor aml yr ydym yn clywed sôn am degwch, cyfiawnder, cydraddoldeb a'r holl eiriau poblogaidd hynny y mae'r Llywodraeth yn hoffi eu defnyddio? Fodd bynnag, wrth ystyried materion gwledig, nid oes ond rhaid ichi fynd i ardal wledig am gyfnod byr i weld sut y mae'r sefyllfa yno. A yw'r bobl hynny'n credu bod cydraddoldeb yno? A ydynt yn credu'n wirioneddol bod cyfiawnder a thegwch yno? Nac ydynt. Yn rhy aml, nid yw hynny'n wir. Dyna pam y bu inni gyflwyno'r ddadl hon heddiw: er mwyn ceisio canolbwyntio ar y materion hyn.

Ken Skates is always one of my favourite contributors, in his party's own debates and also in our debates. He was as thoughtful as ever. You spoke about—I hope I wrote this down right—the deficit model of rural

Mae Ken Skates yn un o'm hoff gyfranwyr bob amser, yn nadleuon ei blaid ei hun ac yn ein dadleuon ni hefyd. Roedd mor feddylgar ag erioed. Bu ichi sôn am—rwyf yn gobeithio fy mod wedi nodi hynny'n gywir—y model

development and how it is no longer acceptable to prop up failing post offices, and how the Welsh Government has to help communities to help themselves. I agree with all of those things. I hope that you will encourage it to do it.

ar gyfer datblygu gwledig sy'n canolbwyntio ar ddiffyg, a'r ffaith nad yw'n dderbyniol mwyach cynnal breichiau swyddfeydd post sy'n methu, a sut y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru helpu cymunedau i'w helpu eu hunain. Rwyf yn cytuno â phob un o'r pethau hynny. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn annog y Llywodraeth i wneud hynny.

**Kenneth Skates:** Pithy comments have their moments. They can be amusing, but academic research offers more sustenance for the soul. Would you not agree that it was the Thatcherite quest for material gain that led to an exodus of talent and ability from many rural areas to the cities, which left them powerless?

**Kenneth Skates:** Mae lle weithiau i sylwadau bachog. Gallant fod yn ddifyr, ond mae ymchwil academaidd yn cynnig mwy o gynhaliaeth i'r enaid. Oni fyddech yn cytuno mai ymdrech Thatcheraidd i sicrhau elw materol a arweiniodd at sefyllfa lle y gwelwyd peth wmbredd o dalent a gallu'n ymadael ag ardaloedd gwledig er mwyn mynd i'r dinasoedd, gan adael yr ardaloedd hynny'n ddi-rym?

**Nick Ramsay:** Again, a classic. Ken, your contribution was pretty much in line with your debate. I will not be distracted from the subject. Although, I will say that, in a number of elements, you seem to be talking about what I would call a kind of rural big society. It was in there, Ken. You have been listening perhaps a bit too closely to what some of my party members have been saying, even if you do not always admit it, and even if you have not yet quite made the case solidly, as I am sure that you one day will, with your front bench.

**Nick Ramsay:** Dyna glasur arall. Ken, roedd eich cyfraniad yn cyd-fynd fwy neu lai â'ch dadl. Nid wyf am i'm sylw gael ei dynnu oddi ar y pwnc. Er hynny, hoffwn ddweud, o ran nifer o elfennau, ei bod yn ymddangos eich bod yn siarad am yr hyn y byddwn i'n ei alw'n rhyw fath o gymdeithas fawr wledig. Roedd yno'n rhywle, Ken. Efallai ichi fod yn gwrando ychydig yn rhy astud ar yr hyn y mae rhai o aelodau fy mhlaid i wedi bod yn ei ddweud, hyd yn oed os nad ydych bob amser yn fodlon cyfaddef hynny, a hyd yn oed os nad ydych eto wedi llwyddo'n union i gyflwyno'r achos yn gadarn, fel y byddwch ryw ddydd, rwyf yn siŵr, gyda'ch mainc flaen.

Janet Finch-Saunders, you spoke about the betrayal—you put it as strongly as that—of rural communities in a passionate speech, and you mentioned the not spots and hot spots that we often talk about in relation to broadband delivery and the need for fairness and equality. That can only be addressed by proper modern broadband provision. You mentioned carrier pigeons as well—the Deputy Minister for Skills appreciates a mention of carrier pigeons. [*Laughter.*] You made the very valid point that actually, too often in rural areas, people think that that is the sort of technology they have to resort to—what else is there for them to do? So, I think that comment about carrier pigeons was very well placed.

Janet Finch-Saunders, bu ichi sôn mewn araith angerddol am fradychu—bu ichi ddefnyddio gair mor gryf â hwnnw—cymunedau gwledig, a bu ichi sôn am y mannau gwan a'r mannau cryf o ran darparu band eang, yr ydym yn siarad amdanynt yn aml, a'r angen am degwch a chydraddoldeb. Yr unig ffordd o fynd i'r afael â hynny yw drwy sicrhau darpariaeth fodern a phriodol o ran band eang. Bu ichi sôn am golomennod cludo hefyd—mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau yn gwerthfawrogi unrhyw sôn am golomennod cludo. [*Chwerthin.*] Gwnaethoch y pwynt dilys iawn ynghylch y ffaith bod pobl mewn gwirionedd, yn rhy aml mewn ardaloedd gwledig, yn meddwl mai dyna'r math o dechnoleg y mae'n rhaid iddynt fod yn fodlon ag ef—beth arall y

gallant ei wneud? Felly, rwyf o'r farn bod y sylw hwnnw ynghylch colomennod cludo'n briodol iawn.

Alun Ffred Jones, you bigged up rural Wales, and you said, aside from all of the problems affecting rural Wales, that it is a great place in which to live, and I do not think that anyone would disagree that there are massive advantages to living in rural areas. That is why we want those areas to be better. We do not want the sort of drain from rural areas that, if the Welsh Government does not put enough focus on developing solutions to the problems there, will happen over time. Therefore, you sort of talked yourself around in a circle. You mentioned Holtham and the need for a new formula, and I mentioned that in my intervention.

Alun Ffred Jones, bu ichi gyflwyno darlun cadarnhaol o gefn gwlad Cymru, a bu ichi ddweud, o ddiystyru'r holl broblemau sy'n effeithio ar gefn gwlad Cymru, ei fod yn lle gwych i fyw ynddo, ac nid wyf yn meddwl y byddai neb yn anghytuno bod manteision enfawr i'w cael o fyw mewn ardaloedd gwledig. Dyna pam yr ydym am i'r ardaloedd hynny fod yn well. Nid ydym am gael y math o allfudo o ardaloedd gwledig a fydd yn digwydd gydag amser os na fydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ddigon ar ddatblygu atebion i'r problemau sydd yno. Felly, bu ichi fynd o gwmpas mewn cylch wrth siarad. Bu ichi sôn am Holtham a'r angen am fformiwla newydd, a soniais am hynny yn fy ymyriad.

**Alun Davies:** Do you agree that any substantial reductions to pillar 1 direct payments to farmers would be a retrograde step for the whole of rural Wales?

**Alun Davies:** A ydych yn cytuno y byddai unrhyw ostyngiadau sylweddol mewn taliadau uniongyrchol colofn 1 i ffermwyr yn gam tuag yn ôl ar gyfer cefn gwlad Cymru yn ei gyfanrwydd?

**Nick Ramsay:** I know that you are working hard with UK Conservative representatives in Brussels, Alun, to address all these issues. As I said, I am pleased that you are probably finding better colleagues in them than you would have done in previous UK Labour Ministers.

**Nick Ramsay:** Gwn eich bod yn gweithio'n galed gyda chynrychiolwyr Ceidwadol y DU ym Mrwsel, Alun, i fynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Fel y dywedais, rwyf yn falch eu bod hwy, fwy na thebyg, yn gydweithwyr gwell ichi na Gweinidogion Llafur blaenorol y DU.

In terms of Andrew Davies's comments, he made some well-founded arguments on the need to engage with businesses. Businesses in rural or urban areas are, at the end of the day, businesses. They need to be supported and it is no good just paying lip service to assisting rural areas—going back to Alun Ffred's comments—if you are not going to provide business rate relief and business support to those industries. So, it has been a very lively debate.

O ran sylwadau Andrew Davies, cyflwynodd rai dadleuon cadarn ynghylch yr angen i ymgysylltu â busnesau. Yn y pen draw, busnesau yw busnesau mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Mae angen iddynt gael eu cefnogi, ac nid oes diben esgus cynorthwyo ardaloedd gwledig—o fynd yn ôl at sylwadau Alun Ffred—os nad ydych yn bwriadu darparu rhyddhad ardrethi busnes a chymorth busnes i'r diwydiannau hynny. Felly, mae wedi bod yn ddadl fywiog iawn.

I will also mention Joyce Watson's contribution, because she contributed. [*Laughter.*] No better reason than that, really; I suppose it is that time of afternoon. She made an interesting point, actually—it was almost a Ken Skates type of point—about breaking down the barrier between rural and

Hoffwn sôn hefyd am gyfraniad Joyce Watson, oherwydd bu iddi hithau gyfrannu. [*Chwerthin.*] Nid oes rheswm gwell na'r rheswm hwnnw, mewn gwirionedd; mae'n debyg ei bod yr adeg honno o'r prynhawn. Gwnaeth bwynt diddorol, mewn gwirionedd—roedd yn debyg iawn i'r math o

urban areas, which was quite high fallutin' for this time of day. However, there was a point there about fairness and equality, which are the things that you talk about, Joyce, and I very much hope that one day your own Government will listen to you and do something about it.

bwyntiau y mae Ken Skates yn eu gwneud—am chwalu'r rhwystr rhwng ardaloedd gwledig a threfol, a oedd yn eithaf uchel-ael ar gyfer yr adeg hon o'r dydd. Fodd bynnag, roedd ganddi bwynt am degwch a chydraddoldeb, sef y pethau yr ydych yn sôn amdanynt, Joyce, ac rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd eich Llywodraeth eich hun, ryw ddydd, yn gwrando arnoch ac yn gwneud rhywbeth yn ei gylch.

This motion is about sending a clear signal to rural Wales that this Assembly acknowledges the challenges that those areas face and that it is eager to do something to deal with them. I think that all of us would broadly agree with that.

Mae a wnelo'r cynnig hwn ag anfon neges glir i ardaloedd gwledig Cymru bod y Cynulliad hwn yn cydnabod yr heriau y mae'r ardaloedd hynny'n eu hwynebu, a'i fod yn awyddus i wneud rhywbeth i ymdrin â hwy. Credaf y byddai pob un ohonom yn cytuno'n gyffredinol â hynny.

To conclude, probably the best way to describe the amendments to the motion is as particularly cheeky, particularly amendment 1, which seeks to replace

I gloi, mae'n debyg mai'r ffordd orau o ddisgrifio'r gwelliannau i'r cynnig yw dweud eu bod yn arbennig o ddigywilydd, yn enwedig gwelliant 1, sy'n ceisio disodli

'the viability of rural communities and businesses is being undermined by poor transport and communication infrastructure'

'hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig yn cael ei danseilio gan seilwaith cyfathrebu a thrafnidiaeth wael'

with the anodyne statement that

â'r datganiad lliniarol sy'n nodi bod

'transport and communication infrastructure play a key role in sustaining the viability of rural communities'.

'seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu yn allweddol wrth gynnal hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig'.

Well, I would have never guessed that. It certainly makes sense, but our original motion sets out in far stronger terms what needs to be said to communities in rural Wales, which is that we stand by them, we want to help them as much as possible, and we recognise that the future of Wales lies in treating urban areas and rural areas in a much fairer way, and bridging that gap, which, sadly, too often in the past, has not been dealt with by previous Assembly Governments. I urge Members to support this motion.

Wel, pwy feddyliai? Mae'n sicr yn gwneud synnwyr, ond mae ein cynnig gwreiddiol yn nodi mewn modd llawer cryfach yr hyn y mae angen ei ddweud wrth gymunedau yng nghefn gwlad Cymru, sef ein bod yn eu cefnogi, ein bod am eu helpu gymaint ag y bo modd, a'n bod yn cydnabod bod dyfodol Cymru yn ymwneud â thrin ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig yn decach o lawer a phontio'r bwlch nad yw'n anffodus, yn rhy aml yn y gorffennol, wedi cael sylw gan Lywodraethau blaenorol y Cynulliad. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Trident

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

*Cynnig NDM5027 Jocelyn Davies*

*Motion NDM5027 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn gwrthwynebu lleoli Trident, neu unrhyw arfau niwclear eraill, yn Aberdaugleddau neu yn unrhyw le arall yng Nghymru; a*

*1. Opposes the siting of Trident, or any other nuclear weapons, in Milford Haven or anywhere else in Wales; and*

*2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i beidio â bwrw ymlaen i gael olynydd i Trident ac i ddefnyddio'r adnoddau a arbedwyd i greu swyddi.*

*2. Calls on the UK Government not to proceed with the replacement of Trident and to use the resources saved to create jobs.*

**Simon Thomas:** I move the motion.

**Simon Thomas:** Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to open this debate on behalf of Plaid Cymru. I am particularly pleased to see the First Minister in his place. It is two weeks since the First Minister crashed this particular Trident submarine of job creation onto the sandbanks of inadequate policy work, and since then no amount of turbine charge reversing has been able to get the First Minister or his Government off those particular rocks. His intervention on this matter was not an off-the-cuff remark; it was a planned announcement by the First Minister, followed by an announcement by his spokesperson, followed by tweets from the official First Minister account. In a sense, he was right, because it is important that these issues are discussed by the National Assembly; it is not a fringe issue at all for us as Assembly Members, which is why we in Plaid Cymru are particularly disappointed to see the Government's amendment.

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon ar ran Plaid Cymru. Rwyf yn arbennig o falch o weld bod y Prif Weinidog yma. Mae pythefnos ers i'r Prif Weinidog ddryllio'r llong danfor Trident hon ynghylch creu swyddi ar fanciau tywod gwaith polisi annigonol, ac ers hynny, er gwaethaf eu holl ymdrechion i droi'n ôl yn gyflym iawn, nid yw'r Prif Weinidog na'i Lywodraeth wedi medru symud oddi ar y creigiau penodol hynny. Nid sylw wrth fynd heibio oedd ei ymyriad ynghylch y mater hwn; roedd yn gyhoeddiad a gynlluniwyd gan y Prif Weinidog, a ddilynwyd gan gyhoeddiad gan ei lefarydd, ac yna gan negeseuon trydar o gyfrif swyddogol y Prif Weinidog. Ar un olwg, roedd yn iawn, oherwydd mae'n bwysig bod y materion hyn yn cael eu trafod gan y Cynulliad Cenedlaethol; nid mater ymylol mohono o gwbl i ni fel Aelodau'r Cynulliad, a dyna pam yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn siomedig iawn o weld gwelliant y Llywodraeth.

There is quite an honourable tradition of Members raising the issue of Trident, nuclear weapons, job creation and the effect on

Mae tipyn o draddodiad anrhydeddus yn y Siambr hon o Aelodau'n codi mater Trident, arfau niwclear, gwaith creu swyddi a'r effaith

Wales in this Chamber. My colleague, Rhodri Glyn Thomas, has done it in the past. It was put very well by a previous Welsh Labour Minister, Jane Davidson, back in 2007, when she opposed the decision to update Trident and said the following as to why she opposed it as a then Welsh Assembly Government Minister. She said:

ar Gymru. Mae fy nghydweithiwr, Rhodri Glyn Thomas, wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Cafodd ei fynegi'n dda iawn gan gyn-Weinidog Llafur Cymru, Jane Davidson, yn ôl yn 2007, pan wrthwynebodd y penderfyniad i ddiweddaru Trident. Dyma a ddywedodd ynghylch pam yr oedd yn gwrthwynebu'r penderfyniad fel un a oedd yn Weinidog yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd. Meddai:

'This is a matter, I believe, for every Labour party member, in fact it's a matter for everyone in the United Kingdom, because what we are talking about is weapons whose purpose is killing and I feel that the evidence base has to be greater than ever before if you're taking those kinds of big decisions.'

Yn fy marn i, mae hwn yn fater i bob aelod o'r blaid Lafur; yn wir, mae'n fater i bawb yn y Deyrnas Unedig, oherwydd rydym yn sôn am arfau y bwriedir iddynt ladd, a chredaf fod yn rhaid i'r sylfaen dystiolaeth fod yn fwy nag erioed o'r blaen os ydych yn gwneud penderfyniadau mawr o'r fath.

5.15 p.m.

I think she was right, and I think that that is why we should discuss these matters, as well as the impact on our economy. She went on to say that she had the support of the then First Minister, Rhodri Morgan, in speaking out and raising these matters, although she did not say whether Rhodri Morgan agreed with her or not. I do know, however, that Julie Morgan agreed with her because, around the same time, she voted with Plaid Cymru and Liberal Democrat MPs on an opposition amendment to the then Labour Government's decision to renew Trident. Julie, I am sure, has not changed her views on whether Trident should be renewed since that time. I think that we can see now, as this debate has developed, why the Welsh Government in particular wants to change the packaging of cigarettes to a plain format: it would allow them a bit more room to scribble down their policy ideas.

Credaf ei bod yn iawn, a chredaf mai dyna pam y dylem drafod y materion hyn, yn ogystal â'r effaith ar ein heconomi. Aeth yn ei blaen i ddweud bod ganddi gefnogaeth y Prif Weinidog ar y pryd, Rhodri Morgan, i fynegi ei barn a chodi'r materion hyn, er na ddywedodd a oedd Rhodri Morgan yn cytuno â hi ai peidio. Gwn, fodd bynnag, fod Julie Morgan yn cytuno â hi oherwydd, tua'r un adeg, bu iddi bleidleisio gydag Aelodau Seneddol Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar welliant yr wrthblaid i benderfyniad y Llywodraeth Lafur ar y pryd i adnewyddu Trident. Rwyf yn siŵr nad yw Julie wedi newid ei barn ers hynny ynghylch adnewyddu Trident. Credaf y gallwn weld yn awr, wrth i'r ddadl hon ddatblygu, pam y mae Llywodraeth Cymru yn benodol am gael deunydd pacio plaen ar gyfer sigaréts: byddai hynny'n rhoi ychydig yn fwy o le iddynt sgriblo eu syniadau o ran polisi.

Since then, we have seen a further development. The nuclear-free local authorities Wales forum has produced a very important document that states that £4 billion of public money will be wasted on Trident over the next three to four years if we do not pull the plug on it now. The forum says that this money will be wasted on preparing for Trident instead of being spent on job creation and alternative ways forward. It is interesting to note that the representative of the nuclear-free local authorities Wales forum is one

Ers hynny, rydym wedi gweld datblygiad pellach. Mae fforwm awdurdodau lleol di-niwclear Cymru wedi cynhyrchu dogfen bwysig iawn sy'n nodi y bydd £4 biliwn o arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu ar Trident dros y tair i'r pedair blynedd nesaf os na fyddwn yn rhoi'r gorau i'r cynllun yn awr. Dywed y fforwm y bydd yr arian hwn yn cael ei wastraffu ar baratoi ar gyfer Trident yn hytrach na'i wario ar greu swyddi ac ar ffyrdd amgen o symud ymlaen. Mae'n ddiddorol nodi mai cynrychiolydd fforwm

David Sage, who will be known to the First Minister as his election agent and a Bridgend Labour councillor. There is no doubt that the Labour Party wants to talk about Trident, at local authority level and at national UK Government level. Indeed, the First Minister wanted to talk about it two weeks ago. We want to talk about it as well, but from the point of view of the alternative to Trident—that is, the job creation that would accrue to Wales from the cancellation of Trident.

awdurdodau lleol di-niwclear Cymru yw David Sage, a fydd yn adnabyddus i'r Prif Weinidog fel ei asiant etholiadol ac fel cynghorydd Llafur ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid oes amheuaeth nad yw'r Blaid Lafur am drafod Trident, ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol Llywodraeth y DU. Yn wir, roedd y Prif Weinidog am drafod y mater bythefnos yn ôl. Rydym ninnau'n awyddus i'w drafod hefyd, ond o safbwynt y dewis amgen yn lle Trident—hynny yw, y gwaith creu swyddi a fyddai'n dod i Gymru o ganslo Trident.

Let us look at the other aspect of what the First Minister said, because he was very specific about Trident. He did not want Trident to anchor at the new Severn barrage or to sail between Anglesey and the mainland. He wanted Trident to come to Milford Haven. What is in Milford Haven? Is it a suitable place for Trident? A fifth of the UK's energy imports come through Milford Haven now. Some 30% of our gas comes from there, through the pipeline that starts there. The two LNG terminals at Milford Haven are the largest in Europe and among the largest in the world. In addition, a quarter of the UK's motor fuel is imported through the tank farms at Milford Haven. If you drove to the Assembly, it is likely that you used fuel that came through Milford Haven.

Gadewch inni edrych ar yr agwedd arall ar yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog, oherwydd roedd yn benodol iawn ynghylch Trident. Nid oedd am i Trident angori wrth forglawdd newydd afon Hafren ac nid oedd am iddi hwylio rhwng Ynys Môn a'r tir mawr. Roedd am i Trident ddod i Aberdaugleddau. Beth sydd yn Aberdaugleddau? A yw'n lle addas ar gyfer Trident? Erbyn hyn, daw un rhan o bump o fewnforion ynni'r DU drwy Aberdaugleddau. Daw tua 30% o'n nwy oddi yno, drwy'r biblinell sy'n dechrau yno. Y ddwy derfynell LNG yn Aberdaugleddau yw'r mwyaf yn Ewrop ac maent ymhlith y mwyaf yn y byd. Yn ogystal, mae chwarter tanwydd cerbydau'r DU yn cael ei fewnforio drwy'r storfeydd olew yn Aberdaugleddau. Os bu ichi yrru i'r Cynulliad, mae'n debygol eich bod wedi defnyddio tanwydd a ddaeth drwy Aberdaugleddau.

Notwithstanding the active commercial harbour there, these industries directly support 1,200 jobs. Were Trident to come to Milford Haven, it would bring with it 1,109 jobs, which is 100 jobs fewer than are already employed at Milford Haven. Why is that important? It is important because you cannot have Trident and keep the current energy infrastructure in the haven. That was recognised as far back as 1963—the year of my birth, as it happens—when Milford Haven was considered as a potential home for the Polaris submarine. Even at that time, Milford Haven was ruled out as a submarine base because of the one oil refinery then in existence there.

Heb sôn am y porthladd masnachol prysur sydd yno, mae'r diwydiannau hyn yn cynnal 1,200 o swyddi yn uniongyrchol. Pe bai Trident yn dod i Aberdaugleddau, byddai'n dod â 1,109 o swyddi yn ei sgîl, sef 100 yn llai o swyddi na'r nifer sydd eisoes yn cael eu cyflogi yn Aberdaugleddau. Pam y mae hynny'n bwysig? Mae'n bwysig oherwydd ni allwch gael Trident a chadw'r seilwaith ynni sydd yn y porthladd ar hyn o bryd. Cafodd hynny ei gydnabod mor bell yn ôl ag 1963—blwyddyn fy ngeni, fel y mae'n digwydd—pan gafodd Aberdaugleddau ei hystyried yn gartref posibl ar gyfer y llong danfor Polaris. Hyd yn oed bryd hynny, cafodd Aberdaugleddau ei diystyried fel canolfan ar gyfer llongau tanfor oherwydd yr un burfa olew a oedd yno ar y pryd.

An academic report in 2002, by Professors

Cafodd hynny ei ailadrodd mewn adroddiad

Malcolm Chalmers and William Walker, reiterated that.

‘It remains the case that refineries would have to close if a new submarine base were to be located there.’

There is no way on earth that Trident could come to Milford Haven and not lead to the closure of the LNG terminals, the gas-fired power stations, the oil refineries, the tank farms and the pipeline that supplies gas to most of the UK’s households. Therefore, this was a very poor piece of policy making by the First Minister, very poor indeed. However, it does allow us to look at some of the alternatives, if we were to take the sensible option, by supporting today’s motion, of encouraging the UK Government to cancel the renewal of Trident altogether. There is still time. Although the Government took the decision in 2007 on the principle of renewing Trident, we are now in a gateway process, and Trident will not be subject to a final decision until 2016, after this current coalition Government has come to an end.

Let us look at the costs that we could save by not going ahead with Trident, whatever you think of weapons of mass destruction and your support for them or otherwise. The *Financial Times* reported in March a study by the British American Security Information Council think tank, whose members included Lord Browne of the Labour Party, Sir Malcolm Rifkind of the Conservatives, and Sir Menzies Campbell of the Liberal Democrats. They estimated that the renewal of Trident over its lifetime would cost £84 billion. That is £1.86 billion a year or, to use the Barnett formula, £93 million from Wales. How many more jobs could we create in Wales by using that £93 million to invest in our communities? How many more jobs could we create with the enterprise zone in Milford Haven by using part of that £93 million to invest in our communities? Therefore, the real argument that the Welsh Government should be advocating on Trident is not a naked pitch, post Scottish independence, for Trident to come to Wales but a sophisticated policy-based pitch for the jobs that we could create in Wales if Trident were cancelled and if we abandoned our

academaidd yn 2002, gan yr Athro Malcolm Chalmers a’r Athro William Walker.

Erys y ffaith y byddai’n rhaid cau purfeydd pe bai canolfan newydd ar gyfer llongau tanfor yn cael ei lleoli yno.

Nid oes ffordd ar wyneb y ddaear y gallai Trident ddod i Aberdaugleddau heb arwain at gau’r ddwy derfynell LNG, y gorsafoedd pŵer sy’n llosgi nwy, y purfeydd olew, y storfeydd olew a’r biblinell sy’n cyflenwi nwy i’r rhan fwyaf o gartrefi’r DU. Felly, roedd hwn yn ddarn gwael iawn o waith llunio polisi gan y Prif Weinidog, darn a oedd yn wael iawn yn wir. Fodd bynnag, mae’n caniatáu inni edrych ar rai o’r dewisiadau amgen, pe baem yn gwneud y peth call ac yn cefnogi cynnig heddiw i annog Llywodraeth y DU i ganslo adnewyddu Trident yn gyfan gwbl. Mae amser o’n plaid o hyd. Er i’r Llywodraeth benderfynu yn 2007 ar yr egwyddor o adnewyddu Trident, rydym bellach mewn proses *gateway*, ac ni fydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch Trident tan 2016, ar ôl i’r Llywodraeth glymblaid bresennol ddod i ben.

Gadewch inni edrych ar y costau y gallem eu harbed drwy beidio â bwrw ymlaen â Trident, ni waeth beth yw eich barn am arfau distryw mawr a’ch cefnogaeth neu’ch gwrthwynebiad iddynt. Fis Mawrth, adroddodd papur newydd y *Financial Times* ynghylch astudiaeth gan Gyngor Gwybodaeth am Ddiogelwch Prydain ac America, sef melin drafod yr oedd ei haelodau’n cynnwys yr Arglwydd Browne o’r Blaid Lafur, Syr Malcolm Rifkind o’r Ceidwadwyr a Syr Menzies Campbell o’r Democratiaid Rhyddfrydol. Bu iddynt amcangyfrif y byddai adnewyddu Trident dros oes y cynllun yn costio £84 biliwn. Mae hynny’n cyfateb i £1.86 biliwn y flwyddyn, neu, o ddefnyddio fformiwla Barnett, £93 miliwn o Gymru. Faint yn rhagor o swyddi y gallem eu creu yng Nghymru drwy fuddsoddi’r £93 miliwn hwnnw yn ein cymunedau? Faint yn rhagor o swyddi y gallem eu creu gyda’r ardal fenter yn Aberdaugleddau drwy fuddsoddi rhan o’r £93 miliwn hwnnw yn ein cymunedau? Felly, ni ddylai’r ddadl go iawn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei chyflwyno ynghylch Trident fod yn ymgais amlwg i ddenu Trident i Gymru ar ôl i’r Alban gael

delusions of grandeur as the United Kingdom, got rid of nuclear weapons and concentrated on using that money to have a proper defence policy and a policy of job creation in Wales.

annibyniaeth; yn hytrach, dylai fod yn ddadl soffistigedig sydd wedi'i seilio ar bolisi, o blaid y swyddi y gallem eu creu yng Nghymru pe bai Trident yn cael ei chanslo, a phe bai'r Deyrnas Unedig yn rhoi'r gorau i'w syniadau mawreddog, yn cael gwared ar arfau niwclear ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r arian hwnnw i gael polisi amddiffyn priodol a pholisi o greu swyddi yng Nghymru.

Since then, of course, we have been told very firmly that jobs will not be moved and Trident will not be moved. The First Minister's dream cannot come true. However, this debate has now moved on. It is really about jobs and the lack of foresight on the part of the First Minister, his lack of planning and his grasping at straws when it comes to job creation. The reason for that is clear. Since he came to post in this Government last May, he has seen unemployment in Wales go up and female unemployment in particular go up disastrously from 39,000 to 54,000 in Wales. He lacks a coherent job-creation policy for Wales. His alternative is to grab at any passing ship in the night. This is not good enough for Plaid Cymru, and we will advocate today how an alternative approach to nuclear weapons could bring a real peace dividend for job creation in Wales.

Ers hynny, wrth gwrs, rydym wedi cael gwybod yn bendant iawn na fydd swyddi'n cael eu symud ac na fydd Trident yn cael ei symud. Ni all breuddwyd y Prif Weinidog ddod yn wir. Fodd bynnag, mae'r ddadl hon wedi symud yn ei blaen erbyn hyn. Mae a wnelo mewn gwirionedd â swyddi a diffyg craffter ar ran y Prif Weinidog, ei ddiffyg cynllunio, a'i awydd i roi cynnig ar unrhyw beth o safbwynt creu swyddi. Mae'r rheswm am hynny yn glir. Ers iddo ddod i'w swydd yn y Llywodraeth hon fis Mai diwethaf, mae wedi gweld diweithdra'n cynyddu yng Nghymru, ac wedi gweld diweithdra ymhlith menywod yn arbennig yn cynyddu'n drychinebus o 39,000 i 54,000. Nid oes ganddo bolisi cydlynol ar gyfer creu swyddi i Gymru. Yn hytrach, mae'n tueddu i geisio bachu ar unrhyw gyfle a ddaw heibio. Nid yw hynny'n ddigon da i Blaid Cymru, a byddwn yn argymell heddiw sut y gallai dull amgen o ymdrin ag arfau niwclear dalu ar ei ganfed o safbwynt gwario llai ar amddiffyn er mwyn creu swyddi yng Nghymru.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*Yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i benderfynu ble y lleolir arfau niwclear ac yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn.*

*Notes that the Welsh Government has no powers to determine the siting of nuclear weapons and recognises that this is a matter for the UK Government.*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

**The First Minister (Carwyn Jones):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Julie Morgan:** I thank the Deputy Presiding Officer for calling me to speak in this debate this afternoon. I want to make a fairly short contribution. I will be supporting the Government amendment today, which makes the point that the UK Government has the power to determine the siting of nuclear

**Julie Morgan:** Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Lywydd am alw arnaf i siarad yn y ddadl hon y prynhawn yma. Rwyf am wneud cyfraniad cymharol fyr. Byddaf yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth heddiw, sy'n nodi mai Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i benderfynu ble y caiff arfau niwclear eu

weapons. In the context of this debate, I sincerely hope that Scotland remains part of the UK, and I believe that the issue of whether Trident will come to Wales is entirely hypothetical. I hope that this will continue to be hypothetical, before and after the referendum. Our efforts should be put into encouraging the Scots to stay part of the United Kingdom and stay with Wales, Northern Ireland and England. We need to be together. This referendum campaign in Scotland still has two and a half years to run, and I am sure that public opinion in Scotland will go with us when they hear from us in Wales that we want them to stay together with us. We certainly have big problems with unemployment in Wales. However, I would say that that is largely due to the policies of the coalition at Westminster.

lleoli. Yng nghyd-destun y ddadl hon, rwyf yn mawr obeithio y bydd yr Alban yn parhau'n rhan o'r DU, a chredaf mai rhywbeth cwbl ddamcaniaethol yw ystyried a fydd Trident yn dod i Gymru. Rwyf yn gobeithio y bydd yn parhau'n rhywbeth damcaniaethol, cyn ac ar ôl y refferendwm. Dylai ein hymdrechion ganolbwyntio ar annog yr Albanwyr i barhau'n rhan o'r Deyrnas Unedig ac aros gyda Chymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae angen inni fod gyda'n gilydd. Mae dwy flynedd a hanner ar ôl o hyd gan ymgyrch y refferendwm yn yr Alban, ac rwyf yn siŵr mai dyna fydd y farn gyhoeddus yn yr Alban pan fyddant yn clywed gennym ni yng Nghymru ein bod am iddynt aros gyda ni. Yn sicr, mae gennym broblemau mawr â diweithdra yng Nghymru. Fodd bynnag, byddwn yn dweud mai polisïau'r glymblaid yn San Steffan sy'n bennaf gyfrifol am hynny.

However, I want to make my position on nuclear weapons clear. Simon Thomas has already referred to me. I am sure that we all feel that a world with no nuclear weapons would be a much safer place. Cruise missiles were removed from Greenham Common. They were delivered in 1983 and their removal was completed in 1991. I think that it would be very good if that happened with other categories of nuclear weapons, such as Trident, and I think that many of us believe that. However, we do not have the power to make those decisions, and it is not a matter for us here.

Fodd bynnag, rwyf am egluro fy safbwynt ar arfau niwclear. Mae Simon Thomas eisoes wedi cyfeirio ataf. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn teimlo y byddai byd heb arfau niwclear yn lle llawer mwy diogel. Cafodd taflegrau criws eu symud o Gomin Greenham. Cawsant eu cyflwyno yn 1983 a chwblhawyd y gwaith o'u symud oddi yno yn 1991. Byddai'n dda gennyf weld yr un peth yn digwydd gyda chategorïau eraill o arfau niwclear, megis Trident, a chredaf fod llawer ohonom o'r un farn. Fodd bynnag, nid oes gennym y pŵer i wneud y penderfyniadau hynny, ac nid yw'n fater i ni yn y fan hon.

After the next UK general election, there will be a big decision to make about whether to proceed with the Trident replacement. There are obviously arguments within the coalition Government at Westminster about what will happen. My party is reviewing its policy, and I hope that there will be a change of policy in the Labour Party. However, I am under no illusion that the vote here today will decide the future of Trident or whether Trident comes to Wales. I had the opportunity to vote on this in the House of Commons in 2007, and I have voted against replacing Trident. I voted along with 90 other Labour MPs, three Plaid Cymru MPs and 56 Liberal Democrat MPs. I voted against extending this programme beyond the life of the existing system. I still hold those views today and I

Ar ôl etholiad cyffredinol nesaf y DU, bydd penderfyniad mawr i'w wneud ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r olynydd i Trident. Yn amlwg, ceir dadleuon o fewn y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan ynghylch beth fydd yn digwydd. Mae fy mhlaid yn adolygu ei pholisi, ac rwyf yn gobeithio y bydd newid ym mholisi'r Blaid Lafur. Fodd bynnag, nid wyf yn fy nhwyllo fy hun y bydd y bleidlais yn y fan hon heddiw yn penderfynu ar ddyfodol Trident neu'n penderfynu a fydd Trident yn dod i Gymru. Cefais gyfle i bleidleisio ar hyn yn Nhŷ'r Cyffredin yn 2007, ac rwyf wedi pleidleisio yn erbyn cael olynydd i Trident. Bu imi bleidleisio gyda 90 o Aelodau Seneddol eraill o'r Blaid Lafur, tri Aelod Seneddol o Blaid Cymru a 56 o Aelodau

am proud of holding those views, but this debate is completely hypothetical, and I am pleased to support the Government's amendment.

Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol. Pleidleisiais yn erbyn ymestyn y rhaglen hon y tu hwnt i oes y system bresennol. Yr un yw fy marn heddiw, ac rwyf yn falch o arddel y farn honno, ond dadl hollol ddamcaniaethol yw hon, ac mae'n bleser gennyf gefnogi gwelliant y Llywodraeth.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** In many ways, this is a debate about the kind of Wales that we want to see, and about the kind of economy that we want to build. It reflects the debate that has been taking place in Scotland, where Scottish people are now engaged in a debate about the kind of country in which they want to live. There is no doubt, of course, that jobs are the top political priority for this party. I am sure that representatives of other parties would say the same. Our economy is not as strong as it should be. More better-paid jobs are the key to turning that situation around. During our time in the One Wales Government, our Minister, Ieuan Wyn Jones, prioritised the safeguarding and creation of jobs. We would not, therefore, dispute that jobs are vital. That is one reason why we say that Trident replacement is wrong. Trident is immoral, and I am sure that many Members on the Government benches in particular would agree with that.

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Mewn sawl ffordd, mae hon yn ddadl am y math o Gymru yr ydym am ei gweld, ac am y math o economi yr ydym am ei chreu. Mae'n adlewyrchu'r ddadl sydd wedi bod yn digwydd yn yr Alban, lle y mae pobl yn cymryd rhan bellach mewn dadl am y math o wlad y maent yn dymuno byw ynddi. Wrth gwrs, nid oes amheuaeth nad swyddi yw'r brif flaenoriaeth wleidyddol i'r blaid hon. Rwyf yn siŵr y byddai cynrychiolwyr pleidiau eraill yn dweud yr un peth. Nid yw ein heconomi mor gryf ag y dylai fod. Mae cael mwy o swyddi sy'n talu'n well yn allweddol o safbwynt gwella'r sefyllfa honno. Yn ystod ein cyfnod yn rhan o Lywodraeth Cymru'n Un, rhoddodd ein Gweinidog ni, Ieuan Wyn Jones, flaenoriaeth i ddiogelu a chreu swyddi. Felly, ni fyddem yn dadlau nad yw swyddi yn hanfodol. Dyna un rheswm pam yr ydym yn dweud bod cael olynydd i Trident yn anghywir. Mae Trident yn anfoesol, ac rwyf yn siŵr y byddai llawer o Aelodau ar feinciau'r Llywodraeth yn benodol yn cytuno â hynny.

Trident replacement is also economic nonsense. If the First Minister were serious about jobs, he would be joining Plaid Cymru in opposing it. Our share of such expenditure could create many more jobs than could be created by Trident. We want jobs. We want good jobs and sustainable jobs, jobs that will be here in the long term. Ideally, we want safe jobs. In our past and currently, many of the jobs that people in Wales do are not safe. The health and wellbeing of the people of Wales at work should be a matter of concern for the Welsh Government, regardless of which party is in power.

Yn ogystal, nid yw cael olynydd i Trident yn gwneud dim synnwyr economaidd. Pe bai'r Prif Weinidog o ddifrif ynghylch swyddi, byddai'n ymuno â Phlaid Cymru i'w gwrthwynebu. Gallai ein cyfran ni o wariant o'r fath greu llawer mwy o swyddi nag y gallai Trident eu creu. Rydym am gael swyddi. Rydym am gael swyddi da a swyddi cynaliadwy, swyddi a fydd yma yn y tymor hir. Yn ddelfrydol, rydym am gael swyddi diogel. Roedd llawer o swyddi pobl yng Nghymru yn y gorffennol yn anniogel, ac mae hynny'n wir heddiw hefyd. Dylai iechyd a lles pobl Cymru yn y gwaith fod yn fater o bwys i Lywodraeth Cymru, ni waeth pa blaid sydd mewn grym.

There have been attempts to explain away the First Minister's initial welcome of Trident to Milford Haven as either an off-the-cuff remark or, alternatively, as some cunning

Cafwyd ymdrechion i egluro'r modd y bu i'r Prif Weinidog groesawu Trident i Aberdaugleddau yn y lle cyntaf, drwy ddweud ei fod naill ai'n sylw wrth fynd

plan. Whatever the truth of the matter, the fact is that the First Minister stated that nuclear weapons would be welcome in Wales. That is a statement that we take seriously, and we would not be talking about this today had that statement not been made. I cannot quite accept that the First Minister of Wales would make such a serious statement in jest. We do not, therefore, apologise for taking the First Minister seriously on this matter. We expect the First Minister of Wales to conduct himself as a serious political figure, and we believe that this statement said something serious about his values. We are of the view that the values displayed by the First Minister on this issue do not reflect the values of people in Wales or those of the Members on his backbenches—or, indeed, on his front benches. Values are important in politics, because if you do not have values, what do you have? Today's debate gives us an opportunity to consider what values we stand for here and what values we share.

heibio neu'n rhyw gynllun cyfrwys. Beth bynnag fo'r gwir, y ffaith yw bod y Prif Weinidog wedi datgan y byddai croeso i arfau niwclear yng Nghymru. Mae hwnnw'n ddatganiad yr ydym yn ei gymryd o ddifrif, ac ni fyddem yn trafod hyn heddiw pe na bai'r datganiad hwnnw wedi'i wneud. Rywsut, ni allaf dderbyn y byddai Prif Weinidog Cymru yn gwneud datganiad mor ddifrifol o ran hwyl. Nid ydym, felly, yn ymddiheuro am gymryd y Prif Weinidog o ddifrif ar y mater hwn. Rydym yn disgwyl i Brif Weinidog Cymru ymddwyn fel ffigwr gwleidyddol difrifol, a chredwn fod y datganiad hwn wedi dweud rhywbeth difrifol am ei werthoedd. Rydym o'r farn nad yw'r gwerthoedd a ddangoswyd gan y Prif Weinidog o ran y mater hwn yn adlewyrchu gwerthoedd pobl Cymru na gwerthoedd yr Aelodau sydd ar ei feinciau cefn—neu, yn wir, ar ei feinciau blaen. Mae gwerthoedd yn bwysig mewn gwleidyddiaeth, oherwydd os nad oes gennych werthoedd, beth sydd gennych? Mae'r ddadl heddiw yn rhoi cyfle inni ystyried pa werthoedd sy'n bwysig inni yn y fan hon a pha werthoedd yr ydym yn eu rhannu.

I will now address the Government's amendment, which we were disappointed to see. It is an attempt to close down debate, which is strange when it has been telling the press that it wants Plaid Cymru to keep talking about this issue. It is a fringe issue, is it not? Of course, this is a matter for the UK Government; it is not a devolved issue. However, is it not the case that we routinely have debates here that are outwith the competence of the Assembly, especially if the matter impacts on Wales? In Plaid Cymru, we are internationalists. We have pushed for debates on Palestine as well as on non-devolved matters closer to home, such as regional pay. We may be a Nationalist party, but we are not isolationist.

Yn awr, rwyf am roi sylw i welliant y Llywodraeth, yr oeddem yn siomedig i'w weld. Mae'n ymgais i atal dadl, sy'n rhyfedd wedi iddi fod yn dweud wrth y wasg ei bod am i Blaid Cymru barhau i drafod y mater hwn. Onid yw'n fater ymylol? Wrth gwrs, mater i Lywodraeth y DU yw hwn; nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, onid yw'n wir ei bod yn beth digon arferol inni drafod materion sydd y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad, yn enwedig os yw'r mater yn effeithio ar Gymru? Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn rhyng-genedlaetholwyr. Rydym wedi pwyso am ddadleuon ar Balesteina yn ogystal â materion heb eu datganoli sy'n nes adref, megis cyflogau rhanbarthol. Hwyrach ein bod yn blaid o genedlaetholwyr, ond nid ydym yn blaid o ymynyswyr.

Labour's amendment to our motion will set a precedent, whereby the UK Government parties here can try to avoid debates in future on issues such as welfare reform, say, or macroeconomic policy that impacts on Wales. Of course our time should be spent talking about the powers that we have. I ask

Bydd gwelliant Llafur i'n cynnig yn gosod cynsail, lle y gall y pleidiau yn y fan hon sy'n rhan o Lywodraeth y DU geisio osgoi dadleuon yn y dyfodol ar faterion megis diwygio lles, dyweder, neu bolisi macro-economaidd sy'n effeithio ar Gymru. Wrth gwrs, dylem dreulio ein hamser yn trafod y

again, therefore, why on earth did the First Minister make this statement about Trident? I call on all the Members in the Chamber today who have sympathy for our motion to make their voices heard. You know, do you not, that Trident should not be welcomed to Wales? You also know that Trident replacement is not the right thing to do.

pwerau sydd gennym. Gofynnaf eto, felly, pam ar wyneb y ddaear y gwnaeth y Prif Weinidog y datganiad hwn am Trident? Galwaf ar yr holl Aelodau yn y Siambr heddiw sy'n cefnogi ein cynnig i leisio eu barn. Rhaid eich bod yn gwybod na ddylid croesawu Trident i Gymru. Rydych yn gwybod hefyd nad cael olynydd i Trident yw'r peth iawn i'w wneud.

5.30 p.m.

We have a chance here today to go back to the progressive position that this country took way before the days of devolution. In 1982, the whole of Wales declared itself a nuclear weapons-free country. All councils, including Labour councils, signed up to that. Why not reaffirm that principle this afternoon? I appeal to all of you, especially Members on the Government benches—

Mae gennym gyfle yma heddiw i ddychwelyd i'r safbwynt blaengar a fabwysiadwyd gan y wlad hon ymhell cyn dyddiau datganoli. Yn 1982, bu i Gymru gyfan ddatgan ei bod yn wlad heb arfau niwclear. Roedd pob cyngor, gan gynnwys cynghorau Llafur, wedi ymrwymo i hynny. Beth am ailddatgan yr egwyddor honno y prynhawn yma? Rwyf yn erfyn ar bob un ohonoch, yn enwedig yr Aelodau ar feinciau'r Llywodraeth—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude, please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

**Leanne Wood:**—to do the right thing today by voting for our motion without the amendment.

**Leanne Wood:**—i wneud y peth iawn heddiw drwy bleidleisio o blaid ein cynnig heb y gwelliant.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to speak in this debate today. The point has been made that competency on this issue is not devolved, and what we will decide here today will have little impact. I can fully understand why Plaid Cymru has brought the motion today, which is try to extract information from the First Minister who, to date, has not explained his remarks on the floor of the Chamber in questions to the First Minister, although we have had remarks through press briefings. I hope that the First Minister will enlarge on the comments that he has made.

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw. Nodwyd eisoes nad yw cymhwysedd ynghylch y mater hwn wedi'i ddatganoli, ac mai ychydig o effaith a gaiff ein penderfyniad yma heddiw. Gallaf ddeall yn iawn pam y mae Plaid Cymru wedi cyflwyno'r cynnig heddiw, sef er mwyn ceisio cael gwybodaeth gan y Prif Weinidog sydd, hyd yma, wedi methu ag egluro ei sylwadau ar lawr y Siambr mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog, er inni gael sylwadau drwy sesiynau briffio'r wasg. Rwyf yn gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn ymhelaethu ar y sylwadau a wnaeth.

He made a valuable contribution in that he highlighted the jobs that are created by the union that is the United Kingdom. The key point here is that if Scotland does go down the road of independence, many of the 'union' jobs that would go, such as in the field of defence, would have to be relocated. That is a real discussion and debate. I, for one, would think it an enormous tragedy if Scotland pursued the route of independence.

Gwnaeth gyfraniad gwerthfawr trwy dynnu sylw at y swyddi a gaiff eu creu gan yr undeb sy'n creu'r Deyrnas Unedig. Y pwynt allweddol o ran hynny yw, os bydd yr Alban yn dewis annibyniaeth, y byddai'n rhaid adleoli llawer o swyddi'r 'undeb' a fyddai'n cael eu colli, megis ym maes amddiffyn. Mae hwnnw'n bwnc y dylid cael trafodaeth a dadl iawn yn ei gylch. Rwyf fi, yn sicr, yn credu y byddai'n drychineb enfawr pe bai'r Alban yn

That is not a surprise; I am a unionist. All the polling is showing that interest in independence is starting to wane in Scotland. There was an interesting lecture in Cardiff on Thursday of last week, in which a Scottish academic presented a notable paper on his thoughts about what is going on in Scotland. He said that the independence debate is dominating the political scene to the detriment of policy formation in the fields of education, economic development and a whole host of other fields that most people would want their devolved Government to be dealing with in order to seek improvements in their lives.

mynd ar drywydd annibyniaeth. Nid yw hynny'n syndod; rwyf yn unoliaethwr. Mae'r holl arolygon barn yn dangos bod diddordeb mewn annibyniaeth yn dechrau pylu yn yr Alban. Cafwyd darlith ddiddorol yng Nghaerdydd ddydd Iau yr wythnos diwethaf, lle y cyflwynodd academydd o'r Alban bapur nodedig ar ei deimladau am yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban. Dywedodd fod y ddadl am annibyniaeth yn cael mwy o sylw na dim byd arall ym myd gwleidyddiaeth, a hynny ar draul llunio polisïau ym maes addysg, datblygu economaidd a llu o feysydd eraill y byddai'r rhan fwyaf o bobl am i'w Llywodraeth ddatganoledig fod yn ymdrin â hwy er mwyn gwella eu bywydau.

I am a supporter of the nuclear deterrent, and my party is a supporter of the nuclear deterrent. I fully respect the views of people who do not support that view and who want to articulate the argument against it, but I believe passionately that what has given us the freedom to sit here today, and the freedom of democracies across the whole of the western world, has been the nuclear deterrent of the last 50 to 60 years. Undoubtedly that is the case. The Member for Cardiff North touched on Greenham Common and cruise missiles. It is worth noting that those cruise missiles did leave Greenham Common in 1991 after the Soviet threat had been faced down. I have no doubt—archives show this, following the end of the Soviet era—that there were real plans in place, at many junctures during the 50 years from the Second World War to the fall of the Soviet Union, for invasion from the Soviet Union. The only thing that prevented that invasion was the nuclear deterrent.

Rwyf yn un sy'n cefnogi arfau niwclear ataliol, ac mae fy mhlaid yn eu cefnogi hefyd. Rwyf yn parchu'n llwyr safbwyntiau pobl nad ydynt yn cefnogi'r farn honno ac sydd am gyflwyno'r ddadl yn ei herbyn, ond rwyf yn credu'n angerddol mai arfau niwclear ataliol yr 50 i'r 60 mlynedd diwethaf sydd wedi rhoi inni'r rhyddid i eistedd yn y fan hon heddiw, ac sydd wedi rhoi rhyddid i ddemocratiaethau ar draws y byd gorllewinol i gyd. Dyna'r gwir yn ddi-os. Cyfeiriodd yr Aelod dros Ogledd Caerdydd at Gomin Greenham a thaflegrau criws. Mae'n werth nodi bod y taflegrau hynny wedi gadael Comin Greenham yn 1991 ar ôl trechu'r bygythiad Sofietaidd. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth—mae archifau'n dangos hynny, yn dilyn diwedd y cyfnod Sofietaidd—nad oedd cynlluniau go iawn ar waith, ar sawl adeg yn ystod yr 50 mlynedd rhwng yr Ail Ryfel Byd a chwymp yr Undeb Sofietaidd, ar gyfer ymosodiad gan yr Undeb Sofietaidd. Yr unig beth a ataliodd yr ymosodiad hwnnw oedd arfau niwclear ataliol.

There is a real debate to be had as to what type of nuclear deterrent we wish to have in the twenty-first century. Should it be submarine-based or air-based? However, that is a discussion and debate that will go on in another forum, at Westminster. It was interesting listening to the Member for Mid and West Wales opening the debate today, because I felt that his defence strategy was very much a unionist defence strategy rather than a Plaid defence strategy, Ultimately, to get the consequential benefit from the Barnett formula, you have to be in the union. Your

Gellid cael dadl go iawn ynghylch pa fath o arfau niwclear ataliol yr ydym yn dymuno eu cael yn yr unfed ganrif ar hugain. A ddylent fod ar longau tanfor neu mewn awyrennau? Fodd bynnag, mae honno'n drafodaeth ac yn ddadl a fydd yn digwydd mewn fforwm arall, yn San Steffan. Roedd yn ddiddorol gwrando ar yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn agor y ddadl heddiw, oherwydd roeddwn yn teimlo bod ei strategaeth amddiffyn, i raddau helaeth iawn, yn strategaeth amddiffyn unoliaethol yn hytrach nag yn strategaeth amddiffyn i Blaid Cymru.

party, under your leader, is seeking to create the narrative about an independent Wales and how it would survive and perform economically in Europe and the rest of the world.

Yn y pen draw, i gael y budd canlyniadol o fformiwla Barnett, rhaid ichi fod yn rhan o'r undeb. Mae eich plaid chi, dan eich arweinydd chi, yn ceisio creu naratif ynghylch Cymru annibynnol a sut y byddai'n goroesi ac yn perfformio o safbwynt economaidd yn Ewrop a gweddill y byd.

There is a very real argument to be put to the First Minister in understanding where job creation is going to come in Wales, given the appalling figures on inward investment. This is something on which I have challenged him time and again. From being the second most attractive inward investment offering in 2005, new European statistics will show that we are now bottom of the league table of UK regions and nations. That is a damning indictment of the direction and policy of job and wealth creation that the Welsh Government has pursued over the last couple of years. I very much hope that he will engage in the discussion about how job creation can be made more of a theme in Government policies and how we can rectify that decline in Wales.

Mae dadl go iawn i'w chyflwyno gerbron y Prif Weinidog o ran deall o ble y daw camau i greu swyddi yng Nghymru, o ystyried y ffigurau gwarthus ar gyfer mewnfuddsoddi. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi ei herio yn ei gylch dro ar ôl tro. Cymru oedd y man mwyaf deniadol ond un ar gyfer mewnfuddsoddi yn 2005, ond bydd ystadegau Ewropeaidd newydd yn dangos ein bod bellach ar waelod y gynghrair o ranbarthau a gwledydd y DU. Mae hynny'n feirniadaeth ddamniol o'r trywydd a'r polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi eu dilyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o safbwynt creu swyddi a chyfoeth. Rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch sut y gall creu swyddi fod yn fwy o thema ym mholisïau'r Llywodraeth a sut y gallwn wneud iawn am y dirywiad hwnnw yng Nghymru.

We must always remember, as I said earlier, that we enjoy the democracy that we have today, and the democracy of the western world, unequivocally because we have had a nuclear deterrent for the last 50 to 60 years. In a world that is increasingly fraught with tensions, and with developing nations increasingly on the edge of acquiring nuclear weapons, I believe that it would irresponsible of the UK Government to give up its ability to hold a nuclear deterrent, so that, in the face of aggression, the values that we as a country hold dear, and the values that most civilized people would like to see across the whole of world, would be protected. Therefore, we will be voting against the motion and supporting the Government's amendment today.

Rhaid inni gofio bob amser, fel y dywedais yn gynharach, ein bod, heb os, yn mwynhau'r ddemocratiaeth sydd gennym heddiw, a democratiaeth y byd gorllewinol, oherwydd bod arfau niwclear ataliol wedi bod gennym dros yr 50 i'r 60 mlynedd diwethaf. Mewn byd sy'n llawn tensiwn yn gynyddol, a chyda gwledydd sy'n datblygu yn dod yn nes at gaffael arfau niwclear o hyd, credaf y byddai'n anghyfrifol i Lywodraeth y DU ildio'i gallu i gael arfau niwclear ataliol, fel y byddai modd amddiffyn, yn wyneb ymosodiad, y gwerthoedd sy'n bwysig inni fel gwlad, a'r gwerthoedd y byddai'r rhan fwyaf o bobl wâr yn hoffi eu gweld ar hyd a lled y byd. Felly, byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig ac yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth heddiw.

**Bethan Jenkins:** The Welsh Government's response to this debate has been to call into question its relevance to the Assembly and argued that the matter is already settled, even if it were settled when the First Minister first made the suggestion. There is a point to this debate, and just as it is the job of opposition

**Bethan Jenkins:** Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddadl hon fu codi amheuon ynghylch ei pherthnasedd i'r Cynulliad a dadlau bod y mater eisoes wedi ei setlo, hyd yn oed os oedd wedi ei setlo pan wnaeth y Prif Weinidog yr awgrym yn y lle cyntaf. Mae diben i'r ddadl hon, ac yn union fel y

benches to scrutinise the actions and intentions of the Welsh Government, so this debate raises serious questions about the economic competence of the Government. In the week since the First Minister first made his comments, he has attempted to reverse out of them by claiming that a newly independent Scotland, seeking to rid itself of nuclear weapons, is some kind of lesson in the economic failure of nationalism. However, I am afraid that his arguments are holed below the waterline. Does the First Minister want to protect the 1,200 jobs already at Milford Haven's refineries, along with thousands of others that support industry there? Or would he rather chase a potential 1,109 jobs that may be far less in number when transfers from Faslane are taken into account? Or does he believe that two birds in the hand are worth less than one in the bush? The First Minister has not touched at all upon the warhead storage facility at Coulport, situated in another part of Holy Loch from Faslane.

mae meinciau'r gwrthbleidiau i fod i graffu ar gamau gweithredu a bwriadau Llywodraeth Cymru, felly hefyd y mae'r ddadl hon yn codi cwestiynau difrifol ynghylch cymhwysedd economaidd y Llywodraeth. Yn ystod yr wythnos ers i'r Prif Weinidog wneud ei sylwadau gyntaf, mae wedi ceisio newid ei safiad drwy honni bod sefyllfa lle y mae Alban sydd newydd ddod yn annibynnol, sy'n ceisio cael gwared ar arfau niwclear, yn rhyw fath o wers sy'n dangos methiant economaidd cenedlaetholdeb. Fodd bynnag, mae arnaf ofn nad yw ei ddadleuon yn dal dŵr. A yw'r Prif Weinidog am ddiogelu'r 1,200 o swyddi sydd eisoes ym mhurfeydd Aberdaugleddau, ynghyd â'r miloedd o swyddi eraill sy'n cefnogi diwydiant yno? Neu a fyddai'n well ganddo fynd ar drywydd 1,109 o swyddi posibl a allai fod yn llawer llai o ran nifer ar ôl ystyried y rheini a fyddai'n trosglwyddo o Faslane? Neu a yw'n credu bod dau aderyn mewn llaw yn werth llai nag un mewn llwyn? Nid yw'r Prif Weinidog wedi cyfeirio o gwbl at y cyfleuster storio arfbennau yn Coulport, sydd mewn rhan arall o Holy Loch ar wahân i Faslane.

To bring Trident to Wales would require the construction of a new Coulport, which, when completed for the first Polaris submarines in 1968, cost £2 billion to build. In January, the *Financial Times* quoted an unnamed Ministry of Defence official who said:

Byddai dod â Trident i Gymru yn golygu bod angen creu Coulport newydd, a gostiodd £2 biliwn i'w adeiladu pan gafodd ei gwblhau ar gyfer y llongau tanfor Polaris cyntaf yn 1968. Ym mis Ionawr, dyfynnodd papur newydd y *Financial Times* un swyddog dienw o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a ddywedodd:

'Coulport is a major piece of infrastructure and it would cost billions to replace. There would certainly have to be discussions about the cost of moving that infrastructure, which would be phenomenal.'

Mae Coulport yn ddarn pwysig o seilwaith, a byddai'n costio biliynau i adeiladu canolfan newydd yn ei le. Yn sicr, byddai'n rhaid cael trafodaethau am gost symud y seilwaith hwnnw, a fyddai'n aruthrol.

Professor Malcolm Chalmers of the Royal United Services Institute think tank believes that a Coulport replacement would take around 10 years to build. No doubt, the Welsh Government would trumpet this as an investment. Giving the Welsh Government the benefit of the doubt, and taking the lowest figure of £2 billion, which, of course, does not allow for the subsequent nuclear safety legislation and other cost increases, this still amounts to £1.8 million a job, and that is assuming that the refineries remained. Therefore, this is the best-world scenario for

Mae'r Athro Malcolm Chalmers o felin drafod Sefydliad Brenhinol y Gwasanaethau Unedig o'r farn y byddai'n cymryd oddeutu 10 mlynedd i adeiladu canolfan i gymryd lle Coulport. Mae'n siŵr y byddai Llywodraeth Cymru yn datgan bod hynny'n fuddsoddiad. Gan gymryd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n briodol, a chan gymryd y ffigur isaf o £2 biliwn, nad yw, wrth gwrs, yn caniatáu ar gyfer y ddeddfwriaeth ddilynol ynghylch diogelwch niwclear, a chynnydd mewn costau eraill, mae hynny'n dal i gyfateb i £1.8 miliwn y swydd, ac mae hynny

the Welsh Government, and it makes no economic sense.

gan dybio bod y purfeydd yn cael eu cadw. Felly, dyma'r senario gorau posibl i Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n gwneud dim synnwyr economaidd.

Of course, the First Minister will argue that Wales will derive benefit from the construction phase. It is an oft-repeated Welsh Government claim, even though all construction works only last until projects are completed. Can he say, with any veracity, that we have the expertise in Wales to build such a specialist facility?

Wrth gwrs, bydd y Prif Weinidog yn dadlau y bydd Cymru yn cael budd o'r cyfnod adeiladu. Mae'n honiad a glywir yn fynych gan Lywodraeth Cymru, er nad yw pob gwaith adeiladu ond yn para hyd nes bydd prosiectau wedi eu cwblhau. A all ddweud, mewn gwirionedd, bod gennym yr arbenigedd yng Nghymru i adeiladu cyfleuster arbenigol o'r fath?

Milford Haven has already been rejected once as a potential site, as has been noted earlier, by the working party convened by the UK Government in 1963 to review basing options. The First Minister has not explained why he believes that Whitehall would choose Milford Haven over Devonport, which already has substantial naval facilities.

Mae Aberdaugleddau eisoes wedi cael ei gwrthod unwaith fel safle posibl, fel y nodwyd yn gynharach, gan y gweithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU yn 1963 i adolygu'r opsiynau ar gyfer canolfan. Nid yw'r Prif Weinidog wedi egluro pam y mae'n credu y byddai Whitehall yn dewis Aberdaugleddau dros Devonport, sydd eisoes â chyfleusterau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r llynges.

We also have to ask whether a nuclear submarine base would provide any benefit in the long term to the security of the UK. The national security strategy argues that a nuclear threat to the UK is of low likelihood. It seems that it is only the current UK Government—and now the Welsh Government it seems—that believes this relic of the cold war has a place in British modern security. These days, the threat comes from equally nuclear-well-armed countries and from extremists organisations that flourish all over the world. Therefore, it is a lot more effective and costs a lot less to build schools and hospitals than it does to drop ordnance, but that is another story.

Mae'n rhaid inni ofyn hefyd a fyddai canolfan i longau tanfor niwclear yn darparu unrhyw fudd yn y tymor hir i ddiogelwch y DU. Mae'r strategaeth diogelwch gwladol yn dadlau nad yw'n debygol iawn y bydd y DU yn wynebu bygythiad niwclear. Ymddengys mai dim ond Llywodraeth gyfredol y DU—a Llywodraeth Cymru erbyn hyn, mae'n debyg—sy'n credu bod i'r crair hwn o gyfnod y rhyfel oer le yn nhrefniadau diogelwch modern Prydain. Erbyn hyn, daw'r bygythiad o du gwledydd sydd ag arfau niwclear llawn cystal â ni ac o du sefydliadau eithafwyr, sy'n ffynnu ar draws y byd. Felly, mae'n llawer mwy effeithiol ac mae'n costio llawer llai o arian i adeiladu ysgolion ac ysbytai nag i ollwng taflegrau, ond mae honno'n stori arall.

**Kirsty Williams:** If only the constituency Member for Cardiff South and Penarth had not suddenly developed an interest in the ports of west Wales, and if only the First Minister had not tried to be funny and focused his answer instead on the development of the much welcomed enterprise zone that his Cabinet colleague has established in that particular area. However, of course, there is nothing funny about

**Kirsty Williams:** Mae'n drueni bod yr Aelod dros etholaeth De Caerdydd a Phenarth wedi datblygu diddordeb sydyn ym mhorthladdoedd y gorllewin, ac mae'n drueni bod y Prif Weinidog wedi ceisio bod yn ddoniol yn hytrach na chanolbwyntio, wrth ateb, ar y gwaith o ddatblygu'r ardal fenter y mae ei gydweithiwr yn y Cabinet wedi'i sefydlu yn yr ardal honno ac sydd i'w chroesawu'n fawr. Fodd bynnag, nid oes dim

weapons of mass destruction. I do not think that there is anything funny about a First Minister for Wales who thinks that it is appropriate within the office that he holds to make such a statement about saying that Wales would welcome the hosting of Trident on our shores, without, it seems, any thought, any serious policy development, or any consideration of the feelings of his colleagues in the Cabinet on these issues. I say that because it must be the case. If there had been any thought, any discussion, or any serious policy development or planning in this area, the First Minister would have been much more able to answer the questions of opposition Members subsequent to his announcement than he has been able to do. When he was brought back to this Chamber following his comments in questions to him, he was not able to answer any of the questions raised by Members. Instead, he just repeated his remarks that he welcomed the opportunity of bringing these particular jobs to Wales.

byd yn ddoniol am arfau distryw mawr, wrth gwrs. Nid wyf yn credu bod dim byd yn ddoniol am Brif Weinidog Cymru sy'n credu ei bod yn briodol yn y swydd y mae'n ei dal i wneud datganiad o'r fath sy'n dweud y byddai Cymru yn croesawu cael Trident ar ein glannau, a hynny, mae'n ymddangos, heb feddwl dim, heb fynd ati o ddifrif i ddatblygu polisi a heb ystyried teimladau ei gydweithwyr yn y Cabinet am y materion hyn. Dywedaf hynny oherwydd rhaid mai dyna'r gwir amdani. Pe bai unrhyw waith meddwl, unrhyw waith trafod neu unrhyw gamau o ddifrif wedi eu cymryd i gynllunio neu ddatblygu polisi yn y maes hwn, byddai'r Prif Weinidog wedi gallu rhoi atebion llawer gwell na'r rhai y bu modd iddo eu rhoi i gwestiynau Aelodau'r gwrthbleidiau yn dilyn ei gyhoeddiad. Pan gafodd ei ddwyn yn ôl i'r Siambr hon yn dilyn ei sylwadau, mewn cwestiynau iddo, nid oedd yn gallu ateb yr un o'r cwestiynau a godwyd gan yr Aelodau. Yn hytrach, y cyfan a wnaeth oedd ailadrodd ei sylwadau, sef ei fod yn croesawu'r cyfle i ddod â'r swyddi penodol hyn i Gymru.

I subsequently tabled a number of written questions—quite legitimate questions—asking what discussions the First Minister had had with the UK Government and what risk assessments the Welsh Government had carried out before making such an announcement, given the sensitivity of the site and the industries already in place there. I also asked what discussions he had had with Cabinet colleagues on these matters. The answer I got was that he had nothing to add to what he had said in the Chamber, which was not very much, let us face it. I subsequently wrote to the First Minister to ask him again to answer those three specific questions, and again, he was not able to say what discussions he has had with his Cabinet colleagues and the UK Government, and perhaps most crucially of all, what risk assessment he had carried out before making such a statement. The inability of the First Minister to answer these questions is an admission that this policy has not been thought through. I was asked by journalists yesterday what I thought had been going on in the First Minister's mind before he made that statement. I have long since given up trying to guess what goes through the First Minister's mind, but whether it was, as has

Wedi hynny, bu imi gyflwyno nifer o gwestiynau ysgrifenedig—cwestiynau eithaf dilys—yn gofyn pa drafodaethau yr oedd y Prif Weinidog wedi eu cael â Llywodraeth y DU a pha asesiadau risg yr oedd Llywodraeth Cymru wedi eu cynnal cyn gwneud cyhoeddiad o'r fath, o ystyried sensitifrwydd y safle a'r diwydiannau sydd yno eisoes. Gofynnais hefyd pa drafodaethau yr oedd wedi eu cael â chydweithwyr yn y Cabinet ynghylch y materion hyn. Yr ateb a gefais oedd nad oedd ganddo ddim i'w ychwanegu at yr hyn yr oedd wedi'i ddweud yn y Siambr, a chystal inni gyfaddef na ddywedodd lawer iawn. Yn dilyn hynny, ysgrifennais at y Prif Weinidog yn gofyn unwaith eto iddo ateb y tri chwestiwn penodol hynny, ac unwaith eto, nid oedd yn gallu dweud pa drafodaethau y mae wedi eu cael â'i gydweithwyr yn y Cabinet ac â Llywodraeth y DU, ac efallai, yn bwysicaf oll, pa asesiad risg yr oedd wedi'i gynnal cyn gwneud datganiad o'r fath. Mae anallu'r Prif Weinidog i ateb y cwestiynau hyn yn gyfaddefiad nad oes gwaith meddwl trwyadl yn sail i'r polisi hwn. Ddoe, gofynnodd newyddiadurwyr imi beth, dybiwn i, oedd yn mynd trwy feddwl y Prif Weinidog cyn iddo wneud y datganiad hwnnw. Rwyf wedi hen

been described, a cunning plan, an attempt to be funny, or an attempt to corner the new leader of Plaid Cymru, it has failed on all counts.

roi'r gorau i geisio dyfalu beth sy'n mynd trwy feddwl y Prif Weinidog, ond ni waeth a oedd, fel y disgrifiwyd, yn gynllun cyfrwys, yn ymgais i fod yn ddoniol, neu'n ymgais i gornelu arweinydd newydd Plaid Cymru, mae wedi methu ar bob cyfrif.

Let me put on the record how the Welsh Liberal Democrats feel about Trident and nuclear weapons. Our party has long campaigned against the renewal of Trident missiles. The dangers are too obvious, Carl Sargeant, to state. Given our commitment to nuclear non-proliferation, it does not seem beneficial to be pursuing ever more advanced delivery systems for these weapons. The cost of renewing Trident alone has been estimated in billions of pounds. The strategic defence review that was conducted when the UK coalition Government was formed looked at UK defence capabilities and matched them to our defence needs. I am very pleased that, as a result of that process and of pressure from my colleagues in London, the Government has extended the time frame for deciding on Trident's replacement as well as reducing the number of nuclear warheads held in each submarine. No replacement for Trident will now happen during the lifetime of this Parliament. This extension is of huge importance: it saves us money in the short term and, as the decision will not be made until absolutely necessary, it has opened a window of opportunity to review thoroughly all options available for delivering Britain's nuclear deterrent.

Hoffwn gofnodi teimladau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am Trident ac arfau niwclear. Mae ein plaid wedi ymgyrchu ers amser yn erbyn adnewyddu taflegrau Trident. Mae'r peryglon yn rhy amlwg i'w nodi, Carl Sargeant. O ystyried ein hymrwymiad i atal amlhau arfau niwclear, nid yw mynd ar drywydd systemau mwy datblygedig fyth ar gyfer defnyddio'r arfau hyn yn ymddangos yn fuddiol. Amcangyfrifwyd y byddai'n rhaid gwario biliynau o bunnoedd i adnewyddu Trident yn unig. Bu'r adolygiad strategol o drefniadau amddiffyn, a gynhaliwyd pan ffurfiwyd Llywodraeth glymblaid y DU, yn edrych ar alluoedd y DU o ran amddiffyn ac yn eu cymharu â'n hanghenion o ran amddiffyn. O ganlyniad i'r broses honno a phwysau gan fy nghydweithwyr yn Llundain, rwyf yn falch iawn bod y Llywodraeth wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer penderfynu ar olynydd i Trident a lleihau nifer yr arfbennau niwclear sy'n cael eu cadw ar bob llong danfor. Ni fyddwn yn cael olynydd i Trident yn awr yn ystod oes y Senedd hon. Mae'r estyniad hwn yn eithriadol o bwysig: mae'n arbed arian inni yn y tymor byr, a chan na fydd y penderfyniad yn cael ei wneud nes bydd hynny'n gwbl angenrheidiol, mae wedi cynnig cyfle i adolygu'n drylwyr yr holl ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer cael arfau niwclear ataliol i Brydain.

**Andrew R.T. Davies:** Will you join me in welcoming the Ministry of Defence's placing of the £1 billion contract for the new submarines to carry the new deterrent, which members of your party voted for in the House of Commons?

**Andrew R.T. Davies:** A wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r ffaith bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gosod y contract sy'n werth £1 biliwn ar gyfer y llongau tanfor newydd i gario'r arfau ataliol newydd, y bu i aelodau o'ch plaid bleidleisio drosto yn Nhŷ'r Cyffredin?

**Kirsty Williams:** What I am grateful for is that we have been able to use our influence to ensure that no replacement for Trident will be commissioned by this Government, and renewing our nuclear weapons delivery capability for the next generation is not the right response to the threat that the world currently faces. Since the cold war, the

**Kirsty Williams:** Yr hyn yr wyf yn ddiolchgar amdano yw ein bod wedi gallu defnyddio ein dylanwad i sicrhau na fydd y Llywodraeth hon yn comisiynu olynydd i Trident, ac nad adnewyddu ein gallu i ddefnyddio arfau niwclear ar gyfer y genhedlaeth nesaf yw'r ymateb cywir i'r bygythiad y mae'r byd yn ei wynebu ar hyn o

biggest threats to our country have not been from nuclear powers, but from terrorist organisations against which nuclear weapons are no defence.

bryd. Ers y rhyfel oer, nid yw'r bygythiadau mwyaf i'n gwlad wedi dod o du gwledydd sydd ag arfau niwclear; yn hytrach maent wedi dod o du sefydliadau terfysgol na all arfau niwclear wneud dim i'n hamddiffyn rhagddynt.

Lord knows we need inward investment and new jobs in our country, but asking the UK Government to put Trident in our ports in Pembrokeshire is not the way to achieve that. Perhaps instead the First Minister needs to talk to his colleague Edwina Hart about what real action can be taken to ensure that the enterprise zone that has been designated there will be a success.

Dyn a ŵyr, mae angen mewnfuddsoddi a swyddi newydd yn ein gwlad, ond nid gofyn i Lywodraeth y DU roi Trident yn ein porthladdoedd yn Sir Benfro yw'r ffordd i gyflawni hynny. Yn hytrach, efallai fod angen i'r Prif Weinidog drafod â'i gydweithiwr, Edwina Hart, pa gamau gweithredu go iawn y gellir eu cymryd i sicrhau y bydd yr ardal fenter sydd wedi ei dynodi yno'n llwyddo.

5.45 p.m.

**Mick Antoniw:** I can speak only for myself and set out my view that, all my life, I have campaigned against nuclear weapons and I see no circumstances in which that will change in the future. I would much rather that we were talking about the issues of benefit cuts or regional pay or a living wage today, but I will support the Government's amendment 1 because it is clear that we have no jurisdiction on this and there is no likelihood of jurisdiction and, as the First Minister said, the issue at the moment is totally academic. I see this as a sad waste of an opportunity for debate on issues that affect the people of Wales over which we can have some direct impact. It is sad that, in putting forward this motion—[*Interruption.*] No, I have almost finished. It is sad that this motion, which is more about posturing—[*Interruption.*] It is sad that Plaid Cymru is aspiring to be a party of posturing rather than a party of government.

**Mick Antoniw:** Dim ond drosof fy hun y gallaf siarad gan nodi fy safbwynt, sef fy mod, ar hyd fy oes, wedi ymgyrchu yn erbyn arfau niwclear ac na allaf weld unrhyw amgylchiadau lle y bydd hynny'n newid yn y dyfodol. Byddai'n llawer gwell gennyf pe baem yn trafod toriadau i fudd-daliadau, cyflogau rhanbarthol neu gyflog byw heddiw, ond byddaf yn cefnogi gwelliant rhif 1 y Llywodraeth oherwydd mae'n amlwg nad oes gennym awdurdodaeth ynghylch hyn ac nad ydym yn debygol o'i chael ac, fel y dywedodd y Prif Weinidog, mai mater hollol academaidd ydyw ar hyn o bryd. I mi, mae hwn yn achos trist o wastraffu cyfle i drafod materion sy'n effeithio ar bobl Cymru, y gallwn gael rhywfaint o effaith uniongyrchol arnynt. Mae'n drist, wrth gyflwyno'r cynnig hwn, bod—[*Torri ar draws.*] Na, rwyf bron â gorffen. Mae'n drist bod y cynnig hwn, y mae a wnelo'n fwy ag ymddygiad ymhongar—[*Torri ar draws.*] Mae'n drist mai uchelgais Plaid Cymru yw bod yn blaid sy'n ymddwyn yn ymhongar yn hytrach nag yn blaid sy'n llywodraethu.

**Nick Ramsay:** Oh dear. There is certainly posturing going on, but I do not think that it is coming from Plaid Cymru today, for once. I am pleased to contribute to this debate and I too would like to know what the First Minister was thinking on that day, which seems quite a long time ago now, because it has been discussed so much. However, I am pleased that this debate gives us an

**Nick Ramsay:** O diar. Yn sicr, mae llawer o ymddygiad ymhongar i'w weld, ond am unwaith, nid wyf o'r farn mai o gyfeiriad Plaid Cymru y mae'n dod heddiw. Rwyf yn falch o gael cyfrannu i'r ddadl hon, a hoffwn innau wybod beth oedd yn mynd trwy feddwl y Prif Weinidog ar y diwrnod hwnnw, sy'n ymddangos yn eithaf pell yn ôl erbyn hyn gan fod y mater wedi ei drafod gymaint. Fodd

opportunity to try to put this issue to rest, because we are clearly not coming to a resolution on it and it seems as though the Welsh Government, or rather the First Minister, has backtracked largely on what he said, when he said that he would welcome the nuclear weapons or the nuclear deterrent to Milford Haven.

bynnag, rwyf yn falch bod y ddadl hon yn rhoi cyfle inni geisio rhoi diwedd ar y mater, oherwydd mae'n amlwg nad ydym yn dod i benderfyniad yn ei gylch, ac mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru, neu yn hytrach y Prif Weinidog, wedi ailystyried i raddau helaeth yr hyn a ddywedodd, pan ddywedodd y byddai'n croesawu'r arfau niwclear neu'r arfau niwclear ataliol i Aberdaugleddau.

I will set my cards on the table. I have no issue with the nuclear deterrent. In fact, as Andrew Davies said earlier in his contribution, my party welcomes a replacement for Trident, whatever form that replacement may take—I think that, almost certainly, it will be a submarine-based system, but there are still discussions about exactly in what form of replacement the missiles would be. However, that is separate from the discussion about where it is based.

Byddaf yn onest. Nid wyf yn anghytuno â'r arfau niwclear ataliol. Yn wir, fel y dywedodd Andrew Davies yn gynharach yn ei gyfraniad, mae fy mhlaid yn croesawu cael olynydd i Trident, beth bynnag fo ffurf yr olynydd hwnnw—rwyf bron yn sicr mai system sy'n seiliedig ar longau tanfor fydd y system newydd, ond ceir trafodaethau o hyd am union ffurf y taflegrau newydd. Fodd bynnag, mae hwnnw'n fater ar wahân i'r drafodaeth ynghylch ble y caiff y system ei lleoli.

I will support the Government's amendment 1 which says that this is not an issue for this place. Of course it is not and thank goodness that it is not. I would much rather that the Lib Dem-Conservative coalition be dealing with this in Westminster. Lib-Dem led? No, not normally. [*Laughter*.]

Byddaf yn cefnogi gwelliant 1 y Llywodraeth, sy'n dweud nad yw hwn yn fater ar gyfer y lle hwn. Wrth gwrs nad ydyw, a diolch byth am hynny. Byddai'n well o lawer gennyf weld clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn ymdrin â hyn yn San Steffan. Dan arweiniad y Democratiaid Rhyddfrydol? Na, nid fel rheol. [*Chwerthin*.]

However, on the issue of Milford Haven, I am sure that, before he spoke, the First Minister glanced over the 1963 Polaris report—or maybe not. It is interesting, because Milford Haven was shortlisted, so you can understand why it has been considered as an option and why it could, potentially, be considered as an option again if Scotland went its own way. I agree wholeheartedly with Julie Morgan's excellent contribution earlier, when she said that she hoped and prayed that that will not be the case. That was well said. However, in that situation, there would be a discussion about other sites. Milford Haven was ruled out early on in 1963, because, at the time, Esso had just established an oil refinery, and the Ministry of Defence said that Polaris and the refinery were incompatible on safety grounds. The only way that submarines could be accommodated would be if the new oil

Fodd bynnag, o ran Aberdaugleddau, rwyf yn siŵr bod y Prif Weinidog, cyn iddo siarad, wedi bwrw golwg ar adroddiad Polaris 1963—neu efallai na wnaeth. Mae'n ddiddorol, oherwydd cafodd Aberdaugleddau ei chynnwys ar y rhestr fer, felly gallwch ddeall pam y mae wedi cael ei hystyried yn opsiwn a pham y gallai, o bosibl, gael ei hystyried yn opsiwn unwaith eto pe bai'r Alban yn mynd i'w ffordd ei hun. Cytunaf yn llwyr â chyfraniad ardderchog Julie Morgan yn gynharach, pan ddywedodd ei bod yn gobeithio ac yn gweddïo na fydd hynny'n digwydd. Clywch, clywch! Fodd bynnag, yn y sefyllfa honno, byddai safleoedd eraill yn cael eu trafod. Cafodd Aberdaugleddau ei diystyried yn gynnar yn y broses yn 1963, oherwydd, ar y pryd, roedd Esso newydd sefydlu purfa olew, a dywedodd y Weinyddiaeth Amddiffyn fod Polaris a'r burfa yn anghydnaws â'i gilydd am resymau

terminal was closed. We now have an LNG pipeline, more than one refinery and Milford Haven is supplying a large proportion of the energy needs of the UK. Therefore, if you were going to consider that as a base for the Trident weapons system or the replacement weapons system, if there is one at that point in time, all these things would have to be very seriously considered. There would probably have to be a little consultation, first with the Cabinet and, secondly, with all interested parties. I can understand why it was shortlisted and why it could be shortlisted again, but I do not think that we are anywhere near saying that Milford Haven or anywhere else in Wales should be considered as sites.

diogelwch. Yr unig ffordd y byddai modd cael llongau tanfor yno fyddai drwy gau'r derfynell olew newydd. Erbyn hyn, mae gennym biblinell LNG a mwy nag un burfa, ac mae Aberdaugleddau yn cyflenwi cyfran fawr o anghenion y DU o ran ynni. Felly, pe baech yn bwriadu ei hystyried yn ganolfan ar gyfer system arfau Trident neu'r system arfau newydd, os bydd system newydd erbyn hynny, byddai'n rhaid ystyried yr holl bethau hynny o ddifrif. Mae'n debyg y byddai'n rhaid ymgynghori ychydig â'r Cabinet yn y lle cyntaf, ac â phawb sydd â budd yn y mater yn ail. Gallaf ddeall pam yr oedd ar y rhestr fer a pham y gallai fod ar y rhestr fer eto, ond nid wyf yn credu ein bod yn agos at ddweud y dylid ystyried Aberdaugleddau neu unrhyw le arall yng Nghymru fel safleoedd.

I find it interesting that I am somebody who, as I said, has never had an issue with the UK having a nuclear deterrent. It seemed, in one afternoon, as though the Labour Party had moved from unilateral nuclear disarmament to unilateral Welsh armament, in a strange twist to a question that was originally about enterprise zones. There is a good debate to be had. I fully support the amendment in that this is an issue that lies with Westminster. Let us not rush into any decisions without full consultation and consideration of all the possibilities, because it seems to me, from this report, that Milford Haven would be a very unlikely place that you would want to base a nuclear deterrent. Bearing in mind as well that since this report was done in 1963, there has been a tightening of the safety regulations. Therefore, the distance that you need now between the armaments depot, where you would store the missiles, and the submarine base itself is larger than it was then. You certainly could not have a pipeline, linking two sides of the haven, which would be in danger of being struck by submarines. Therefore, I am happy to support the amendment, and I think that the Welsh Government needs to readdress the way it approaches these sorts of sensitive issues so that we have a proper discussion, and not one based on a whim one afternoon.

Mae'r ffaith nad wyf, fel y dywedais, erioed wedi anghytuno bod gan y DU arfau niwclear ataliol yn ddiddorol yn fy marn i. Roedd yn ymddangos bod y Blaid Lafur wedi symud, mewn un prynhawn, o ddiarfogi niwclear unochrol i arfogi unochrol yng Nghymru, mewn ymateb rhyfedd i gwestiwn a oedd yn ymwneud yn wreiddiol ag ardaloedd menter. Mae trafodaeth dda i'w chael. Rwyf yn cefnogi'r gwelliant yn llwyr, yn gymaint â bod hwn yn fater sy'n berthnasol i San Steffan. Gadewch inni beidio â rhuthro i wneud unrhyw benderfyniadau heb ymgynghori'n llawn a heb ystyried yr holl bosibiliadau yn llawn, oherwydd mae'n ymddangos i mi, o'r adroddiad hwn, y byddai Aberdaugleddau yn lle annhebygol iawn i sefydlu canolfan ar gyfer arfau niwclear ataliol ynddo. Rhaid cofio yn ogystal bod y rheoliadau diogelwch wedi'u tynhau ers i'r adroddiad hwn gael ei baratoi yn 1963. Felly, erbyn hyn, byddai arnoch angen mwy o bellter rhwng y depo arfau, lle y byddech yn storio'r taflegrau, a'r ganolfan ar gyfer llongau tanfor. Yn sicr, ni allech gael piblinell sy'n cysylltu dwy ochr y porthladd â'i gilydd, a fyddai mewn perygl o gael ei tharo gan longau tanfor. Felly, rwyf yn fodlon cefnogi'r gwelliant, a chredaf fod angen i Lywodraeth Cymru edrych o'r newydd ar y modd y mae'n ymdrin â materion sensitif tebyg i hwn er mwyn inni gael trafodaeth briodol, yn hytrach nag un sy'n seiliedig ar fympwy un prynhawn.

**Mark Drakeford:** Let me begin by saying that I, too, will be supporting the Government amendment when voting takes place later this afternoon. It is a simple matter of fact that this Assembly has no decision-making responsibilities in relation either to the holding of nuclear weapons or their location. In that sense, the Plaid Cymru motion is no more than a statement of opinion, but that is not to say that opinions are not worth putting on record, and this afternoon I wish to do that for myself.

**Mark Drakeford:** Gadewch imi ddechrau drwy ddweud y byddaf innau'n cefnogi gwelliant y Llywodraeth wrth bleidleisio yn ddiweddarach y prynhawn yma. Mae'n ffaith syml nad oes gan y Cynulliad hwn unrhyw gyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau ynghylch cael arfau niwclear na ble y dylid eu lleoli. O ran hynny, nid yw cynnig Plaid Cymru yn ddim byd mwy na datganiad o farn, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'n werth cofnodi barn, a'r prynhawn yma hoffwn wneud hynny fy hun.

My views have remained the same over the whole time that I have been involved in political activity. Earlier this afternoon, we held an excellent debate on votes at 16. By the time that I was 16, I was passionately opposed to the UK's holding of nuclear weapons. Today, I remain entirely opposed to the retention or the replacement of Trident missiles. They are, according to General Lord David Ramsbotham, Field Marshal Lord Bramall, General Sir Hugh Beach and others, massively expensive and irrelevant to Britain's defence needs, and to use the term that they used in their letter to *The Times* newspaper, 'completely useless as a deterrent', and quite certainly not in any meaningful sense, independent.

Yr un fu fy safbwyntiau drwy gydol y cyfnod yr wyf wedi bod yn gysylltiedig â gweithgarwch gwleidyddol. Yn gynharach y prynhawn yma, cawsom ddadl ardderchog ar bleidleisio yn 16 oed. Erbyn fy mhen-blwydd yn 16 oed, roeddwn yn gwrthwynebu'n chwyrn y ffaith bod gan y DU arfau niwclear. Heddiw, rwyf yn dal i wrthwynebu'n chwyrn y syniad o gadw taflegrau Trident neu gael olynydd iddynt. Yn ôl yr Arglwydd Gadfridog David Ramsbotham, yr Arglwydd Gadlywydd Bramall, y Cadfridog Syr Hugh Beach ac eraill, maent yn eithriadol o ddrud ac yn amherthnasol i anghenion Prydain o safbwynt amddiffyn ac, o ddefnyddio'r term a ddefnyddiwyd ganddynt hwy yn eu llythyr i bapur newydd *The Times*, maent yn hollol ddiwerth fel grym ataliol, ac yn sicr nid ydynt yn annibynnol mewn unrhyw fodd ystyrlon.

Trident missiles are, however, and more importantly, weapons whose impact on this planet and those who inhabit it would be so profoundly destructive that the debate about them cannot be conducted simply on the basis of their usefulness or in a military context. The debate about weapons whose use is inherently, unavoidably and deliberately causing the death of millions of people is equally inescapably and profoundly a moral debate: a debate about what any one of us would be prepared to see happen in our own names.

Fodd bynnag, ac yn bwysicach na hynny, mae taflegrau Trident yn arfau y byddai eu heffaith ar y blaned hon a'r sawl sy'n byw arni mor gwbl ddinistriol fel na all y drafodaeth yn eu cylch gael ei chynnal ar sail eu defnyddioldeb yn unig neu mewn cyd-destun milwrol. Gan fod y ddadl am arfau y byddai eu defnyddio, yn ei hanfod, yn siŵr o achosi marwolaeth miliynau o bobl yn fwriadol, mae'n anochel ei bod hefyd yn ddadl hollol foesol: mae'n ddadl ynghylch yr hyn y byddai unrhyw un ohonom yn barod i'w weld yn digwydd yn ein henwau ni.

Documents released recently by the National Archives show exactly those debates being held at the time that the Trident system was being commissioned at the start of the 1980s. It shows senior civil servants at the MOD advising Ministers that the Trident system would have to be maintained at a 'threshold of horror' where its missiles could cause at

Mae dogfennau a ryddhawyd yn ddiweddar gan yr Archifau Gwladol yn dangos i'r union ddadleuon hynny gael eu cynnal adeg comisiynu system Trident ddechrau'r 1980au. Maent yn dangos uwch-weision sifil yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynghori Gweinidogion y byddai'n rhaid cynnal system Trident ar lefel a fyddai'n codi

least the death of 10 million people, and that, in a nuclear war where Ministers were told that they would have to be prepared to finish what they had started.

arswyd lle y gallai ei thaflegrau achosi marwolaeth o leiaf 10 miliwn o bobl, a hynny mewn rhyfel niwclear lle y dywedwyd wrth Weinidogion y byddai'n rhaid iddynt fod yn barod i orffen yr hyn yr oeddent wedi'i ddechrau.

While I will be supporting the Government amendment this afternoon, I align myself with those thousands and thousands of people within my party and beyond who call now, today, for a decision to decommission Trident and to make it clear that it will not be replaced. In doing that I find myself in some strange company, because as the papers of Sir John Nott, the Conservative Secretary of State for Defence at the time, makes clear, I would be on the same side as two thirds of the members of Mrs Thatcher's Cabinet, who in 1981 were opposed to acquiring Trident in the first place.

Er y byddaf yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth y prynhawn yma, rwyf o'r un farn â'r miloedd ar filoedd o bobl yn fy mhlaid a thu hwnt sy'n galw yn awr, heddiw, am benderfyniad i ddatgomisiynu Trident ac am ddatganiad clir na fydd olynydd iddi. Wrth wneud hynny, gwelaf fy mod mewn cwmni rhyfedd, oherwydd fel y mae papurau Syr John Nott, yr Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol dros Amddiffyn ar y pryd, yn egluro, byddwn ar yr un ochr â dwy ran o dair o aelodau Cabinet Mrs Thatcher, a oedd, yn 1981, yn gwrthwynebu cael Trident yn y lle cyntaf.

Once we succeed in winning that argument, we need not rehearse the entirely theoretical argument about where such weapons might be sited. I am utterly opposed to the notion that Wales might be a home for nuclear weapons. We do not know the full destructive potential of the Trident system, because it is shrouded in secrecy, and deliberately so. However, let me take a very conservative estimate: a single atomic bomb dropped in Hiroshima killed 240,000 people from blast and radiation. Each of the four Trident submarines, let us say, carries eight missiles; each missile has five warheads; each warhead has eight times the explosive power of that single Hiroshima bomb. Just one submarine, then, has the capacity to wipe off the face of the earth a population many times that of the whole of Wales.

Pan fyddwn wedi llwyddo i ennill y ddadl honno, ni fydd angen inni ailadrodd y ddadl hollol ddamcaniaethol ynghylch ble y gellid lleoli arfau o'r fath. Rwyf yn gwrthwynebu'n llwyr y syniad y gallai Cymru fod yn gartref i arfau niwclear. Nid ydym yn gwybod beth yw holl botensial dinistriol y system Trident, oherwydd bod cymaint o gyfrinachedd ynghlwm wrthi, ac yn fwriadol felly. Fodd bynnag, gadewch imi roi amcangyfrif ceidwadol iawn: lladdodd un bom atomig a ollyngwyd yn Hiroshima 240,000 o bobl o ganlyniad i'r ffrwydriad a'r ymbelydredd. Gadewch inni ddweud bod pob un o'r pedair llong danfor Trident yn cario 8 taflegryn; bod gan bob taflegryn bump o arfbennau; a bod gan bob un o'r arfbennau hynny wyth gwaith yn fwy o bŵer ffrwydrol na'r bom a ollyngwyd ar Hiroshima. Felly, mae gan un llong danfor yn unig y gallu i ddifodi poblogaeth sydd sawl gwaith yn fwy na phoblogaeth Cymru gyfan.

We know now that the prospect of such weapons being located in Wales is not a real one, and I say, let us all be profoundly grateful for that. This is the two-hundredth anniversary of the birth of that great Welsh figure, Henry Richard. He was born in Tregaron and was the secretary of the Peace Society, the first editor of the *Morning Star*, the Member of Parliament for that great radical borough of Merthyr, and known in

Gwyddom bellach nad yw'r posibilrwydd o leoli arfau o'r fath yng Nghymru yn un go iawn, a hoffwn ddweud y dylem i gyd fod yn ddiolchgar tu hwnt am hynny. Mae'n ddeucanmlwyddiant geni'r Cymro mawr hwnnw, Henry Richard. Fe'i ganwyd yn Nhregaron ac ef oedd ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch, golygydd cyntaf y *Morning Star*, a'r Aelod Seneddol dros Ferthyr, y fwrdeistref radical wych honno, ac

Wales as '*yr apostol heddwch*', the apostle of peace, and across the world as the member for Wales. The inscription on his statue in Tregaron sums up his conclusion from a lifetime of arguing for peace, for the substitution of arbitration and negotiation in place of war, and for the voice of the ordinary citizen or soldier to be amplified in the place of Prime Ministers or generals. Here is what it says:

roedd yn adnabyddus yng Nghymru fel *'yr apostol heddwch'* ac ar draws y byd fel yr aelod dros Gymru. Mae'r arysgrif ar y cerflun ohono yn Nhregaron yn crynhoi'r casgliad y daeth iddo'n dilyn oes o ddadlau dros heddwch, dros gymodi a thrafod yn lle rhyfela, a thros godi llais y dinesydd neu'r milwr cyffredin yn uwch na llais Prif Weinidogion neu gadfridogion. Dyma y mae'n ei ddweud:

'My hope for the abatement of the war system lies in permanent conviction of the people, rather than the policies of cabinets or the discussions of parliaments'.

'Gorwedd fy ngobeithion am ddifodiant y gyfundrefn ryfel yn argyhoeddiad parhaus y bobl yn hytrach nag ym mholisïau cabinet a thrafodaethau senedd'.

It is in mobilising that great popular revulsion against the human cost of war, rather than passing resolutions here, that the defeat of Trident will be secured and sustained.

Trwy ddeffro ffieidd-dod mawr ymhlith pobl at gost ddynol rhyfel, yn hytrach na thrwy wneud penderfyniadau yn y fan hon, y mae sicrhau diwedd ar Trident a sicrhau bod y sefyllfa honno'n parhau.

**The First Minister:** I thank all the speakers who have contributed to the debate today on what is, ultimately, of course, a non-devolved issue, which is why the amendment has been tabled. We make it clear that there have been no discussions with the UK Government on this nor were there any grand plans to seek to bring Trident to Wales. It is not a fringe issue; that much is true. However, the reality is that it is an important issue, because it illustrates one of the costs of independence for Scotland. There are 6,000 jobs at Faslane and another 4,500 jobs are indirectly linked to Faslane. It shows that there are significant costs relating to independence for Scotland that need to be aired from time to time. It was in that context that I made the remarks.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r holl siaradwyr sydd wedi cyfrannu i'r ddadl heddiw am fater sydd, yn y pen draw, wrth gwrs, yn fater nad yw wedi ei ddatganoli, a dyna pam y mae'r gwelliant wedi'i gyflwyno. Rydym yn dweud yn glir na fu unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn ac nad oedd unrhyw gynlluniau mawr i geisio dod â Trident i Gymru. Nid mater ymylol mohono; mae hynny'n wir. Fodd bynnag, y gwir amdani yw ei fod yn fater pwysig, am ei fod yn dangos un o gostau annibyniaeth i'r Alban. Mae 6,000 o swyddi yn Faslane, ac mae gan 4,500 o swyddi eraill gysylltiad anuniongyrchol â Faslane. Mae'n dangos bod costau sylweddol yn gysylltiedig ag annibyniaeth i'r Alban, y mae angen eu trafod o bryd i'w gilydd. Yn y cyd-destun hwnnw y gwneuthum y sylwadau.

What is Wales's equivalent? It is Wylfa B. As a Government, we will support Wylfa B. There are families and communities who depend on it and the Welsh language depends for its existence in the north-west of Anglesey on the provision of secure jobs, which Wylfa B will bring. When I was in New Zealand in September, two of the people I met were former Anglesey Aluminium workers who had been forced to move to Queensland because there was no more work available in Anglesey. I never want to see that, and I do not want to see that happen if

Beth sy'n cyfateb i hynny yng Nghymru? Wylfa B. Fel Llywodraeth, byddwn yn cefnogi Wylfa B. Ceir teuluoedd a chymunedau sy'n dibynnu arni, ac mae bodolaeth yr iaith Gymraeg yng ngogledd-orllewin Ynys Môn yn dibynnu ar gael swyddi diogel, y bydd Wylfa B yn eu darparu. Pan oeddwn yn Seland Newydd ym mis Medi, roedd dau o'r bobl y cyfarfûm â hwy yn gyn-weithwyr o Alwminiwm Môn a oedd wedi gorfod symud i Queensland am nad oedd mwy o waith ar gael ar Ynys Môn. Nid wyf fyth am weld hynny, ac nid wyf am

Wylfa B is not built. Therefore, I call on Plaid Cymru to declare its position. Does it support those communities and families in Anglesey, or does it not?

weld hynny'n digwydd os na chaiff Wylfa B ei hadeiladu. Felly, galwaf ar Blaid Cymru i ddatgan ei safbwynt. A yw'n cefnogi'r cymunedau a'r teuluoedd hynny ar Ynys Môn, ai peidio?

It is right to say that nuclear weapons are immoral; of course they are. All weapons are immoral. We do not live in a world of peace, sadly. We know that there will be occasions when there will be a need to defend what is right. I know that, when we talk about the context of defence, and given where we are in terms of the thirtieth anniversary of the Falklands conflict, it is important that all parties should declare their view on the Falklands. Therefore, I ask Plaid Cymru for its view. Elfyn Llwyd met Argentinian diplomats. He gave an explanation, and I accept that. However, does Plaid Cymru accept that the Falkland islanders have a right to self-determination? We want to have that answer. I can tell you the answer from my point of view: I accept that right, and if aggressive action was taken against the people of the Falkland islands, I would support action being taken to withstand that aggression. It is important that Plaid Cymru explains its position. We know where it was 30 years ago, but where is it now?

Mae'n iawn dweud bod arfau niwclear yn anfoesol; wrth gwrs eu bod. Mae pob arf yn anfoesol. Nid ydym yn byw mewn byd o heddwch, yn anffodus. Gwyddom y bydd adegau pan fydd angen amddiffyn yr hyn sy'n iawn. Wrth sôn am gyd-destun amddiffyn, ac o ystyried bod 30 mlynedd ers y gwrthdaro ar Ynysoedd Falkland, gwn ei bod yn bwysig i bob plaid ddatgan ei barn am Ynysoedd Falkland. Felly, gofynnaf i Blaid Cymru am ei barn. Cyfarfu Elfyn Llwyd â diplomyddion o'r Ariannin. Rhoddodd eglurhad, ac rwyf yn derbyn hynny. Fodd bynnag, a yw Plaid Cymru yn derbyn bod gan drigolion Ynysoedd Falkland yr hawl i benderfynu drostynt eu hunain? Rydym am gael yr ateb hwnnw. Gallaf ateb o'm rhan i: rwyf yn derbyn yr hawl honno, a phe bai pobl Ynysoedd Falkland yn dioddef ymosodiad, byddwn yn cefnogi gweithredu i wrthsefyll yr ymosodiad hwnnw. Mae'n bwysig bod Plaid Cymru yn egluro ei safbwynt. Gwyddom ble'r oedd yn sefyll 30 mlynedd yn ôl, ond ble y mae'n sefyll yn awr?

I had hoped that the leader of Plaid Cymru would respond to this debate, and I was surprised that she appeared as a speaker. Much of what I am going to say applies to her in the sense of her having a chance to respond. However, I read her article in *The Scotsman* last week—I do like to read articles that are penned by those who do not share my politics. She wrapped up the issue of Trident very firmly with the issue of the constitution. She rightly said that it would be a matter for Scotland in terms of what it did in the future. She rightly makes the point that peace is important, as is the resolution of conflict—and Mark Drakeford, my colleague, mentioned Henry Richard, a pioneer in terms of professing peace in Wales and abroad.

Roeddwn wedi gobeithio y byddai arweinydd Plaid Cymru yn ymateb i'r ddadl hon, ac roeddwn yn synnu ei gweld yn ymddangos fel siaradwr. Mae llawer o'r hyn yr wyf yn bwriadu ei ddweud yn berthnasol iddi yn yr ystyr ei bod yn cael cyfle i ymateb. Fodd bynnag, darllenais ei herthygl ym mhapur newydd *The Scotsman* yr wythnos diwethaf—rwyf yn hoffi darllen erthyglau a ysgrifennir gan y sawl nad ydynt yn rhannu fy ngwleidyddiaeth. Roedd yn cysylltu Trident yn gadarn iawn â mater y cyfansoddiad. Dywedodd, yn gywir ddigon, mai mater i'r Alban yw beth y byddai'n ei wneud yn y dyfodol. Mae'n dweud, yn gywir ddigon, bod heddwch yn bwysig, yn yr un modd ag y mae datrys gwrthdaro—a chyfeiriodd fy nghydweithiwr, Mark Drakeford, at Henry Richard, a oedd yn arloeswr o safbwynt arddel heddwch yng Nghymru a thramor.

One of the ways to achieve peace, of course, is through conflict resolution. For me, the

Un ffordd o sicrhau heddwch, wrth gwrs, yw drwy ddatrys gwrthdaro. I mi, gweithred

most significant act of this decade was the handshake that was offered by the Deputy First Minister of Northern Ireland to the Queen when she visited Northern Ireland. It was truly a gesture of diplomacy, and it helped immensely in terms of resolving the conflict in Northern Ireland—a place that I know very well.

fwyaf arwyddocaol y degawd hwn oedd gweld Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon yn estyn llaw i'r Frenhines yn ystod ei hymweliad â Gogledd Iwerddon. Roedd yn wir yn arwydd o ddiplomyddiaeth, a bu'n help mawr o ran datrys y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon—sy'n lle yr wyf yn gyfarwydd iawn ag ef.

6.00 p.m.

The question then is this: if it is right for the Deputy First Minister of Northern Ireland to shake the hand of the Queen, why is it that the leader of Plaid Cymru cannot be in the same cathedral as her? The answer needs to be given. Plaid Cymru needs to explain who is correct, the leader of Plaid Cymru, or the Member for Dwyfor Meirionnydd and the leader of the Plaid Cymru group on Pembrokeshire County Council, both of whom said that it was time for Welsh republicans to grow up, as they put it. What is the true view of Plaid Cymru on this issue?

Y cwestiwn, felly, yw hwn: os yw'n iawn i Ddirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon ysgwyd llaw â'r Frenhines, pam na all arweinydd Plaid Cymru fod yn yr un eglwys gadeiriol â hi? Mae angen cael ateb i hynny. Mae angen i Blaid Cymru egluro pwy sy'n gywir, arweinydd Plaid Cymru ynteu'r Aelod dros Ddwyfor Meirionnydd ac arweinydd grŵp Plaid Cymru ar Gyngor Sir Penfro, y bu i'r ddau ohonynt ddweud ei bod yn bryd i weriniaethwyr Cymru dyfu i fyny, chwedl hwythau. Beth yw gwir farn Plaid Cymru am y mater hwn?

It is right to say, as I mentioned before, that this is a non-devolved matter, and it leads us to another currently non-devolved issue that is topical: the Green Paper. We had a debate in this Chamber not many weeks ago in which there was much common ground. The Member for Ynys Môn put forward a very sensible solution, supported by the leader of the opposition and by me, for devolution of the powers to set the electoral arrangements of the Assembly, subject to a constitutional lock of two thirds of Members voting in favour of such a change. It was an eminently sensible position. There was a debate in Westminster yesterday. Elfyn Llwyd turned up, but the other two Plaid Cymru MPs did not. I think that we need an explanation as to why that happened. Hywel Williams was not there and Jonathan Edwards was not there; I am surprised at that, because Jonathan Edwards is not usually one who keeps his own counsel, as he tends to tweet on anything and everything. Yet nothing has been said by him on what is a fundamental constitutional principle in Wales, namely the right of the people of Wales to determine their own electoral arrangements. He had nothing to say on that. I know, in good faith, the views of the Plaid Cymru group. What I do not understand is why it did not have the support

Mae'n iawn dweud, fel y soniais eisoes, bod hwn yn fater nad yw wedi ei ddatganoli, ac mae'n ein harwain at fater amserol arall nad yw wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd: y Papur Gwyrdd. Cawsom ddadl yn y Siambr ychydig wythnosau'n ôl lle y cafwyd llawer o dir cyffredin. Cynigiodd yr Aelod dros Ynys Môn ateb synhwyrol iawn, a gefnogwyd gan arweinydd yr wrthblaid a minnau, sef datganoli'r pwerau i bennu trefniadau etholiadol y Cynulliad, ar yr amod, a fyddai'n rhan o'r cyfansoddiad, bod dwy ran o dair o'r Aelodau yn pleidleisio o blaid newid o'r fath. Roedd yn safbwynt hynod synhwyrol. Cafwyd dadl yn San Steffan ddoe. Roedd Elfyn Llwyd yn bresennol, ond nid oedd y ddau Aelod Seneddol arall o Blaid Cymru yno. Credaf fod angen inni gael eglurhad ynghylch pam y digwyddodd hynny. Nid oedd Hywel Williams yno, ac nid oedd Jonathan Edwards yno; rwyf yn synnu at hynny, gan nad yw Jonathan Edwards yn un tawedog fel rheol, gan ei fod yn tueddu i drydar am bopeth dan haul. Er hynny, nid yw wedi dweud dim am fater sy'n egwyddor gyfansoddiadol sylfaenol yng Nghymru, sef hawl pobl Cymru i benderfynu ar eu trefniadau etholiadol eu hunain. Nid oedd ganddo ddim i'w ddweud am hynny. Gwn, yn ddiffuant, beth yw barn grŵp Plaid

of its own Members of Parliament at Westminster. I think that we need to be told.

Cymru. Yr hyn nad wyf yn ei ddeall yw pam na chafodd gefnogaeth ei Aelodau Seneddol ei hun yn San Steffan. Credaf fod angen inni gael gwybod.

I listened carefully to what Kirsty Williams had to say. She did send me a letter, and I will quote two paragraphs from it:

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd gan Kirsty Williams i'w ddweud. Anfonodd lythyr ataf, a dyfynnaf ddau baragraff ohono:

'To duck and hide from questions in the Senedd is one thing, but I believe you are in danger of stooping to new depths by refusing to answer official Written Assembly Questions.'

Un peth yw osgoi cwestiynau a chuddio rhagddynt yn y Senedd, ond credaf fod perygl ichi ymddwyn yn waeth nag erioed trwy wrthod ateb Cwestiynau Ysgrifenedig swyddogol y Cynulliad.

She added:

Ychwanegodd:

'Declining to answer Written Questions could open you up to accusations of showing a lack of respect and disdain for the democratic process we have in Wales'.

Gallai gwrthod ateb Cwestiynau Ysgrifenedig eich gadael yn agored i gyhuddiadau o ddangos diffyg parch a dangos dirmyg at y broses ddemocrataidd sydd gennym yng Nghymru.

The letter was clearly written by somebody under a great deal of pressure. I do not want to add to that pressure, but the line

Mae'n amlwg i'r llythyr gael ei ysgrifennu gan rywun sydd dan bwysau mawr. Nid wyf am ychwanegu at y pwysau, ond cafodd y llinell

'disdain for the democratic process we have in Wales'

dirmyg at y broses ddemocrataidd sydd gennym yng Nghymru

was penned by the leader of a party that only a few weeks previously voted to deny the people of Wales any kind of say over their own electoral arrangements. I cannot take any lessons from the Liberal Democrats in that regard. They failed to support the other three parties in this Chamber in upholding the rights of the people of Wales to ensure that the way in which they elect Members to their National Assembly is a matter for them and for no-one else. Here we have the Liberal Democrats lecturing the Government on the democratic process. It is a phrase that they fail to recognise.

ei hysgrifennu gan arweinydd plaid a bleidleisiodd, ychydig wythnosau ynghynt, dros wrthod unrhyw fath o hawl i bobl Cymru benderfynu ar eu trefniadau etholiadol eu hunain. Ni allaf wrando ar unrhyw wersi gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn y cyswllt hwnnw. Bu iddynt fethu â chefnogi'r tair plaid arall yn y Siambr hon wrth iddynt gadarnhau hawliau pobl Cymru i sicrhau mai mater iddynt hwy a neb arall yw'r ffordd y maent yn ethol Aelodau i'w Cynulliad Cenedlaethol. Dyma'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi pregeth i'r Llywodraeth am y broses ddemocrataidd. Mae'n ymadrodd nad ydynt yn ei adnabod.

I listened carefully to what Simon Thomas had to say. Once again, he reiterated the tired and lazy old line that the Government somehow has no jobs policy. I know Plaid Cymru's policy: borrow money. That is it; there is no other policy. It has no policy on jobs and no policy on skills. It had nothing in its manifesto, and it still has nothing in terms

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd gan Simon Thomas i'w ddweud. Unwaith eto, ailadroddodd yr un hen linell ddiddychymyg a diog, sef nad oes gan y Llywodraeth, rywsut, unrhyw bolisi ar swyddi. Rwyf yn gwybod beth yw polisi Plaid Cymru: benthyca arian. Dyna ni; nid oes ganddi unrhyw bolisi arall. Nid oes ganddi bolisi ar

of a coherent legislative programme. This from a party that fought in March 2011 for legislative powers for the Assembly. As a party, however, it had absolutely nothing in its manifesto, and since then, scant suggestions for new legislation.

swyddi ac nid oes ganddi bolisi ar sgiliau. Nid oedd ganddi ddim yn ei maniffesto, ac nid oes ganddi ddim o hyd o safbwynt rhaglen ddeddfwriaethol gydlynol, a hynny gan blaid a fu'n brwydro ym mis Mawrth 2011 am bwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad. Fel plaid, fodd bynnag, nid oedd ganddi ddim byd o gwbl yn ei maniffesto, ac ers hynny, prin yw'r awgrymiadau a gafwyd ganddi ar gyfer deddfwriaeth newydd.

I can say quite clearly that we will concentrate on the issues that are relevant to the people of Wales. Yes, we will also concentrate on the issues that we can do something about.

Gallaf ddweud yn hollol glir y byddwn yn canolbwyntio ar y materion sy'n berthnasol i bobl Cymru. Byddwn, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar y materion y gallwn wneud rhywbeth yn eu cylch.

**Simon Thomas:** Will the First Minister give way?

**Simon Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ildio?

**The First Minister:** I am coming to an end now.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn dod i ben yn awr.

We will focus on education, on skills, on health and above all on jobs, because we believe that that is what the people of Wales want. I can promise the Assembly and the people of Wales that this Government will never be silent when it comes to fighting the corner of the people of Wales. We will continue to make the point on the Green Paper, even though Plaid Cymru MPs did not, and we will always stand up for Wales.

Byddwn yn canolbwyntio ar addysg, ar sgiliau, ar iechyd ac yn bennaf oll ar swyddi, oherwydd credwn mai dyna y mae ar bobl Cymru ei eisiau. Gallaf addo i'r Cynulliad ac i bobl Cymru na fydd y Llywodraeth hon fyth yn dawel pan ddaw'n fater o sefyll o blaid pobl Cymru. Byddwn yn parhau i wneud y pwynt am y Papur Gwyrdd, er na wnaeth Aelodau Seneddol Plaid Cymru hynny, a byddwn bob amser yn sefyll o blaid Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel Aelod Cynulliad sydd wedi bod yma am 13 mlynedd, rwyf wedi clywed rhai cyfraniadau gwael dros y blynyddoedd, yn yr hen Siambr ac yn y Siambr hon, ond rhaid dweud mai dyna'r cyfraniad gwaethaf imi erioed ei glywed gan unrhyw Aelod Cynulliad, heb sôn am Brif Weinidog. Roedd yn barod i gyfeirio at unrhyw beth a phopeth heblaw am y pwnc dan sylw, a godwyd ganddo ef yn ei ddatganiad gwreiddiol. Yn awr, mae'n ceisio osgoi'r pwnc yn gyfan gwbl, gan wrthod egluro ei hun i'r Siambr ac i bobl Cymru, ac mae'n credu ei fod yn gallu cuddio oddi wrth y pwnc a godwyd ganddo. Rwy'n credu bod hynny'n ymddygiad gwarthus gan Brif Weinidog Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** As an Assembly Member of 13 years' standing, I have heard some poor contributions over the years, in the old Chamber and in this one, but I have to say that that was the worst contribution I have ever heard from any Assembly Member, let alone a First Minister. He was prepared to address anything and everything other than the subject for debate, which was an issue that he raised in his original statement. Now, he seeks to evade the subject completely, refusing to explain himself to the Chamber and to the people of Wales, believing that he can evade the issue that he raised. I believe that that is appalling conduct from the First Minister of Wales.

| | |
|---|---|
| Gadewch inni ddod yn ôl at y cynnig o dan sylw. Efallai y byddai'n werth darllen y cynnig hwnnw: | Let us return to the motion before us. Perhaps it would be worth reading that motion: |

‘Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

‘To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gwrthwynebu lleoli Trident, neu unrhyw arfau niwclear eraill, yn Aberdaugleddau neu yn unrhyw le arall yng Nghymru; a

1. Opposes the siting of Trident, or any other nuclear weapons, in Milford Haven or anywhere else in Wales; and

2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i beidio â bwrw ymlaen i gael olynydd i Trident ac i ddefnyddio’r adnoddau a arbedwyd i greu swyddi.’

2. Calls on the UK Government not to proceed with the replacement of Trident and to use the resources saved to create jobs.’

Mae’r cynnig yn un na all unrhyw un sy’n gwrthwynebu Trident ac sy’n credu y dylid trosglwyddo’r arian sy’n cael ei wario ar adnewyddu Trident i greu swyddi—unrhyw un sy’n credu yn yr egwyddorion sylfaenol hynny—fyth bleidleisio yn ei erbyn. Mae pobl wedi cyfeirio at Henry Richard; gallaf ddweud wrthych na fyddai Henry Richard yn pleidleisio yn erbyn y cynnig hwn pe bai yn y Siambr heddiw. Ni fyddai hyd yn oed yn ystyried gwneud hynny.

The motion is one that no-one who opposes Trident and believes that the funds spent on the replacement of Trident should be used to create jobs—no-one who believes in those fundamental principles—could ever vote against. People have referred to Henry Richard; I can tell you that Henry Richard would not vote against this motion if he were in this Chamber today. He would not even consider doing so.

Dywedaf yn garedig wrth rai Aelodau Llafur sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth hon fod gennyf barch at eich egwyddorion ar y mater hwn. Yn anfodus i chi, cyn y gallwch bleidleisio dros welliant y Llywodraeth, mae’n rhaid ichi bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn. Mae’n rhaid ichi bleidleisio yn erbyn cynnig sy’n galw am beidio â lleoli Trident yng Nghymru nac mewn unrhyw fan arall yn y Deyrnas Unedig, ac am beidio ag adnewyddu Trident. Cafwyd araith wych gan Mark Drakeford yn dangos yn glir pa mor ddiwerth yw Trident fel *deterrent* a faint o wastraff arian ydyw. Os mai dyna yw eich cred fel Aelodau Llafur, ni allwch bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn. Gallwch geisio creu unrhyw esgus o dan haul er mwyn osgoi hynny, ond y gwir yw, os ydych yn pleidleisio yn erbyn y cynnig hwn, rydych o blaid Trident, o blaid lleoli Trident yng Nghymru ac o blaid gwario ar arfau dinistriol yn hytrach nag ar wasanaethau sylfaenol i bobl y Deyrnas Unedig a Chymru.

I kindly say to some Labour Members who have contributed to this debate that I have respect for their principles on this issue. Unfortunately for you, before you can vote for the Government amendment, you will have to vote against the motion. You will have to vote against a motion that calls for opposition to the siting of Trident in Wales or anywhere else in the UK and for Trident not to be replaced. We had an excellent speech from Mark Drakeford, demonstrating clearly how useless Trident is as a deterrent and how much of a waste of money it is. If that is your belief, as Labour Members, you cannot vote against this motion. You can give every excuse under the sun in order to avoid that, but the truth is that, if you vote against this motion, you are in favour of Trident, in favour of locating Trident in Wales and in favour of spending money on weapons of mass destruction rather than on the fundamental services that the people of the UK and Wales need.

Cyfeiriaf yn fyr iawn at y cyfraniadau a wnaethpwyd. Amlinellodd Simon Thomas y maes yn glir iawn. Dangosodd Leanne Wood mai nonsens economaidd oedd y Prif Weinidog yn sôn amdano, nid yn unig wrth

I will refer briefly to the contributions made. Simon Thomas outlined the issue very clearly. Leanne Wood demonstrated that what the First Minister said was economic nonsense, not only in welcoming Trident to

groesawu Trident i Aberdaugleddau ond wrth wahodd Trident yno; dyna a wnaeth. Byddai hynny'n peryglu swyddi yn Aberdaugleddau. Nid oes 6,000 o swyddi yn y diwydiant niwclear yn yr Alban; rydych yn chwyddo'r ffigurau hynny yn fwriadol, Brif Weinidog. Byddai mwy o swyddi'n cael eu colli yn Aberdaugleddau nag a fyddai'n cael eu creu. Soniodd Bethan Jenkins am y swyddi a'r holl isadeiledd y byddai'n rhaid ei greu a'i symud o'r Alban.

Milford Haven but in inviting Trident there; that is what he did. It would endanger jobs in Milford Haven. There are not 6,000 jobs in the nuclear industry in Scotland; you are inflating those figures deliberately, First Minister. More jobs would be lost in Milford Haven than would be created. Bethan Jenkins mentioned jobs and the whole infrastructure that would have to be created and moved from Scotland.

Nododd Kirsty Williams y ffaith bod y Prif Weinidog, dro ar ôl tro, wedi gwrthod trafod y mater hwn. Y Prif Weinidog a gododd y mater, nid ni. Y Prif Weinidog a wnaeth y datganiad. Roedd yn ddatganiad hollol fwriadol, wedi'i drefnu gan rywun yn y Blaid Lafur. Gofynnodd Kirsty Williams am asesiad risg. Byddai unrhyw un a oedd wedi gwneud asesiad risg o'r datganiad a wnaethoch, Brif Weinidog, wedi dweud wrthoch i beidio â'i wneud, oherwydd y byddech yn ymddangos yn ffôl iawn a byddech wedi creu niwed enbyd i'ch hygrededd, i'ch plaid a'ch Llywodraeth.

Kirsty Williams noted the fact that the First Minister has, time and again, refused to discuss this issue. It was the First Minister who raised the issue, not us. It was the First Minister who made the statement. It was an entirely deliberate statement, prearranged by someone in the Labour Party. Kirsty Williams asked about a risk assessment. Anyone who carried out a risk assessment of the statement that you made, First Minister, would have told you not to make it, because you would appear very foolish and would cause huge damage to your credibility, your party and your Government.

Cafwyd cydnabyddiaeth gan Andrew R.T. Davies a Nick Ramsay eu bod yn credu mewn *deterrent*; mae popeth yn iawn os ydych yn credu ynddo. Y gwir amdani, yn yr oes sydd ohoni, yw nad ydynt yn gweithio, neu ni fyddem wedi gorfod mynd mewn i Irac ac ni fyddem yn Affganistan ychwaith. Dyna'r bygythiad. Nid yw Trident yn atal y bygythiad hwnnw mewn unrhyw ffordd.

Anrew R.T. Davies and Nick Ramsay acknowledged that they believe in deterrent; if that is your belief, all very well and good. The truth is that, in this day and age, it does not work, or we would not have had to go in to Iraq and we would not be in Afghanistan either. That is the threat. Trident does not prevent those threats in any way.

Gadewch inni fod yn gwbl glir—mater o egwyddor yw'r cynnig hwn. Os ydych yn credu yn wirioneddol na ddylid buddsoddi yn Trident, na ddylid lleoli Trident yng Nghymru ac y dylid dargyfeirio'r arian hwnnw i greu swyddi a chynnal gwasanaethau, ni allwch bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn. Bydd yn rhaid ichi wneud hynny gyntaf cyn eich bod yn gallu ceisio osgoi'r holl fater drwy bleidleisio o blaid gwelliant y Llywodraeth.

Let us be clear—this motion is a matter of principle. If you truly believe that we should not invest in Trident, that we should not locate Trident in Wales and that the funds should be directed towards job creation and the maintenance of services, you cannot vote against the motion. You will have to do that first before you are able to try to evade the whole issue by voting for the Government amendment.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion without amendment be agreed. Is there any objection? I see that there is, therefore all votes on this item will be deferred until voting time.

Voting time will now follow. Before we proceed with the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see not.

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn inni symud ymlaen â'r pleidleisiau, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5028: O blaid 11, Ymatal 0, Yn erbyn 41.*
*Motion NDM5028: For 11, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Cynnig NDM5023: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*
*Motion NDM5023: For 43, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Cynnig NDM5030: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.*
*Motion NDM5030: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun

George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5030: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 23.*
*Amendment 1 to NDM5030: For 29, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5030: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM5030: For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5030: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 24.*
*Amendment 3 to NDM5030: For 28, Abstain 0, Against 24.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM5030: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 23.*
*Amendment 4 to NDM5030: For 29, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn

| | |
|---|---|
| Morgan, Julie<br>Neagle, Lynne<br>Price, Gwyn R.<br>Rathbone, Jenny<br>Rees, David<br>Sargeant, Carl<br>Skates, Kenneth<br>Thomas, Gwenda<br>Watson, Joyce | Thomas, Simon<br>Whittle, Lindsay<br>Williams, Kirsty |

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM5030: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 28.*
*Amendment 5 to NDM5030: For 24, Abstain 0, Against 28.*

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:<br>The following Members voted for: | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:<br>The following Members voted against: |
|---|---|
| Asghar, Mohammad<br>Black, Peter<br>Davies, Andrew R.T.<br>Davies, Jocelyn<br>Davies, Paul<br>Davies, Suzy<br>Finch-Saunders, Janet<br>George, Russell<br>Graham, William<br>Isherwood, Mark<br>Jenkins, Bethan<br>Jones, Alun Ffred<br>Jones, Elin<br>Jones, Ieuan Wyn<br>Millar, Darren<br>Parrott, Eluned<br>Powell, William<br>Ramsay, Nick<br>Roberts, Aled<br>Sandbach, Antoinette<br>Thomas, Rhodri Glyn<br>Thomas, Simon<br>Whittle, Lindsay<br>Williams, Kirsty | Andrews, Leighton<br>Antoniw, Mick<br>Chapman, Christine<br>Cuthbert, Jeff<br>Davies, Alun<br>Davies, Keith<br>Drakeford, Mark<br>Evans, Rebecca<br>Gething, Vaughan<br>Gregory, Janice<br>Griffiths, John<br>Griffiths, Lesley<br>Hart, Edwina<br>Hedges, Mike<br>Hutt, Jane<br>James, Julie<br>Jones, Carwyn<br>Lewis, Huw<br>Mewies, Sandy<br>Morgan, Julie<br>Neagle, Lynne<br>Price, Gwyn R.<br>Rathbone, Jenny<br>Rees, David<br>Sargeant, Carl<br>Skates, Kenneth<br>Thomas, Gwenda<br>Watson, Joyce |

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

| | |
|---|---|
| *Cynnig NDM5030 fel y'i diwygiwyd:* | *Motion NDM5030 as amended:* |
| *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:* | *To propose that the National Assembly for Wales:* |
| *1. Yn credu bod:* | *1. Believes that:* |
| *a) cymunedau gwledig yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys poblogaethau sy'n heneiddio, mynediad cyfyngedig at wasanaethau yn ogystal ag arwahanrwydd* | *a) rural communities face significant challenges including ageing populations, limited access to services as well as social and economic isolation;* |

*cymdeithasol ac economaidd;*

*b) seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu yn allweddol wrth gynnal hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig;*

*b) transport and communication infrastructure play a key role in sustaining the viability of rural communities and businesses;*

*c) diwydiant ffermio Cymru yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys diogelu'r cyflenwad bwyd, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd anifeiliaid; a*

*c) the Welsh farming industry faces considerable challenges including food security, climate change and animal health; and*

*d) y £56.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yn hwb i'w groesawu mewn ardal wledig.*

*d) the £56.9 million funding from the UK government to roll out next generation broadband will be a welcome boost to rural area.*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*2. Calls on the Welsh Government to:*

*a) parhau i roi cydnabyddiaeth i amddifadedd gwledig, gan gynnwys tlodi trafnidiaeth a mynediad cyfyngedig at wasanaethau a thai fforddiadwy;*

*a) continue to give recognition to rural deprivation, including transport poverty and limited access to services and affordable housing;*

*b) sicrhau bod Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yn parhau i gyflawni ymrwymiadau y Rhaglen Lywodraethu ar amser;*

*b) ensure the Next Generation Broadband Project remains firmly on track to deliver the Programme for Government commitments on time;*

*c) cydnabod manteision ysgogi'r economi wledig drwy rhyddhad ardrethi busnes a gwell cymorth i fusnesau bach a chanolig gwledig; a*

*c) recognise the benefits of stimulating the rural economy through business rate relief and improved support for rural SMEs; and*

*d) gweithio mewn partneriaeth ag undebau ffermio a rhanddeiliaid gwledig fel bod cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.*

*d) work in partnership with farming unions and rural stakeholders to deliver effective Rural Development Programme funding.*

*Cynnig NDM5030 fel y'i diwygiwyd: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM5030 as amended: For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy

Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig NDM5030 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5030 as amended agreed.*

*Cynnig NDM5027: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 39.*
*Motion NDM5027: For 13, Abstain 0, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Davies, Jocelyn
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William

Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

6.15 p.m.

*Gwelliant 1 i NDM5027: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Amendment 1 to NDM5027: For 39, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Davies, Jocelyn
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM5027 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i benderfynu ble y lleolir arfau niwclear ac yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn.*

Motion NDM5027 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Notes that the Welsh Government has no powers to determine the siting of nuclear weapons and recognises that this is a matter for the UK Government.*

*Cynnig NDM5027 fel y'i diwygiwyd: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*
*Motion NDM5027 as amended: For 44, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Jocelyn
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay

Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM5027 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5027 as amended agreed.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### Clefydau Anghyffredin
### Rare Diseases

**Rebecca Evans:** I am very pleased to be able to sponsor this debate on rare diseases, and am grateful for the interest that other Members across the Assembly have expressed in this debate. I have agreed to allow Sandy Mewies, Russell George, Bethan Jenkins and Mark Isherwood AMs time to speak, as they were the first to ask to contribute. I apologise to David Rees, Antoinette Sandbach, Darren Millar, Gwyn Price, Ann Jones, Angela Burns, Rhodri Glyn Thomas, William Powell, and Aled Roberts for not being able to accommodate their requests to speak because of the time constraints of these short debates. However, I think that that reflects the interest that there has been.

**Rebecca Evans:** Rwyf yn falch iawn o allu noddi'r ddadl hon ar glefydau anghyffredin, ac rwyf yn ddiolchgar am y diddordeb y mae Aelodau eraill ar draws y Cynulliad wedi ei fynegi yn y ddadl hon. Rwyf wedi cytuno i ganiatáu i Sandy Mewies, Russell George, Bethan Jenkins a Mark Isherwood AC gael amser i siarad, gan mai nhw oedd y cyntaf i ofyn am gael cyfrannu. Hoffwn ymddiheuro i David Rees, Antoinette Sandbach, Darren Millar, Gwyn Price, Ann Jones, Angela Burns, Rhodri Glyn Thomas, William Powell ac Aled Roberts am fethu ag ymateb yn gadarnhaol i'w ceisiadau i siarad, oherwydd cyfyngiadau amser y dadleuon byr hyn. Fodd bynnag, credaf fod hynny'n adlewyrchu'r diddordeb a fu yn y ddadl.

Rare diseases are not rare. A rare disease is defined as any condition affecting fewer than five in 10,000 of the general population. There are over 6,000 known rare diseases. Rare diseases will affect one in 17 people at some point in their lives, which is equivalent to 175,000 people in Wales. Rather than talking about specific rare diseases, I will focus my contribution today on the common problems facing people with rare conditions and their families in Wales. These common problems include access to a timely diagnosis, misdiagnosis, lack of access to information, poor co-ordination of care, problematic transition from children's to adult services, poor access to treatment, lack of research, and inequality of provision. These are huge challenges, but I believe that

Nid yw clefydau anghyffredin yn anghyffredin. Y diffiniad o glefyd anghyffredin yw unrhyw anhwylder sy'n effeithio ar lai na phump o bob 10,000 o'r boblogaeth gyffredinol. Ceir dros 6,000 o glefydau anghyffredin y gwyddys amdanynt. Bydd clefydau anghyffredin yn effeithio ar un o bob 17 o bobl rywbryd yn ystod eu bywydau, sy'n cyfateb i 175,000 o bobl yng Nghymru. Yn hytrach na siarad am glefydau anghyffredin penodol, hoffwn ganolbwyntio yn ystod fy nghyfraniad heddiw ar y problemau cyffredin sy'n wynebu pobl ag anhwylderau anghyffredin a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'r problemau cyffredin hynny'n cynnwys diagnosis amserol, diagnosis anghywir, diffyg mynediad i wybodaeth, gofal a gaiff ei gydgysylltu'n

there are reasons to be positive.

wael, problemau pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, mynediad gwael i driniaeth, diffyg ymchwil, a darpariaeth anghyfartal. Mae'r rhain yn heriau enfawr, ond credaf fod rhesymau i fod yn gadarnhaol.

I will explain shortly why there has never been a more opportune moment for the Welsh Government to seize control of this agenda, and the recommendations that I will be making today are largely about enabling a more efficient use of resources and maximising benefits for people with rare diseases at minimum cost to Government. I will be asking for small changes that can make a huge difference to the quality of life of people with rare conditions in Wales.

Byddaf yn esbonio yn y man pam na fu adeg fwy priodol erioed i Lywodraeth Cymru ddechrau rheoli'r agenda hon, a bydd fy argymhellion heddiw'n ymwneud yn bennaf â galluogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau a sicrhau cynifer o fanteision ag sy'n bosibl i bobl â chlefydau anghyffredin, am y gost leiaf posibl i'r Llywodraeth. Byddaf yn gofyn am newidiadau bach a all wneud gwahaniaeth enfawr i ansawdd bywyd pobl sydd ag anhwylderau anghyffredin yng Nghymru.

In 2009, a Council of the European Union recommendation on action in the field of rare diseases was adopted unanimously by all member states of the European Union, including the UK. This represented a major milestone in the field of rare diseases. The move finally recognised that rare diseases are a public health priority, and acknowledged that co-operation and co-ordination across member states in rare diseases was not only logical and meaningful in terms of using available resources in the best way, but would have an enormous impact on quality of life and survival for millions of people all over Europe. Key to the EU recommendation was that each member state should have a plan or strategy in place by the end of 2013 to facilitate research and to improve access to care, treatment and support for patients affected by rare diseases.

Yn 2009, cafodd un o argymhellion Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar weithredu ym maes clefydau anghyffredin ei fabwysiadu'n unfrydol gan bob un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y DU. Roedd honno'n garreg filltir bwysig ym maes clefydau anghyffredin. Roedd y cam hwnnw'n cydnabod o'r diwedd bod clefydau anghyffredin yn flaenoriaeth o ran iechyd y cyhoedd, ac roedd yn cydnabod bod cydweithio a chydgysylltu ar draws aelod-wladwriaethau yng nghyswllt clefydau anghyffredin nid yn unig yn rhesymegol ac yn ystyrlon o safbwynt defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau posibl, ond y byddai hefyd yn cael effaith enfawr ar ansawdd bywyd miliynau o bobl ledled Ewrop, a'u gallu i oroesi. Yr hyn a oedd yn allweddol i argymhelliad yr UE oedd y ffaith y dylai fod gan bob aelod-wladwriaeth gynllun neu strategaeth ar waith erbyn diwedd 2013 i hwyluso ymchwil a gwella mynediad i ofal, triniaeth a chymorth ar gyfer cleifion y mae clefydau anghyffredin yn effeithio arnynt.

Members will be aware that a joint consultation by each of the UK's health departments on a plan for rare diseases closed at the end of May, and we await the Government's response to the consultation. I am pleased that each of the UK's health departments are collaborating to develop a UK plan for rare diseases, and I urge the Welsh Government to push for a UK cross-border implementation group to be

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod ymgynghoriad ar y cyd gan bob un o adrannau iechyd y DU ynghylch cynllun ar gyfer clefydau anghyffredin wedi dod i ben ddiwedd mis Mai, ac rydym yn aros am ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad. Rwyf yn falch bod pob un o adrannau iechyd y DU yn cydweithredu i ddatblygu cynllun y DU ar gyfer clefydau anghyffredin, ac rwyf yn annog Llywodraeth Cymru i bwyso am

established to ensure delivery of that strategy. Given the context of devolution, and the differing directions of the Welsh and English health services, it is essential that the rare disease plan delivers for people living with rare conditions and their families in Wales. To this end, I am asking the Welsh Government to commit to ensuring the development and implementation of a Wales-specific plan for rare diseases in Wales.

sefydlu grŵp gweithredu trawsffiniol ar gyfer y DU er mwyn sicrhau bod y strategaeth honno'n cael ei gweithredu. O ystyried cyd-destun datganoli, a'r cyfeiriadau gwahanol y mae gwasanaethau iechyd Cymru a Lloegr yn mynd iddynt, mae'n hanfodol bod y cynllun ar gyfer clefydau anghyffredin yn darparu ar gyfer pobl sy'n byw gydag anhwylderau anghyffredin yng Nghymru, a'u teuluoedd. I'r perwyl hwnnw, rwyf yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod cynllun penodol i Gymru ar gyfer clefydau anghyffredin yn cael ei ddatblygu a'i weithredu yng Nghymru.

The Wales plan will need to give clear detail on how the UK plan will be implemented in Wales, complete with timescales and outcome measures. However, it should not be limited to that. A commitment to a delivery plan would represent the single most significant step since devolution towards improving support and outcomes for people with rare diseases in Wales. If the Minister takes away only one thing from this debate, I hope it would be that.

Bydd angen i gynllun Cymru roi manylion clir ynghylch sut y bydd cynllun y DU yn cael ei weithredu yng Nghymru, a bydd angen iddo gynnwys amserlenni a dulliau o fesur canlyniadau. Fodd bynnag, ni ddylai gael ei gyfyngu i hynny. Ymrwymo i gynllun cyflawni fyddai'r cam unigol mwyaf arwyddocaol ers datganoli o safbwynt symud tuag at wella cymorth a chanlyniadau ar gyfer pobl yng Nghymru sydd â chlefydau anghyffredin. Pe na bai'r Gweinidog ond yn cofio un peth o'r ddadl hon, rwyf yn gobeithio y byddai'n cofio hynny.

It is essential that there is accountability for the delivery and implementation of any plan. I would be grateful if the Minister would consider ensuring that the delivery of the UK plan, and any associated Wales plan, is explicitly included within the remit of a designated team within the Welsh Government's Department of Health and Social Services, and that a national lead for rare diseases is appointed in Wales.

Mae'n hanfodol sicrhau atebolrwydd am ddarparu a gweithredu unrhyw gynllun. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn ystyried sicrhau bod y gwaith o gyflawni cynllun y DU, ac unrhyw gynllun cysylltiedig yng Nghymru, yn cael ei gynnwys yn glir yng nghylch gwaith tîm penodedig yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a sicrhau bod arweinydd cenedlaethol ar gyfer clefydau anghyffredin yn cael ei benodi yng Nghymru.

There are compelling evidence-based reasons why we need to act. Obtaining a timely diagnosis is a major problem for many people with a rare disease. Almost half of people with a rare disease wait over a year for a final diagnosis following the onset of symptoms, one in five waits over five years, and a further 12% wait over 10 years.

Ceir rhesymau grymus, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i esbonio pam y mae angen inni weithredu. Mae cael diagnosis amserol yn broblem fawr i lawer o bobl sydd â chlefyd anghyffredin. Mae bron i hanner y bobl sydd â chlefyd anghyffredin yn gorfod aros dros flwyddyn am ddiagnosis terfynol ar ôl i'r symptomau ddechrau ymddangos, mae un o bob pump yn gorfod aros dros bum mlynedd, ac mae 12% arall yn gorfod aros dros 10 mlynedd.

Obtaining an accurate diagnosis is also crucial, and misdiagnosis is a major problem.

Mae cael diagnosis cywir hefyd yn hollbwysig, ac mae diagnosis anghywir yn

Almost half of rare disease patients were given an incorrect diagnosis before receiving a final diagnosis. Delays in diagnosis and multiple visits to doctors is a drain on NHS resources, which could be more efficiently used if the diagnostic pathway for rare diseases was improved. I will say more on that later. It can also be very stressful for patients and their families to be passed from doctor to doctor, without anyone being able to confirm a diagnosis.

broblem fawr. Cafodd bron i hanner y cleifion sydd â chlefyd anghyffredin ddiagnosis anghywir cyn cael diagnosis terfynol. Mae oedi o ran diagnosis ac ymweliadau niferus â meddygon yn dreth ar adnoddau'r GIG, a gellid defnyddio'r adnoddau hynny'n fwy effeithlon pe bai'r llwybr diagnostig ar gyfer clefydau anghyffredin yn cael ei wella. Byddaf yn sôn mwy am hynny'n nes ymlaen. Yn ogystal, gall cleifion a'u teuluoedd ddioddef llawer o straen wrth iddynt gael eu trosglwyddo o'r naill feddyg i'r llall, heb fod neb yn gallu cadarnhau'r diagnosis.

Let us listen to what people with rare conditions are telling us: 'I have a genetic disease, but was not diagnosed until I was 42, although I had attended chest consultants regularly since the age of seven', said one patient with primary ciliary dyskinesia. 'My GP thought he was attention seeking, suffering middle-child syndrome', said the parent of a child with Langerhans cell histiocytosis.

Gadewch inni wrando ar yr hyn y mae pobl ag anhwylderau anghyffredin yn ei ddweud wrthym: 'Mae gennyf glefyd genetig, ond ni chafodd ei ddiagnosio tan yr oeddwn yn 42 oed, er imi ymweld â meddygon ymgynghorol ym maes y frest yn rheolaidd ers pan oeddwn yn saith oed', meddai un claf sydd â dyscinesia blewynnol cychwynnol. 'Roedd fy meddyg teulu yn meddwl ei fod yn chwilio am sylw a'i fod yn dioddef o syndrom y plentyn canol', meddai rhiant plentyn sydd â histiocytosis celloedd Langerhans.

The Welsh Government can make a strong commitment to improving diagnosis for people with rare diseases by exploring with health boards the use of new computer systems that lead clinicians to consider a broader range of diseases when making diagnoses at GP and secondary care level. It is also my view that rare diseases should feature more prominently in the medical curricula for all doctors, including GPs and secondary care health professionals.

Gall Llywodraeth Cymru ymrwymo'n gryf i wella diagnosis ar gyfer pobl â chlefydau anghyffredin drwy archwilio, gyda byrddau iechyd, y posibilrwydd o ddefnyddio systemau cyfrifiadurol newydd sy'n arwain clinigwyr i ystyried ystod ehangach o glefydau wrth roi diagnosis ar lefel meddyg teulu a lefel gofal eilaidd. Rwyf hefyd o'r farn y dylai clefydau anghyffredin gael lle mwy amlwg mewn cwricwla meddygol ar gyfer pob meddyg, gan gynnwys meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd eilaidd.

Three quarters of rare diseases can affect children. However, the UK national screening committee's criteria for inclusion in the newborn screening programme currently work against diagnosing rare diseases. This needs to be addressed. When we consider that a third of children with a rare disease will die before their fifth birthday, there can be no excuse for not doing everything that we possibly can to improve the experience of and speed of diagnosis of rare diseases in Wales.

Gall tri chwarter y clefydau anghyffredin sy'n bodoli effeithio ar blant. Fodd bynnag, mae meini prawf pwyllgor sgrinio cenedlaethol y DU ar gyfer cynnwys clefydau yn y rhaglen sgrinio babanod newydd-anedig yn gweithio yn erbyn diagnosio clefydau anghyffredin ar hyn o bryd. Mae angen mynd i'r afael â hynny. O ystyried y bydd traean y plant sydd â chlefyd anghyffredin yn marw cyn cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed, nid oes esgus dros beidio â gwneud popeth o fewn ein gallu i wella profiad pobl o glefydau

anghyffredin yng Nghymru a chyflymder diagnosis.

The co-ordination of care for people with rare diseases also needs to be improved. One constituent has been in touch with me to tell me about the experiences of her son, who has the rare disease tuberous sclerosis, along with epilepsy, autism and learning difficulties. She is happy for me to share her family's experiences. Her son is under the care of eight different consultants, and a host of other professionals. Last year, the Welsh Health Specialised Services Committee refused referral to a specialist in England, but neither the family nor their GP were informed. The family spent months thinking that the young man was on a waiting list, but he was not. In the meantime, he also developed osteoporosis and had two fractures.

Yn ogystal, mae angen gwella'r modd y caiff gofal ar gyfer pobl â chlefydau anghyffredin ei gydgysylltu. Mae un o'm hetholwyr wedi bod mewn cysylltiad â mi i sôn wrthyf am brofiadau ei mab, sydd â sglerosis clorog, sy'n glefyd anghyffredin, ynghyd ag epilepsi, awtistiaeth a phroblemau clywed. Mae'n fodlon imi rannu profiadau ei theulu ag eraill. Mae ei mab dan ofal wyth o wahanol feddygon ymgynghorol, a llu o weithwyr proffesiynol eraill. Y llynedd, gwrthododd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gyfeirio ei mab at arbenigwr yn Lloegr, ond ni chafodd y teulu na'r meddyg teulu wybod hynny. Am fisoedd, roedd y teulu'n meddwl bod y dyn ifanc ar restr aros, ond nid felly'r oedd. Yn y cyfamser, dechreuodd ddatblygu osteoporosis hefyd a dioddefodd ddau achos o dorri asgwrn.

Sadly this kind of situation is not uncommon. Patients with rare diseases often suffer from fragmented and poorly co-ordinated care, which can have a devastating effect on their health and wellbeing. However, it does not have to be that way. I am pleased that the Welsh Government has already committed to ensuring that every patient with a chronic condition, including rare diseases, should have an agreed, personalised, and regularly updated care plan. That is a good step forward. I would be grateful for an agreement from the Minister that every patient with a multi-system rare disease in Wales should also have a named care co-ordinator to ensure smooth and timely delivery of care.

Yn anffodus, nid yw sefyllfa o'r fath yn anarferol. Mae cleifion â chlefydau anghyffredin yn aml yn dioddef o ofal tameidiog a gaiff ei gydgysylltu'n wael, sy'n gallu cael effaith ddinistriol ar eu hiechyd a'u lles. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i bethau fod felly. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i sicrhau y dylai fod gan bob claf sydd ag anhwylder cronig, gan gynnwys clefydau anghyffredin, gynllun gofal personol y cytunwyd arno ac a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae hynny'n gam da ymlaen. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn cytuno y dylai pob claf sydd â chlefyd anghyffredin amlsystem yng Nghymru gael cydgysylltydd gofal a enwir hefyd er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n hwylus ac yn amserol.

Transition from paediatric services to adult services can also be fraught with difficulties for people with rare diseases and their families. Problems can be medical, psychological, financial and social. I am pleased that the Welsh Government has acknowledged the seriousness of the issues that young people face in transition, and is seeking to make improvements through its social services Bill, which includes a proposal to give Welsh Ministers powers to specify what transitional services and

Gall y cyfnod pontio o wasanaethau pediatrig i wasanaethau oedolion fod yn llawn anawsterau hefyd i bobl â chlefydau anghyffredin a'u teuluoedd. Gall y problemau hynny fod yn rhai meddygol, seicolegol, ariannol a chymdeithasol. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod difrifoldeb y problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth bontio, a'i bod yn ceisio gwneud gwelliannau drwy ei Mesur gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cynnwys cynnig i roi pwerau i Weinidogion Cymru

assistance local authorities will be required to provide. This is a significant step forward, and I warmly welcome it.

nodi pa gymorth a gwasanaethau pontio y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol eu darparu. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen, ac rwyf yn ei groesawu'n gynnes.

As information on rare diseases and their management is often scarce and difficult to find, it is important that the NHS arms people with the information that they need. One family said that they received a phone call for a diagnosis on new year's eve with a comment from the GP saying, 'I don't know anything about it—go on the computer to look it up'. 'We didn't have a computer', said the relative of a patient.

Gan fod gwybodaeth am glefydau anghyffredin a'r modd y dylid eu rheoli yn aml yn brin ac yn anodd ei chanfod, mae'n bwysig bod y GIG yn sicrhau bod gan bobl y wybodaeth y mae arnynt ei hangen. Dywedodd un teulu iddynt gael galwad ffôn yn rhoi diagnosis ryw Nos Galan, ac i'r meddyg teulu ddweud, 'Nid wyf yn gwybod dim byd amdano—ewch ar y cyfrifiadur i chwilio am wybodaeth'. 'Nid oedd gennym gyfrifiadur,' meddai perthynas y claf.

At this point, I want to take the opportunity to express my sincere thanks to the many local and national voluntary organisations that offer excellent information, support, advocacy and advice for people affected by rare diseases. Their contribution can never be overestimated. For many people with rare conditions, who may otherwise feel isolated, they are an absolute lifeline. Unfortunately, however, for many rare diseases, there are no support groups. To help with this information deficit, I would like the Welsh Government to explore the introduction of an information prescription that should be made available to patients when they are diagnosed with a rare disease, specifying what information should be received, when and from whom about a range of health and social care issues.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn yn awr i fynegi fy niolch diffuant i'r llu o fudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol sy'n cynnig gwybodaeth, cymorth, eiriolaeth a chyngor ardderchog i bobl y mae clefydau anghyffredin yn effeithio arnynt. Ni ellir byth rhoi gwerth rhy uchel ar eu cyfraniad. I lawer o bobl sydd ag anhwylderau anghyffredin, a allai deimlo'n unig fel arall, maent yn hollol hanfodol. Yn anffodus, fodd bynnag, nid oes grwpiau cymorth ar gael ar gyfer llawer o glefydau anghyffredin. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg hwn o ran gwybodaeth, hoffwn pe bai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno presgripsiwn gwybodaeth a ddylai fod ar gael i gleifion pan fyddant yn cael diagnosis o glefyd anghyffredin, sy'n nodi pa wybodaeth y dylid ei chael am ystod o faterion iechyd a gofal cymdeithasol, pryd y dylid cael y wybodaeth honno a chan bwy.

The European Union envisages that the member states' rare disease plans will help to co-ordinate research. It is disappointing that the UK's consultation on the rare disease plan gave little consideration to how rare disease research can be supported in Wales. We need to ensure better collaboration and a more integrated and strategic approach to research and development into rare diseases. Disease registries, as well as being a valuable research tool, can provide essential information for clinical care, planning and service delivery. I would be grateful for an update on whether the Welsh Government has any plans to create a disease register in Wales.

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn rhagweld y bydd cynlluniau'r aelod-wladwriaethau ar gyfer clefydau anghyffredin yn helpu i gydgysylltu gwaith ymchwil. Mae'n siomedig bod ymgynghoriad y DU ynghylch y cynllun ar gyfer clefydau anghyffredin wedi rhoi cyn lleied o ystyriaeth i'r modd y gellid cefnogi ymchwil i glefydau anghyffredin yng Nghymru. Mae angen inni sicrhau cydweithredu gwell ac agwedd fwy integredig a strategol at ymchwil a datblygu ym maes clefydau anghyffredin. Yn ogystal â bod yn adnodd ymchwil gwerthfawr, gall cofrestrau clefydau ddarparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer gofal clinigol, gwaith cynllunio a gwaith darparu gwasanaethau. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd cael y

wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i greu cofrestr clefydau yng Nghymru.

In preparing for this debate, I have spoken to and received correspondence from people affected by rare diseases and their families, and the organisations that represent them. It is clear to me that there is an expectation that Wales must rise to meet this challenge of delivering equality of provision for people with rare diseases in health and social care. There is an expectation that the Welsh Government will grasp the opportunity presented by the EU's recommendation to ensure that the resulting plan delivers measurable improvements for people living with rare diseases in Wales. I look forward to the Minister's response.

Wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon, bûm yn siarad â phobl y mae clefydau anghyffredin yn effeithio arnynt ac yn siarad â'u teuluoedd a mudiadau sy'n eu cynrychioli, a chefais ohebiaeth ganddynt. Mae'n amlwg i mi eu bod yn disgwyl y bydd yn rhaid i Gymru ymateb i'r her hon sy'n ymwneud â sicrhau darpariaeth gyfartal ar gyfer pobl â chlefydau anghyffredin ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle a gynigir gan argymhelliad yr UE er mwyn sicrhau bod y cynllun a fydd yn deillio o'r argymhelliad yn arwain at welliannau mesuradwy i bobl sy'n byw gyda chlefydau anghyffredin yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog.

**Sandy Mewies:** I will be brief, because I know that there are other speakers. I thank Rebecca Evans for the opportunity today to examine the impact that rare diseases and conditions have on individuals and families. This weekend, I will be taking part in a sponsored walk in Holywell in my constituency, which it is hoped will raise money for research into nephrotic syndrome, which was recently diagnosed in the three-year-old son of a local family. This affects about 10,000 people in the UK and it is likely that most people here and anywhere else will never have heard of it. Minister, as I said, my time is limited, but I ask that you consider doing two things: first, support research wherever possible into this syndrome and, secondly, echoing what Rebecca Evans has said so eloquently, wherever possible, raise public awareness of both this syndrome and other rare diseases so that, once people get a diagnosis, they are pointed straight away to any help, information and support that they can have.

**Sandy Mewies:** Byddaf yn gryno, oherwydd gwn fod siaradwyr eraill hefyd. Diolch i Rebecca Evans am y cyfle heddiw i archwilio'r effaith y mae clefydau ac anhwylderau anghyffredin yn ei chael ar unigolion a theuluoedd. Y penwythnos hwn, byddaf yn cymryd rhan mewn taith gerdded noddedig yn Nhreffynnon yn fy etholaeth, a'r gobaith yw y bydd yn codi arian ar gyfer ymchwil i syndrom neffrotig, y cafwyd gwybod yn ddiweddar ei fod yn effeithio ar fab teirblwydd oed teulu lleol. Mae'r clefyd yn effeithio ar oddeutu 10,000 o bobl yn y DU, ac mae'n debyg na fydd y rhan fwyaf o bobl yma ac mewn mannau eraill erioed wedi clywed amdano. Weinidog, fel y dywedais, mae fy amser wedi'i gyfyngu, ond gofynnaf ichi ystyried gwneud dau beth: yn gyntaf, cefnogi ymchwil i'r syndrom hwn, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ac yn ail, gan adleisio'r hyn y mae Rebecca Evans wedi ei fynegi mor huawdl, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r syndrom hwn a chlefydau anghyffredin eraill, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fel bod pobl, unwaith y byddant wedi cael diagnosis, yn cael eu cyfeirio ar unwaith at unrhyw help, gwybodaeth a chymorth sydd ar gael iddynt.

**Russell George:** I thank Rebecca Evans for allowing me a brief time to contribute. I want to touch on two issues. First, in relation to research, there are concerns about the lack of disease research in Wales. Our higher

**Russell George:** Diolch i Rebecca Evans am ganiatáu amser byr imi gyfrannu. Rwyf am grybwyll dau fater. Yn gyntaf, o ran ymchwil, ceir pryderon am ddiffyg ymchwil i glefydau yng Nghymru. Mae gan ein

education institutions have a role to play here. I am specifically thinking of the role that Swansea University is currently playing in the development and implementation of the multiple sclerosis register for the whole of the UK. I cannot see why we cannot pilot and implement a rare disease register for Wales. The Government should do all that it can to facilitate that work in partnership with universities and third sector organisations. Briefly, my second point is in relation to access to medicines. I know that Rare Disease UK has raised concerns about access to all for medicines and an individual patient funding policy. My plea to the Minister is to ensure that, while the all-Wales prioritisation framework is being worked on, there is a strong focus on equality of access to medicines for patients affected by rare diseases.

sefydliadau addysg uwch rôl i'w chwarae o ran hynny. Rwyf yn meddwl yn benodol am y rôl y mae Prifysgol Abertawe yn ei chwarae ar hyn o bryd o ran datblygu a gweithredu'r gofrestr sglerosis ymledol ar gyfer y DU gyfan. Ni allaf weld pam na allwn dreialu a gweithredu cofrestr clefydau anghyffredin ar gyfer Cymru. Dylai'r Llywodraeth wneud popeth o fewn ei gallu i hwyluso gwaith a wneir mewn partneriaeth â phrifysgolion a mudiadau'r trydydd sector. Yn fyr, mae fy ail bwynt yn ymwneud â mynediad i feddyginiaethau. Gwn fod Rare Disease UK wedi mynegi pryderon ynghylch mynediad ar gyfer pawb i feddyginiaethau a pholisi cyllido ar gyfer cleifion unigol. Fy mhle i'r Gweinidog yw iddi sicrhau, tra bydd gwaith yn mynd rhagddo ar y fframwaith blaenoriaethu ar gyfer Cymru gyfan, y rhoddir ffocws cryf ar fynediad cyfartal i feddyginiaethau ar gyfer cleifion y mae clefydau anghyffredin yn effeithio arnynt.

**Bethan Jenkins:** I thank Rebecca Evans for giving me a minute of her time. As she indicated earlier, collectively, rare diseases are not rare, and we have to recognise the importance of this issue. The people who have contacted me about this short debate have highlighted that they would like top-quality care and services to be available in Wales regardless of their location or condition. At present, I understand that patients with rare diseases already make heavy demands on the resources of both health and social services, but those resources are often used inefficiently due to delays in diagnosis, misdiagnosis, fragmented care and so on. We should promote the development of centres of excellence, networks of experts to aid communication and the use of multidisciplinary teams and clinics.

**Bethan Jenkins:** Diolch i Rebecca Evans am roi munud o'i hamser imi. Fel y nododd yn gynharach, gyda'i gilydd nid yw afiechydon anghyffredin yn anghyffredin, a rhaid inni gydnabod pwysigrwydd y mater hwn. Mae'r bobl sydd wedi cysylltu â mi ynghylch y ddadl fer hon wedi tynnu sylw at y ffaith y byddent yn hoffi pe bai gofal a gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gael yng Nghymru, ni waeth ble y maent neu beth yw'r anhwylder sydd ganddynt. Ar hyn o bryd, deallaf fod cleifion â chlefydau anghyffredin eisoes yn pwyso'n drwm ar adnoddau gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ond yn aml caiff yr adnoddau hynny eu defnyddio'n aneffeithlon oherwydd oedi o ran diagnosis, diagnosis anghywir, gofal tameidiog ac yn y blaen. Dylem hyrwyddo gwaith datblygu canolfannau rhagoriaeth, rhwydweithiau o arbenigwyr i hybu cyfathrebu, a'r defnydd o dimau a chlinigau amlddisgyblaethol.

Other concerns that I have heard is that many people with rare diseases spend a great deal of time travelling to see consultants in different specialities, and it would ease pressure on them and lead to a more integrated consultation, diagnosis and treatment programme if it were possible to integrate consultant services in one specialist clinic in Wales. Those were the main issues that I wanted to raise and I thank Rebecca

Mae pryderon eraill yr wyf wedi eu clywed yn ymwneud â'r ffaith bod llawer o bobl sydd â chlefydau anghyffredin yn treulio llawer o amser yn teithio i weld meddygon ymgynghorol ym maes gwahanol arbenigeddau, a phe bai modd integreiddio gwasanaethau meddygon ymgynghorol mewn un clinig arbenigol yng Nghymru, byddai hynny'n lleihau'r pwysau sydd ar gleifion ac yn arwain at raglen fwy integredig

Evans for raising this issue for debate today.

o ymgynghoriadau, diagnosis a thriniaeth. Dyna'r prif faterion yr oeddwn am eu codi, a diolchaf i Rebecca Evans am godi'r mater hwn i'w drafod heddiw.

6.30 p.m.

**Mark Isherwood:** I thank Rebecca Evans very much for allowing me to speak at the last minute and also for highlighting the fact that 175,000 people in Wales will be affected by a rare disease at some time in their lives. Like many Members, I have received many e-mails from constituents asking me to speak in this debate, including the person to whom Sandy Mewies referred, who has nephrotic syndrome, and I have also been asked to attend the sponsored walk. Sadly, I have been told that there is no cure for this condition, which affects the filtering system of the kidneys. I also have a constituent in Anglesey who has been diagnosed with idiopathic intracranial hypertension, a serious neurological disorder.

**Mark Isherwood:** Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Rebecca Evans am ganiatáu imi siarad ar y funud olaf, a hefyd am dynnu sylw at y ffaith y bydd clefyd anghyffredin yn effeithio ar 175,000 o bobl yng Nghymru rywbryd yn ystod eu bywydau. Fel nifer o Aelodau, rwyf wedi cael llawer o negeseuon e-bost gan etholwyr yn gofyn imi siarad yn y ddadl hon, gan gynnwys yr unigolyn y cyfeiriodd Sandy Mewies ato, sydd â syndrom neffrotig, a gofynnwyd i mi hefyd fynychu'r daith gerdded noddedig. Yn anffodus, cefais wybod nad oes modd gwella'r anhwylder hwn sy'n effeithio ar system hidlo'r arennau. Mae gennyf etholwr yn Ynys Môn hefyd sydd wedi cael diagnosis o orbwysedd mewngreuanol idiopathig, sy'n anhwylder niwrolegol difrifol.

Rebecca referred to the consultation by the UK Government on behalf of the four UK health departments, which I believe concluded on 25 May. Each of the constituents who has written to me has concluded by saying that it is crucial that the Welsh Government implement this plan in Wales and address some of the specific issues relating to the provision of services for patients in Wales, such as tackling long delays in diagnosis, misdiagnosis, and a lack of treatment options, information and support. Thank you, Rebecca.

Cyfeiriodd Rebecca at yr ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU ar ran pedair adran iechyd y DU, y credaf iddo ddod i ben ar 25 Mai. Mae pob un o'r etholwyr sydd wedi ysgrifennu ataf wedi dod i'r casgliad ei bod yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r cynllun hwn yng Nghymru a'i bod yn mynd i'r afael â rhai o'r materion penodol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghymru, megis mynd i'r afael ag oedi hir o ran diagnosis, diagnosis anghywir, a diffyg dewisiadau o ran triniaeth, gwybodaeth a chymorth. Diolch, Rebecca.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Rebecca Evans for bringing forward this very important issue for debate and I thank the four Members who spoke for their contributions.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Hoffwn ddiolch i Rebecca Evans am gyflwyno'r mater pwysig iawn hwn i'w drafod, a hoffwn ddiolch i'r pedwar Aelod a siaradodd am gyfrannu hefyd.

As Members are aware, a 'rare' disease is one affecting fewer than five in 10,000 people, and more than 5,000 rare diseases have been identified to date. Rare diseases can affect anyone at any stage of their lives, and people being treated for rare diseases need support from a range of professions

Fel y gŵyr yr Aelodau, clefyd 'anghyffredin' yw clefyd sy'n effeithio ar lai na phump o bob 10,000 o bobl, ac mae dros 5,000 o glefydau anghyffredin wedi eu nodi hyd yma. Gall clefydau anghyffredin effeithio ar unrhyw un ar unrhyw adeg yn ystod eu bywydau, ac mae ar bobl sy'n cael triniaeth

including general practitioners, diagnostic staff, specialist nurses and clinicians, social care, as well as family and friends. Sadly, as has already been stated, 75% of rare diseases affect children and 30% of these children will die before their fifth birthday. Therefore, it is very important to raise awareness of such rare diseases as nephrotic syndrome, which Sandy Mewies mentioned.

ar gyfer clefydau anghyffredin angen cymorth gan ystod o broffesiynau, gan gynnwys meddygon teulu, staff diagnostig, nyrsys a chlinigwyr arbenigol, gofal cymdeithasol, yn ogystal â theulu a ffrindiau. Yn anffodus, fel y nodwyd eisoes, mae 75% o glefydau anghyffredin yn effeithio ar blant, a bydd 30% o'r plant hynny'n marw cyn cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed. Felly, mae'n bwysig iawn codi ymwybyddiaeth o glefydau anghyffredin megis syndrom neffrotig, y soniodd Sandy Mewies amdano.

I am proud of our joint record with the UK on treating and caring for people who have rare diseases. We have dedicated teams of clinicians and healthcare staff who provide care for complex conditions equal to the best available anywhere in the world. We also have strong patient organisations, which articulate the needs and priorities of people who have rare diseases, along with the specific difficulties that many of these patients face. However, more needs to be done. Recognising this, as Rebecca stated, the four UK administrations are working together to develop a joint plan for rare diseases. A formal consultation process has recently been undertaken on a draft plan, and my officials are working with colleagues in the other UK health departments to consider consultation responses to produce a final UK plan for publication.

Rwyf yn falch o'n hanes ar y cyd â'r DU o drin pobl sydd â chlefydau anghyffredin a gofalu amdanynt. Mae gennym dimau ymroddedig o glinigwyr a staff gofal iechyd sy'n darparu gofal ar gyfer anhwylderau cymhleth, sy'n ofal cystal â'r gofal gorau yn y byd. Mae gennym hefyd fudiadau cryf ar gyfer cleifion, sy'n mynegi anghenion a blaenoriaethau pobl â chlefydau anghyffredin, ynghyd â'r anawsterau penodol y mae llawer o'r cleifion hynny'n eu hwynebu. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy. Gan gydnabod hynny, fel y nododd Rebecca, mae pedair gweinyddiaeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun ar y cyd ar gyfer clefydau anghyffredin. Mae proses ymgynghori ffurfiol wedi ei chynnal yn ddiweddar ynghylch cynllun drafft, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn adrannau iechyd eraill y DU i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn llunio a chyhoeddi cynllun terfynol ar gyfer y DU.

While I cannot pre-empt the conclusions of this process, I would draw your attention to the key issues covered in the consultation document: recognising the importance of supporting swift diagnosis and early intervention; establishing centres of expertise and networks; promoting further research; and empowering those affected by rare conditions. Diagnosis of a rare disease can be difficult and delays may occur, so there is a need to improve the speed of diagnosis, which, coupled with better co-ordinated care, can improve the quality of care provided, as well as patient outcomes.

Er na allaf achub y blaen ar gasgliadau'r broses honno, hoffwn dynnu eich sylw at y materion allweddol a drafodwyd yn y ddogfen ymgynghori, sef cydnabod pwysigrwydd hybu diagnosis cyflym ac ymyrraeth gynnar; sefydlu canolfannau a rhwydweithiau arbenigedd; hyrwyddo ymchwil pellach; a grymuso'r sawl y mae anhwylderau anghyffredin yn effeithio arnynt. Gall fod yn anodd diagnosio clefyd anghyffredin a gall oedi ddigwydd, felly mae angen gwella cyflymder diagnosis, sydd, o'i gyfuno â gofal a gydgysylltir yn well, yn gallu gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn ogystal â chanlyniadau i gleifion.

We know that training in the NHS is among the best in the world, but we must not be

Gwyddom fod hyfforddiant yn y GIG gyda'r gorau yn y byd, ond rhaid inni beidio â bod

complacent. Wales and the UK as a whole need to ensure, through undergraduate and postgraduate training and continuing professional development that all doctors are alerted to consider the possibility of a rare disease when they see patients.

yn hunanfodlon. Mae angen i Gymru a'r DU gyfan sicrhau, drwy hyfforddiant i israddedigion ac ôl-raddedigion a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, bod pob meddyg yn effro i'r angen i ystyried y posibilrwydd o glefyd anghyffredin pan fyddant yn gweld cleifion.

Screening, too, has a role to play and helps to avoid delay in diagnosis. While we must ensure that any screening programmes do more good than harm, and I take advice on this from the UK National Screening Committee, Wales already offers screening programmes for several diseases including cystic fibrosis.

Mae gan sgrinio rôl i'w chwarae hefyd, ac mae'n helpu i osgoi oedi o ran diagnosis. Er bod yn rhaid inni sicrhau bod unrhyw raglenni sgrinio'n gwneud mwy o dda nag o ddrwg, a chaf gyngor ynghylch hynny gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, mae Cymru eisoes yn cynnig rhaglenni sgrinio ar gyfer nifer o glefydau, gan gynnwys ffibrosis systig.

The consultation document states that the management of rare diseases requires a particular concentration of health service expertise. It suggests that services may be provided best through specialist centres, with specific agreed criteria to shape services, ensuring co-ordinated care, an adequate caseload to maintain expertise, that services are not dependent on a single clinician, that arrangements are in place for transition from children's to adult services, that there is engagement with people who have a rare disease, and that there is continuing support for research.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi bod y gwaith o reoli clefydau anghyffredin yn gofyn am rywfaint o ganoli arbenigedd gwasanaeth iechyd. Mae'n awgrymu mai'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau, efallai, yw drwy ganolfannau arbenigol, gyda meini prawf penodol y cytunwyd arnynt ar gyfer llunio gwasanaethau, gan sicrhau gofal cydgysylltiedig, sicrhau llwyth achosion digonol i gynnal arbenigedd, sicrhau nad yw gwasanaethau'n dibynnu ar un clinigwr, sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, sicrhau bod ymgysylltu'n digwydd â phobl sydd â chlefyd anghyffredin, a sicrhau cefnogaeth barhaus i waith ymchwil.

In addition, networks are cited as a crucial component of any system of care for rare diseases, in two different ways. First, networks of expert centres sharing best practice, and secondly hospitals referring patients to a specialised centre as part of a local network of clinical services. We await the final plan and its recommendations, but we will need to consider how such networks might best work in Wales.

Yn ogystal, nodir bod rhwydweithiau yn elfen hollbwysig o unrhyw system o ofal ar gyfer clefydau anghyffredin, mewn dwy ffordd wahanol. Yn gyntaf, wrth i rwydweithiau canolfannau arbenigol rannu arfer gorau, ac yn ail, wrth i ysbytai gyfeirio cleifion at ganolfan arbenigol fel rhan o rwydwaith lleol o wasanaethau clinigol. Rydym yn aros am y cynllun terfynol a'i argymhellion, ond bydd angen inni ystyried sut y gallai rhwydweithiau o'r fath weithio orau yng Nghymru.

In the early diagnosis and treatment of rare diseases, research plays an important role. Many rare diseases are of genetic origin, and it is vital that we embrace the advances in genetics and genomic medicine and ensure that the NHS is ready to take advantage of these developments. The UK is at the cutting

Mae ymchwil yn chwarae rôl bwysig o ran diagnosio clefydau anghyffredin yn gynnar a'u trin. Mae gan lawer o glefydau anghyffredin darddiad genetig, ac mae'n hanfodol ein bod yn croesawu'r datblygiadau mewn geneteg a meddygaeth ym maes genomeg a'n bod yn sicrhau bod y GIG yn

edge of international research in rare diseases. This includes research on the basic processes that cause rare diseases, the development of more effective diagnosis and treatment and research on patient experience. This is an area in which Wales can be proud of its contribution. Expert clinical teams offer advice and treatment but, very often, the real experts on living with rare diseases are those people suffering from the disease and their families. The expertise of those who have rare conditions needs to be used, not only in day-to-day care but in the planning and organisation of services.

barod i fanteisio ar y datblygiadau hynny. Mae'r DU ar flaen y gad o safbwynt ymchwil rhyngwladol i glefydau anghyffredin. Mae hynny'n cynnwys ymchwil i'r prosesau sylfaenol sy'n achosi clefydau anghyffredin, datblygu diagnosis a thriniaeth fwy effeithiol, ac ymchwil i brofiad cleifion. Mae hwn yn faes lle y gall Cymru fod yn falch o'i chyfraniad. Mae timau clinigol arbenigol yn cynnig cyngor a thriniaeth, ond yn aml iawn, yr arbenigwyr go iawn ar fyw gyda chlefydau anghyffredin yw'r bobl hynny sy'n dioddef o'r clefyd, a'u teuluoedd. Mae angen defnyddio arbenigedd y sawl sydd ag anhwylderau anghyffredin, nid yn unig o ran gofal o ddydd i ddydd ond o ran cynllunio a threfnu gwasanaethau.

Information is the key to patient empowerment. Newly diagnosed patients and their families require information in a variety of formats and languages while coming to terms with the, very often, difficult news of their recent diagnosis. Personalised care plans are an important element of the care of any patients who have a long-term condition. They empower patients and their carers and ensure a coherent approach from all those involved in the provision of care. The Welsh Government is already committed to ensuring that all patients diagnosed with long-term conditions have individual care plans in place to meet their treatment and care needs as well as the psychological and information requirements.

Gwybodaeth yw'r allwedd i rymuso cleifion. Mae ar gleifion sydd newydd gael diagnosis, a'u teuluoedd, angen gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd wrth iddynt geisio dygymod â'r newyddion, anodd yn aml iawn, am eu diagnosis diweddar. Mae cynlluniau gofal personol yn elfen bwysig o ofal unrhyw gleifion sydd ag anhwylder hirdymor. Maent yn grymuso cleifion a'u gofalwyr ac yn sicrhau dull gweithredu cydlynol gan bawb sy'n ymwneud â darparu gofal. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i sicrhau bod gan unrhyw gleifion sydd wedi cael diagnosis o anhwylder hirdymor gynlluniau gofal unigol i ddiwallu eu hanghenion o ran triniaeth a gofal yn ogystal â'u hanghenion seicolegol a'u hanghenion o ran gwybodaeth.

The diagnosis and treatment of rare diseases can be complex, but I am committed to improving these services for people in Wales. The Welsh Government has been called upon to make several commitments today, and I confirm that I will need to consider the plan carefully, once published, and discuss with all parties concerned how we will implement it. I will then update Member in due course. Members raised some very important points in this debate today, and I will consider those alongside the final plan.

Gall diagnosio a thrin clefydau anghyffredin fod yn gymhleth, ond rwyf wedi ymrwymo i wella'r gwasanaethau hyn i bobl yng Nghymru. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru wneud nifer o ymrwymiadau heddiw, ac rwyf yn cadarnhau y bydd angen imi ystyried y cynllun yn ofalus, unwaith y bydd wedi ei gyhoeddi, a thrafod â phawb dan sylw sut y byddwn yn ei weithredu. Byddaf wedyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod maes o law. Cododd yr Aelodau rai pwyntiau pwysig iawn yn y ddadl hon heddiw, a byddaf yn eu hystyried ochr yn ochr â'r cynllun terfynol.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.37 p.m.*
*The meeting ended at 6.37 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

This page is intentionally left blank